Canllawiau Amddiffyn Plant

Cymru Gyfan

2008

All Wales

Child Protection Procedures

www.awcpp.org.uk

Cynhyrchwyd ar ran Byrddau Lleol Diogelu Plant Cymru Gyfan

Produced on behalf of All Local Safeguarding Children Boards in Wales

Rhagair

Pleser yw ysgrifennu rhagair i'r ddogfen hon, sef ail rifyn Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Mae'n parhau'n destun balchder fod gennym y fath gasgliad unigol o ganllawiau ar gyfer Cymru gyfan. Mae rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig yn edrych tuag at yr esiampl yr ydyn ni wedi'i gosod.

Fel un sy'n gyfrifol am ddiogelu a hybu hawliau a lles plant, rwy'n gweld y canllawiau yma fel rhan hanfodol o'r hyn sydd angen ei wneud. Mae hanes trist methiannau'r drefn amddiffyn plant yn llawn enghreifftiau o wahanol asiantaethau'n gweithredu gwahanol ganllawiau gyda gwahanol drothwyon wrth ymyrryd. Ni ddylai hynny ddigwydd bellach yng Nghymru.

Mae'r canllawiau'n cael eu cyflwyno mewn gwlad lle mae llawer wedi'i gyflawni ar gyfer plant mewn meysydd eraill. Mae Cynulliad Cymru wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn sylfaen i'w holl waith. Mae rhwydweithiau'n raddol cael eu sefydlu ar gyfer annog plant i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau; yn ei dro, mae hyn yn hybu trefn lle'r ydyn yn gweithio ar y cyd â phobl ifanc.

Deallwn erbyn hyn mai gweithgarwch i'w wneud gyda phlant yw diogelu, nid rhywbeth i'w wneud iddyn nhw.

Wrth gwrs, ddylen ni ddim teimlo'n rhy fodlon; mae llawer o waith i'w wneud o hyd. Ond, rhaid i ni gydnabod llwyddiant yn ein gwaith ac rwy'n falch iawn o gael fy nghysylltu â'r canllawiau yma a fydd yn parhau i fod o gymorth wrth amddiffyn ein plant a phobl ifanc.

Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru

(Ysgrifennodd Peter Clarke y rhagair hwn ar gyfer y canllawiau cyn ei farwolaeth ym mis Ionawr 2007. Mae'r rhagair wedi'i gadw er cof am ddyn a weithiodd hyd ei eithaf dros blant Cymru.)

CYNNWYS

- **Rhagair 2**
- **Rhestr termau 15**
- **Rhestr o'r Blychau 22**
- **RHAGARWEINIAD 24**
- **Pwrpas y Canllawiau 24**

I bwy mae'r canllawiau? 25

Sut i ddefnyddio'r canllawiau 25

Y canllawiau yn eu cyd-destun 26

- **RHAN 1 ..... 29**
- **1. Y Prif Egwyddorion 29**
- **1.1 Diffiniadau o gam-drin ac esgeuluso plant 29**

1.1.1 Cam-drin corfforol 29

1.1.2 Cam-drin emosiynol 29

1.1.3 Cam-drin rhywiol 30

1.1.4 Esgeulustod 30

1.1.5 Adnabod niwed arwyddocaol neu sylweddol 30

1.2 Yr egwyddorion sy'n sylfaen i waith diogelu a hybu lles plant 31

1.2.1 Dylai gwaith gyda phlant a theuluoedd fod: 31

1.2.2 Rhannu gwybodaeth gyda theuluoedd 33

1.2.3 Cynnig cefnogaeth a chyngor i deuluoedd 33

1.2.4 Amrywiaeth 34

1.3 Gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd 34

1.3.1 Byrddau Lleol Diogelu Plant 34

1.3.2 Cyfrifoldeb ar y Cyd 34

1.4 Rhannu gwybodaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol 35

- **RHAN 2 ..... 37**
- **2. Cyfrifoldebau Pawb 37**

2.1 Cyfrifoldebau pawb sy'n pryderu am les plentyn 37

2.1.1 Beth ddylai pawb ei wneud 37

2.1.2 Adnabod a gweithredu ar bryderon neu amheuaeth o gam-drin .. 39

2.2 Adnabod ac Atgyfeirio 41

2.2.1 Mynd ati i atgyfeirio 41

2.3 Cadw cofnodion 43

2.4 Rôl y gwahanol asiantaethau 44

2.4.1 Goruchwylio 44

- **RHAN 3 ..... 46**
- **3. Y Broses Amddiffyn Plant 46**

3.1 Crynodeb 46

3.2 Pan ddaw'r atgyfeiriad i law 47

3.2.1 Beth i'w wneud 47

3.2.2 Atgyfeiriadau tu allan i oriau arferol swyddfa 49

3.2.3 Hysbysu'r sawl sy'n atgyfeirio 50

3.2.4 Materion sy'n croesi ffiniau 50

3.2.5 Siart llif 1: Atgyfeirio 52

3.3 Yr Asesiad Cychwynnol 53

3.3.1 Pwrpas a chwmpas yr asesiad cychwynnol 53

3.3.2 Cydsyniad rhieni 53

3.3.3 Gofyn i asiantaethau eraill am wybodaeth 54

3.3.4 Cwblhau'r asesiad cychwynnol 54

3.3.5 Cwblhau'r asesiad cychwynnol a'r canlyniadau posib 58

3.3.6 Siart llif 2: gweithredu yn dilyn asesiad cychwynnol 59

3.4 Y Drafodaeth Strategaeth 60

3.4.1 Cwmpas a phwrpas y drafodaeth strategaeth 60

3.4.2 Canlyniadau posib y drafodaeth strategaeth 61

3.4.3 Adrodd yn ôl i'r atgyfeiriwr 61

3.5 Y Cyfarfod Strategaeth 62

3.5.1 Cwmpas a phwrpas y cyfarfod strategaeth 62

3.5.1.1 Materion sy'n croesi ffiniau a'r cyfarfod strategaeth 63

3.5.2 Cynllunio'r cyfarfod strategaeth 63

3.5.3 Y materion i'w trafod yn y cyfarfod strategaeth 64

3.6 Amddiffyn Plentyn ar Unwaith 66

3.6.1 Pan mae angen amddiffyn ar unwaith 66

3.6.2 Y gwahanol opsiynau wrth fynd ati i amddiffyn plentyn ar unwaith 68

3.6.3 Siart llif 3: Gweithredu ar frys wrth ddiogelu plant 69

3.6.4 Siart llif 4: Gweithredu ar ôl y drafodaeth / y cyfarfod strategaeth 70

3.7 Amddiffyn Plant: Ymholiadau dan adran 47 a'r Asesiad Craidd 71

3.7.1 Cwmpas a phwrpas ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47 ... 71

3.8 Gweithio gyda'r plentyn a'r teulu yn ystod yr ymholiadau 72

3.8.1 Symud y rhwystrau rhag cymryd rhan 72

3.8.2 Esbonio pwrpas yr ymholiadau amddiffyn plant adran 47 72

3.8.3 Ystyried y plentyn 73

3.8.4 Ystyried plant eraill 74

3.8.5 Ystyried y rhieni neu'r rhai sy'n rhoi gofal 74

3.8.6 Pan mae rhieni neu'r rhai sy'n rhoi gofal yn gwrthod cydweithredu 75

3.8.7 Plant sy'n symud yn ystod ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47 76

3.9 Cynllunio a rhoi ar waith yr ymholiadau dan adran 47 a'r asesiad craidd 77

3.9.1 Casglu gwybodaeth gan asiantaethau eraill 77

3.9.2 Y cyfweliad ymchwilio gyda'r plentyn 77

3.10 Yr archwiliad meddygol 78

3.10.1 Pryd ddylai'r archwiliad meddygol gael ei gynnal?..... 79

3.10.2 Y safonau ar gyfer archwiliadau meddygol 80

3.10.3 Cydsynio â'r archwiliad meddygol..... 80

3.10.3.1 80

3.10.3.3 81

3.10.3.4 81

3.10.3.5 81

3.10.4 Cydsynio: materion eraill..... 81

3.11 Cofnodi 82

3.12 Casgliad a chanlyniad yr ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47 83

3.12.1 Dod i benderfyniad..... 83

3.12.2 Pryderon sydd heb eu cadarnhau 84

3.12.3 Pryderon wedi'u cadarnhau ond y farn yw nad yw'r plentyn yn parhau mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol 85

3.12.4 Pryderon wedi'u cadarnhau a'r farn yw bod y plentyn yn parhau mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol 86

3.13 Yr asesiad craidd..... 87

3.14 Y gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol..... 89

3.14.1 Cwmpas a phwrpas 89

3.14.2 Cynllunio'r gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol..... 90

3.14.3 Cworwm ar gyfer y gynhadledd amddiffyn gychwynnol 91

3.14.4 Cynnwys y plentyn yn y gynhadledd amddiffyn plant..... 92

3.14.4.1 Cau allan plant o gynhadledd amddiffyn plant 92

3.14.5 Cynnwys yn y gynhadledd amddiffyn yr oedolion sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu'r rhai sy'n rhoi gofal iddo 93

3.14.5.1 Cynorthwyo rhieni neu rai sy'n rhoi gofal i ddod i'r gynhadledd amddiffyn plant 94

3.14.5.2 Cau allan rhiant neu'r sawl sy'n rhoi gofal o gynhadledd amddiffyn plant 95

3.14.6 Adroddiadau ar gyfer cynhadledd amddiffyn plant 97

3.14.8 Adroddiad y gweithiwr cymdeithasol 97

3.14.9 Adroddiadau gweithwyr proffesiynol eraill 98

3.14.10 Adroddiadau meddygol 99

3.14.11 Cadeirio'r gynhadledd amddiffyn plant 100

3.14.12 Rôl cadeirydd y gynhadledd 100

3.14.13 Trefn y gynhadledd 101

3.14.14 Cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth mewn cynadleddau amddiffyn plant 102

3.14.15 Y broses o ddod i benderfyniad mewn cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol 104

3.14.16 Dod i benderfyniad mewn cynadleddau amddiffyn plant lle nad yw pawb yn cytuno 105

3.14.17 Gohirio penderfyniad mewn cynhadledd amddiffyn plant 107

3.15 Rhoi enw plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant 108

3.15.1 Pwrpas rhoi enw plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant 108

3.15.2 Plant sy'n derbyn gofal, a chofrestru 108

3.16 Y cynllun amddiffyn plant amlinellol 109

3.17 Tasgau eraill y gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol 110

3.18 Cofnodion y gynhadledd amddiffyn plant 111

3.19 Cwynion gan rieni, rhai sy'n rhoi gofal a phlant am benderfyniadau a gweithrediad cynhadledd amddiffyn plant 112

3.19.1 Rhoi gwybod i deuluoedd am y drefn gwyno 113

3.20 Y gweithiwr allweddol 113

3.21 Y grŵp craidd 115

3.22 Y cynllun amddiffyn plant manwl 117

3.22.1 Defnyddio cytundebau ysgrifenedig 118

3.23 Sut i weithredu pan mae gweithiwr proffesiynol yn credu nad yw plentyn ar y gofrestr yn cael ei amddiffyn yn ddigonol 119

3.24 Y gynhadledd adolygu amddiffyn plant 120

3.24.1 Pwrpas y gynhadledd adolygu amddiffyn plant 120

3.24.2 Cynllunio'r gynhadledd adolygu a'i rhoi ar waith 120

3.24.3 Gwneud penderfyniadau mewn cynadleddau adolygu amddiffyn plant 121

3.24.4 Siart llif 5: Gweithredu ar ôl y gynhadledd amddiffyn plant, yn cynnwys y broses adolygu 123

3.25 Y gofrestr amddiffyn plant 124

3.25.1 Rheoli'r gofrestr amddiffyn plant 124

3.25.2 Rhoi enw plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant 124

3.25.3 Tynnu enw plentyn oddi ar y gofrestr amddiffyn plant 125

3.26 Mynediad at y gofrestr amddiffyn plant, ac ymholiadau iddi 126

3.26.1 Ymholiadau i'r gofrestr amddiffyn plant 126

3.26.1.1 Y broses 126

3.26.1.2 Ail ymholiadau 127

3.26.2 Ceisiadau eraill am wybodaeth am blant sydd ar y gofrestr 128

3.27 Symudiadau plant ar y gofrestr amddiffyn plant 128

3.27.1 Pan mae teulu'n symud allan o'r ardal 128

3.27.1.1 Rhoi gwybod i'r awdurdod sy'n derbyn yr achos 128

3.27.2 Pan mae teulu'n symud i gyfeiriad anhysbys 129

3.27.3 Pan mae plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant yn symud dros dro allan o'r ardal 130

3.27.4 Pan mae teulu'n symud i mewn i'r ardal 130

3.27.4.1 Derbyn yr atgyfeiriad 130

3.27.4.2 Y gynhadledd 'trosglwyddo i mewn' amddiffyn plant 131

3.27.5 Pan mae plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant yn symud dros dro i mewn i'r ardal 131

3.27.6 Plant 'coll' ar y gofrestr amddiffyn plant 132

3.28 Symudiadau teuluoedd â phlant mewn angen..... 133

3.28.1 Pan mae plant mewn angen yn symud allan o'r awdurdod..... 133

3.28.1.1 Dod i benderfyniad..... 134

3.28.1.2 Atgyfeirio..... 135

3.28.1.3 Ar ôl penderfynu peidio ag atgyfeirio 135

3.28.1.4 Pan mae teulu'n symud i gyfeiriad anhysbys..... 135

3.28.2 Pan mae plant mewn angen yn symud i mewn i'r awdurdod ... 136

3.28.3 Symudiadau plant mewn angen ac ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47..... 136

3.29 Y broses amddiffyn plant a chrynodeb o'r amserlen..... 137

- **RHAN 4 ..... 139**

- **4. Amddiffyn Plant mewn Amgylchiadau Penodol 139**

4.1 Rhagarweiniad 139

4.2 Plant sy'n byw oddi cartref..... 139

4.2.1 Amgylchiadau lle mae plant yn byw oddi cartref..... 139

4.2.2 Mesurau diogelu hanfodol..... 140

Blwch 18: Dyletswydd i roi gwybod i'r gwasanaethau cymdeithasol am blant mewn ysbyty neu ysgol breswyl..... 141

4.3 Honiadau o gam-drin plant yn erbyn gweithwyr proffesiynol / staff... 141

4.3.1 Honiadau o gam-drin yn erbyn staff cartrefi preswyl..... 143

4.3.2 Honiadau o gam-drin yn erbyn gofalwr maeth 145

4.3.2.1 Adnabod y perygl o ddioddef niwed..... 145

4.3.2.2 Y cyfarfod strategaeth..... 146

4.3.2.3 Y gofalwyr maeth..... 147

4.3.2.4 Ar ôl i'r ymholiadau amddiffyn plant adran 47 gael eu cwblhau 148

4.3.3 Honiadau o gam-drin yn erbyn gofalwyr maeth preifat 149

4.3.4 Canllawiau ychwanegol mewn perthynas â gwarchodwyr plant 150

4.3.5 Honiadau bod plant yn y ddalfa'n cael eu cam-drin 151

4.3.5.1 Ymateb i honiadau bod plant mewn carchar yn cael eu cam-drin . 151

4.3.5.2 Y camau gweithredu sy'n ofynnol 151

4.3.6 Honiadau o gam-drin ynglŷn â neu yn erbyn gweithiwr proffesiynol, aelod o staff neu wirfoddolwr sydd â chyswllt â phlant ac oedolion agored i niwed (neu rai sy'n rheoli neu'n goruchwylio gwasanaethau neu'n dylanwadu arnyn nhw) 153

4.3.6.1 Ymateb i atgyfeiriadau ynglŷn â gweithwyr proffesiynol sy'n cam-drin plentyn yn eu gwaith neu yn eu bywyd preifat 153

4.3.6.2 Y cyfarfod strategaeth..... 155

4.3.6.3 Canlyniad y cyfarfod strategaeth 156

4.3.6.4 Rhoi gwybodaeth i'r aelod staff..... 157

4.3.6.5 Cyfarfod canlyniad yr ymchwiliad..... 157

4.3.6.6 Ystyriaethau ychwanegol o ran addysg 158

4.3.6.7 Gweithredu ar ôl y gwrandawiad llys 159

4.4 Honiadau o gam-drin yn achos plant sy'n derbyn gofal ac sy'n byw y tu allan i ardal eu hawdurdod lleol 159

4.4.1 Cyfrifoldeb dros y cyfarfod strategaeth a'r ymchwiliad 160

4.4.2 Y cyfarfod strategaeth..... 160

4.5 Ymchwilio i gam-drin wedi ei drefnu neu gam-drin lluosog..... 161

4.5.1 Diffiniad o gam-drin wedi ei drefnu neu gam-drin lluosog 161

4.5.2 Y camau gweithredu gofynnol..... 162

4.5.3 Y cyfarfod strategaeth..... 163

4.5.4 Cynllunio'r ymchwiliad a'i roi ar waith 164

4.6 Perygl o niwed yn y dyfodol i blentyn sydd heb ei eni 166

4.6.1 Adnabod y perygl o ddioddef niwed..... 166

4.6.2 Y camau gweithredu gofynnol..... 167

4.7 Pan mae plant anabl yn cael eu cam-drin 169

4.8 Camfanteisio'n rhywiol ar blant 170

4.8.1 Diffiniad 170

4.8.2 Ei adnabod 170

4.8.3 Atgyfeirio 172

4.8.4 Y camau gweithredu gofynnol 173

4.8.5 Cyfrifoldebau'r Byrddau Lleol Diogelu Plant 174

4.9 Plant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol 174

4.9.1 Ymateb i gamdriniaeth rywiol gan blant a phobl ifanc 174

4.9.2 Y camau gweithredu gofynnol 175

4.9.3 Cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol os mai plentyn/person ifanc yw'r sawl yr honnir iddo gyflawni'r weithred 176

4.9.4 Plentyn sydd wedi cam-drin 176

4.9.5 Plentyn sy'n destun amheuaeth 178

4.10 Plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches 178

4.10.1 Rhagarweiniad 178

4.10.2 Penderfynu pwy sy'n gyfrifol am blant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches 179

4.10.3 Asesu anghenion plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches. 179

4.10.4 Rhannu gwybodaeth am symudiadau plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches 180

4.11 Trefniadau amlasiantaethol ar gyfer diogelu'r cyhoedd (MAPPA) . 181

4.11.1 Y camau gweithredu gofynnol pan mae MAPPA yn adnabod perygl i blentyn/blant 183

4.11.2 Y gynhadledd amlasiantaethol asesu'r perygl o drais yn y cartref (MARAC) 184

4.12 Diogelu plant sy'n ymweld â charcharorion sy'n oedolion 185

4.12.1 Adnabod carcharorion a allai niweidio plant 186

4.12.2 Y drefn asesu 187

4.12.3 Diogelu buddiannau plant 188

- **RHAN 5 ..... 189**

- **5. Protocolau Cymru Gyfan ar gyfer diogelu plant mewn amgylchiadau penodol 189**

5.1 Rhagarweiniad 189

5.2 Delio â chwynion gan blant, rhieni a'r rhai sy'n roi gofal am weithrediad cynhadledd amddiffyn plant..... 196

5.2.1 Panel y Bwrdd Lleol Diogelu Plant..... 196

5.2.2 Os yw'r gwyn yn cael ei chadarnhau: 197

5.2.3. Cwynion sydd heb eu datrys..... 197

5.2.4. Adroddiadau 197

5.2.5 Siart Llif 6: Delio â chwynion am Gynadleddau Amddiffyn Plant 198

5.3 Protocol Salwch Ffug..... 200

5.3.1.1 200

5.3.1.2 Gallai'r rhain fod yn amlwg: 201

5.3.2 Er bod salwch ffug..... 201

5.3.2.1 Os yw rhywun yn amau salwch ffug, mae angen atgyferio'r achos at y gwasanaethau cymdeithasol..... 201

5.3.3 Gweithredu pwrpasol gan Fyrddau Lleol Diogelu Plant:..... 203

5.3.4.1 Gweithredu ar gyfer gweithwyr proffesiynol y sector iechyd (os mai gweithwyr iechyd sy'n codi pryderon yn y lle cyntaf)..... 204

5.3.4.2 Ystyriaethau ychwanegol o ran iechyd: 205

5.3.5 YSTYRIAETHAU AR GYFER Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 206

5.3.5.1 Ystyriaethau Allweddol 206

5.3.5.1.1 Gweithredu ar unwaith..... 206

5.3.5.1.2 Rhoi gwybodaeth i rieni 206

5.3.5.1.3 Yr asesiad cychwynnol 207

5.3.5.1.4 Y cyfarfod strategaeth (cyfeiriwch at 5.3.2.3 hefyd)..... 207

5.3.5.1.5 Y gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol..... 207

5.3.6 YSTYRIAETHAU AR GYFER YR HEDDLU 208

5.3.6.1 208

5.3.7 YSTYRIAETHAU AR GYFER GWASANAETH ERLYN Y GORON 209

5.3.8 YSTYRIAETHAU AR GYFER Y GWASANAETHAU ADDYSG . 209

RÔL ADDYSG 209

5.3.8.1 Adnabod salwch ffug neu salwch gwneud 210

5.3.8.2 Y camau gweithredu sy'n ofynnol gan staff ysgolion 210

5.3.8.3 Y camau gweithredu sy'n ofynnol gan staff gwasanaethau cymorth ysgolion yr awdurdodau addysg lleol 210

5.3.8.4 Rhagor o gyngor 211

5.4 Diogelu a Hybu Lles Pobl Ifanc sy'n Weithredol yn Rhywiol 213

5.4.1 Rhagarweiniad 213

5.4.2 Rhannu gwybodaeth 214

5.4.2.1 Cyfrinachedd a chydsynio 214

5.4.3 Asesu 215

5.4.3.1 Asesu anghenion pobl ifanc: 216

5.4.3.2 Dangosyddion y perygl o ddioddef niwed 216

5.4.3.3 Anghydbwysedd grym 217

5.4.4 Plant a phobl ifanc anabl a/neu sy'n dioddef anhwylder iechyd meddwl 218

5.4.5 Cam-drin trwy gamfanteisio'n rhywiol er elw ar blant neu fasnachu mewn plant 219

5.4.5.1 Ymyrraeth 219

5.4.6 Y trothwyon ar gyfer atgyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol a/neu'r heddlu, ac oedran y plentyn 219

5.4.6.1 Plant dan 13 oed 219

5.4.6.2 Pobl ifanc 13-16 oed 220

5.4.6.3 Pobl ifanc 17-18 oed 220

5.4.6.4 Defnyddio Deddf Cipio 221

5.4.7 Canllawiau Fraser 221

5.4.8 Deddfwriaeth a chanllawiau 221

5.4.10 Asesu'r peryglon 222

5.5 Delweddau Anweddus o Blant, a'r Rhyngrwyd 224

5.5.1 Rhagarweiniad 224

5.5.2 Diffiniad o ddelweddau anweddus o blant 224

5.5.3 Y Rhyngrwyd a ffonau symudol 224

5.5.4 Y prif droseddau 225

5.5.5 Amddiffyn plant a rheoli achosion 225

5.5.6 Cadw'r dystiolaeth 225

5.5.7 Canolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein (*The Child Exploitation and Online Protection* – CEOP) 226

Rhestr termau

Aelodau Staff	Term sy'n cynnwys gwirfoddolwyr, gweithwyr proffesiynol, contractwyr annibynnol a gofalwyr.
AGGCC	Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (*Care and Social Services Inspectorate Wales - CSSIW*)
Amddiffyn Plant	Rhan o'r gwaith o ddiogelu a hybu lles plant yw amddiffyn plant. Mae'n cyfeirio at y gweithgarwch o amddiffyn plant penodol sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod.
Asiantaethau Statudol	Er enghraifft: Awdurdodau Lleol (pob adran), Iechyd, yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf, CAFCASS CYMRU (y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd).
Awdurdod Lleol	Cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol.
Cam-drin: emosiynol	Trin plentyn yn wael yn emosiynol yn barhaus fel bod hyn yn achosi effeithiau niweidiol difrifol a pharhaus ar ddatblygiad emosiynol ac ymddygiadol plentyn.
Cam-drin: esgeuluso	Esgeuluso plentyn yn barhaus neu'n ddifrifol, neu fethu ag amddiffyn plentyn rhag bod yn agored i unrhyw fath o berygl, yn cynnwys oerfel, newyn neu fethiant eithafol i gyflawni agweddau pwysig ar ofal, gan arwain at nam arwyddocaol i iechyd neu ddatblygiad y plentyn, yn cynnwys methiant anorganig i ffynnu.
Cam-drin: corfforol	Taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, tagu, neu achosi niwed corfforol fel arall i blentyn. Gall niwed corfforol gael ei achosi hefyd pan fo rhiant neu ofalwr yn ffugio neu'n achosi salwch mewn plentyn o dan eu gofal.

Cam-drin: rhywiol	Gorfodi neu hudo plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, waeth a yw'r plentyn yn ymwybodol o beth sy'n digwydd ai peidio, yn cynnwys:- • cyswllt corfforol, yn cynnwys gweithredoedd treiddiol neu anhreiddiol. • gweithgareddau heb gyswllt corfforol fel cael plant i wylio deunydd pornograffig neu i fod yn rhan o ddeunydd pornograffig neu i wylio gweithgareddau rhywiol; neu • annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol amhriodol.
Cam-drin yn y cartref / Cam-drin domestig	Term sy'n cael ei ddefnyddio yn y maes i gynnwys pob math o gam-drin.
CPS	(*Crown Prosecution Service*) Gwasanaeth Erlyn y Goron.
CSP	(*Community Safety Partnership*) Partneriaeth Diogelwch Cymunedol.
Chwythu'r chwiban	Polisïau a gweithdrefnau sy'n rhoi cyfle i staff fynegi eu pryderon.
Datblygiad	Corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol.
Dioddefwr	Term sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio plentyn neu oedolyn sydd wedi cael ei gam-drin neu ei niweidio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, neu sydd wedi bod yn dyst i'r fath gam-drin neu niwed.
Diogelu a hybu lles plant	• Amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso; • Atal niwed neu nam i'w hiechyd neu eu datblygiad; a • Sicrhau eu bod yn derbyn gofal diogel ac

	effeithiol; …. er mwyn eu galluogi i gael y cyfleoedd bywyd gorau posib.
DTC	(*Detention Training Centre*) Canolfannau cadw lle y gall pobl ifanc dan 18 oed gael eu hyfforddi.
EDT	(*Emergency Duty Team*) Tîm Dyletswydd Argyfwng.
FPO	(*Family Protection Officer*) Swyddog Amddiffyn y Teulu (yr heddlu).
Goroeswr	Term sy'n cael ei ddefnyddio'n aml yn lle 'dioddefwr' er mwyn helpu pobl i feddwl yn gadarnhaol.
'Gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer plant' neu 'gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol ar gyfer plant'	Gwaith awdurdodau lleol wrth gyflawni eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â phlant. Nid bwriad y term yw awgrymu bod adran ar wahân sy'n gyfrifol am wasanaethau cymdeithasol ar gyfer plant. Mae'r term generig 'gwasanaethau cymdeithasol' yn cael ei ddefnyddio ym mhob rhan o'r canllawiau.
ICS	(*Integrated Children's System*) System Integredig ar gyfer Plant neu System Blant Integredig.
IDVA	(*Independent Domestic Violence Advocate*) Cynghorwyr Annibynnol ar Drais yn y Cartref.
ISVA	(*Independent Sexual Violence Advocate*) Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol.
Iechyd	Iechyd corfforol neu iechyd meddwl.
LSCB	(*Local Safeguarding Children Board*) Bwrdd

	Lleol Diogelu Plant.
Lles	Nid oes diffiniad statudol. Cyflwynodd Deddf Plant 1989 y rhestr wirio y mae'n rhaid i Lys ei hystyried dan rai amgylchiadau. Mae Deddf 1989 yn dweud "a Court shall have regard in particular to:- • The ascertainable wishes and feelings of the child concerned (considered in the light of his age and understanding); • His physical, emotional and educational needs; • The likely effect on him of any change in his circumstances; • His age, sex, background and any characteristics of his which the court consider relevant; • Any harm which he has suffered or is at risk of suffering; • How capable each of his parents, and any other person in relation to whom the Court considers the question to be relevant, is of meeting his needs; • The range of powers available to the Court under this Act in the proceedings in question."
Maethu	Yn cynnwys lleoliadau teulu.
MAPPA	(*Multi Agency Public Protection Arrangements*) Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd.
MARAC	(*Multi Agency Risk Assessment Conference*) Cynhadledd Amlasiantaethol ar gyfer Asesu Perygl.
Mudiadau Gwirfoddol	Mudiadau fel Barnardo's, Achub y Plant, NSPCC, NCH, Tai Hafan, Cymorth i Fenywod.

Niwed / Niweidio	Cam-drin neu amharu ar iechyd neu ddatblygiad, yn cynnwys, er enghraifft, nam a ddioddefwyd ar ôl gweld neu glywed rhywun arall yn cael ei gam-drin.
Niwed arwyddocaol	Niwed arwyddocaol neu niwed sylweddol. Dywed Adran 31(10) o Ddeddf Plant 1989, “where the question of whether harm suffered by a child is significant turns on the child’s health or development, his health or development shall be compared with that which could be reasonably be expected of a similar child.”
Partneriaethau	Y term sy’n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio patrwm o weithio, er enghraifft, Partneriaethau Iechyd a Lles, Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol.
Plant	Plentyn yw unrhyw un o dan 18 oed. Mae ‘plant’ felly’n golygu ‘plant a phobl ifanc’ drwy’r ddogfen. Nid yw’r ffaith fod plentyn wedi cyrraedd 16 mlwydd oed, yn byw’n annibynnol neu mewn Addysg Bellach, wedi ymuno â’r Lluoedd Arfog, neu mewn ysbyty, carchar neu sefydliad i droseddwyr ifanc yn newid ei statws na’i hawl i gael gwasanaethau na’i hawl i gael ei amddiffyn o dan Ddeddf Plant 1989.
Plentyn mewn angen	Mae plentyn yn blentyn mewn angen os: • yw ef/hi yn annhebygol o gyflawni neu gynnal, neu gael y cyfle o gyflawni neu gynnal, safon iechyd neu ddatblygiad rhesymol heb gael gwasanaethau gan awdurdod lleol; • yw ei iechyd neu ei ddatblygiad yn debygol o gael ei niweidio, neu ei niweidio ymhellach, heb gael gwasanaethau o’r fath • yw ef/hi yn blentyn anabl.
POCA	(*Protection of Children Act 1999*) Deddf Amddiffyn Plant 1999. Rhestr o bobl sy’n

	anaddas i weithio gyda phlant mewn swyddi gofal.
Pornograffi Plant	Delweddau anweddus o blant.
POVA	(*Protection of Vulnerable Adults*) Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed.
Puteindra	Term cyfreithiol sy'n cael ei ddefnyddio wrth sôn am gamfanteisio rhywiol masnachol.
Rhestr 99 yr Adran Addysg (DfES)	Rhestr gyfrinachol o'r bobl sydd ddim i'w cyflogi mewn ysgolion neu addysg bellach.
Rhestri Gwahardd	Rhestri cynhwysfawr o bobl y bernir eu bod yn anaddas i weithio gyda phlant a/neu oedolion sy'n agored i niwed. Bydd y rhestrau ar waith ar ôl i Ddeddf Diogelu Pobl Agored i Niwed 2006 ddod i rym (yn sgil Ymchwiliad Bichard).
SARC	(*Sexual Assault Referral Centre*) Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol.
Sicrhau'r Dystiolaeth Orau (*Achieving Best Evidence*)	Canllawiau'r Swyddfa Gartref sy'n tynnu sylw at yr arferion gorau wrth weithio gyda thystion sy'n blant ac oedolion sy'n agored i niwed a rhai sydd dan ofn.
SOPO	(*Sexual Offences Prevention Order*) Gorchymyn Atal Troseddau Rhywiol.
STC	(*Secure Training Centre*) Canolfan Hyfforddi Ddiogel.
Trais domestig	Term sy'n cael ei ddefnyddio'n aml mewn deddfwriaeth a gan asiantaethau cyfiawnder troseddol.
ViSOR	(*Violent and sex offender register*) Cofrestr o droseddwyr treisiol neu droseddwyr sydd wedi

	cam-drin yn rhywiol.
WAG/ LLCC	(*Welsh Assembly Government*) Llywodraeth Cynulliad Cymru.
Ymholiad (1)	Term sy'n cael ei ddefnyddio fel rhan o'r broses amddiffyn plant dan Adran 47 Deddf Plant 1989. Enw arall arno yw ymchwiliad Adran 47.
Ymholiad (2)	Y broses o fynd ati i wirio'r wybodaeth yn y Gofrestr Amddiffyn Plant.
YOI	(*Young Offender Institution*) Sefydliad ar gyfer Troseddwyr Ifanc.

Rhestr o'r Blychau

Nid yw'r blychau hyn yn rhan o'r canllawiau ond maen nhw'n cynnig canllawiau ychwanegol

Blwch 1: Hybu partneriaethau effeithiol gyda theuluoedd.

Blwch 2: Beth i'w wneud os yw plentyn yn dweud wrthych ei fod e neu berson ifanc arall yn cael ei gam-drin.

Blwch 3: Pan rydych yn pryderu am ymddygiad unrhyw oedolyn neu gydweithiwr (yn cynnwys aelod o'r cyhoedd) tuag at blant neu bobl ifanc.

Blwch 4: Rheoli systemau dyletswyddau ac atgyfeiriadau.

Blwch 5: Cynnwys plant o'r dechrau.

Blwch 6: Cynnwys aelodau teulu.

Blwch 7: Asesiad Cychwynnol ac Ymholiadau: deg problem a sut i'w hosgoi.

Blwch 8: Lles y plentyn yw'r peth pwysicaf un.

Blwch 9: Canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer y plentyn.

Blwch 10: Cyfathrebu gyda phlant.

Blwch 11: Cofnodi ymweliadau â theuluoedd.

Blwch 12: Cyfarfodydd grwp teuluol.

Blwch 13: Arferion da wrth asesu.

Blwch 14: Sefydlu niwed arwyddocaol.

Blwch 15: Sylwi pan mae teulu'n mynd ar goll.

Blwch 16: Atgyfeiriadau penodol am blant mewn angen yn symud i ardaloedd eraill.

Blwch 17: Plant yn byw oddi cartref: mesurau diogelwch sylfaenol.

Blwch 18: Dyletswydd i roi gwybod i'r gwasanaethau cymdeithasol am blant mewn ysbyty neu ysgol breswyl.

Blwch 19: Dyletswydd i adrodd camdriniaeth gan weithiwr proffesiynol.

Blwch 20: Cydbwyso lles y plentyn â'r angen i wneud ymchwiliad troseddol.

Blwch 21: Mae bod yn 'agored i niwed' yn cynnwys:

Blwch 22: Camdriniaeth gan blant a phobl ifanc ac anabledd/anhawster dysgu.

RHAGARWEINIAD

Pwrpas y Canllawiau

'Doing the basic things well keeps children safe.'[1]

Mae Grŵp Adolygu Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan wedi adolygu'r canllawiau ar ran Byrddau Lleol Diogelu Plant Cymru. Mae Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 yn disodli'r rhai blaenorol a gyhoeddwyd yn 2002. F'eu diweddarwyd i gynnwys y newidiadau pwysig ers y cyhoeddiad cyntaf, yn arbennig argymhellion Adroddiad Ymchwiliad Victoria Climbié (*Victoria Climbié Inquiry Report*); Deddf Plant 2004 a'r canllawiau: *Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004*. Cydnabydda Grŵp Adolygu Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan y bydd angen parhau i ymateb i newidiadau, a'u bwriad yw cyhoeddi diweddariadau blynyddol.

Mae'n glir bod cyfrifoldebau helaeth iawn gan Fyrddau Lleol Diogelu Plant o ran diogelu a hybu lles plant. Ond, mae'r canllawiau'n rhoi sylw penodol i'w dyletswydd i amddiffyn plant unigol rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso.

Cyniga'r canllawiau'n safonau cyffredin ar gyfer pob Bwrdd Lleol Diogelu Plant wrth amddiffyn plant. Gweithredant fel fframwaith y gall gweithwyr ei ddefnyddio ym mhob atgyfeiriad, ac wrth gynllunio, gwneud penderfyniadau a gweithredu ym maes amddiffyn plant. Maent yn rhan annatod o'r gwaith o ddiogelu a hybu lles plant.

Yr egwyddor gadarn sy'n sylfaen i'r canllawiau yw bod cyfrifoldeb ar bob unigolyn ac asiantaeth sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd, a gydag oedolion a allai achosi niwed i blant, i amddiffyn plant rhag niwed. Ni all unrhyw asiantaeth lwyddo i amddiffyn plant yn effeithiol trwy weithio ar ei phen ei hun. Esbonia' r canllawiau'n glir sut y dylai unigolion ac asiantaethau gyfathrebu â'i gilydd a chydweithio trwy bartneriaethau effeithiol er mwyn adnabod plant sy'n agored i niwed, eu diogelu rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso, ac i wella'r canlyniadau ar eu cyfer.

Dim ond trwy ddefnyddio arfer da, ynghyd â sgil a barn proffesiynol sydd wedi eu seilio ar asesu trwyadl, a'u cefnogi gan dystiolaeth a dadansoddi beirniadol, y bydd yn bosib rhoi'r canllawiau hyn ar waith yn effeithiol. Mae hybu a datblygu barn a sgil proffesiynol yn gofyn am hyfforddiant, goruchwyliaeth a chynhaliaeth ar gyfer unigolion sy'n gwneud y math hwn o

[1] Arglwydd Laming, Victoria Climbié Inquiry gan yr Arglwydd Laming 2003 para 4.190

waith anodd a chymhleth. Ar ben hynny, mae gofyn i Fyrddau Lleol Diogelu Plant, asiantaethau unigol a phartneriaethau strategol gynnig arweiniad clir wrth gyd-drefnu a monitro roi'r canllawiau ar waith. Dyma'r ffordd i wneud y gorau o'r adnoddau dynol ac ariannol sy'n perthyn i'r gwasanaethau ar gyfer plant Cymru.

I bwy mae'r canllawiau?

Mae Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn hanfodol i unrhyw unigolion ac asiantaeth sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd, neu gydag oedolion a allai achosi niwed i blant. Maen nhw'n berthnasol i bob proffesiwn, asiantaeth ac adran yn y sectorau statudol, gwirfoddol ac annibynnol. Enwa Deddf Plant 2004 y cyrff sydd â dyletswydd statudol i ddiogelu a hybu lles plant ac sy'n perthyn i Fyrddau Lleol Diogelu Plant. Cyfrifoldeb y Byrddau Lleol Diogelu Plant yw gofalu bod Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn cael eu gweithredu'n llawn o fewn eu hardaloedd, ac i fonitro pa mor effeithiol ydyn nhw.

Dogfen gyhoeddus yw'r canllawiau. Dangosant yn glir fod lle i aelodau pob cymuned hysbysu adran gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu am unrhyw bryderon ynglŷn â niwed i blant.

Sut i ddefnyddio'r canllawiau: Mae pump rhan i'r canllawiau:

Mae **Rhan 1** yn gosod cyd-destun gwaith amddiffyn plant, yn cynnwys y prif egwyddorion sy'n sylfaen i waith pobl broffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd. Mae hefyd yn diffinio camdriniaeth ac esgeulustod.

Mae **Rhan 2** yn disgrifio'r hyn y dylai rhywun ei wneud os yw'n pryderu fod plentyn yn cael ei gam-drin, neu os yw'n amau bod perygl o gamdriniaeth. Mae'n waith darllen pwysig i unrhyw un sy'n gweithio gyda neu'n gofalu am blant a theuluoedd, neu gydag oedolion a allai achosi niwed i blant.

Mae **Rhan 3** yn disgrifio'r drefn i'w dilyn ar ôl i adroddiad ddod i law am blentyn sy'n cael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Mwy o wybodaeth sydd yn **Rhan 4** am y broses o reoli rhai mathau neilltuol o gamdriniaeth.

Protocolau sydd yn **Rhan 5** y mae Grŵp Adolygu Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan wedi'u datblygu ers 2002.

Ym mhob rhan o'r canllawiau, mae gwybodaeth a chyngor i'w cael mewn blychau. Ar ben hynny, mae'r pwyntiau pwysig yn ymddangos mewn print trwm.

Y canllawiau yn eu cyd-destun

Deddf Plant 1989 a *Deddf Plant 2004* sy'n gosod y prif gyd-destun deddfwriaethol ar gyfer Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Mae'r deddfau'n rhoi dyletswydd ar gyrff penodol i ddiogelu a hybu lles plant.

Mae'r canllawiau'n parchu'r gwerthoedd a'r egwyddorion sydd wedi'u hymgorffori yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Datblygodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y gwerthoedd a'r egwyddorion yma'n y dogfennau *Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau 2004*. Mae'r Llywodraeth wedi mabwysiadu amcanion a chanlyniadau craidd fel sylfaen i'w hymrwymiad i weithio gyda phob plentyn a pherson ifanc. Un o'r prif ganlyniadau ar gyfer gwella lles plentyn o adeg ei genhedlu i'r adeg y daw'n oedolyn yw'r gofyniad ei fod yn cael byw mewn amgylchedd diogel wedi ei amddiffyn rhag niwed.

Yn unol â *Deddf Plant 2004* ac adran 7 *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970*, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru'r canllawiau *Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004.* Y ddogfen hon yw sylfaen y gwaith ar y canllawiau. Mae'r canllawiau'n cyfeirio'n gyson at y ddogfen, ac mae angen darllen y ddwy set o ganllawiau gyda'i gilydd.

Ar ben hynny, mae'r System Integredig ar gyfer Plant wedi cael ei wethredu yng Nghymru. Disgrifia'r prosesau proffesiynol craidd, sef asesu, cynllunio, ymyrryd ac adolygu, y bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn eu defnyddio wrth gydweithio ag asiantaethau eraill sydd â chyfrifoldeb dros blant mewn angen. Fframwaith o gysyniadau yw'r System Integredig ar gyfer Plant. Adeilada ar y gwaith o ddatblygu'r Fframwaith Asesu ar gyfer Plant mewn Angen a'u Teuluoedd a'r System ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal. Mae'n cynnig un ffordd bwrpasol o fynd ati i roi'r prif brosesau hyn ar waith gan wneud dealltwriaeth o anghenion datblygu plant yn sylfaen i'r gwaith, yng nghyd-destun eu teuluoedd a'u cymunedau.

Mae'r canllawiau'n cynnwys roi sylw i'r canlynol:

- Deddf Plant 1989;
- *Safe From Harm: A Code of Practice for Safeguarding the Welfare of Children in Voluntary Organisations in England and Wales*, Y Swyddfa Gartref, 1993;
- *Child Protection - Messages from Research*, Yr Adran Iechyd, 1995;
- Amddiffyn Plant Rhag Cael eu Cam-drin: Rôl y Gwasanaeth Addysg; Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 52/95 (Y fersiwn ar gyfer Cymru o DfES 10/95);
- Deddf Hawliau Dynol 1998;

- *Learning How to Make Children Safer: An Analysis for the Welsh Office of Serious Child Abuse Cases in Wales*, Prifysgol East Anglia, 1999;
- Rhoi Plant yn Gyntaf, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 1999;
- *Ar Goll mewn Gofal*, Adroddiad y Tribiwnlys a fu'n ymchwilio i'r achosion o gam-drin plant mewn gofal yn ardaloedd hen gynghorau sir Gwynedd a Chlwyd ers 1974, Sir Ronald Waterhouse, Chwefror 2000;
- *Fframwaith ar gyfer Asesu Plant Mewn Angen a'u Teuluoedd,* 2001;
- *Practice Guide to Investigating Allegations of Abuse against a Professional or Caregiver in relation to Children Looked After*, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2000;
- Safeguarding Children Involved in Prostitution, Department of Health 2000;
- *Achieving Best Evidence in Criminal Proceedings - Guidance for Vulnerable or Intimidated Witnesses including Children*, Y Swyddfa Gartref, 2002;
- *Learning How to Make Children Safer: An Analysis for the Welsh Assembly Government of Serious Child Abuse Cases in Wales*, Prifysgol East Anglia a Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002;
- *Safeguarding Children in Whom Illness is Fabricated or Induced*, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002;
- Peth Rhy Ddifrifol: Adolygiad o'r Mesurau i Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc sy'n cael Triniaeth a Gofal gan yr NHS yng Nghymru, Arglwydd Carlile, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mawrth 2002;
- *Joint NEOST(National Employers' Organisation for School Teachers) / Teacher Union Guidance on Education Staff and Child Protection: Staff Facing an Allegation of Abuse – Guidelines on Practice and Procedure*: Bwletin Addysg rhif:467 Medi 2002 a diweddariadau;
- Drafft Ymgynghorol: System Integredig ar gyfer Plant – Gweithio gyda Phlant mewn Angen a'u Teuluoedd, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003;
- Rhagarweiniad i'r cofnodion a ddefnyddiwyd yn y System Integredig ar gyfer Plant, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003;
- *The Victoria Climbié Inquiry Report of and Inquiry,* Arglwydd Laming, HMSO, 2003;
- *First Report of the Committee on Standards in Public Life,* Arglwydd Nolan, HMSO, 2003;
- *Hidden Harm: Responding to the needs of children of problem drug users, Report of an Inquiry by the Drug Advisory Council on the Misuse of Drugs*, Mehefin 2003;
- Ymchwiliadau i Achosion Cymhleth o Gam-drin Plant: Materion Rhyngasiantaethol, Rhagfyr 2003;

- Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ionawr 2004;
- Clywch: Adroddiad Archwiliad Comisiynydd Plant Cymru o Honiadau o Gam-drin Plant yn Rhywiol mewn Ysgol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004;
- *The Bichard Inquiry Report*, Y Swyddfa Gartref, 2004;
- Arolygu Gwasanaethau Amddiffyn Plant, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004;
- *Serious Case Review by Sir Christopher Kelly for North East Lincolnshire ACPC*, North East Lincolnshire ACPC, Gorffennaf 2004;
- Diogelu Plant: Cydweithio er Mwyn Sicrhau Canlyniadau Cadarnhaol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004;
- Gweithdrefnau Disgyblu Staff mewn Ysgolion, Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru rhif 45/2004;
- Deddf Plant 2004;
- *Safeguarding Children: The second joint Chief Inspectors Report on Arrangements to Safeguard Children*, CSCI, 2005;
- Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru rhif 21/2005 Gweithredu'r System Integredig ar gyfer Plant;
- Mental Capacity Act 2005;
- Cyfrinachedd: Cod Ymarfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2005;
- Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Medi 2005;
- Ein Cadw'n Ddiogel: Adroddiad yr Adolygiad o Ddiogelu Plant sy'n Agored i Niwed, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mai 2006;
- *Child Abuse Linked to Accusations of "Possession" and "Witchcraft"*, Adroddiad Ymchwil gan DfES RR750, 2006;
- Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2006;
- Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) Llywodraeth Cynulliad Cymru 2006.

RHAN 1

1. Y Prif Egwyddorion

Mae'r prif egwyddorion sy'n sail i weithio gyda phlant a theuluoedd i'w cael yn *Neddfau Plant 1989* a *2004* ac yng *Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi mabwysiadu'r Confensiwn fel sylfaen i'w gwaith gyda holl blant a theuluoedd Cymru. Yn *Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau 2004*, sefydlodd Llywodraeth Cynulliad Cymru saith nod craidd i'w gwaith a fyddai'n gofalu bod pob plentyn yn cael:

1. Dechrau da mewn bywyd;

2. Amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu;

3. Mwynhau'r iechyd gorau posib, yn rhydd o gamdriniaeth, erledigaeth a cham-fanteisio;

4. Mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliant;

5. Eu clywed, eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod;

6. Byw mewn cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol;

7. Peidio â bod dan anfantais oherwydd tlodi.

1.1 Diffiniadau o gam-drin ac esgeuluso plant

Gall rhywun gam-drin neu esgeuluso plentyn drwy beri niwed, neu drwy fethu gweithredu i atal niwed. Gall plant gael eu cam-drin o fewn y teulu neu mewn sefyllfa sefydliadol neu gymunedol, gan rywun mae'n ei adnabod neu, yn llai aml, gan rywun dieithr. Gall plentyn neu berson ifanc, hyd at mae ef neu hi yn 18 oed, ddioddef camdriniaeth neu esgeulustod a bod angen cael eu hamddiffyn trwy gynllun amddiffyn plant rhyng asiantaethol.

1.1.1 Cam-drin corfforol

Gall cam-drin corfforol gynnwys taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, tagu, neu achosi math arall o niwed corfforol i blentyn. Gall plentyn gael ei niweidio'n gorfforol hefyd pan mae rhiant neu berson sy'n rhoi gofal yn ffugio neu'n creu salwch i'r plentyn yn ei ofal.

Mae mwy o fanylion am salwch ffug yn rhan 5.

1.1.2 Cam-drin emosiynol

Cam-drin emosiynol yw cam-drin plentyn yn emosiynol dros amser i'r graddau lle achosir effeithiau niweidiol difrifol a chyson i ddatblygiad emosiynol y plentyn. Gallai olygu cyfleu'r syniad i'r plentyn ei fod yn ddiwerth neu fod neb yn ei garu, ei fod yn annigonol neu â gwerth ond i'r graddau ei fod yn bodloni anghenion person arall. Gall gynnwys beichio plentyn â disgwyliadau anaddas i'w oed neu ddatblygiad. Gall gynnwys peri i blentyn deimlo'n ofnus neu mewn perygl yn aml, er enghraifft, trwy orfod bod yn dyst o fewn y cartref i gam-drin domestig neu trwy gael ei fwlio. Gall hefyd olygu cam-fanteisio ar neu lygru plant. Mae elfen o gam-drin emosiynol yn perthyn i bob math o gamdriniaeth, er y gall fodoli ar ei ben ei hun.

1.1.3 Cam-drin rhywiol

Mae cam-drin rhywiol yn golygu gorfodi neu hudo plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithredoedd rhywiol, p'un a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio. Gall y gweithredoedd olygu cyffwrdd corfforol, gan gynnwys gweithredoedd treiddio i gorff y plentyn neu beidio. Gallan nhw fod yn weithredoedd sydd ddim yn cynnwys cyffwrdd, fel cynnwys plant yn y broses o edrych ar neu gynhyrchu deunyddiau pornograffig, o wylio gweithredoedd rhywiol neu o annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd anaddas yn rhywiol.

1.1.4 Esgeulustod

Esgeulustod yw methiant cyson i fodloni anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol plentyn sy'n debygol o arwain at nam difrifol i iechyd neu ddatblygiad y plentyn. Gall olygu methiant rhiant neu ofalwr i ddarparu digon o fwyd, cysgod neu ddillad, methiant i amddiffyn plentyn rhag niwed corfforol neu berygl, neu fethiant i sicrhau mynediad i ofal neu driniaeth feddygol addas. Gall hefyd gynnwys esgeuluso anghenion emosiynol sylfaenol plentyn, neu fethu ag ymateb iddyn nhw.

Gall esgeuluso ddigwydd hefyd yn ystod beichiogrwydd pan mae mam yn camddefnyddio sylweddau.

1.1.5 Adnabod niwed arwyddocaol neu sylweddol

Cyflwynodd Deddf Plant 1989 y **cysyniad o niwed arwyddocaol** fel y trothwy sy'n cyfiawnhau ymyrryd yn orfodol ym mywyd teulu er mwyn amddiffyn plant. Mae'r ddeddfwriaeth yn diffinio niwed arwyddocaol fel trin plentyn yn wael neu niweidio'n ddifrifol ei iechyd a'i ddatblygiad. Mae'n disgrifio effeithiau cam-drin neu esgeulustod rhywiol, corfforol ac emosiynol, neu gyfuniad o'r gwahanol fathau o gam-drin neu esgeuluso. Mae dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol dan adran 47(1)(b) o Deddf Plant 1989 i wneud ymholiadau neu i sbarduno ymholiadau, os oes achos rhesymol i amau bod plentyn sy'n byw neu wedi cael ei ddarganfod yn eu hardal yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed arwyddocaol.

Nid oes meini prawf absoliwt y gellir eu defnyddio wrth farnu union natur niwed arwyddocaol. Gall un weithred ddifrifol fel cam-drin plentyn yn rhywiol

neu ymosod arno'n dreisgar achosi niwed arwyddocaol. Fodd bynnag, yr hyn sy'n digwydd yn amlach yw bod niwed arwyddocaol yn ganlyniad i gyfuniad o ddigwyddiadau dros gyfnod hir sy'n amharu ar, yn newid neu'n niweidio datblygiad corfforol a seicolegol plentyn. Mae'r niwed arwyddocaol sy'n dod yn sgil effeithiau andwyol camdriniaeth dros gyfnod hir yn debygol o effeithio'n ddwys ar ganlyniadau'r plentyn yn y dyfodol.

Ar adeg yr atgyfeirio, efallai nad yw'n glir a yw plentyn mewn angen neu a yw'n dioddef niwed arwyddocaol. Dylai'r asesiad cychwynnol ofalu bod y gwasanaethau cymdeithasol yn casglu digon o wybodaeth i ffurfio barn ynglŷn â natur yr angen a/neu'r niwed, a beth sydd angen ei wneud. I hyn ddigwydd, mae angen i asiantaethau rannu gwybodaeth a dilyn patrwm pendant wrth asesu a dadansoddi. Mae hyn yn cynnwys rhoi sylw i farn y plentyn ei hun ynglŷn â'i amgylchiadau, yn ôl ei oedran a'i allu i ddeall. **Mae asesiad da'n sylfaen hanfodol i'r gwaith o benderfynu beth yw natur y pryderon ynglŷn â'r plentyn; pa newidiadau sydd eu hangen a pha wasanaethau ac ymyriadau sydd eu hangen er mwyn llwyddo i gyflawni'r newidiadau sydd wedi'u cynllunio.**

I ddod i ddeall niwed arwyddocaol ac i gadarnhau a yw'n digwydd, rhaid ystyried:

- Cyd-destun y teulu;
- Datblygiad y plentyn yng nghyd-destun ei deulu a'r amgylchedd cymdeithasol a diwylliannol ehangach;
- Unrhyw anghenion arbennig fel cyflwr meddygol, anawsterau cyfathrebu neu anabledd a allai effeithio ar ddatblygiad a gofal y plentyn o fewn y teulu;
- Natur y niwed o ran trin y plentyn yn wael neu fethu rhoi digon o ofal iddo;
- Yr effaith ar iechyd a datblygiad y plentyn; a
- Pha mor ddigonol yw gofal y rhieni.

1.2 Yr egwyddorion sy'n sylfaen i waith diogelu a hybu lles plant

1.2.1 Dylai gwaith gyda phlant a theuluoedd fod:

- yn blentyn canolog;
- wedi'i wreiddio mewn datblygiad plant;
- yn cefnogi sicrhau'r canlyniadau gorau posib ar gyfer plant ac o wella'u lles;
- yn mynd ati'n holistig;

- yn gofalu bod pob plentyn yn cael yr un cyfleoedd;
- yn cynnwys plant a'u teuluoedd;
- yn adeiladu ar gryfderau ac yn adnabod anawsterau a'r ffyrdd o'u datrys;
- yn mynd ati mewn ffordd aml/rhyng-asiantaethol;
- yn broses parhaus;
- wedi'i gynllunio i adnabod y gwasanaethau sy'n ofynnol ac i fonitro'u heffaith ar ddatblygiad plentyn;
- wedi'i seilio ar dystiolaeth sy'n deillio o theori, ymchwil, polisi ac ymarfer.

Blwch 1: Hybu partneriaethau effeithiol gyda theuluoedd

- Parchwch urddas pob aelod o'r teulu gydag urddas a'u trin mewn modd y byddech chi am gael eich trin eich hun.
- Gwnewch yn glir mai diogelwch y plentyn yw'r flaenoriaeth ond parchwch hawl y teulu i gael gwasanaeth cwrtais, effeithiol, proffesiynol a llawn gofal.
- Peidiwch â tharfu ar breifatrwydd y teulu mwy na sy'n rhaid i ddiogelu'r plentyn.
- Byddwch yn glir bob adeg ynglŷn â'ch hawl i ymyrryd a phwrpas eich rôl.
- Byddwch yn ymwybodol o'r grymoedd sydd gan weithwyr proffesiynol a'r ffordd y gallan nhw effeithio ar deuluoedd.
- Parchwch gyfrinachedd y teulu lle bynnag y gallwch chi, os yw'n gyson â diogelwch a lles y plentyn, a threfnwch ffordd glir o reoli cyfrinachedd.
- Gwrandewch ar ddymuniadau a theimladau plant a theuluoedd, a chofnodwch nhw gan wneud eich gorau i ddeall eu pryderon a'u dymuniadau.
- Dysgwch am a cheisiwch ddeall perthynas y plentyn o fewn ei deulu a'i gymuned, a byddwch yn hyderus wrth herio agweddau neu arferion amhriodol.
- Dysgwch am gryfderau a photensial aelodau'r teulu, yn ogystal â'u gwendidau, eu problemau a'u diffygion, er mwyn dod i wybod am yr elfennau llwyddiannus ac effeithiol y gallwch chi eu defnyddio fel sail i ymyriadau.
- Gofalwch fod plant, teuluoedd a phobl eraill sy'n rhoi gofal yn gwybod am eu hawliau.
- Defnyddiwch iaith glir.
- Byddwch yn agored ac yn onest wrth ddelio â phryderon a chyfrifoldebau,

cynlluniau a'r pethau sy'n cyfyngu arnyn nhw.

- Rhowch ddigon o amser i blant a theuluoedd ddod i ddeall a derbyn pryderon a phrosesau.
- Dangoswch y gwahaniaeth rhwng teimladau, gwerthoedd, rhagfarnau a chredoau personol, a rolau a chyfrifoldebau proffesiynol, a gofalwch y gallwch chi fynd at oruchwyliwr i wirio'ch gwaith.
- Os bydd camgymeriadau'n digwydd neu os yw'n amhosib cadw at rywbeth sydd wedi'i gytuno, esboniwch y sefyllfa.
- Byddwch yn barod i gydnabod straen a gofid a gwnewch eich gorau i'w lleddfu.

1.2.2 Rhannu gwybodaeth gyda theuluoedd

Cyflawnir gwell canlyniadau ar gyfer plant trwy weithio mewn partneriaethau effeithiol gyda phlant a theuluoedd a lle ceir pwyslais clir ar ddiogelwch a lles y plentyn. Mae rhannu gwybodaeth gyda theuluoedd a gweithredu'n agored yn ymarfer da, ar yr amod nad yw hynny'n tanseilio diogelwch y plentyn. Efallai fod angen cadw'n gyfrinachol peth o'r wybodaeth sydd ar gael i weithwyr proffesiynol yn unig heb ei rhannu o flaen rhai o blant neu oedolion y teulu. Un enghraifft yw gwybodaeth am un aelod o'r teulu a allai danseilio ymchwiliad troseddol.

Wrth i'r broses ymyrraeth fynd yn ei blaen, dylai'r unigolion sy'n gweithio gyda'i gilydd ddeall ei gilydd bob cam o'r ffordd, a chytuno ar y wybodaeth i'w rhannu gyda'r teulu. Mae angen rhesymau clir dros gadw gwybodaeth oddi wrth y teulu, ac mae angen cofnodi'r rhesymau. Dan y fath amgylchiadau, diogelu a hybu lles y plentyn yw'r prif bethau i'w hystyried bob amser.

1.2.3 Cynnig cefnogaeth a chyngor i deuluoedd

Mae cynnig cefnogaeth a chyngor addas a chlir yn rhan hanfodol o weithio'n effeithiol mewn partneriaeth. Dylid cydnabod bob amser fod llawer o deuluoedd yn gweld ymyrraeth gan weithwyr proffesiynol fel rhywbeth poenus sy'n amharu ar eu bywydau, yn enwedig os ydyn nhw'n teimlo bod y gweithwyr yn amau eu gallu i ofalu am eu plant. Gall gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr ofalu bod y broses amddiffyn plant yn achosi llai o straen i deuluoedd trwy fynd ati'n ofalus i weithio mewn partneriaeth. Mae'n bosib gwneud cyfraniad plant a theuluoedd at y broses amddiffyn plant yn fwy cadarnhaol trwy gynnig cyngor a chefnogaeth iddyn nhw ar ffurf gwasanaethau eiriolaeth. Dylai plant a'u teuluoedd gael gwybod bob amser fod gwasanaethau eiriolaeth ar gael ar eu cyfer. Mae dyletswydd ar y gwasanaethau cymdeithasol i ofalu bod plant ac oedolion yn cael yr holl wybodaeth y maen nhw ei hangen i'w helpu i ddeall y broses amddiffyn plant. Dylai'r wybodaeth fod yn glir ac yn hawdd i'w chael, a dylai fod ar gael yn

newis iaith y teulu. Yn yr un ffordd, dylai cefnogaeth a chyngor fod ar gael i'r teulu yn eu dewis iaith a dull cyfathrebu.

1.2.4 Amrywiaeth

I rywun allu gwneud penderfyniadau proffesiynol sensitif a gwybodus ynglŷn ag anghenion plentyn a gallu rhieni i ymateb i anghenion eu plentyn, mae'n bwysig i weithwyr proffesiynol fod yn sensitif i batrymau a ffyrdd o fyw gwahanol deuluoedd. Rhaid sylweddoli hefyd fod gwahanol grwpiau hiliol, ethnig a diwylliannol yn defnyddio gwahanol batrymau o fagu plant. Dylai gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr fod yn ymwybodol hefyd o'r ffactorau cymdeithasol ehangach sy'n arwain at wahaniaethu yn erbyn pobl ddu a phobl o leiafrifoedd ethnig.

Dylai awdurdodau lleol ofalu eu bod nhw wedi sefydlu systemau a phrotocolau ar gyfer adnabod plant sydd wedi eu lleoli yn eu hardal, yn cynnwys plant sy'n ceisio Lloches, plant ar eu pen eu hunain a phlant sydd wedi eu lleoli o dan drefniadau maethu preifat. Gall y plant yma fod yn arbennig o agored i niwed, ac mae angen i brotocolau bwysleisio pwysigrwydd eu diogelu a hybu eu lles.

Dylai'r broses asesu roi sylw bob amser i'r ffordd mae credoau crefyddol a thraddodiadau diwylliannol gwahanol grwpiau hiliol, ethnig a diwylliannol yn dylanwadu ar werthoedd, agweddau ac ymddygiad. Rhaid edrych hefyd ar batrwm bywyd y teulu a'r gymuned, a'r ffordd y mae'n cael ei drefnu. Rhaid i weithwyr proffesiynol beidio â gwrando ar fythau a stereoteipiau, p'un ai ydyn nhw'n gadarnhaol neu'n negyddol. Ac ni ddylai poeni am gael eu cyhuddo o fod yn hiliol neu'n ormesol eu rhwystro rhag gwneud yr hyn sydd angen ei wneud i ddiogelu plentyn. Pan fo gofyn, dylid mynd ati i gomisiynu a defnyddio gwasanaethau cyfieithu a lladmerydd annibynnol ac addas a chyfieithwyr iaith arwyddion wrth i weithwyr proffesiynol weithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Ni ddylid defnyddio aelodau o'r teulu, plant a ffrindiau fel yr unig ddehonglwyr.

1.3 Gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd

1.3.1 Byrddau Lleol Diogelu Plant

Dan *Ddeddf Plant 2004*, mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol sefydlu Bwrdd Lleol Diogelu Plant gyd-drefnu gweithgarwch pob asiantaeth sy'n perthyn iddo ac i ofalu bod y gwaith yn effeithiol. Eu nod yw diogelu a hybu lles plant. Disgrifir amcanion a swyddogaethau'r Byrddau yn *Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004.*

1.3.2 Cyfrifoldeb ar y Cyd

Mae amddiffyn plant unigol rhag niwed arwyddocaol, yn ogystal â'r gofynion ehangach o ran diogelu a hybu lles plant, yn dibynnu'n llwyr ar asiantaethau a gweithwyr proffesiynol yn rhannu gwybodaeth, yn cydweithio'n effeithiol, ac

yn deall ei gilydd i'r dim. Mae llwyddo i greu perthynas waith adeiladol rhwng gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr sydd â chefnogaeth aelodau sy'n arwain, prif swyddogion, Byrddau Lleol Diogelu Plant a phartneriaid strategol eraill, yn cynnig llwyfan ar gyfer sefydlu partneriaethau gwaith effeithiol.

Pwysleisiodd ddarganfyddiadau'r adroddiad *Child Protection: Messages from Research* bod asiantaethau'n cydweithio'n weddol dda yng nghamau cynnar ymholiadau amddiffyn plant, ond bod pethau'n tueddu i fynd yn llai effeithiol yn ystod y broses o greu cynllun amddiffyn plant ar ôl i blentyn gael ei gofrestru. Mae'r gwaith o weithredu'r cynllun yn cael ei adael yn llawer rhy aml i'r adrannau gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n bwysig i bob asiantaeth gofio bod pob un yn gyfrifol am weithredu cynllun amddiffyn plant pan fydd enw plentyn wedi ei roi ar y gofrestr amddiffyn plant.

Rhaid i'r Byrddau Lleol fod wedi sefydlu systemau sicrhau ansawdd i fonitro arferion amddiffyn plant a'r trefniadau ar gyfer asiantaethau a gweithwyr proffesiynol gyd-weithio, ac i ofalu bod y cyfan yn effeithiol. Bydd y fath systemau'n gofalu hefyd fod y gwaith yn cydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau a phrotocolau lleol.

1.4 Rhannu gwybodaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol

Mae'n hanfodol bod gweithwyr proffesiynol yn rhannu a chyfnewid gwybodaeth berthnasol yn effeithiol er mwyn i blant gael eu diogelu.

Anaml y mae'r gyfraith yn rhwystr rhag datgelu gwybodaeth. Nid oes unrhyw beth yn y *Ddeddf Diogelu Data* nac yn unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n rhwystro rhywun rhag tynnu sylw at bryderon ynglŷn ag unigolion, ac i rannu'r pryderon gydag asiantaethau at bwrpas amddiffyn plant. Mae adroddiadau Bichard[2] a Carlile[3] yn cadarnhau y gall casglu pryderon o amryw o ffynonellau, er nad yw'r pryderon yn arwyddocaol iawn ar eu pen eu hunain efallai, adeiladu darlun a allai awgrymu bod plentyn yn dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol, a bod angen i weithwyr proffesiynol wethredu i'w amddiffyn.

Lle bynnag y mae' n bosib, dylid cael caniatâd cyn rhannu gwybodaeth bersonol gyda thrydydd parti. Ond, mae'r diddordeb cyhoeddus mewn amddiffyn plentyn bob amser yn bwysicach na'r diddordeb cyhoeddus mewn cadw rhywbeth yn gyfrinachol neu mewn cael caniatâd teulu. Wrth ystyried y diddordebau hyn, diogelwch y plentyn yw'r ystyriaeth bwysicaf un.

---

[2] *Adroddiad Bichard, y Swyddfa Gartref, 2004*

[3] Peth Rhy Ddifrifol: Adolygiad o'r Mesurau i Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc sy'n cael Triniaeth a Gofal gan yr NHS yng Nghymru, Arglwydd Carlile, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mawrth 2002

Mae rhagor o ganllawiau yn *Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004*. Mae rhannau penodol o'r canllawiau'n sôn hefyd am gyfrinachedd a rhannu gwybodaeth mewn perthynas â rheoli salwch ffug, camdrin wedi ei drefnu a chynadleddau amddiffyn plant.

RHAN 2

2. Cyfrifoldebau Pawb

2.1 Cyfrifoldebau pawb sy'n pryderu am les plentyn

2.1.1 Beth ddylai pawb ei wneud

Fe ddylai pob unigolyn sy'n dod i gysylltiad â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd neu sy'n gweithio gyda nhw neu gydag oedolion a allai achosi perygl i blant, neu rai sy'n gyfrifol am drefnu gwasanaethau ar gyfer plant a/neu oedolion:

- Ddeall ei rôl a'i gyfrifoldebau o ran diogelu a hybu lles plant;
- Ymgyfarwyddo â chanllawiau a phrotocolau eu sefydliad o ran diogelu a hybu lles plant, eu dilyn, a gwybod â phwy yn eu sefydliad i gysylltu er mwyn adrodd pryderon am les plentyn;
- Bod yn effro i ddangosyddion camdriniaeth ac esgeulustod;
- Gallu mynd yn rhwydd at *Ganllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan*, a chydymffurfio â nhw*;*
- Ddeall yr egwyddorion a'r arferion gwaith sydd yn *Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004;*
- Wedi cael ei hyfforddi ym maes amddiffyn plant i safon sy'n gyson â'i rôl a'i gyfrifoldebau;
- Wybod pryd a sut i gyfeirio unrhyw bryderon ynglŷn â cham-drin plant ac esgeulustod at y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu;
- Wybod na ddylai plentyn, rhiant, un sy'n rhoi gofal, perthynas neu aelod o'r cyhoedd sy'n mynegi pryder am les plentyn wrth weithiwr proffesiynol a/neu rywun sy'n gweithio i asiantaeth gael ei gynghori i atgyfeirio'i hun at y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu. Rhaid i'r gweithiwr proffesiynol a/neu'r sawl sy'n gweithio i asiantaeth wneud yr atgyfeiriad.

Os yw unrhyw un yn gwybod am, neu'n pryderu, neu'n amau bod plentyn yn dioddef, neu wedi dioddef neu'n debygol o fod mewn perygl o ddioddef niwed, cyfrifoldeb yr unigolyn hwnnw yw gofalu bod y pryderon yn cael eu hatgyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu, sydd â dyletswydd statudol a phwerau i wneud ymholiadau ac i ymyrryd os oes angen.

Yn ogystal â'u dyletswydd a'u cyfrifoldebau i wneud atgyfeiriadau, mae ffyrdd eraill y gall pawb sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd gyfrannu at y broses o ddiogelu plant a'r drefn amddiffyn plant:

- Rhoi'r flaenoriaeth uchaf i les y plentyn;
- Bod yn effro ac yn ymwybodol o'r peryglon y gall unigolion sy'n cam-drin neu a allai gam-drin eu hachosi i blant;
- Cydnabod pan mae gallu rhiant neu un sy'n rhoi gofal wedi ei gyfaddawdu, hynny yw, pan fydd problemau a all effeithio ar allu i gynnig gofal effeithiol ac addas, neu broblemau a all olygu cyflwyno perygl o niwed i'r plentyn;
- Gwybod am effeithiau camdriniaeth ac esgeulustod ar blant;
- Deall y Fframwaith Asesu ar gyfer Plant mewn Angen a'u Teuluoedd sy'n sail i'r broses o asesu anghenion, o gynllunio gwasanaethau ac o bwyso a mesur pa mor effeithiol yw gwasanaeth ym mhob cam o'r gwaith gyda phlant a theuluoedd;
- Rhannu gwybodaeth a helpu i'w dadansoddi er mwyn gwneud asesiad gwybodus ynglŷn ag anghenion ac amgylchiadau'r plentyn;
- Cynnig help neu wasanaeth penodol yn ôl y gofyn i'r plentyn neu aelod o'i deulu fel rhan o gynllun mae pawb yn cytuno arno, a chyfrannu at y gwaith o adolygu sut mae'r plentyn yn dod yn ei flaen;
- Cyfrannu yn ôl y gofyn i bob cam o'r broses amddiffyn plant;
- Cyfrannu at y gwaith o adolygu'n rheolaidd y canlyniadau ar gyfer y plentyn gan eu cymharu ag amcanion penodol ar y cyd;
- Gweithio'n gydweithredol gyda'r rhieni, oni bai fod hyn yn anghyson â'r angen i ddiogelu'r plentyn;
- Wedi ymrwymo i gydweithredu'n llawn â phob asiantaeth arall er mwyn diogelu plant.

Mae'r asiantaethau partner sydd wedi'u rhestru yn Neddf Plant 2004 yn rhannu cyfrifoldeb statudol i ddiogelu a hybu lles plant ac mae dyletswydd ar

bob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio i'r asiantaethau hyn i adrodd eu pryderon.

Nid mater o ddewis yr unigolyn yw hyn.

Rhaid i'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu gael gwybod am amheuaeth fod plentyn yn cael ei gam-drin. Yr asiantaethau yma, a'r NSPCC, sydd â'r pwerau statudol i ymchwilio i amheuon o gamdriniaeth. Ddylai asiantaethau ddim mynd ati eu hunain i gynnal ymchwilidau amddiffyn plant mewnol, ond dylen nhw atgyfeirio'u pryderon. Os yw'r pryderon yn ymwneud ag aelod o staff, rhaid i asiantaethau beidio â phenderfynu'n fewnol ai mater disgyblu neu fater amddiffyn plant yw'r achos. Dim ond dan arweiniad y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu y dylai'r materion cymhleth hyn gael sylw. Rhaid i asiantaethau gadw mewn cof fod gan yr heddlu bwerau a chyfrifoldebau statudol ar gyfer penderfynu a oes rhaid gwneud ymchwiliad troseddol.

Dylai pob asiantaeth sy'n gweithio gyda phlant fod yn dilyn trefn gadarn iawn wrth recriwtio a dethol staff. Rhaid i'r drefn greu trothwy mynediad uchel iawn i atal pobl sy'n cam-drin rhag chwilio am swydd neu waith gwirfoddol gyda phlant a theuluoedd. Mae mwy o ganllawiau yn *Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004.*

2.1.2 Adnabod a gweithredu ar bryderon neu amheuaeth o gam-drin

Dylai awdurdodau lleol ofalu bod trefniadau effeithiol ar waith er mwyn caniatáu i asiantaethau eraill ac aelodau o'r cyhoedd adrodd pryderon ynglŷn â phlant. Dylai'r trefniadau fod ar waith y tu allan i'r oriau gwaith arferol hefyd.

Mewn achosion lle mae aelod o staff yn bryderus ond am gael mwy o gyngor, fe ddylai allu cael y cyngor gan ei asiantaeth ei hun neu gan y gwasanaethau cymdeithasol. Rhaid cofnodi'n ysgrifenedig unrhyw drafodaethau am les plentyn. Rhaid nodi'r dyddiad a'r amser, ac enwau'r rhai a fu'n trafod. Ar ddiwedd y drafodaeth, dylai pawb gytuno'n llwyr ar y camau gweithredu a phwy sy'n mynd i weithredu. Os y penderfynir na fydd unrhyw weithredu pellach, rhaid cofnodi hyn yn ysgrifenedig gan nodi'r rhesymau dros y penderfyniad. Dylai unrhyw aelod o staff sy'n pryderu am les plentyn gofnodi ei bryderon yn ysgrifenedig, p'un ai oes camau gweithredu pellach ai peidio.

Ond ni ddylai'r angen i chwilio am fwy o gyngor achosi unrhyw fath o oedi os oes angen gweithredu ar frys i amddiffyn plentyn.

Rhaid i brotocolau lleol ar gyfer rhoi'r *Fframwaith Asesu Cyffredin* ar waith ofalu bod pob gweithiwr proffesiynol yn deall pa mor bwysig yw atgyfeirio achos at y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu, os yw'n ofni neu'n clywed honiad yn ystod y broses asesu fod plentyn yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Mae'r asiantaethau sy'n perthyn i'r Byrddau Lleol wedi sefydlu trefn ar gyfer gwneud ymholiadau i'r gofrestr amddiffyn plant. Gall gweithiwr o'r asiantaethau hyn s'yn pryderu am blentyn ac yn dymuno cael gwybod a yw enw'r plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant yn barod, neu'n destun cynllun amddiffyn plant gyfeirio ymholiad at y gofrestr (cyfeiriwch at 3.26).

Blwch 2: Beth i'w wneud os yw plentyn yn dweud wrthych chi ei fod yn cael ei gam-drin, neu fod person ifanc arall yn cael gam-drin

- Dangoswch i'r plentyn eich bod chi'n gwrando arno'n astud, a'ch bod yn cymryd ei honiadau o ddifrif;
- Anogwch y plentyn i siarad, ond peidiwch â'i arwain wrth ei holi. Peidiwch â thorri ar draws pan mae'n sôn am ddigwyddiadau pwysig. Peidiwch â gwneud i'r plentyn ailadrodd ei hanes;
- Esboniwch beth sydd rhaid i chi wneud. Siaradwch mewn ffordd sy'n addas ar gyfer oedran y plentyn a'i allu i'ch deall;
- Peidiwch ag addo cadw stori'r plentyn yn gyfrinachol. Mae cyfrifoldeb arnoch i ddatgelu gwybodaeth i'r rheini sydd angen ei gwybod. Nid bradychu ymddiriedaeth yw rhoi gwybod am bryderon;
- Cyn gynted ag y gallwch chi ac o fewn 24 awr fan bellaf, ysgrifennwch yr hyn mae'r plentyn wedi'i ddweud wrthych. Defnyddiwch union eiriau'r plentyn os gallwch chi;
- Hysbyswch eich rheolwr llinell am eich pryderon neu (os yw hynny'n briodol) yr aelod staff pwrpasol yn eich sefydliad sy'n gyfrifol am amddiffyn plant;
- Gofalwch fod y gweithiwr cymdeithasol ar ddyletswydd yn y swyddfa leol yn cael gwybod am eich pryderon ar unwaith. Peidiwch ag oedi;
- Peidiwch â herio'r sawl sy'n cael ei amau o gam-drin;
- Peidiwch â phoeni am wneud camgymeriad. Bydd y gwasanaethau cymdeithasol bob amser yn eich cymryd o ddifrif. Mae'n well trafod y mater gyda rhywun sydd â'r profiad a'r cyfrifoldebau i wneud asesiad;
- Nodwch y dyddiad, yr amser, y lle ac enwau'r bobl oedd yn bresennol yn y drafodaeth.

Blwch 3: Ymddygiad unrhyw oedolyn neu gydweithiwr (yn cynnwys aelod o'r cyhoedd) tuag at blant neu bobl ifanc sy'n achosi pryder:

- Peidiwch â diystyru neu wfftio'ch pryderon;
- Peidiwch â cheisio herio'r person yr ydych yn bryderus yn ei gylch;
- Os oes gan y person dan sylw gyfrifoldeb proffesiynol dros blant neu bobl ifanc, rhaid i chi ddilyn trefn a pholisïau'ch asiantaeth ar gyfer delio â chamdriniaeth gan weithwyr proffesiynol a chwythu'r chwiban;
- Mae'n bwysig iawn nad ydych yn anwybyddu neu ddiystyru amheuon ynglŷn â gweithiwr proffesiynol arall neu gydweithiwr.

2.2 Adnabod ac Atgyfeirio

Gall amheuaeth fod plentyn yn cael ei gam-drin fod ar ffurf 'pryderon' yn hytrach na 'ffeithiau hysbys'. Gall pryderon ynglŷn â lles plentyn godi mewn amryw o wahanol gyd-destunau, yn cynnwys pan mae'r gwasanaethau cymdeithasol eisoes yn gwybod am blentyn. Mae'n bosib ac yn ddymunol i rywun rannu pryderon gyda'r gwasanaethau cymdeithasol trwy atgyfeirio. Er nad yw pryderon yn gorfod ysgogi ymchwiliad, maen nhw'n helpu i greu darlun os yw rhywun arall wedi cyfleu pryderon y gallai'r un plentyn fod yn cael ei gam-drin. Mae amryw o awdurdodau lleol wedi datblygu protocolau sy'n disgrifio'r trefniadau wrth i wasanaethau lleol wneud asesiadau cychwynnol. Maen nhw'n diffinio'r amgylchiadau a'r trothwyon sy'n ofynnol i blentyn gael ei atgyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol.

Mewn achosion lle mae gweithiwr proffesiynol neu weithiwr unigol yn cael ei amau o gam-drin, neu fod honiad yn ei erbyn, dylai'r camau gweithredu ddilyn trefn yr asiantaeth ei hun o ran camdriniaeth gan weithwyr proffesiynol a chwythu'r chwiban.

2.2.1 Mynd ati i atgyfeirio

Mae angen atgyfeirio achos at y gwasanaethau cymdeithasol cyn gynted â bod problem, amheuaeth neu bryderon ynglŷn â phlentyn yn dod i'r amlwg, ac yn bendant **o fewn 24 awr** fan bellaf. Y tu allan i oriau gwaith, dylai atgyfeiriadau gael eu gwneud i wasanaeth argyfwng y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu. Rhaid i'r gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu ofalu bod digon o staff wedi'u hyfforddi ar gael i ddelio ag ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47, yn cynnwys y tu allan i oriau gwaith arferol.

Wrth wneud atgyfeiriad dros y ffôn neu'n bersonol, dylid cadarnhau'r atgyfeiriad yn ysgrifenedig o fewn dau ddiwrnod gwaith. Y ffordd orau yw defnyddio ffurflen safonol leol os oes un ar gael.

Dylai'r atgyfeiriwr ddarparu gymaint â phosib o'r wybodaeth canlynol i'r gweithiwr cymdeithasol ar ddyletswydd sy'n derbyn yr atgyfeiriad:

- Natur y pryderon;
- Sut a pham mae'r pryderon wedi dod i'r amlwg;
- Enw a chyfeiriad llawn y plentyn, a'i ddyddiad geni (neu oedran);
- Enwau, cyfeiriadau a dyddiadau geni neu oedrannau aelodau'r teulu, ynghyd ag unrhyw enwau eraill y maen nhw'n eu defnyddio;
- Os ydyn nhw ar gael, dylid cofnodi enwau pawb sydd â chyfrifoldeb rhiant, a nodi sut maen nhw'n perthyn i'r plentyn;
- Enw, cyfeiriad a dyddiad geni partner y rhiant;
- Enw, cyfeiriad a dyddiad geni unrhyw oedolion eraill sy'n byw gyda'r teulu;
- Enwau gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'r teulu, yn cynnwys enw ysgol y plentyn ac enw'r meddyg teulu;
- Unrhyw wybodaeth sydd gennych am anghenion datblygu'r plentyn a gallu ei rieni neu'r rhai sy'n rhoi gofal iddo i ymateb i'r anghenion hynny o fewn cyd-destun y teulu a'r amgylchedd ehangach;
- Unrhyw wybodaeth sy'n effeithio ar ddiogelwch staff.

Rhaid i weithwyr unigol, gweithwyr proffesiynol a chontractwyr annibynnol sylweddoli nad yw'n bosib iddyn nhw aros yn ddienw wrth atgyfeirio achos. Ond gall aelodau o'r cyhoedd beidio â rhoi eu henwau, os dyna yw eu dymuniad.

Efallai y bydd gofyn i'r gweithiwr unigol neu'r gweithiwr proffesiynol sy'n atgyfeirio'r achos gyflawni rhai neu'r cyfan o'r tasgau dilynol a dylai'r gweithiwr fod yn barod ac yn fodlon i'w cyflawni:

- Cyfrannu at drafodaeth strategaeth neu gyfarfod strategaeth;
- Cynorthwyo gydag ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47;
- Mynd i gynhadledd amddiffyn plant;
- Ysgrifennu adroddiad ar gyfer cynhadledd amddiffyn plant;
- Cyfrannu at yr asesiad cychwynnol a'r asesiad craidd.

Cyfrifoldeb gweithwyr unigol a gweithwyr proffesiynol yw gofalu bod eu pryderon am les plentyn yn cael eu cymryd o ddifrif ac yn cael sylw. Mae pob gweithiwr unigol neu broffesiynol yn gyfrifol am ei ran ei hun yn y broses amddiffyn plant. Os yw gweithiwr unigol neu broffesiynol yn dal i bryderu am

y plentyn, fe ddylai atgyfeirio'r achos unwaith eto a/neu ddod â'r mater i sylw brys uwch reolwr y gwasanaethau cymdeithasol sy'n gyfrifol am amddiffyn plant yr ardal. Os nad yw'r uwch reolwr ar gael, dylid rhoi gwybod am achos y plentyn i'r rheolwr tîm perthnasol. Ym mhob achos o'r fath, rhaid rhoi gwybod hefyd i reolwr llinell y gweithiwr unigol neu'r gweithiwr proffesiynol ac i'r gweithiwr proffesiynol penodol sy'n gyfrifol am amddiffyn plant.

2.3 Cadw cofnodion

Mae cadw cofnodion cywir, cryno a chlir mewn iaith syml yn elfen hanfodol o atebolrwydd gweithiwr unigol neu weithiwr proffesiynol i'r bobl sy'n defnyddio'i wasanaeth. Mae'n rhan hanfodol o arfer da wrth amddiffyn plant.

Mae'r gofynion gwybodaeth ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol i'w gweld yn ffurflenni enghreifftiol y System Integredig ar gyfer Plant. Dangosant y wybodaeth sydd angen i asiantaethau eraill ddarparu am blant mewn angen a'u teuluoedd.

Rhaid i bob asiantaeth sy'n rhan o'r gwaith o ddiogelu a hybu lles plant fod â pholisïau a chanllawiau sy'n disgrifio dulliau pwrpasol o gadw, storio a dinistrio cofnodion achos ar ffurf electronig ac ar bapur. Dylai'r polisïau ofalu bod cofnodion achos yn cael eu storio'n ddiogel fel bod modd dod o hyd iddyn nhw yn ôl y galw.

Pwrpas cofnodion papur yw:

- Ffocysu gwaith ar bwrpas, gweithrediad a chanlyniad ymholiadau, gwaith asesu a dadansoddi, a chynlluniau;
- Cynnig cofnod clir ar bapur o'r gwaith gyda phlentyn a/neu deulu, yn cynnwys amseriad y cyswllt;
- Helpu i gadw cysondeb pan nad yw gweithiwr ar gael neu pan mae staff yn newid;
- Cynnig sail i weithwyr proffesiynol lunio barn a gwneud penderfyniadau;
- Cynnig ffordd i reolwyr fonitro gwaith, goruchwylio a chynnig cymorth i ymarferwyr;
- Bod yn ffynhonnell hanfodol o dystiolaeth ar gyfer ymchwiliadau, ymholiadau ac achosion llys.

Dylai cofnodion fod:

- Mewn iaith glir, syml;
- Wedi'u llofnodi, gan nodi'r dyddiad a'r amser;

- Yn gryno, yn hawdd i'w darllen ac yn cydymffurfio â safonau a gofynion proffesiynol, cenedlaethol a lleol asiantaethau;
- Yn ffeithiol gywir gan wahaniaethu rhwng ffaith, barn, dyfarniad a hypothesis;
- Wedi'u trefnu'n dda ac yn cynnwys cofnodion manwl yn ôl trefn amser, a chrynodebau, gan restru pob cyswllt;
- Yn gynhwysfawr;
- Yn cofnodi pob dyfarniad, gweithred a phenderfyniad yn glir;
- Yn ei gwneud hi'n glir pan mae amryw o asiantaethau wedi dod i benderfyniad ar y cyd, neu os yw rheolwr wedi cadarnhau penderfyniad;
- Yn cofnodi trafodaethau ffurfiol ac anffurfiol gyda goruchwylwyr, yn cynnwys cyngor dros y ffôn;
- Yn cofnodi cyfarwyddiadau a sefyllfaoedd lle mae gweithiwr yn cytuno neu'n anghytuno ar ôl ymgynghori â goruchwylwyr neu reolwyr.

Dylai fod yn bosib i'r darllenydd olrhain:

- Hanes perthnasol y plentyn a'r teulu a arweiniodd at y broses ymyrraeth;
- Natur yr angen a'r ymyriadau, yn cynnwys y canlyniadau oedd wedi'u bwriadu;
- Y dull fydd yn cael ei ddefnyddio i sicrhau newid;
- Y cynnydd sy'n cael ei wneud;
- Yr awdur, a dyddiad ac amser y cofnod penodol.

Pan mae gweithiwr unigol neu broffesiynol sy'n gweithio gyda phlant mewn angen yn absennol o'r swyddfa, waeth beth yw'r rheswm, dylai'r rheolwr ofalu bod trefniadau ar gyfer gwirio holl ohebiaeth bapur ac electronig y gweithiwr.

2.4 Rôl y gwahanol asiantaethau

Disgrifia'r ddogfen *Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004* rôl yr asiantaethau partner a'r mudiadau gwirfoddol, a'u cyfrifoldebau o ran diogelu a hybu lles plant.

2.4.1 Goruchwylio

Dylai pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio ym maes amddiffyn plant gael ei oruchwylio'n briodol. Dylai pob asiantaeth fod â pholisi a threfn oruchwylio

ffurfiol. Dylai'r broses o oruchwylio staff helpu i ofalu bod arferion yn gadarn ac yn gyson â *Chanllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan*. Dylai goruchwylio ofalu hefyd fod unrhyw benderfyniadau pwysig a chanllawiau sy'n digwydd wrth oruchwylio'n cael eu cofnodi'n glir mewn ffeiliau achos.

RHAN 3

3. Y Broses Amddiffyn Plant

3.1 Crynodeb

Ym mhob cam o'r broses amddiffyn plant rhaid ystyried a yw plentyn ar fin cael ei niweidio a ph'un ai oes angen gwneud rhywbeth ar frys i'w amddiffyn.

Dyma chwe cham y broses amddiffyn plant:

- **Atgyfeirio:** Bydd y sawl sy'n derbyn yr atgyfeiriad yn y gwasanaethau cymdeithasol yn cofnodi'r manylion llawn ar y ffurflen addas a bydd yn gofyn am fwy o wybodaeth. Dylid hysbysu'r heddlu cyn gynted â phosib os oes amheuaeth fod rhywun wedi troseddu yn erbyn plentyn.
- **Asesiad Cychwynnol:** Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn gwneud asesiad cychwynnol i asesu a yw plentyn mewn angen ac a oes angen ei amddiffyn. Dylid cwblhau'r asesiad o fewn saith diwrnod gwaith. Efallai y bydd angen cynnal trafodaeth strategaeth ar ôl yr asesiad hwn. Rhaid i'r sawl sy'n cwblhau'r asesiad weld y plentyn a siarad neu gyfathrebu gydag e. Rhaid iddo fodloni'i hun fod y plentyn yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel. Efallai y bydd yr asesiad cychwynnol yn fyr iawn, a gall arwain yn syth at drafodaeth neu gyfarfod strategaeth a/neu asesiad craidd.
- **Trafodaeth Strategaeth:** Ar ôl cwblhau'r asesiad craidd, efallai y bydd penderfyniad i gynnal trafodaeth strategaeth. Dylai'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol rannu a thrafod yr holl wybodaeth sydd ar gael, a thrafod gyda gweithwyr proffesiynol neu asiantaethau eraill os yw hynny'n briodol. Os oes pryderon dwys ynglŷn â phlentyn gallant benderfynu ar y camau nesaf o fewn 24 awr neu ar unwaith.
- **Cyfarfod Strategaeth:** Gallai trafodaeth strategaeth gytuno bod angen cynnal cyfarfod strategaeth. Mae angen i'r bobl ganlynol ddod i gyfarfod strategaeth: staff yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol, yr aelod staff neu'r gweithiwr proffesiynol a atgyfeiriodd yr achos, aelodau eraill o staff a gweithwyr proffesiynol a allai gynorthwyo yn y broses o gynllunio ymholiadau amddiffyn y plentyn, os oes bwriad i wneud y fath ymholiadau. Dylid cynnal y cyfarfod cyn gynted â phosib ond o fewn wyth diwrnod gwaith fan bellaf i'r dyddiad y derbyniwyd yr atgyfeiriad.
- **Ymholiadau Amddiffyn Plant dan Adran 47 gan y Gwasanaethau cymdeithasol a/neu'r heddlu:** Rhaid penderfynu yn ystod y drafodaeth neu'r cyfarfod strategaeth ai un asiantaeth fydd yn gwneud yr ymholiadau dan adran 47, neu a fydd yn ymholiad ar y cyd. Dibynna hyn ar natur a difrifoldeb y gamdriniaeth. Dylid cofnodi'r wybodaeth

sy'n cael ei chasglu yn ystod y cam ffurfiol hwn o'r ymholiadau yn yr asesiad craidd. Gellir cychwyn yr asesiad craidd cyn y gynhadledd amddiffyn plant, ond mae'n annhebygol y bydd wedi'i gwblhau cyn y gynhadledd.

- **Cynhadledd Amddiffyn Plant:** gellir cynnal cynhadledd amddiffyn plant a pahratoi a gweithredu cynllun amddiffyn plant yn syth ar ôl yr ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47. Bydd yr asesiad craidd yn sylfaen i'r cynllun amddiffyn plant ac yn fodd i'w ddiweddaru. Mae'r asesiad craidd yn cael ei gwblhau ar yr un pryd â'r ymholiadau dan adran 47.

Dylid cofnodi'r chwe cham ar ffurflen enghreifftiol berthnasol y System Integredig ar gyfer Plant.

3.2 Pan ddaw'r atgyfeiriad i law

Rhaid i'r gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu sicrhau bod digon o staff wedi'u hyfforddi ar gael i ddelio ag ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47, yn cynnwys tu allan i oriau gwaith arferol.

Rhaid trin unrhyw atgyfeiriadau sy'n honni bod plentyn wedi cael ei gam-drin neu mewn perygl o gael ei gam-drin yn ddifrifol. Rhaid i'r awdurdod lleol lle mae'r plentyn yn byw, wedi'i leoli neu wedi'i ddarganfod fynd ati'n syth i wneud ymholiadau (cyfeiriwch at 3.2.4).

Rhaid trin pob atgyfeiriad yn yr un ffordd, p'un ai yw'r gamdriniaeth honedig wedi digwydd o fewn y teulu neu tu allan iddo, a hefyd waeth pwy syn atgyfeirio neu os ydy'r atgyfeiriad yn ddienw.

3.2.1 Beth i'w wneud

- Dylid rhoi gwybod am yr atgyfeiriad ar unwaith i'r rheolwr perthnasol yn y gwasanaethau cymdeithasol. Dylai'r sawl sy'n derbyn yr atgyfeiriad ei gofnodi, a cheisio casglu a chofnodi'r wybodaeth dilynol gan yr atgyfeiriwr gan ddefnyddio'r ffurflen enghreifftiol o'r System Integredig ar gyfer Plant a chofnodi'r dyddiad, amser a dull cyfeirio:

- Enw a chyfeiriad y sawl sy'n rhoi'r wybodaeth sy'n sail i'r atgyfeiriad. Rhaid cofnodi a yw'n oedolyn neu'n blentyn. Nid oes hawl gan weithiwr proffesiynol sy'n gwneud atgyfeiriad aros yn ddienw, ond gall aelodau o'r cyhoedd a gwirfoddolwyr fod yn ddi-enw os dymunant;

- Perthynas y sawl sy'n atgyfeirio i'r plentyn, a/neu enw'r asiantaeth mae'r sawl sy'n atgyfeirio'n gweithio iddi;

- A yw'r rhiant neu'r un sy'n rhoi gofal yn gwybod bod yr atgyfeiriad yn cael ei wneud;

- Enw, oedran a chyfeiriad y camdriniwr honedig neu'r sawl sy'n cael ei amau o gam-drin. Holwch a yw'n gwybod am yr atgyfeiriad;

- Manylion am natur y gamdriniaeth sy'n cael ei honni neu ei hamau, neu am y pryderon cyffredinol;
- Enw, dyddiad geni a chyfeiriad y plentyn dan sylw, a manylion unrhyw blant eraill sy'n byw yn yr un cartref a'u lleoliad/cyfeiriad ar hyn o bryd;
- Enwau, cyfeiriadau a dyddiadau geni unrhyw blant eraill a allai fod wedi dod i gysylltiad â'r sawl sy'n cael ei amau o gam-drin;
- Enw, oedran a chyfeiriad y sawl sydd â gwybodaeth uniongyrchol am y gamdriniaeth sy'n cael ei honni neu ei hamau;
- Manylion am y dyddiad, yr amser a'r lle y mae'r gamdriniaeth i fod wedi digwydd;
- Enw, oedran a chyfeiriad rhiant y plentyn neu'r prif berson sy'n rhoi gofal iddo. Rhaid enwi hefyd yr holl bobl sydd â chyfrifoldeb rhiant;
- Enwau ac oedrannau pawb arall sy'n byw yn yr un cartref p'un a ydyn nhw'n oedolion neu'n blant;
- Manylion unrhyw aelodau pwysig o'r teulu sydd ddim yn byw yn yr un cartref â'r plentyn;
- Enw, oedran a chyfeiriad unrhyw un arall sy'n amlwg yn gwybod am y gamdriniaeth sy'n cael ei honni neu ei hamau;
- Gwybodaeth am unrhyw archwiliad meddygol a gafodd y plentyn yn ddiweddar, ac enw'r sawl a wnaeth yr archwiliad;
- Enw a chyfeiriad meddyg teulu, ymwelydd iechyd neu nyrs ysgol y plentyn, a manylion unrhyw weithiwr proffesiynol arall sy'n ymwneud â'r teulu, yn cynnwys y rhieni;
- Enw a chyfeiriad ysgol y plentyn;
- Tarddiad ethnig, crefydd a dewis iaith y plentyn;
- **Disgrifiad cryno o ymddangosiad y plentyn** i helpu'r person sy'n gwneud ymweliad cychwynnol i deimlo'n siŵr ei fod yn gweld y plentyn cywir;
- **Unrhyw anawsterau cyfathrebu sydd gan y plentyn.** Dylid cofnodi manylion llawn am natur yr anawsterau cyfathrebu er mwyn gallu cynllunio'r ymholiadau cychwynnol;
- Unrhyw wybodaeth arall a allai fod yn berthnasol i'r achos.

Rhaid cofnodi mor llawn a chywir â phosib unrhyw wybodaeth am y gamdriniaeth sy'n cael ei honni neu ei hamau, gan ddilyn y canllawiau yma. Hwn yw cam cyntaf y broses asesu. Lle bynnag y bo'n bosib, dylai'r swyddog sy'n derbyn yr atgyfeiriad ddarllen y cofnod ysgrifenedig yn ôl i'r sawl sy'n

atgyfeirio'r achos. Rhaid darllen hefyd unrhyw ddehongliad o'r wybodaeth a gafwyd.

Ar ôl i'r atgyfeiriad ddod i law, rhaid i'r gweithiwr cymdeithasol neu'r swyddog ar ddyletswydd wirio cofnodion y gwasanaethau cymdeithasol, yn cynnwys y gofrestr amddiffyn plant. Pwrpas gwneud hyn yw dod o hyd i unrhyw wybodaeth sydd ar gael yn barod am y plentyn. Rhaid gwirio am wybodaeth am y plentyn ei hun ac am wybodaeth am y plant a'r oedolion eraill sy'n byw yn y cartref. Rhaid chwilio hefyd am wybodaeth am y sawl sy'n cael ei amau o gam-drin, p'un ai yw'n blentyn neu'n oedolyn. Rhaid i'r broses o chwilio mewn cronfeydd data am enwau oedolion fod yr un mor hwylus â chwilio am enwau plant.

Pryd bynnag y bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn cael gwybod am honiad sy'n cyfrif neu a allai gyfrif fel trosedd yn erbyn plentyn, rhaid hysbysu'r heddlu cyn gynted â phosib.

Hyd yn oed os nad yw'r wybodaeth i gyd ar gael yn syth, fe ddylai'r drafodaeth strategaeth fynd yn ei blaen.

Mae angen i'r atgyfeiriwr gadarnhau'r wybodaeth yn ysgrifenedig o fewn dau ddiwrnod gwaith.

3.2.2 Atgyfeiriadau tu allan i oriau arferol swyddfa

Y tu allan i oriau craidd swyddfeydd, gellir atgyfeirio achos at y gwasanaeth y tu allan i oriau neu dîm dyletswydd argyfwng y gwasanaethau cymdeithasol, neu at yr heddlu. Bydd staff y tim gwasanaethau cymdeithasol tu allan i oriau'n trosglwyddo pob atgyfeiriad (yn ysgrifenedig ac yn llafar os yn bosib) i reolwr perthnasol y gwasanaethau cymdeithasol ar y diwrnod canlynol. Bydd hefyd yn disgrifio yr hyn gafodd ei wneud. Wrth dderbyn yr atgyfeiriad, rhaid i'r gweithiwr cymdeithasol neu swyddog yr heddlu ystyried a oes arwyddion o berygl buan i ddiogelwch y plentyn neu blant eraill. Rhaid iddynt fod yn barod i weithredu ar frys i ddiogelu'r plentyn neu'r plant, gan gynnwys trefnu unrhyw sylw meddygol angenrheidiol. Os yw natur yr atgyfeiriad yn ddifrifol ac yn gofyn am ymateb ar unwaith, yna rhaid i'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol weithredu gyda'i gilydd mewn ffordd addas gan ddilyn y canllawiau yma heb unrhyw oedi.

Dylai gweithiwr cymdeithasol y gwasanaeth tu allan i oriau neu'r tîm dyletswydd argyfwng wirio'r gofrestr amddiffyn plant i weld a oes gwybodaeth ynddi am y plentyn. Dylai hefyd wneud unrhyw wiriadau eraill sy'n bosib y tu allan i oriau, gan gofio y gall rhain fod yn gyfyngedig.

Ond, ni ddylai'r ffaith nad yw'n bosib gwirio'n drwyadl rwystro'r swyddog rhag mynd ati i ddiogelu'r plentyn.

Pan mae pryderon yn codi tu allan i oriau gwaith arferol fod plentyn yn cael ei niweidio'n fwriadol, dylai'r heddlu neu wasanaeth y tîm dyletswydd argyfwng ofalu fod y naill asiantaeth yn rhoi gwybod am yr atgyfeiriad i'r llall, waeth pa

un a dderbyniodd yr atgyfeiriad yn y lle cyntaf. Dylai'r ddwy asiantaeth benderfynu ar y cyd sut mae mynd ati i ddiogelu'r plentyn ac unrhyw blant eraill ar unwaith. Dylai hyn gynnwys cynnal trafodaeth strategaeth sy'n cofnodi'r gweithredu sy'n cael ei gytuno ac enw'r sawl sy'n gyfrifol am wneud y gwaith. Y tu allan i oriau, efallai mai gweithiwr cymdeithasol y tîm dyletswydd argyfwng ac un o uwch swyddogion yr heddlu fydd yn mynd ati i gynnal trafodaeth strategaeth. Dylai'r tîm dyletswydd argyfwng lenwi'r dogfennau sy'n berthnasol dan brotocolau'r ardal.

3.2.3 Hysbysu'r sawl sy'n atgyfeirio

Rhaid hysbysu unrhyw un sy'n atgyfeirio achos o gam-drin plentyn mai'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol ar y cyd, neu'r naill asiantaeth yn gweithio ar ei phen ei hun, a fydd yn gwneud yr ymholiadau dilynol. Rhaid dweud wrth y sawl sy'n atgyfeirio hefyd sut y bydd yn cael gwybod am ganlyniadau'r atgyfeiriad, ac y bydd hynny'n cael ei wneud mewn ffordd sy'n parchu cyfrinachedd y plentyn a'r teulu.

Cyfrifoldeb y gweithiwr cymdeithasol neu reolwr y tîm gwaith cymdeithasol sydd ar ddyletswydd yw hysbysu'r atgyfeiriwr o fewn 10 diwrnod gwaith fan bellaf beth fydd yn cael ei wneud.

Gan barchu cyfrinachedd y plentyn a'r teulu, dylid hysbysebu'r atgyfeiriwr achos am yr hyn sydd wedi cael ei wneud. Dylid dweud wrtho/wrthi sut mae'r plentyn yn cael ei ddiogelu a pha mor briodol oedd atgyfeirio'r achos.

3.2.4 Materion sy'n croesi ffiniau

Pan ddaw honiad o gamdriniaeth gan neu ynglyn â phlentyn sy'n cael ei ddarganfod yn byw y tu allan i'r awdurdod gwreiddiol, yr awdurdod lle cafodd y plentyn ei ddarganfod ar yr adeg y gwnaeth y gwyn a fydd yn cynnull cyfarfod strategaeth cychwynnol.

Rhaid hysbysu'r reolwyr perthnasol o'r gwasanaethau cymdeithasol am yr atgyfeiriad, heb unrhyw oedi. Rhaid trefnu'r cyfarfod strategaeth (neu'r drafodaeth strategaeth os yw pellter yn creu problemau) fel gall cynrychiolwyr ddod o'r awdurdod gwreiddiol a'r awdurdod lle'r oedd y gamdriniaeth i fod wedi digwydd, os yw'n wahanol i'r awdurdod lle y cafodd y plentyn ei ddarganfod ar adeg y gwyn. Bydd y cyfarfod strategaeth yn penderfynu pa un o'r awdurdodau fydd yn gyfrifol am ymchwilio i'r gwyn, er mai'r drefn arferol yw i'r ymchwiliad gael ei arwain gan yr awdurdod lle'r bu'r digwyddiad. Bydd y cyfarfod strategaeth yn penderfynu hefyd sut bydd yr awdurdodau perthnasol eraill yn cyfrannu at yr ymchwiliad.

Rhaid cofnodi'r penderfyniad yn glir a'r rhesymau dros ei wneud. Bwriad clir y penderfyniad yw amddiffyn y plentyn.

(Cyfeiriwch hefyd at 3.5.1.1 a 4.4)

Blwch 4: Rheoli systemau dyletswydd ac atgyfeirio

- O ddydd i ddydd, dylid cael rheolwyr cymwys a phrofiadol i reoli a goruchwylio'r drefn ddyletswydd mewn ffordd glir. Rhaid i'r rheolwyr allu mynd at systemau sy'n dangos yn syth faint o blant a gafodd eu hatgyfeirio at eu tîm, beth oedd rhaid ei wneud ar gyfer pob plentyn, pwy oedd yn gyfrifol, a chofnod o'r dyddiad y daeth y gweithredu i ben.
- Rhaid i brif weithredwyr cynghorau fodloni eu hunain fod uwch reolwyr a chynghorwyr yn ymweld yn rheolaidd â thimau dyletswydd. Rhaid i'w sylwadau gael eu trosglwyddo i'r prif weithredwr ac i gyfarfod addas o'r cynghorwyr sy'n gyfrifol am graffu ac am oruchwylio'r gwasanaethau plant.
- Cyfrifoldeb y rheolwr ar ddyletswydd yw goruchwylio'r holl achosion sy'n cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth, gofalu eu bod yn cael eu blaenoriaethu yn ôl canllawiau gweithredu clir, a bod staff sydd wedi'u henwi'n cael cyfarwyddiadau clir ynghylch gweithredu.

Wrth ddosbarthu gwaith, rhaid i'r rheolwr ar ddyletswydd ofalu bod y gweithiwr cymdeithasol yn deall yn glir beth yw pwrpas y gwaith, gwybod beth sydd rhaid iddo wneud, a bod trefniadau ar gyfer adolygu a goruchwylio. Pan fydd ymarferwyr yn ymweld â phlentyn, rhaid i reolwyr ofalu eu bod nhw'n deall pwrpas yr ymweliad a'r canlyniadau sydd angen eu cyflawni ar gyfer y plentyn.

3.2.5 Siart llif 1: Atgyfeirio



3.3 Yr Asesiad Cychwynnol

3.3.1 Pwrpas a chwmpas yr asesiad cychwynnol

Bydd yr asesiad cychwynnol yn penderfynu a yw plentyn mewn angen, ac a oes angen ei amddiffyn. Dylid cwblhau'r asesiad cychwynnol cyn gynted â phosib ac yn bendant cyn pen saith diwrnod gwaith i'r dyddiad y derbyniwyd yr atgyfeiriad. Gallai gymryd llai o amser na hyn. Canolbwynt yr asesiad cychwynnol yw diogelwch a lles y plentyn. Hyd yn oed os mai'r rheswm dros atgyfeirio'r achos yw pryder fod y plentyn yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso ac mae'r pryder hwnnw'n ddi-sail yn y pen draw, gallai teulu elwa ar dderbyn cefnogaeth a help ymarferol i hybu iechyd a datblygiad plentyn. Os bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn gweld wrth wneud asesiad nad yw plentyn oedran ysgol yn mynd i'r ysgol, mae angen iddynt hysbysu'r awdurdod addysg. Yn y cyfamser, dylid gofalu bod y plentyn yn cael digon o ofal a goruchwyliaeth yn ystod y dydd.

Rhaid i'r asesiad cychwynnol gynnwys cyfle i weld a siarad neu gyfathrebu gyda'r plentyn. Rhaid i'r sawl sy'n gwneud yr asesiad fodloni'i hun fod y plentyn yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel.

Pan dderbynir atgyfeiriad ynglŷn â phlentyn sy'n adnabyddus i'r gwasanaethau cymdeithasol, efallai bydd llawer o wybodaeth eisoes ar gael. Rhaid i bob penderfyniad sy'n dilyn atgyfeiriad newydd roi sylw i'r wybodaeth sydd eisoes ar gael ynghyd â'r gwaith sydd ar y gweill.

Mae penderfyniad i gasglu mwy o wybodaeth yn cyfrif fel asesiad cychwynnol.

Mae'r adeg y derbyniwyd yr atgyfeiriad yn cyfrif fel dechrau'r asesiad cychwynnol. Gall cyfnod yr asesiad cychwynnol fod yn fyr iawn os oes angen trafodaeth strategaeth a gwneud ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47.

3.3.2 Cydsyniad rhieni

Mae hysbysu rhieni fod eu plentyn wedi cael ei atgyfeirio am resymau amddiffyn plant yn arfer da, oni bai mai'r farn broffesiynol yw y byddai gwneud hynny'n rhoi'r plentyn mewn perygl o gael rhagor o niwed. Fel arfer, un o reolwyr y gwasanaethau cymdeithasol sy'n gyfrifol am reoli atgyfeiriadau amddiffyn plant fydd yn penderfynu ai dyma'r adeg i hysbysu'r rhieni ai peidio.

Y brif ystyriaeth bob tro yw diogelu a hybu lles y plentyn. Os oes materion amddiffyn plant wedi codi a allai gynyddu'r perygl i'r plentyn, gallai'r heddlu a/neu'r gwasanaethau cymdeithasol wneud ymholiadau amddiffyn plant a siarad gyda'r plentyn ei hun, heb roi gwybod am yr honiadau i'r rhiant neu'r un sy'n rhoi gofal. Ymhlith yr amgylchiadau eraill lle y byddai'n bosib gwneud ymholiadau heb hysbysu'r rhiant yw'r posibilrwydd fod y plentyn yn cael ei

fygwth neu ei orfodi; pryder y gallai tystiolaeth bwysig fynd ar goll; neu bod y plentyn yn dymuno i'w rieni beidio gwybod. Ond, cyn atal y fath wybodaeth, rhaid sicrhau bod gan y plentyn y gallu cymwys i wneud y penderfyniad. Os oes unrhyw amheuaeth ynglŷn â mynd at y rhieni i ofyn iddyn nhw gydsynio, mae'n well peidio â mynd atyn nhw. Rhaid cofnodi'r penderfyniadau ynglŷn â chydsynio. (Os yw'r atgyfeiriad/ymholiadau ynglŷn â phlentyn mewn angen, rhaid gofalu bod y rhieni'n cydsynio.)

3.3.3 Gofyn i asiantaethau eraill am wybodaeth

Dylai'r gweithiwr cymdeithasol sy'n cyd-drefnu'r asesiad cychwynnol ofyn i asiantaethau eraill am wybodaeth. Dylai'r gweithiwr cymdeithasol wneud natur a phwrpas y cais yn glir, a chofnodi'r cais a'r ymateb yn ysgrifenedig.

Diogelwch y plentyn sy'n cael blaenoriaeth dros yr angen i barchu cyfrinachedd proffesiynol. Cyfrifoldeb pob asiantaeth neu weithiwr proffesiynol yw cyfrannu'r holl wybodaeth berthnasol pan ddaw cais amdani, nid rhoi'r 'uchafbwyntiau' yn unig.

Os yw'r plentyn a'r teulu wedi byw dramor, dylid gofyn i'r asiantaethau perthnasol am wybodaeth. Dylai gweithwyr proffesiynol asiantaethau fel gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu ofyn am y wybodaeth hon gan yr asiantaethau sy'n cyfateb iddyn nhw yn y wlad neu'r gwledydd mae'r plentyn wedi byw ynddyn nhw. Mae gwybodaeth am bwy i gysylltu â nhw ar gael o'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad ar 0207 008 15000 (http://www.fco.gov.uk) neu'r Llysgenhadaeth neu Swyddfa'r Is-Gennad priodol. Efallai fod modd cael gwybodaeth gan y 'Gwasanaethau Cymdeithasol Rhyngwladol' hefyd. (Mae gwybodaeth fanwl am y bobl i gysylltu â nhw yn Atodiad D y ddogfen Ddiogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004.)

3.3.4 Cwblhau'r asesiad cychwynnol

Bydd y wybodaeth sy'n cael ei chasglu wrth wneud asesiad cychwynnol yn sylfaen i'r broses o ddadansoddi'r hyn sy'n peri pryder ac yn rhan o drafodaeth neu gyfarfod strategaeth neu ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47. Bydd y wybodaeth yn helpu penderfynu a yw plentyn mewn angen ac a oes angen cyngor, cefnogaeth neu wasanaethau arno. Bydd hefyd yn sail i asesiad craidd. Dylai'r asesiad cychwynnol gynnwys:

- Cyfweliadau gyda'r plentyn ac aelodau o'r teulu, fel sy'n briodol;
- Gofyn i asiantaethau eraill am wybodaeth
- Ystyried a oes angen gwneud archwiliad meddygol;
- Cofnod o'r dadansoddi cychwynnol, a dadansoddiad o'r wybodaeth hanesyddol;
- Penderfyniad ynglŷn ag unrhyw weithredu pellach, a beth i'w wneud os oes gweithredu i fod;

- Cofnod o'r penderfyniadau, a'r rhesymau dros eu gwneud;
- Rhoi gwybod am y penderfyniadau i asiantaethau eraill;
- Datganiad o'r penderfyniad i'r teulu ac, os yw plentyn mewn angen, y cynllun ar gyfer cynnig cefnogaeth.

Blwch 5: Cynnwys plant o'r dechrau

- Yn aml iawn, mae gan blant ddarlun clir iawn o'r hyn sydd angen ei wneud i'w diogelu ac i sicrhau eu lles;
- Dylid helpu plant i ddeall sut mae canllawiau amddiffyn plant yn gweithio, sut y gellir eu cynnwys yn y broses a chyfrannu at y penderfyniadau ynglŷn â'u dyfodol;
- Dylid rhoi gwybodaeth i blant am y ffordd y gallan nhw gael gwasanaethau eiriolaeth a mynd at ffynonellau eraill o gymorth;
- Dylid gwrando ar blant ym mhob cam o'r broses amddiffyn plant a'u hysbysu mewn ffordd briodol am y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud;
- Dylid ystyried ar bob adeg diogelwch brys y plentyn ac unrhyw blant eraill. Gofalwch fod y plentyn yn cael ei weld gan weithiwr cymdeithasol all asesu'r sefyllfa a chymryd unrhyw gamau brys angenrheidiol i'w amddiffyn.

Blwch 6: Cynnwys aelodau o'r teulu

- Archwiliwch gydag aelodau teulu sut y gellir eu cynnwys yn y broses asesu gan ddefnyddio dulliau amrywiol.
- Mae gweithio mewn partneriaeth gydag un neu fwy o aelodau'r teulu'n debygol o arwain at well ganlyniadau ar gyfer y plentyn yn y tymor hir.
- Gwrandewch yn ofalus ar yr hyn mae rhieni'n dweud, a chynigiwch gyngor, cefnogaeth a gwasanaethau os ydyn nhw'n briodol.
- Cofiwch roi sylw i gryfderau teulu yn ogystal â'i anawsterau.
- Cofiwch hysbysu rhieni am bwrpas a chynnydd y drefn asesu. Rhowch wybodaeth ysgrifenedig iddyn nhw.
- Gofalwch fod rhieni'n deall mai diogelu'r plentyn yw ystyriaeth gyntaf y gweithiwr cymdeithasol.
- Rhowch gyfle i'r rhieni ysgrifennu eu barn fel rhan o'r cofnod asesu.
- Rhowch daflenni a gwybodaeth hawdd eu deall i'r plentyn a'r rhieni.

Mae'r asesiad cychwynnol yn rhoi sylw i'r cwestiynau sy'n dilyn:

- A yw'r plentyn mewn angen?
- Os yw, beth yw anghenion y plentyn?
- A oes achos rhesymol i amau bod y plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed arwyddocaol?
- A yw'r rhieni'n gallu ymateb yn addas i anghenion y plentyn?
- A yw'r plentyn yn cael ei ddiogelu'n ddigonol rhag dioddef niwed arwyddocaol ac a yw'r rhieni'n gallu hybu iechyd a datblygiad eu plentyn?
- A oes angen gwasanaethau ar y plentyn?
- A oes angen gweithredu i ddiogelu a hybu lles y plentyn a lles unrhyw blant eraill a allai fod wedi dod i gysylltiad â'r camdriniwr honedig?

Blwch 7: Asesiad Cychwynnol ac Ymholiadau:

Deg problem a sut i'w hosgoi

1. Peidio â rhoi digon o bwys ar wybodaeth gan deulu, cyfeillion a chymdogion. Gofynnwch i'ch hunan: Fyddwn i wedi ymateb yn wahanol pe bai'r adroddiadau wedi dod gan rywun gwahanol? Sut gallaf i wirio a oes sail i'r adroddiadau ai peidio? Hyd yn oed os nad ydyn nhw'n gywir, ydyn nhw'n arwydd bod angen rhyw fath o help neu gefnogaeth ar y teulu?

2. Peidio â rhoi digon o sylw i'r hyn mae plant yn ei ddweud, eu hymddangosiad a'u hymddygiad. Gofynnwch i'ch hunan: A gefais i ddigon o gyfle i weld pob un o blant y teulu? Os fethais i â gweld plentyn, oes rheswm da iawn pam? Ydw i wedi trefnu i'w weld cyn gynted â phosib, neu wedi gofalu bod gweithiwr proffesiynol arall yn ei weld? Sut ddylwn i fynd ar ôl unrhyw anesmwythdra ynglŷn ag iechyd neu les y plentyn? Os yw'r plentyn yn ddigon hen ac mae'r sgiliau cyfathrebu ganddo, beth yw ei fersiwn e o'r digwyddiadau? Os yw'r plentyn yn defnyddio iaith arall heblaw Cymraeg neu Saesneg, neu fath arall o gyfathrebu di-eiriau, ydw i wedi gwneud digon i gael help rhywun arall i'w ddeall? Pa dystiolaeth sy'n profi neu'n gwrthbrofi fersiwn y person ifanc?

3. Rhoi gormod o sylw i'r problemau mwyaf amlwg neu ddwys heb weld arwyddion rhybudd eraill. Gofynnwch i'ch hunan: Beth yw'r peth mwyaf trawiadol am y sefyllfa hon? Pe bai'r nodwedd hon yn cael ei

dileu neu ei newid, a fyddwn i'n dal i bryderu?

4. Mae pwysau gan uwch swyddogion neu'r wasg, sy'n mynegi pryder y gallai plentyn farw, yn arwain at wneud pethau'n fyrbwyll. Gofynnwch i'ch hunan: A fyddwn i'n trin yr atgyfeiriad hwn fel mater amddiffyn plant pe bai rhywun arall wedi sôn amdano?

5. Mae gweithwyr proffesiynol yn cymryd yn ganiataol eu bod nhw wedi esbonio rhywbeth yn glir a bod y person arall wedi'i ddeall. Gofynnwch i'ch hunan: Ydw i wedi gwneud yn siŵr bod y teulu a'r plentyn/plant yn deall beth fydd yn digwydd nesa?

6. Mae rhagdybio a rhagfeirniadu teuluoedd yn arwain at anwybyddu neu gamddehongli arsylwadau. Gofynnwch i'ch hunan: Pa dystiolaeth gadarn, os oes tystiolaeth o gwbl, sy'n gwrthbrofi'r arsylwadau? Sut mae ffactorau eraill yn cadarnhau neu'n gwrth-ddweud honiad neu bryder?

7. Mae ymddygiad rhieni, p'un a ydyn nhw'n cydweithredu ai peidio, yn cael ei gamddehongli. Gofynnwch i'ch hunan: Beth oedd y rhesymau dros ymddygiad y rhieni? Oes posibiliadau eraill heblaw'r rhai amlwg? Oedd eu hymddygiad yn ymateb i rywbeth a wnes i neu a ddywedais i yn hytrach na rhywbeth yn ymwneud â'r plentyn? A yw'r ymddygiad yn dilyn straen neu bryder ynglŷn â sail fy ymholiadau i?

8. Pan mae'r ymholiad cychwynnol yn dangos nad yw'r plentyn mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol, nid yw'r teulu'n cael ei atgyfeirio at wasanaethau eraill y maen nhw eu hangen er mwyn osgoi problemau yn y tymor hir. Gofynnwch i'ch hunan: A yw sefyllfa'r teulu'n foddhaol i ddiwallu anghenion y plentyn? P'un ai oes pryderon amddiffyn plant ai peidio, oes angen cefnogaeth neu help ymarferol ar y teulu? Sut gallaf i roi gwybod iddyn nhw am wasanaethau mae ganddyn nhw hawl i'w cael ac y gallan nhw ddewis eu defnyddio?

9. Pan mae teulu'n ymosodol neu'n codi ofn, mae gweithwyr proffesiynol yn amharod i drafod eu pryderon am eu diogelwch eu hunain a gofyn am help. Gofynnwch i'ch hunan: Oeddwn i'n teimlo'n ddiogel yn y cartref hwn? Os nad oeddwn i, pam? Os oes angen i mi neu weithiwr proffesiynol arall fynd yn ôl yno i ofalu am ddiogelwch y plant, pa gymorth dylwn i ofyn amdano? Os oes angen, ysgrifennwch at eich rheolwr ynglŷn â'ch pryderon.

10. Nid yw gwybodaeth o'r ymholiad cyntaf yn cael ei chofnodi'n ddigon da, nid yw ffeithiau'n cael eu gwirio ac nid yw'r rhesymau dros wneud penderfyniad yn cael eu nodi. Gofynnwch i'ch hunan: Ydw i'n siŵr bod y wybodaeth rwyf wedi'i nodi'n gwbl gywir? Os na wnes i wirio fy nodiadau gyda'r teulu yn ystod y cyfweliad, beth ddylwn i ei wneud i'w cadarnhau? Ydi fy nodiadau'n dangos yn glir y gwahaniaeth rhwng y wybodaeth a gefais i gan y teulu, fy arsylwadau uniongyrchol i, a fy nehongliad neu asesiad o'r sefyllfa?

3.3.5 Cwblhau'r asesiad cychwynnol a'r canlyniadau posib

Ar ôl cwblhau'r asesiad cychwynnol, rhaid penderfynu beth i'w wneud nesaf. Rhaid i staff priodol y gwasanaethau cymdeithasol sy'n gyfrifol am amddiffyn plant wneud y penderfyniad hwn, ar ôl ymgynghori â'r heddlu. Wrth benderfynu, rhaid iddyn nhw roi sylw i ganlyniadau'r asesiad cychwynnol. Os oes digon o bryder bod plentyn mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol, dylid trefnu trafodaeth strategaeth cyn gynted â phosib, ac o fewn 24 awr fan bellaf i'r adeg y gwnaed y penderfyniad.

Efallai y bydd asesiad craidd yn cael ei gychwyn ar unwaith.

Rhaid cofnodi'n glir y penderfyniad am beth fydd yn digwydd nesaf, y rhesymau dros y penderfyniad, a'r gweithredu dilynol. Rhaid i'r person a wnaeth y penderfyniad lofnodi'r cofnod.

Dylid trafod gyda'r plentyn a'r teulu beth fydd yn digwydd nesaf, oni bai fod y rheolwr sy'n gyfrifol yn teimlo y byddai'r fath drafodaeth yn rhoi'r plentyn mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol. Rhaid i'r gwasanaethau cymdeithasol gofnodi'r penderfyniad yma a'u rhesymau dros ei wneud.

Gall canlyniadau'r asesiad cychwynnol fod yn un neu fwy o'r posibiliadau sy'n dilyn:

- Dim rhagor o weithredu;
- Cynnig gwasanaethau i blentyn fel plentyn mewn angen dan adran 17 Deddf Plant 1989;
- Mynd ati i wneud asesiad craidd;
- Cynnal trafodaeth neu gyfarfod strategaeth i benderfynu a oes gofyn gwneud ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47;
- Gweithredu ar frys wedi'i gynllunio os yw bywyd plentyn mewn perygl neu fod gwir berygl y bydd y plentyn yn cael niwed ar unwaith. Dylai'r fath weithredu, pan fo hynny'n bosib, ddigwydd ar ôl cyfarfod strategaeth. Ond, yn yr achosion lle mae'n rhaid i'r heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol weithredu ar unwaith i amddiffyn plentyn, dylid cynnal cyfarfod strategaeth cyn gynted â phosib ar ôl y fath weithredu i gynllunio'r camau nesaf.

3.3.6 Siart llif 2: gweithredu yn dilyn asesiad cychwynnol



3.4 Y Drafodaeth Strategaeth

3.4.1 Cwmpas a phwrpas y drafodaeth strategaeth

Pwrpas y drafodaeth strategaeth yw rhannu'r wybodaeth a gafodd ei chasglu hyd yma, a'i thrafod yn fanwl yng nghyd-destun natur y pryderon. Rhaid penderfynu a oes angen cychwyn ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47, neu parhau ag ymholiadau os oes rhai eisoes wedi'u cychwyn. Rhaid dechrau, felly, ar asesiad craidd fel y dull o wneud yr ymholiadau hynny.

Ar unrhyw adeg ar ôl derbyn atgyfeiriad, pan fo achos rhesymol i amau fod plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed arwyddocaol, dylid cwblhau asesiad cychwynnol byr a chynnal trafodaeth strategaeth. Gallai'r drafodaeth ddigwydd mewn cyfarfod neu drwy gyfrwng dull arall fel dros y ffôn neu gydag offer fideo gynadledda.

Dylid cynnal trafodaeth strategaeth o leiaf rhwng staff perthnasol sy'n gyfrifol am amddiffyn plant yn yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol a'r asiantaeth sy'n atgyfeirio. Dylai'r drafodaeth gynnwys gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill mewn meysydd fel iechyd ac addysg. Os yw archwiliad meddygol yn ofynnol, dylid cynnwys paediatregydd ymgynghorol o'r gwasanaeth sy'n darparu. Efallai ei bod hi'n briodol cynnwys cyfreithiwr yr awdurdod lleol os yw mesurau cyfreithiol brys dan ystyriaeth.

Dylai'r staff sy'n ymwneud â'r drafodaeth fod o statws ddigon uchel i wneud penderfyniadau ar ran eu hasiantaethau. Gallai'r drafodaeth ddigwydd naill ai gyda phawb yn bresennol, neu drwy siarad dros y ffôn. Dylai ddigwydd cyn gynted â phosib ac o fewn 24 awr i'r penderfyniad i'w chynnal. Gallai ddigwydd ar unrhyw adeg ar ôl i atgyfeiriad gael ei wneud neu ar adegau eraill, er enghraifft, pan fo plentyn eisoes yn cael gwasanaethau dan adran 17 fel plentyn mewn angen, a bod pryderon ynglŷn â niwed arwyddocaol wedi codi.

Dylai'r drafodaeth strategaeth gytuno pa weithredu sy'n ofynnol a gosod amserlen ar gyfer y gweithredu. Dylai gytuno pa wybodaeth am y drafodaeth strategaeth sy'n cael ei rhannu gyda'r teulu. Dylai gweithwyr proffesiynol roi gwybodaeth lawn i'r teuluoedd, oni bai y byddai rhannu gwybodaeth fel hyn yn rhoi'r plentyn mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol a/neu beryglu ymchwiliadau'r heddlu i unrhyw drosedd honedig.

Rhaid i'r drafodaeth strategaeth ystyried anghenion plant eraill a allai gael eu heffeithio, er enghraifft, brodyr a chwiorydd neu blant eraill sy'n dod i gysylltiad â phobl sy'n cael eu cyhuddo o gam-drin.

Dylai'r drafodaeth gytuno ar y bobl sydd i gael eu cyfweld, pwy fydd yn eu cyfweld, ac i ba bwrpas. Dylid rhoi sylw i anghenion neilltuol o ran iaith neu gyfathrebu. Wrth benderfynu sut mae mynd ati i wneud ymholiadau dan adran 47 ac ymchwiliadau'r heddlu, dylai'r gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu weithio dan brotocol mae Byrddau Lleol Diogelu Plant wedi'i

gadarnhau a'r ddwy asiantaeth wedi'i gytuno. Dylai hynny gynnwys lleoliad ar gyfer y cyfweliadau a'r staff sy'n mynd i'w harwain.

Pan bwriedir cwblhau ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47, rhaid i bob gweithiwr proffesiynol ofalu ei fod yn gwneud yr ymholiadau mewn ffordd sy'n achosi y lleiaf o ofid i'r plentyn. Wrth gadw plant yn ddiogel, rhaid dangos parch a sensitifrwydd at deuluoedd. Dylai gweithwyr cymdeithasol esbonio pwrpas a chanlyniad yr ymholiadau i'r rheini a'r plant (yn ôl eu hoedran a'u gallu i ddeall). Dylen nhw fod yn barod i ateb cwestiynau'n agored oni bai y byddai gwneud hynny'n peryglu diogelwch neu les y plentyn. Gall gwybodaeth fod yn gyffredinol ac yn benodol, yn cynnwys lle i fynd i gael cyngor, eiriolaeth a chymorth.

Bydd y ffordd mae achos yn cael ei drin o'r cychwyn cyntaf yn effeithio ar bopeth sy'n dilyn. Mae trin achosion yn dda, a dangos sensitifrwydd, yn ei gwneud hi'n bosib dylanwadu'n gadarnhaol ar y canlyniadau a ddaw yn y pen draw i'r plentyn a'r teulu.

3.4.2 Canlyniadau posib y drafodaeth strategaeth

Gall y drafodaeth strategaeth arwain at benderfyniad i ddilyn un o'r chwe llwybr gweithredu sy'n dilyn:

- **Dim camau pellach** os yw'n ymddangos yn glir nad oes sail i'r honiad ac nid oes pryderon eraill;
- **Atgyfeiriad i'r gwasanaethau cefnogi** os yw ymholiadau rhagarweiniol wedi amlygu anghenion sylweddol am gefnogaeth a gwasanaethau nad sy'n cael eu diwallu a does dim problemau o ran niwed arwyddocaol;
- **Ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47;**
- **Asesiad Craidd, naill ai dan adran 47 neu adran 17;**
- **Cyfarfod Strategaeth i gynllunio'r ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47 a/neu ymchwiliad troseddol os yw achos y pryder yn parhau;**
- **Gweithredu ar frys i ddiogelu'r plentyn os y farn yw ei fod mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol ar unwaith.**

Dylai'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau yn ystod y drafodaeth strategaeth gytuno ar y penderfyniadau a'r rhesymau dros eu gwneud, a'u cofnodi'n glir.

3.4.3 Adrodd yn ôl i'r atgyfeiriwr

Dylid adrodd yn ôl i'r sawl sy'n atgyfeirio o fewn 10 diwrnod i ddyddiad yr atgyfeiriad gwreiddiol. Os daeth yr atgyfeiriad gan aelod o'r cyhoedd, dylid adrodd yn ôl mewn ffordd sy'n parchu cyfrinachedd y plentyn a'i deulu.

Mewn rhai achosion, gall y bydd yr atgyfeiriwr yn dymuno herio canlyniad y drafodaeth strategaeth. Dylai gweithwyr proffesiynol gyflwyno eu pryderon i'w rheolwyr llinell eu hunain ac i'r uwch reolwr yn y gwasanaethau cymdeithasol sy'n gyfrifol am amddiffyn plant. Dylent ofyn i'r broses gael ei hailagor. Dylai defnyddwyr y gwasanaeth neu aelodau o'r cyhoedd ddefnyddio trefn gwyno'r asiantaeth, ar ôl ailgyfeirio'u pryderon yn gyntaf at y rheolwr tîm perthnasol. Dylai pob Bwrdd Lleol Diogelu Plant ofalu bod protocol ar gyfer delio â sefyllfaoedd lle mae rhywun yn herio penderfyniadau neu mae gweithwyr proffesiynol yn anghytuno.

3.5 Y Cyfarfod Strategaeth

3.5.1 Cwmpas a phwrpas y cyfarfod strategaeth

- Gallai'r drafodaeth strategaeth gytuno bod angen cynnal cyfarfod strategaeth. Dylai protocolau a gweithdrefnau lleol ddisgrifio'r amgylchiadau pan fyddai angen trefnu cyfarfod strategaeth. Dyma rai enghreifftiau o'r fath amgylchiadau:
- Cam-drin rhywiol (plentyn a throseddwr sy'n blentyn);
- Esgeulustod;
- Anafiadau corfforol;
- Cam-drin emosiynol;
- Pryderon cyn i blentyn gael ei eni;
- Honiadau bod rhywun mae pobl yn ymddiried ynddo'n cam-drin;
- Honiadau bod gweithiwr proffesiynol/aelod o staff yn cam-drin yn ei waith neu ei fywyd personol (cyfeiriwch at 4.3.6);
- Digwyddiad o gam-drin domestig arwyddocaol pan mae'r plentyn yn bresennol yn y cartref, neu fwy nag un digwyddiad o'r fath;
- Honiadau neu bryderon fod rhywun yn cam-fanteisio'n rhywiol ar blentyn;
- Honiadau neu bryderon fod plentyn yn destun i salwch ffug neu salwch gwneud;
- Mae'r heddlu wedi defnyddio'u pwerau amddiffyn brys i symud plentyn o ofal riant neu un sy'n rhoi gofal;
- Pan fo pryderon ac mae teulu'n symud cyn i ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47 gael eu cwblhau;
- Pan mae teulu'n symud i'r ardal o ardal arall, ac mae ymholiad amddiffyn plant dan adran 47 heb ei ddatrys;

- Pan mae plentyn wedi marw heb fod hynny yn achos o farwoaeth trwy ddamwaun ac mae plant eraill yn dal i fyw yn y cartref;
- Pan mae'r Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA) wedi adnabod risg posib i blentyn neilltuol wrth i garcharor gael ei ryddhau o garchar;
- Mae plentyn ar goll neu wedi bod ar goll o'i gartref neu ofal am dros saith diwrnod neu'n amlach na theirgwaith mewn cyfnod o 12 mis.

Dylai un o reolwyr y gwasanaethau cymdeithasol gadeirio'r cyfarfod strategaeth. Dylai'r cyfarfod benderfynu a fydd yr ymholiadau'n mynd ymhellach ai peidio ac, os byddan nhw, rhaid cynllunio'r drefn a'r broses o reoli'r ymholiadau.

Mae tri cham sylfaenol i bob cyfarfod a thrafodaeth strategaeth:

- Llunio rhestr o'r pwyntiau gweithredu gan gytuno ar amserlen ar gyfer pob pwynt ac enw'r sawl a fydd yn gyfrifol am ei weithredu;
- Cylchredeg cofnod clir o'r drafodaeth neu'r cyfarfod i bawb oedd yn bresennol ac i bawb sy'n gyfrifol am bwynt gweithredu;
- Pennu dull ar gyfer adolygu a yw'r pwyntiau gweithredu wedi cael eu gweithredu. Mae'r dyddiad ar gyfer yr adolygiad cyntaf yn cael ei gytuno a'i gofnodi.

Yn ystod y cyfarfod strategaeth, bydd yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol yn penderfynu ai un asiantaeth fydd yn ymholi i'r atgyfeiriad, neu a fydd yn ymholiad ar y cyd. Ni ddylid cael ymholiadau/ymchwiliadau ar wahân na rhai sydd heb eu cysylltu a'i gilydd. Dylai'r penderfyniadau hyn gael eu llywio gan brotocolau mae'r ddau wasanaeth wedi'u cytuno a'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant wedi'u cymeradwyo.

Pan fydd pawb yn cytuno mai un asiantaeth fydd yn ymchwilio, yr asiantaeth honno fydd yn penderfynu ar y strategaeth ar gyfer ei hymholiad, gan ymgynghori â'r asiantaeth arall. Dylid cofnodi'n ofalus yn ôl canllawiau lleol y rheswm dros benderfynu mai un asiantaeth yn unig fydd yn ymchwilio. Os daw hi'n amlwg ar unrhyw adeg yn ystod yr ymholiad fod y meini prawf ar gyfer ymholiad ar y cyd wedi'u bodloni, rhaid cysylltu'n syth â'r asiantaeth arall gyda'r nod o drefnu trafodaeth neu gyfarfod strategaeth arall.

3.5.1.1 Materion sy'n croesi ffiniau a'r cyfarfod strategaeth

Cyfeiriwch at 3.2.4 a 4.4.

3.5.2 Cynllunio'r cyfarfod strategaeth

Dylai staff yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol, ynghyd â gweithwyr proffesiynol eraill o'r gwasanaethau addysg ac iechyd neu bobl eraill a allai helpu i gynllunio'r ymholiadau, fod yn bresennol bob amser yn y cyfarfod

strategaeth. Dylai paediatregydd ddod i'r cyfarfod pan mae archwiliad meddygol wedi cael ei wneud ar y plentyn neu mae'n debygol y bydd gofyn gwneud un. Lle bynnag y bo hynny'n bosib, dylid gwahodd y gweithiwr proffesiynol a atgyfeiriodd yr achos i ddod i'r cyfarfod strategaeth. Mae'n bwysig gofalu bod y bobl yma yn cael eu gwahodd i unrhyw gyfarfod strategaeth er mwyn iddyn nhw rannu gwybodaeth a helpu yn y broses o wneud penderfyniadau.

Os cychwynwyd achos gofal ac mae gwarcheidwad plant (sy'n cael ei alw hefyd yn swyddog achosion teulu yng Nghymru) wedi cael ei benodi, dylid gwahodd y gwarcheidwad i'r cyfarfod strategaeth fel sylwebydd.

Lle mae asesiad cychwynnol wedi cael ei gwblhau, bydd y cyfarfod strategaeth yn cael ei gynnal dim hwyrach na chyfanswm o wyth diwrnod gwaith o'r dyddiad y derbyniwyd yr atgyfeiriad. Dylid ei gynnal yn gynt os oes lle i amau niwed arwyddocaol i blentyn cyn hynny.

3.5.3 Y materion i'w trafod yn y cyfarfod strategaeth

Dylai cyfarfod strategaeth:

- Rannu'r holl wybodaeth sydd ar gael;
- Penderfynu a oes angen dechrau ar ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47 a/neu ymchwiliad troseddol, neu barhau ag ymholiadau os oes rhai eisoes ar waith;
- Cytuno ar yr amserlen ar gyfer ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47;
- Cytuno ar gynllun ar gyfer ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47 fel rhan o'r asesiad craidd. Byddai hynny'n cynnwys penderfynu pa wybodaeth arall am y plentyn neu'r plant a'r teulu sydd ei hangen, a sut mae mynd ati i'w chasglu;
- Cytuno pwy fydd yn ffurfio'r tîm ymholiadau;
- Cytuno pa weithredu brys sydd ei angen, os o gwbl, i ddiogelu'r plentyn, a/neu drefnu gwasanaethau dros dro tra bo'r ymholiadau'n cael eu cwblhau;
- Penderfynu a oes angen cymryd camau cyfreithiol;
- Cynllunio sut mae mynd ati i gwblhau'r ymholiadau, yn cynnwys yr angen am archwiliad/asesiad meddygol a thriniaeth. Dylid cynllunio hynny gyda meddyg sydd wedi'i hyfforddi'n briodol (paediatregydd fel arfer);
- Penderfynu pwy sydd i gael eu cyfweld, pwy sydd am arwain y cyfweliadau, a phryd, ble ac i ba bwrpas y bydd y cyfweliadau'n cael eu cynnal. Bydd hyn yn cynnwys cyfweld y sawl a roddodd wybod am yr achos yn y lle cyntaf os nad yw wedi cael ei gyfweld yn barod;

- Cytuno'n benodol sut mae cael gwybod am ddymuniadau a theimladau'r plentyn er mwyn eu hystyried wrth wneud penderfyniadau;
- Cytuno ai'r bwriad yw recordio'r cyfweliad gyda'r plentyn ar fideo ai peidio, gan nodi'r rhesymau dros wneud y penderfyniad. Cytuno pwy arall ddylai fod yn bresennol yn y cyfweliad gyda'r plentyn;
- Penderfynu a yw er lles pennaf y plentyn ai peidio i ofyn i'r rhieni gydsynio iddo gael ei gyfweld;
- Os yw'n briodol, penderfynu pwy sydd i gysylltu â'r rhiant/rhieni i ofyn iddyn nhw gydsynio i'r plentyn gael ei gyfweld, i'r cyfweliad gael ei recordio ar fideo ac i'r plentyn gael archwiliad meddygol (os oes bwriad eu gwneud);
- Ystyried pa gamau i'w cymryd os yw rhiant neu blentyn yn gwrthod cydsynio â chyfweliad neu asesiad meddygol;
- Ystyried lefel datblygiad y plentyn, unrhyw anabledd neu ystyriaethau iaith, a pha drefniadau a fyddai angen eu gwneud i gynnig cyfweliad i'r plentyn yn ei ddewis iaith;
- Rhoi sylw i anghenion a diogelwch plant eraill a allai gael eu heffeithio, yn cynnwys brodyr a chwiorydd a phlant eraill sy'n dod i gysylltiad â'r cam-driniwr honedig. Rhaid ystyried oes angen ymestyn yr ymholiad i gynnwys unrhyw rai o'r plant hynny. Yn aml, bydd yn briodol cael asesiad meddygol o'r holl frodyr a chwiorydd;
- Cytuno pwy fydd yn cyfweld y camdriniwr honedig, a phryd;
- Penderfynu sut mae rhannu gwybodaeth gyda'r plentyn ac aelodau o'r teulu, oni bai y gallai rhannu'r fath wybodaeth roi'r plentyn mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol neu y byddai'n peryglu ymchwiliadau'r heddlu i unrhyw drosedd(au) posib;
- Cytuno pa weithwyr proffesiynol nad sy'n bresennol yn y cyfarfod strategaeth ddylai wybod am yr achos ar yr adeg hwn;
- Cytuno i bwy y bydd y tîm sy'n gwneud yr ymholiadau'n adrodd, pa mor aml y byddan nhw'n adrodd, a sut mae mynd ati i adolygu'r cynnydd. Mae'n bwysig penderfynu oes angen trefnu cyfarfod strategaeth arall er mwyn gofalu bod y gwaith yn mynd yn ei flaen, casglu mwy o wybodaeth, asesu gwybodaeth newydd, neu archwilio canlyniadau'r ymholiad cyn cynnal cynhadledd amddiffyn plant. Efallai, yn ôl amgylchiadau'r achos, y bydd yn briodol cynnal mwy nag un cyfarfod/trafodaeth strategaeth;
- Ystyried pa wybodaeth y bydd yr heddlu'n ei rhoi i'r plentyn, a phryd i'w rhoi, er mwyn iddo gael gwybod am ganlyniad ymchwiliad yr heddlu yn y pen draw.

Rhaid cofnodi pob penderfyniad yn glir, a'r rheswm dros ei wneud. Bydd hyn yn cynnwys amserlenni ac enwi'r sawl sy'n gyfrifol am weithredu'r penderfyniadau neu'r hyn mae pawb yn y cyfarfod wedi'i gytuno. Dylai'r cofnodion gofnodi enwau pawb a gafodd eu gwahodd, pawb a ddaeth i'r cyfarfod ac unrhyw ymddiheuriadau a ddaeth i law. Dylid cylchredeg y cofnodion, o fewn pum diwrnod gwaith, i bawb a gafodd eu gwahodd ac i'r asiantaethau sy'n ymwneud â'r plentyn. Rhaid i'r cofnod o'r trafodaethau neu gofnodion y cyfarfod nodi sut bydd y gweithredu a gytunwyd yn cael ei adolygu. Bydd cadeirydd y cyfarfod yn penderfynu pwy fydd yn cael copi o'r cofnodion.

Os bydd unrhyw un arall heblaw'r bobl a gafodd eu gwahodd i'r cyfarfod strategaeth yn gofyn am gopi o'r cofnodion, bydd cadeirydd y cyfarfod yn gofyn am gyngor cyfreithiol cyn ystyried pa wybodaeth i'w datgelu, os oes gwybodaeth i'w datgelu o gwbl.

Os bydd gweithiwr proffesiynol yn anghytuno â phenderfyniad y cyfarfod strategaeth, dylai hysbysu ei reolwr llinell ac uwch reolwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu sy'n gyfrifol am amddiffyn plant er mwyn ceisio cael penderfyniad wedi ei gytuno trwy gonsensws.

Dylai staff sy'n ymgymryd ag ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47 fod wedi'u hyfforddi'n llawn, yn ddigon cymwys, yn meddu ar sgiliau priodol ac yn cael eu goruchwylio'n iawn.

3.6 Amddiffyn Plentyn ar Unwaith

3.6.1 Pan mae angen amddiffyn ar unwaith

Dylid mynd ati i sicrhau diogelwch plentyn ar unwaith os yw ei fywyd mewn perygl neu mae'n debygol o gael niwed difrifol yn fuan. Efallai y bydd angen gweithredu ar frys cyn gynted ag y derbynir atgyfeiriad neu ar unrhyw adeg yn ystod y broses amddiffyn plant. Ond, fel arfer, dylai unrhyw weithredu brys sy'n cael ei gynllunio ddigwydd yn syth ar ôl y drafodaeth strategaeth neu'r cyfarfod strategaeth. Rhaid rhoi sylw llawn i gyngor cyfreithiol a barn y plant dan sylw. Lle mae asiantaeth yn gorfod gweithredu'n unigol i amddiffyn plentyn ar unwaith, dylid cynnal trafodaeth/cyfarfod strategaeth cyn gynted â phosib wedi hynny. Dim ond i amgylchiadau'r plentyn ar y pryd y mae gweithredu ar frys yn rhoi sylw, a dylai ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47 ddilyn y math hwn o weithredu. Ar yr un pryd, rhaid ystyried diogelwch unrhyw blant eraill a allai fod yn yr un perygl (er enghraifft, plant sy'n byw yn yr un cartref neu blant sydd heb eu geni).

Dylid ystyried bob amser yr angen i weithredu ar frys i ddiogelu'r plentyn os:

- Yw rhywun yn gwrthod yn afresymol yr hawl i weld y plentyn;

- Yw rhieni'n gwrthod cydsynio i'w plentyn gael archwiliad meddygol ac mae amheuaeth ei fod wedi cael ei gam-drin neu os y farn yw bod angen sylw meddygol arno ar frys;
- Mae rhieni'n mynd ati'n fwriadol i rwystro neu oedi'r ymholiadau mewn rhyw ffordd.

Blwch 8: Lles y plentyn yw'r peth pwysicaf un

- Ni ddylai dilyn y canllawiau amddiffyn plant rwystro'r gwaith o ddiogelu'r plentyn, os yw mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol ar unwaith.
- Mae ymateb i unrhyw arwydd fod plentyn mewn perygl yn cael blaenoriaeth dros ofynion eraill y canllawiau.
- Er ei bod hi'n bwysig peidio ag oedi, lles y plentyn yw'r agwedd bwysicaf un ar yr ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47, a'r ymchwiliadau troseddol. Mae hefyd yn bwysig osgoi achosi straen y mae modd ei osgoi trwy frysio gormod ac aflonyddu ar drefn bywyd y plentyn.

Os oes perygl o niwed arwyddocaol i'r plentyn ac mae'r rhieni'n gwrthod cydweithredu gydag ymholiadau amddiffyn plant adran 47, yn cynnwys gwrthod archwiliad meddygol neu driniaeth, bydd angen gofyn i'r rheolwr priodol am gyngor. Pan mae'r rheini'n gwrthod archwiliad meddygol a/neu driniaeth, dylid ymgynghori hefyd â'r meddyg fyddai'n gwneud yr archwiliad. Dylai cynrychiolydd o wasanaeth cyfreithiol yr awdurdod lleol fod ar gael i roi cyngor cyfreithiol i'r gwasanaethau cymdeithasol. Dylid ystyried a fyddai'n briodol ac yn angenrheidiol gwneud cais am Orchymyn Amddiffyn Brys (Emergency Protection Order) gyda chyfarwyddiadau ar gyfer asesiad meddygol. Dewis arall yw ystyried Gorchymyn Asesu Plentyn (Child Assessment Order) os yw'r amgylchiadau'n awgrymu nad yw'r plentyn mewn perygl ar unwaith. Dylid cofnodi canlyniadau'r math yma o ymgynghori'n ofalus ac yn ysgrifenedig.

Ni ddylai'r angen i ofyn am gyngor achosi unrhyw oedi wrth weithredu i ddiogelu a sicrhau lles unrhyw blentyn y mae pryder ei fod mewn perygl o gael niwed arwyddocaol ar unwaith.

Wrth ystyried cyfweld y plentyn, dylid dilyn canllawiau Achieving Best Evidence.

3.6.2 Y gwahanol opsiynau wrth fynd ati i amddiffyn plentyn ar unwaith

Gall amddiffyn plentyn ar frys ddigwydd mewn un o'r pump ffordd ganlynol. Dylid ystyried y tri dewis cyntaf cyn defnyddio pwerau gorfodol i symud plentyn:

- Mae'r camdriniwr honedig yn cytuno i adael y cartref. Efallai y bydd gofyn i wasanaethau lleol gynnig help ymarferol gyda materion fel llety;
- Mae'r rhieni/y rhai sy'n rhoi gofal yn gwneud trefniadau diogel i aelod o'r teulu estynedig ofalu am y plentyn. Mae'r fath drefniadau'n dibynnu ar wirio a yw'r bobl yn addas, a dylai'r canllawiau lleol ddisgrifio'r drefn i'w dilyn;
- Mae'r awdurdod lleol yn cynnig llety i'r plentyn dan adran 20 Deddf Plant 1989, gyda chytundeb y sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant drosto;
- Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn gwneud cais am Orchymyn Amddiffyn Brys;
- **Mae'r heddlu'n defnyddio'u pwerau amddiffyn** mewn amgylchiadau eithriadol pan nad oes dewis arall ar gael.

Gall unrhyw un o'r pedwar dewis olaf ddigwydd ar ffurf trefniadau i leoli'r plentyn gyda theulu estynedig. Pan mae angen defnyddio pwerau gorfodol i symud plentyn o'i gartref, dylai awdurdod lleol wneud cais am Orchymyn Amddiffyn Brys lle bynnag y bo'n bosib, oni bai fod diogelwch y plentyn mewn perygl ar unwaith. Ni ddylid ceisio defnyddio pwerau amddiffyn yr heddlu i'r pwrpas hwn. Yr egwyddor ar waith yw mai llys yn unig ddylai benderfynu symud plentyn o'i gartref. Ni ddylai'r heddlu ddefnyddio'u pwerau amddiffyn heb gymeradwyaeth gan Arolygydd neu swyddog o radd uwch, a bod un o swyddogion yr heddlu wedi gweld y plentyn a barnu y bydd neu ei fod mewn perygl o gael niwed ar unwaith heblaw for yr heddlu'n ei symud o'i gartref.

Os yw'r heddlu'n gorfod defnyddio'u pwerau amddiffyn, dylid cynnal cyfarfod strategaeth cyn gynted ag sy'n ymarferol a, beth bynnag, o fewn 72 awr. Rhaid i'r cyfarfod benderfynu a oes angen gwneud cais am Orchymyn Amddiffyn Brys ai peidio. Gallai hefyd benderfynu gofyn i'r llys ychwanegu archwiliad meddygol fel un o'r gofynion gan nad yw Gorchymyn Amddiffyn Brys yn cynnwys un yn awtomatig.

Dylid gofyn am gyngor cyfreithiol, a chofnodi'n ofalus y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud a'r rhesymau dros eu gwneud. Dylid rhoi sylw i'r holl wybodaeth sydd ar gael o'r ymholiadau presennol neu hanesyddol.

3.6.3 Siart llif 3: Gweithredu ar frys wrth ddiogelu plant



3.6.4 Siart llif 4: Gweithredu ar ôl y drafodaeth / y cyfarfod strategaeth



3.7 Amddiffyn Plant: Ymholiadau dan adran 47 a'r Asesiad Craidd

3.7.1 Cwmpas a phwrpas ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47

Pwrpas ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47 yw penderfynu pa weithredu os o gwbl sydd ei angen i hybu a diogelu lles plentyn. Lle mae'n berthnasol, bydd angen i'r heddlu ddarganfod y ffeithiau am unrhyw drosedd a all fod wedi'i gyflawni yn erbyn plentyn, a chasglu tystiolaeth.

Bydd ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47 yn cynnwys casglu gwybodaeth gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r plentyn neu'r teulu. Golyga hyn drafod gyda staff asiantaethau eraill er mwyn casglu'r wybodaeth berthnasol gam wrth gam. Dylid mesur ac asesu'n fanwl hyd a lled eu gwybodaeth am y teulu a'u hymwneud uniongyrchol â nhw.

Mae asesiad craidd yn cael ei ddechrau pan:

- Cwblheir cam asesu cychwynnol;
- Penderfyna cyfarfod strategaeth gychwyn ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47;
- Mae gwybodaeth newydd am achos agored yn awgrymu bod angen gwneud neu ddiweddaru asesiad craidd.

Camau cyntaf yr asesiad craidd yw'r ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47.

Mae'r canllawiau ar gyfer gwneud asesiad craidd i'w cael yn y Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd. Mae'n cynnig patrwm ar gyfer casglu a dadansoddi'r wybodaeth a gasglwyd wrth gwblhau ymholiadau amddiffyn plant adran 47. Un o ofynion y Fframwaith yw bod yr asesiad craidd yn cael ei gwblhau o fewn 35 diwrnod gwaith. Golyga asesu anghenion plentyn, a gallu'r rhieni a'r ffactorau amgylcheddol teuluol ehangach yn ddigonol i sicrhau diogelwch, iechyd a ddatblygiad y plentyn.

Mae dewis o ddeunyddiau ar gael i gynorthwyo ymarferwyr sy'n mynd ati i gwblhau asesiadau ar sail tystiolaeth. Fe'u disgrifir yn Atodiad B, Defnydd o Holiaduron a Graddfeydd fel tystiolaeth o asesu a gwneud penderfyniadau, yn y ddogfen Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004.

Blwch 9: Canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer y plentyn

- Meddyliwch beth yw amcan ymyriadau a beth fydd y manteision i les y plentyn yn y tymor hir;
- Dylai'r holl ymyriadau a'r cynlluniau ganolbwyntio ar weld canlyniadau da tymor hir o ran iechyd, datblygiad, a chyrhaeddiad addysgol.

3.8 Gweithio gyda'r plentyn a'r teulu yn ystod yr ymholiadau

3.8.1 Symud y rhwystrau rhag cymryd rhan

Dylai'r plentyn a'r teulu gael eu helpu i gymryd rhan lawn yn yr ymholiadau amddiffyn plant, oni bai fod hyn yn anghyson â'r gwaith o amddiffyn y plentyn. Efallai y bydd dilyn y pwyntiau yma yn eu helpu i gymryd rhan:

- Os oes anabledd ar y plentyn neu un o'r rhieni, dylid cyfathrebu trwy eu dewis ddull er mwyn rhoi'r cyfle gorau iddyn nhw fedru cymryd rhan yn y broses;
- Rhaid cynnig gwasanaeth cyfieithydd annibynnol os yw'n well gan y plentyn neu un o'r rhieni gyfathrebu mewn iaith wahanol i'r sawl sy'n cyfweld;
- Os yw'r plentyn yn rhy ifanc i gymryd rhan mewn cyfweliad neu'n methu ei ddeall, dylid defnyddio ffyrdd eraill o ddeall safbwynt y plentyn;
- Rhaid cwblhau'r ymholiadau bob amser mewn ffordd sy'n rhoi cyn lleied o bwysau â phosib ar y plentyn. Rhaid gofalu trin y teulu'n gydag urddas a pharch.

3.8.2 Esbonio pwrpas yr ymholiadau amddiffyn plant adran 47

Dylai'r gwasanaethau cymdeithasol esbonio i'r rhieni a'r plentyn pwrpas yr ymholiadau amddiffyn plant adran 47 gan roi sylw i oedran a gallu i ddeall a bod yn barod i ateb cwestiynau'n onest, oni bai y byddai hynny'n amharu ar ddiogelwch a lles y plentyn. Un ffordd werthfawr iawn o helpu teuluoedd yw i'r gwasanaethau cymdeithasol roi gwybodaeth ysgrifenedig am bwrpas, trefn a chanlyniadau posib yr ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am sut i gael gafael ar gyngor, eiriolaeth a chymorth o ffynonellau annibynnol, a sut mae defnyddio'r drefn gwyno.

3.8.3 Ystyried y plentyn

Fel rhan o'r broses cwblhau ymholiadau amddiffyn plant, mae angen gwrando ar a chofnodi dymuniadau a theimladau'r plentyn. Dylai hyn gynnwys ei ddymuniadau o ran trefn y cyfweliad ymchwilio ac, yn arbennig, pwy y mae'r plentyn yn dymuno gael i'w gynorthwyo yn ystod y cyfweliad. Rhaid esbonio'r broses i'r plentyn mewn ffordd sy'n addas i'w oedran a'i allu i ddeall. Rhaid gweld y plentyn ar ei ben ei hun a gwrando'n ofalus arno. Ni ddylid byth mynd ati i gyfweld y plentyn pan mae'r camdriniwr honedig yn bresennol. Rhaid i bob aelod o staff sy'n gwneud ymholiadau ar y cyd fod yn gwbl gyfarwydd â chanllawiau Achieving Best Evidence in Criminal Proceedings.

Rhaid hysbysu'r plentyn yn rheolaidd am y broses a chanlyniadau'r ymholiadau amddiffyn a'r ymchwiliad troseddol gan roi sylw i'w oedran a'i allu i ddeall.

Blwch 10: Cyfathrebu gyda phlant

- Y plentyn yw'r brif ffynhonnell, ac weithiau'r unig ffynhonnell wybodaeth am yr hyn sydd wedi digwydd iddo;
- Mae'n hanfodol cael gwybodaeth lawn a chywir;
- Hyd yn oed wrth gynnal trafodaethau cychwynnol gyda phlentyn, rhaid peidio â rhoi unrhyw bwysau arno;
- Siaradwch gyda'r plentyn heb i'r rheini neu'r un sy'n rhoi gofal fod yn bresennol;
- Peidiwch â gofyn cwestiynau awgrymog neu sy'n arwain meddyliau'r plentyn;
- Ysgrifennwch yr hyn mae'r plentyn yn ei ddweud, a'r hyn a ddywedoch chi;
- Efallai fod angen amser ar blant i ymddiried yn ddigonol yn rhywun i sôn am eu pryderon. Gallai hyn olygu siarad gydag nhw mwy nag unwaith;
- Os yw oedran y plentyn neu oedi datblygiadol yn golygu na all gyfathrebu ar lafar, mae amryw o arfau ar gael i hwyluso'r broses gyfathrebu.

Mewn rhai achosion, gallai fod yn addas siarad gyda phlentyn heb yn wybod i'r rhiant neu'r un sy'n rhoi gofal (mae mwy o ganllawiau ynglŷn â chydsynio yn 3.3.2). Os yw pob ymdrech i ddod o hyd i'r person â chyfrifoldeb rhiant yn methu a byddai rhagor o oedi'n peryglu diogelwch neu les y plentyn, dylid

siarad gyda'r plentyn heb hysbysu'r rhieni o flaen llaw. Gallai hyn ddigwydd pan:

- Mae'n amhosib cysylltu â'r person sydd â chyfrifoldeb rhiant;
- Y farn yw y byddai er lles pennaf y plentyn i'r broses fynd yn ei blaen heb gysylltu â'r person sydd â chyfrifoldeb rhiant.

Rhaid cyfiawnhau a chofnodi'n ofalus y rhesymau dros y penderfyniad hwn. Ond dim ond dan yr amgylchiadau dilynol y dylid penderfynu peidio â chysylltu â neu siarad gyda rhiant:

- Mae'n bosib y gallai'r plentyn gael ei fygwth neu ei orfodi i gadw'n dawel;
- Mae'n debygol y byddai tystiolaeth yn cael ei dinistrio;
- Nid oedd y plentyn yn dymuno i riant gael ei gynnwys ar yr adg yma, ac mae'r gallu ganddo i wneud y penderfyniad hwnnw.

3.8.4 Ystyried plant eraill

Dylai'r sawl sy'n gwneud ymholiadau amddiffyn plant gofio bob amser am anghenion a diogelwch posib unrhyw frodyr a chwiorydd, neu am blant eraill sy'n byw yn yr un cartref â'r plentyn dan sylw. Efallai y bydd rhaid i'r ymholiadau gynnwys plant cartrefi eraill neu lefydd eraill a fyddai'n dod â nhw i gysylltiad â'r sawl sydd wedi'i gyhuddo o gam-drin.

3.8.5 Ystyried y rhieni neu'r rhai sy'n rhoi gofal

Mae'n bwysig cynnwys y rhieni neu'r rhai sy'n rhoi gofal gymaint â phosib yn yr ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47 ar yr amod mai hyn sydd er lles pennaf y plentyn. Dylai'r gweithiwr cymdeithasol a/neu swyddog yr heddlu sy'n gwneud yr ymholiadau esbonio'r rhesymau dros y pryderon. Dylid esbonio camau'r drefn a'r rheswm dros eu cymryd, a gofyn i'r rhieni gydsynio'n ysgrifenedig lle bynnag y bo hynny'n bosib. Bydd y meddyg sy'n gwneud archwiliad meddygol yn gofyn am gydsyniad deallus y rhieni i'r archwiliad (cyfeiriwch at 3.10).

Os yw'n briodol, dylid annog y rhieni neu'r rhai sy'n rhoi gofal ddod gyda'r plentyn i'r cyfweliad a'r asesiad meddygol. Ond, rhaid gofalu nad yw unrhyw weithredu'n amharu ar unrhyw ymchwiliad troseddol, yn arbennig os y rhiant neu'r un sy'n rhoi gofal sy'n cael ei gyhuddo o gam-drin, neu os yw'n dyst yn yr achos. Dylid bob amser hysbysu'r rhieni neu'r rhai sy'n rhoi gofal am drefn yr ymholiadau amddiffyn plant, ac am y canlyniadau. Gan mai'r heddlu sy'n arwain pob ymchwiliad troseddol, eu cyfrifoldeb nhw yw hysbysu'r rhieni neu'r rhai sy'n rhoi gofal a'r plentyn pan mae'n briodol am yr ymchwiliadau troseddol.

Dylid hysbysu'r rhieni neu rai sy'n rhoi gofal am y posibilrwydd y bydd rhaid rhannu gwybodaeth berthnasol â chydweithwyr proffesiynol sy'n gyfrifol am les y plentyn.

3.8.6 Pan mae rhieni neu'r rhai sy'n rhoi gofal yn gwrthod cydweithredu

- Dylid ystyried gweithredu ar frys pan mae rhieni'n gwrthod cydweithredu neu'n gwneud rhywbeth neilltuol fel symud plentyn o'r ysbyty. Rhaid ceisio gofalu ar ddechrau'r ymholiadau fod rhieni'n barod i gydweithredu. Bydd angen tawelu eu meddyliau am y broses.
- Os yw bywyd plentyn mewn perygl neu mae'n debygol o gael niwed difrifol yn fuan, rhaid gweithredu'n gyflym i ddiogelu'r plentyn ar frys. Efallai y bydd angen gweithredu ar frys cyn gynted ag y daw atgyfeiriad i law, neu yn hwyrach yn y broses.

Dylai cyfarwyddwyr arweiniol ofalu bod trefniadau'n bodoli i weithwyr cymdeithasol fedru cael cyngor cyfreithiol, yn cynnwys y tu allan i oriau gwaith.

Dyma'r math o gamau cyfreithiol brys a fyddai ar gael:

- Gorchymyn Asesu Plentyn (Child Assessment Order), gellir ei ddefnyddio os yw rhieni'n parhau i wrthod mynediad at y plentyn at bwrpas sefydlu ffeithiau sylfaenol am ei sefyllfa, ond nid yw'r pryderon am ei ddiogelwch yn ddigon dwys fel bod Gorchymyn Amddiffyn Brys (Emergency Protection Order) yn ofynnol. Mae Gorchymyn Asesu'n caniatáu i'r llys orchymyn y rhieni i gydweithredu gydag asesiad. Bydd manylion y fath asesiad yn benodol, ond nid yw'n caniatáu i'r plentyn gael ei symud o'i gartref. Nid yw'r gorchymyn yn dileu hawl y plentyn ei hun i wrthod asesiad. Dylid hysbysu rhieni am y camau cyfreithiol y gellid eu defnyddio.
- Gorchymyn Gwahardd (Exclusion Order), a allai fod yn briodol dan fesurau Deddf Cyfraith Teulu 1996. Mae'n caniatáu i gamdriniwr gael ei symud o'r cartref, yn lle symud y plentyn. Er mwyn i lys benderfynu caniatáu gorchymyn gyda gwaharddiad fel un o'i ofynion, rhaid iddo ymfodloni fod achos i gredu y byddai'r plentyn yn cael niwed neu'n debygol o gael niwed os na waherddir y person. Rhaid bodloni'r llys hefyd fod rhywun arall yn byw yn y cartref a all ofalu am y plentyn.
- Dylid hefyd ystyried Gorchymyn Amddiffyn Brys pan wrthodir mynediad at blentyn. Dylid gwneud cais pan mae angen gweithredu ar frys i ddiogelu plentyn. Dylid cofnodi'n glir y rhesymau dros benderfynu gwneud y cais. Os oes angen archwiliad meddygol rhaid i'r Gorchymyn Amddiffyn Brys gynnwys cyfarwyddiadau am y fath archwiliad.

- Mae gan yr heddlu hefyd bwerau amddiffyn sy'n caniatáu iddyn nhw symud plentyn i le diogel os oes achos rhesymol i gredu bod plentyn mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol.

Rhaid nodi mai dim ond yr heddlu sydd â'r awdurdod statudol i ddefnyddio grym rhesymol i fynd i mewn i adeilad. Felly, rhaid cynnwys yr heddlu mewn unrhyw drafodaethau ynglŷn â sefyllfa lle mae'r hawl i weld plentyn wedi cael ei wrthod. Rhaid i'r swyddog heddlu sydd wedi'i ddynodi awdurdodi'r penderfyniad i ddefnyddio'r pwerau hyn.

3.8.7 Plant sy'n symud yn ystod ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47

Pan fo plentyn yn destun i ymholiadau amddiffyn plant adran 47, bydd y gweithiwr cymdeithasol yn rhoi gwybod yn syth i'w reolwr llinell. Bydd hefyd yn gyfrifol am hysbysu, heb unrhyw oedi, yr awdurdod newydd. Rhaid gwneud hyn yn ysgrifenedig, a rhoi'r dogfennau perthnasol, o fewn dau ddiwrnod gwaith. Bydd y gweithiwr cymdeithasol hefyd yn rhoi gwybod i asiantaethau perthnasol yr ardal y symudodd y teulu ohoni.

Os yw gweithwyr yn gwybod o flaen llaw fod y teulu'n symud, bydd y gweithiwr cymdeithasol yn gyfrifol am ddweud wrth y rhieni y bydd atgyfeiriad yn cael ei wneud i'r awdurdod newydd.

Os bydd teulu'n symud o un ardal i un arall tra bo ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47 ar y gweill:

- Mewn achos lle mae'r teulu'n symud cyn i'r ymholiadau ddechrau ac mae'r awdurdod gwreiddiol yn dweud ei fod ar fin dechrau ymholiadau dan adran 47, dylai'r awdurdod sy'n derbyn yr achos drefnu trafodaeth/cyfarfod strategaeth i gynllunio'r ymholiadau, a chynnwys y ddau awdurdod yn y trefniadau. Rhaid cynnal y fath drafodaeth neu gyfarfod o fewn 48 awr i'r adeg y cafodd yr atgyfeiriad ei wneud. Rôl yr awdurdod sy'n derbyn yw gwneud asesiad cychwynnol a gofyn i'r awdurdod gwreiddiol a oes angen unrhyw gamau amddiffyn brys. Rhaid cofnodi penderfyniadau'n glir yn ffeiliau achos y ddau awdurdod.
- Mewn achos lle mae'r teulu'n symud tra bo ymholiadau amddiffyn plant adran 47 ar y gweill, dylai'r awdurdod gwreiddiol drefnu trafodaeth strategaeth. Rhaid i'r trefniadau gynnwys yr awdurdod sy'n derbyn yr achos. Pwrpas y cyfarfod yw pennu rolau a chyfrifoldebau pawb. Rhaid cofnodi'r penderfyniadau yng nghofnodion y plentyn yn y ddwy ardal.

3.9 Cynllunio a rhoi ar waith yr ymholiadau dan adran 47 a'r asesiad craidd

3.9.1 Casglu gwybodaeth gan asiantaethau eraill

Mae casglu hanes manwl plentyn a'i deulu'n bwysig er mwyn sicrhau effeithlonrywdd penderfyniadau. Bydd gwybodaeth fanwl ar gael yng nghofnodion asiantaethau sy'n adnabod y teulu. Cyfrifoldeb pob asiantaeth neu weithiwr proffesiynol yw darparu'r holl wybodaeth berthnasol sydd yn y cofnodion pan ddaw cais amdani, a pheidio â dethol a dewis gwybodaeth. Dylai pob asiantaeth sy'n ymwneud â'r achos baratoi cronoleg sy'n rhoi sylw i'r holl wybodaeth gefndirol sydd ar gael.

3.9.2 Y cyfweliad ymchwilio gyda'r plentyn

Rhaid dilyn canllawiau *Achieving Best Evidence in Criminal Proceedings: Guidance for Vulnerable or Intimidated Witnesses including Children* wrth gwblhau unrhyw gyfweliad ymchwilio gyda phlant ar gyfer achosion troseddol. Rhaid i staff profiadol sydd wedi'u hyfforddi'n benodol arwain y fath gyfweliadau. Dylai gweithwyr cymdeithasol a swyddogion heddlu sy'n mynd ati i gyfweld plant fod wedi cael eu hyfforddi'n arbennig i gyfweld plant, a deall a gwybod am ddatblygiad plant. Dylen nhw allu asesu gallu'r plentyn fel tyst, a bod â'r sgiliau i gynllunio ac arwain cyfweliadau gyda phlant. Yn benodol, mae angen i'r sawl sy'n cyfweld benderfynu ar:

- Gyd-destun yr honiad, a'r meini prawf cysylltiedig â chyfweliad ffurfiol;
- Pwy ddylai fod yn rhan o'r gwaith o gynllunio'r cyfweliad?
- Y ffactorau cefndirol perthnasol a allai fod yn perthyn i'r plentyn a'r teulu;
- Pwy ddylai arwain y cyfweliad?
- Pwy o'r sefydliadau ddylai arolygu'r cyfweliad yn dechnegol a threfniadol?
- Ystyriaethau am ryw'r sawl sy'n cyfweld, yn arbennig mewn achosion o gam-drin rhywiol;
- Ystyriaethau am anghenion cyfathrebu'r plentyn;

Mae'r cyfweliad yn sail hanfodol i benderfyniadau'r gwahanol asiantaethau ac i unrhyw achos troseddol a allai ddilyn.

Ni ddylai'r plentyn byth gael ei gyfweld pan mae'r camdriniwr honedig yn bresennol, neu pan mae rhywun a allai fod yn cydgynllwynio gydag e neu hi, yn cynnwys rhiant, yn bresennol.

Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, dylid ymgynghori â rhiant neu un sy'n rhoi gofal ac sydd â chyfrifoldeb rhiant cyn cyfweld y plentyn. Rhaid gwrando ar

eu barn. Os nad oes unrhyw un â chyfrifoldeb rhiant, dylid ymgynghori â phwy bynnag sy'n rhoi gofal parhaol a gofyn am gyngor cyfreithiol. Mewn achosion lle mae'r cyfweliad i gael ei recordio ar fideo, dylai'r swyddog sy'n ymchwilio roi taflen wybodaeth/pro-forma i'r rhiant neu'r un sy'n rhoi gofal.

Pan mae plentyn yn ddigon hen i ddeall ac i gydsynio, rhaid cofnodi ei ganiatâd ar y fideo ar ddechrau'r cyfweliad.

Mewn rhai amgylchiadau penodol, efallai mai'r farn yw y byddai er lles y plentyn i wneud cyfweliad llawn neu un ar fideo heb ymgynghori'n gyntaf â rhiant/un sy'n rhoi gofal. Yn y fath achosion, dylai'r gwasanaethau cymdeithasol ofyn am gyngor cyfreithiol, heblaw mewn achosion lle mae'r person ifanc yn 16 oed neu'n hŷn. Mewn amgylchiadau eithriadol lle byddai gofyn am y fath gyngor yn achosi oedi, mae'r heddlu'n cadw'r hawl i fynd ymlaen gyda'r ymchwiliad ar eu pen eu hunain.

Mewn achosion pan mae'r plentyn yn yr ysgol ar adeg y pryder, gall y pennaeth gydsynio i ystafell yn yr ysgol gael ei defnyddio ar gyfer y cyfweliad.

3.10 Yr archwiliad meddygol

Rhaid ystyried ym mhob achos o bryder a oes angen i'r plentyn gael archwiliad meddygol. Dylai'r person sy'n cyd-drefnu'r ymholiad drafod yr angen am archwiliad meddygol gyda phaediatregydd profiadol a chymwys neu gydag archwiliwr meddygol/meddyg fforensig. Dylai gytuno ar amseru a lleoliad yr archwiliad gan roi sylw i les pennaf y plentyn. Rhaid ystyried hefyd a oes angen archwiliad meddygol ar blant eraill y cartref neu rai sy'n dod i gysylltiad â'r camdriniwr honedig.

Er nad yw archwiliad meddygol yn un o ofynion pob ymholiad amddiffyn plant dan adran 47, mae angen ystyried gwneud un p'un ai oes gan y plentyn anafiadau amlwg neu arwyddion o esgeuluso ai peidio. Dim ond os yw'r sawl sy'n rheoli'r ymholiad yn fodlon y gallan nhw gyflawni ei bwrpas heb wneud archwiliad meddygol y dylid penderfynu peidio â gwneud un. Rhaid i'r penderfyniad hwnnw gynnwys trafodaeth gyda'r paediatregydd perthnasol.

Bydd angen i'r holl weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r achos gofnodi'r rhesymau hynny'n glir.

Mae angen i ymarferwyr gofio mai pwrpas archwiliad neu asesiad meddygol yw:

- Gofalu bod cyflwr meddygol y plentyn yn cael ei asesu'n feddygol, a'i fod yn cael y driniaeth addas;
- Tawelu meddwl y plentyn am ei iechyd a'i les;
- Cael asesiad o unrhyw arwyddion posib o gamdriniaeth;

- Gofalu bod unrhyw anafiadau neu arwyddion o esgeuluso'n cael eu nodi fel tystiolaeth;
- Casglu tystiolaeth fforensig.

Lles y plentyn yw'r peth pwysicaf un. Rhaid i'r broses o gasglu tystiolaeth beidio olygu mwy o gamdriniaeth i'r plentyn. Dylai'r angen i gasglu tystiolaeth fforensig ddod yn ail bob amser i'r angen i blentyn gael triniaeth feddygol.

Dylai'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol gydweithio er mwyn osgoi'r angen am archwiliadau meddygol dro ar ôl tro. Os nad oedd y meddyg a fydd yn gwneud yr archwiliad yn gallu dod i'r cyfarfod strategaeth, bydd swyddog yr heddlu neu'r gweithiwr cymdeithasol yn rhoi gwybodaeth lawn iddo. Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn gofalu bod y person â chyfrifoldeb rhiant ar gael i gydsynio â'r archwiliad.

3.10.1 Pryd ddylai'r archwiliad meddygol gael ei gynnal?

Rhaid i'r meddyg sy'n cael cais i wneud archwiliad farnu'r amseru gorau ar gyfer gwneud yr archwiliad.

- Cam-drin Corfforol a/neu Esgeuluso

Os yw'r atgyfeiriad yn ymwneud ag anaf corfforol neu esgeuluso difrifol, dylid trefnu archwiliad meddygol. Lle bynnag y bo hynny'n bosib, dylid ei wneud ar yr un diwrnod. Eithriad fyddai peidio â gweld y plentyn ar ddiwrnod yr atgyfeirio.

- Cam-drin Rhywiol

Mewn achosion o honiadau am gamdrin rhywiol, dylid ystyried archwiliad meddygol. Os oes angen un, dylai'r fath archwiliad fod ar gael o fewn cyfnod rhesymol, yn cynnwys y tu allan i oriau gwaith er mwyn amddiffyn iechyd y plentyn a diogelu a chadw tystiolaeth.

Yn achos honiad am ymosodiad rhywiol:

- Llai na 72 awr – dylai'r plentyn gael ei weld cyn gynted â phosib yn unol ag amgylchiadau unigol a'r angen i gasglu samplau fforensig, tynnu ffotograffau a/neu roi triniaeth;
- 72 awr i 6-7 diwrnod – dylai'r plentyn gael ei weld o fewn y 24 awr nesaf yn unol â phenderfyniad y meddyg;
- Mwy na 7 diwrnod – dylai'r plentyn gael ei weld o fewn amser rhesymol, fel arfer, pan mae'r apwyntiad cyntaf ar gael ac fel arfer o fewn wythnos.

3.10.2 Y safonau ar gyfer archwiliadau meddygol

Mewn achosion cam-drin a/neu esgeuluso corfforol, dylai meddyg sydd wedi'i hyfforddi'n briodol (y paediatregydd fel arfer) gwblhau'r archwiliad.

Mewn achos cam-drin rhywiol, dim ond paediatregydd â chymwysterau addas a ddylai gwblhau'r archwiliad. Os oes angen chwilio am wybodaeth fforensig, er enghraifft, mewn achos ymosodiad rhywiol difrifol, ac nid oes gan y paediatregydd y sgiliau fforensig angenrheidiol, gallai ofyn i un o feddygon fforensig yr heddlu fod yn bresennol i gasglu sbesimenau fforensig.

Rhaid i feddygon sy'n gwneud archwiliadau wybod am y dogfennau sy'n dilyn:

- *Guidance on Paediatric Forensic Examinations in Relation to Possible Child Sexual Abuse*, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH) a Chymdeithas y Meddygon Fforensig, 2004
- *Child Protection Companion*, RCPCH 2006
- *Child Protection Reader*, RCPCH 2007
- Datganiad Sefyllfa: *'Interpreting the Physical Signs of Child Sexual Abuse'*, RCPCH Rhagfyr 2006

3.10.3 Cydsynio â'r archwiliad meddygol

Rhaid i feddygon sy'n gwneud archwiliadau wybod am egwyddorion cydsynio deallus ac am y canllawiau yn *Child Protection Companion* yr RCPCH, 2006.

Mae angen i weithwyr cymdeithasol a swyddogion yr heddlu sy'n cwblhau ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47 ac ymchwiliadau troseddol wybod hefyd am yr agwedd gydsynio ar wneud archwiliadau meddygol.

- Yn ôl y gyfraith, gallai gwneud archwiliad heb gydsyniad gyfrif fel ymosodiad;
- Cyfrifoldeb y meddyg sy'n gwneud archwiliad yw cael cydsyniad deallus, a gorau oll os yw'n ysgrifenedig.

3.10.3.1 Gall plentyn 16 oed a hŷn gydsynio ar ei ben ei hun. Os yw'r plentyn yn methu cydsynio, er enghraifft oherwydd anabledd dysgu, mae'n bosib gofyn am gydsyniad y person â chyfrifoldeb rhiant.

3.10.3.2 Mae pobl ifanc dan 16 oed, sy'n berffaith abl i ddeall yn iawn yr hyn sydd dan sylw a'i oblygiadau, yn gymwys i gydsynio *(Gillick v Wisbech 1986)*. Ond, po fwyaf difrifol yw'r gweithredoedd meddygol dan sylw, po fwyaf o allu mae'r person ifanc ei angen i ddeall ei oblygiadau. Felly, dylai'r meddyg sy'n archwilio ofalu bod y person ifanc yn deall natur yr archwiliad meddygol yn iawn, ac yn sylweddoli y gallai'r wybodaeth a ddaw i law gael ei rhannu gyda phobl eraill.

3.10.3.3 Os y farn yw nad yw'r person ifanc yn gymwys yn ôl Fraser/Gillick, dylid cael person â chyfrifoldeb rhiant i gydsynio; mae hawl gan y plentyn o hyd i wrthod cael ei archwilio.

3.10.3.4 Yn achos plentyn dan 16 oed, rhaid i berson â chyfrifoldeb rhiant a'r plentyn ei hun roi eu cydsyniad deallus i archwiliad meddygol sy'n cael ei wneud am resymau amddiffyn plant, a gorau oll os yw'r cydsyniad yn ysgrifenedig.

3.10.3.5 Os yw'r plentyn yn destun achos llys yn barod, mae gofyn cael cydsyniad yr un llys. Os yw'r plentyn yn destun gorchymyn gofal, mae gofyn cael cydsyniad y cyfarwyddwr arweiniol ar ran y gwasanaethau cymdeithasol hefyd.

- I'r cydsyniad fod yn ddeallus, mae angen i'r meddyg siarad yn uniongyrchol gyda'r person â chyfrifoldeb rhiant ac esbonio pwrpas a threfn yr archwiliad meddygol. Rhaid disgrifio'n glir holl elfennau'r archwiliad, hynny yw, yr hanes, y broses archwilio, y sbesimenau fforensig, y defnydd o ffotograffau fideo neu luniau unigol, trafodaethau gyda chydweithwyr, a'r broses o rannu'r darganfyddiadau a'r adroddiadau â'r gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu, gwasanaeth erlyn y goron a'r llysoedd. Yn benodol, bydd angen i'r plentyn a'r rhiant sylweddoli y bydd gwybodaeth a ddaw i law yn ystod yr archwiliad yn cael ei rhannu â phobl eraill, ac efallai y bydd yn cael ei darllen yn uchel mewn llys;
- Rhaid gofyn am gydsyniad mewn sefyllfa wyneb yn wyneb, hynny yw, pan mae'r rhiant yn bresennol gyda'r plentyn. Ond os nad yw'r rhiant yn gallu neu'n dymuno bod yn bresennol, bydd angen i'r meddyg benderfynu sut mae mynd ati i gael cydsyniad dilys;
- Dim ond mewn argyfwng meddygol pan mae angen sylw meddygol brys ar y plentyn, nad yw cydsyniad yn ofynnol.

3.10.4 Cydsynio: materion eraill

- Pan nad yw cydsyniad ar gael yn rhwydd, neu os yw rhiant yn gwrthod ei roi, dylid trafod y mater gyda'r gwasanaethau cymdeithasol o safbwynt yr angen i gael cyngor cyfreithiol a sut mae mynd ati i gael cydsyniad dilys;
- Dylid nodi nad yw ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47, Gorchmynion Amddiffyn Brys (Emergency Protection Orders) na phwerau amddiffyn yr heddlu'n rhoi cydsyniad ar gyfer archwiliad meddygol. Wrth wneud cais am Orchymyn Amddiffyn Brys ac os oes gofyn cael archwiliad meddygol, mae angen gwneud cais i'r gorchymyn gynnwys cyfarwyddiadau am archwiliad meddygol.

- Os yw plentyn neu berson ifanc yn ei arddegau'n gwrthod yr archwiliad, nid yw'n bosib ei wneud. Rhaid peidio byth â gorfodi plentyn i gael archwiliad.

3.11 Cofnodi

Dylid ysgrifennu nodiadau'r achos ar y pryd ac mor llawn â phosib ac o fewn 24 awr fan bellaf i'r digwyddiadau. Dylai'r nodiadau ddisgrifio trefn yr ymholiadau amddiffyn plant yn llawn, yn cynnwys popeth a ddigwyddodd cyn y cyfweliad ymchwilio, yr amseru, y lleoliad a'r staff oedd yn rhan o bob trafodaeth. Rhaid i bob cofnod gael ei lofnodi neu fod ag enw'r awdur, a rhaid iddo nodi'r amser a'r dyddiad. Dylai cofnod o gyswllt gyda'r plentyn nodi'r hyn a ddywedodd y plentyn, yn ei eiriau ei hun. Wrth ysgrifennu cofnodion, dylai gweithwyr proffesiynol ddilyn cod ymarfer eu hasiantaeth neu eu proffesiwn eu hun.

Blwch 11: Cofnodi ymweliadau â theuluoedd

Byddai enghraifft dda o gofnodi'n cynnwys y pwyntiau canlynol:

- Dyddiad ac amser yr ymweliad;
- Pwrpas yr ymweliad (ymholiad cychwynnol wrth amddiffyn plentyn, ymweliad asesu, ymweliad goruchwylio, etc);
- P'un ai oedd yr ymweliad wedi'i drefnu ai peidio;
- Canlyniad bwriadol yr ymweliad. Dylai hyn fod yn benodol. Er enghraifft, yn lle cofnodi 'casglu gwybodaeth ar gyfer asesiad', dylai'r cofnod sôn am wybodaeth benodol fel 'dysgu am brofiadau'r rheini o'u plentyndod eu hunain'. Byddai sefyllfa lle mae rhiant yn gwrthod cydweithredu'n cyfrannu at y dyfarniadau a'r penderfyniadau terfynol, a gallai fod yn ddarn pwysig o dystiolaeth;
- Y bobl oedd yn bresennol yn ystod yr ymweliad;
- Cadarnhad a oedd cyfle i weld a siarad gyda'r plentyn ai peidio gan ddisgrifio'i ymddangosiad corfforol ac emosiynol;
- Unrhyw ddymuniadau a theimladau a grybwyllwyd gan y plentyn a'r rhiant/un sy'n rhoi gofal yn ystod yr ymweliad;
- Os na chafodd y plentyn ei weld neu os nad oedd yn bresennol, beth gafodd ei wneud wedyn i gadarnhau unrhyw reswm dros ei absenoldeb;
- Crynodeb o'r trafodaethau;
- Pa wybodaeth neu gyngor a gafodd eu rhoi i'r rhiant, yr un sy'n rhoi gofal neu'r plentyn;

- Unrhyw drefniant dilynol a wnaed neu weithredu wedi ei gynllunio gan nodi pwy a weithredodd, a'r amserlen;
- Enw'r gweithiwr cymdeithasol a ysgrifennodd y cofnod, a'r amser a'r dyddiad pan gafodd ei ysgrifennu.

Mae angen i bob asiantaeth ofalu bod ei staff a'i gweithwyr proffesiynol yn ymwybodol o'r safonau sydd wedi'u gosod ar gyfer cadw cofnodion. Rhaid i bob asiantaeth fod â system ar waith ar gyfer monitro safonau cofnodi. Dylai'r gwasanaeth iechyd, yn benodol, ofalu mai un set yn unig o gofnodion sy'n bodoli ar gyfer y plentyn o fewn ardal benodedig.

Dylai asiantaethau ofalu bod protocolau clir ar waith ar gyfer y cronfeydd data o wybodaeth mae'r asiantaeth yn eu cadw am blant unigol, yn arbennig y cynnwys, y prosesau a'r hawl i fynd at y cofnodion. Dylai'r Byrddau Lleol Diogelu Plant ofalu bod y trefniadau hyn yn effeithiol.

3.12 Casgliad a chanlyniad yr ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47

3.12.1 Dod i benderfyniad

Ar ôl cwblhau'r ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47, bydd un o reolwyr y gwasanaethau cymdeithasol yn penderfynu pa weithredu fydd yn dilyn. Bydd yn rhoi sylw i farn unrhyw asiantaethau eraill sy'n rhan o'r broses amddiffyn plant. Gallai hyn gynnwys yr angen i gynnal cyfarfod strategaeth arall.

Rhaid cofnodi'r rhesymau dros wneud y penderfyniad yn glir yng nghofnodion achos y plentyn.

Gallai'r rheolwr ddod i un o dri phenderfyniad posib:

- Nid yw'r pryderon wedi'u cadarnhau neu nid oes sail i'r pryderon;
- Mae'r pryderon wedi'u cadarnhau neu mae sail i'r pryderon ond y farn yw nad yw'r plentyn yn parhau mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol;
- Mae'r pryderon wedi'u cadarnhau neu mae sail i'r pryderon a'r farn yw bod y plentyn yn parhau mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol.

Gyda'r ddau ddewis cyntaf, efallai fod y plentyn yn blentyn mewn angen. Efallai fod gofyn trefnu gwasanaethau cefnogi i roi sylw i'w anghenion a ddaeth i'r amlwg ar ôl cwblhau asesiad craidd a chynllun ar gyfer plentyn mewn angen. Dylai'r rhain gael eu cyd-gysylltu mewn cyfarfod rhyng-asiantaethol, a dylid cynnwys y teulu.

Dylai'r sawl a atgyfeiriodd yr achos yn wreiddiol gael gwybod am ganlyniad yr ymholiadau, gan gofio bod angen parchu cyfrinachedd y teulu.

Dylai'r teulu gael gwybodaeth lawn trwy gydol y broses amddiffyn plant.

Rhaid cofnodi canlyniad yr ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47. Dylid rhoi copi i'r rhieni, y plentyn os yw'n ddigon hen i ddeall, a'r asiantaeth a atgyfeiriodd yr achos. Dylid rhoi gwybod am y canlyniad i bob asiantaeth sydd wedi rhoi gwybodaeth neu wedi bod yn rhan o'r ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47.

Os yw'r sawl a atgyfeiriodd yr achos yn dymuno herio canlyniad yr ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47, dylai ddilyn y protocol lleol ar gyfer datrys anghydfodau proffesiynol.

3.12.2 Pryderon sydd heb eu cadarnhau

Pan nad yw ymholiadau'n cadarnhau'r pryderon gwreiddiol fod y plentyn yn dioddef niwed arwyddocaol neu mewn perygl o gael niwed arwyddocaol, nid oes angen rhagor o weithredu dan y canllawiau amddiffyn plant.

Mae angen cofnodi'n glir y rhesymau dros benderfynu nad oes angen rhagor o weithredu.

Ond dylai'r gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau eraill ystyried, ar y cyd â'r teulu, a oes angen cymorth a/neu wasanaethau arnyn nhw er mwyn gwella lles y plentyn. Yn ddelfrydol, dylai'r fath benderfyniad gael ei wneud mewn cyfarfod rhyng-asiantaethol. Bydd canlyniad yr asesu a gwblhawyd hyd yn hyn yn sail i'r penderfyniad hwnnw. Dan yr amgylchiadau yma, dylai'r asesiad craidd fynd yn ei flaen a chael ei gwblhau o fewn 35 diwrnod gwaith i'w ddyddiad cychwyn.

Pan mae'r ymholiadau'n dangos nad oes sail i'r pryderon, dylid hysbysu'n ysgrifenedig y rhieni/y rhai sy'n rhoi gofal, y plentyn a'r sawl a atgyfeiriodd yr achos, os yn briodol. Rhaid bod yn effro i deimladau pobl wrth ysgrifennu'r llythyrau a chydnabod bod y broses ymholi wedi achosi gofid a phryder. Ond, rhaid pwysleisio hefyd dyletswydd gyfreithiol yr asiantaethau statudol i wneud ymholiadau.

Mewn rhai amgylchiadau, efallai fod y pryderon ynglŷn â niwed arwyddocaol yn parhau, ond does dim digon o dystiolaeth. Yn y fath amgylchiadau, dylid cynnig gwasanaethau i'r teulu. Ond, os yw'r teulu'n eu gwrthod, mae angen i'r asiantaethau sy'n dal i ymwneud â'r teulu barhau'n wyliadwrus ac adrodd yn y ffordd arferol am unrhyw bryderon. Dan yr amgylchiadau yma, dylid ystyried gwneud asesiad craidd.

3.12.3 Pryderon wedi'u cadarnhau ond y farn yw nad yw'r plentyn yn parhau mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol

Pan mae pryderon wedi eu cadarnhau bod plentyn wedi dioddef niwed arwyddocaol ond bod ymholiadau'n dangos yn glir nad yw'r fath berygl yn parhau, mae'n bosib cytuno nad oes angen cynhadledd a chynllun amddiffyn plant, er ei bod hi'n dal yn bosib y bydd angen gwneud ymchwiliad troseddol. Yn y fath amgylchiadau, mae angen i bawb sy'n ymwneud â'r achos deimlo'n siŵr bod modd datblygu unrhyw gynllun sy'n ceisio sicrhau diogelwch a lles y plentyn yn y dyfodol a'i roi ar waith y tu allan i'r canllawiau amddiffyn plant. Cyn gwneud y fath benderfyniad, bydd yn bwysig pob tro i ofyn am farn y plentyn mewn ffordd sy'n gyson â'i oedran a'i allu i ddeall. Rhaid i'r gweithiwr cymdeithasol gofnodi'r penderfyniad a'r rhesymau dros ei wneud, a rhaid cynnwys enwau'r holl weithwyr oedd yn rhan o'r broses benderfynu.

Rhaid i'r penderfyniad i beidio â chynnal cynhadledd amddiffyn plant yn y fath amgylchiadau gael ei wneud yn ofalus iawn. Rhaid dadansoddi'r wybodaeth sydd ar gael a barn asiantaethau eraill a fu'n rhan o'r ymholiadau amddiffyn plant adran 47. Pan mae'n glir bod plentyn wedi dioddef niwed arwyddocaol, rhaid i'r gwasanaethau cymdeithasol fod yn ofalus iawn wrth benderfynu peidio â symud ymlaen at gynhadledd amddiffyn plant. Rhaid i'r penderfyniad gael ei gadarnhau, neu ei wrthod, gan un o weithwyr y gwasanaethau cymdeithasol sydd wedi'i ddynodi ac sydd â chymwysterau addas. Mae hawl gan y gweithwyr proffesiynol a'r asiantaethau sydd wedi ymwneud fwyaf â'r plentyn a'r teulu, a'r rhai oedd yn cymryd rhan yn yr ymholiadau, i ofyn i'r gwasanaethau cymdeithasol gynnull cynhadledd amddiffyn plant os ydyn nhw'n wir bryderu na fyddai plentyn yn cael ei ddiogelu'n iawn fel arall. Rhaid i'r penderfyniad i beidio â chynnal cynhadledd amddiffyn plant gael ei seilio ar farn glir nad yw'r perygl iddo gael niwed arwyddocaol yn parhau. Gallai enghreifftiau o'r fath sefyllfa gynnwys: lle mae'r amgylchiadau wedi newid ac mae'r camdriniwr honedig wedi gadael y cartref yn barhaol, neu lle mae'r niwed arwyddocaol wedi digwydd o ganlyniad i ddigwyddiad camdriniol ynysig, er enghraifft pan mae dieithryn wedi cam-drin plentyn. Wrth wneud y fath benderfyniad, dylai'r gwasanaethau cymdeithasol neu unrhyw asiantaeth arall ystyried trefnu cyfarfod cynllunio rhyng-asiantaethol neu gyfarfod i drafod cynllun plentyn mewn angen, a chynnwys y teulu.

Pwrpas y cyfarfod cynllunio rhyng-asiantaethol neu'r cyfarfod i drafod cynllun plentyn mewn angen fydd:

- Cytuno gydag asiantaethau eraill a gyda'r teulu beth sydd angen ei wneud, a beth yw'r canlyniadau a fwriedir o ran diogelwch a lles y plentyn;
- Creu cynllun a ddylai gael ei seilio ar ddarganfyddiadau'r broses asesu, a gofalu y bydd yr asesiad craidd yn cael ei gwblhau yn ôl yr amserlen ofynnol;

- Enwi'r tasgau yn y cynllun a'r bobl a fydd yn gyfrifol am roi pob un ar waith;
- Esbonio'n glir beth fydd yn cael ei wneud os nad yw'n bosib rhoi'r cynllun ar waith yn llwyddiannus;
- Gosod amserlen ar gyfer adolygu'r cynnydd;
- Ystyried a fyddai'n briodol cynnal cynhadledd neu gyfarfod grŵp teulu.

Blwch 12: Cynadleddau/ Cyfarfodydd Grwp Teulu

- Ffordd yw cynadleddau grwp teulu o roi cyfle i deuluoedd ddod at ei gilydd i geisio creu'r cynllun gorau ar gyfer plentyn.
- **Y gwahaniaeth sylfaenol rhwng cynadleddau grwp teulu a chyfarfodydd eraill yw mai aelodau'r teulu sy'n gwneud penderfyniadau, nid gweithwyr proffesiynol.**
- Datrys problemau trwy drafod yw hanfod cynadleddau teulu. Byddan nhw'n effeithiol os ydyn nhw wedi'u seilio ar fframwaith o egwyddorion ac arferion clir sy'n cynnwys y broses atgyfeirio, cyfarfodydd cynllunio, trefn y cyfarfod a chynlluniau adolygu.
- Nid yw cynadleddau teulu yn disodli cynadleddau amddiffyn plant, nac yn diddymu'r angen am y fath gynadleddau. Os yw'r meini prawf perthnasol yn cael eu bodloni, dylid cynnal cynhadledd amddiffyn plant bob amser.

Gall cynadleddau teulu fod yn werthfawr:

- Os oes gofyn creu cynllun plentyn mewn angen;
- Os nad yw ymholiadau amddiffyn plant adran 47 wedi cadarnhau niwed arwyddocaol, ond mae angen cymorth a gwasanaethau ar y teulu ac maen nhw'n ansicr yn eu cylch;
- Mae cynhadledd amddiffyn plant wedi cytuno fod cynhadledd deuluol yn ffordd addas i'r grŵp craidd fynd ati i droi cynllun amddiffyn plant yn gynllun manwl, ac i gytuno arno.

3.12.4 Pryderon wedi'u cadarnhau a'r farn yw bod y plentyn yn parhau mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol

Dan yr amgylchiadau yma, dylai'r gwasanaethau cymdeithasol gynnull cynhadledd amddiffyn plant o fewn 15 diwrnod gwaith i ddyddiad y drafodaeth strategaeth, neu i ddyddiad y drafodaeth/cyfarfod strategaeth diwethaf os oedd mwy nag un, pan gafodd yr ymholiadau amddiffyn plant adran 47 eu cychwyn. Mae angen cynhadledd amddiffyn plant i benderfynu ar y camau nesaf dan y canllawiau amddiffyn plant.

Nid yw cyfarfod strategaeth yn gwneud y tro yn lle cynhadledd amddiffyn plant.

Mae pump math o sefyllfa a allai olygu bod cynhadledd amddiffyn plant yn angenrheidiol:

- Mae ymholiadau amddiffyn plant adran 47 i ddigwyddiad neu i amheuaeth o gamdriniaeth yn cadarnhau'r pryderon ac yn dangos bod angen gweithredu dan y canllawiau amddiffyn plant i ddiogelu lles y plentyn. Mae hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle mae'r amheuaeth fod camdriniaeth a/neu esgeulustod yn debygol wedi datblygu dros amser ar sail amryw o bryderon, a bod penderfyniad wedi cael ei wneud i symud yr achos i'r drefn amddiffyn plant, neu fod asiantaeth arall wedi gofyn am gynhadledd amddiffyn plant. Dylid dod i'r penderfyniad hwn mewn trafodaeth neu gyfarfod strategaeth, gyda'r gynhadledd yn dilyn o fewn 15 diwrnod gwaith;
- Mae hanes teulu'n awgrymu bod plentyn, cyn iddo gael ei eni, yn debygol o gael niwed arwyddocaol;
- Mae plentyn yn cael ei ddarganfod yn byw mewn cartref sy'n cynnwys neu sy'n cael ei ymweld gan oedolyn sy'n achosi perygl i blentyn neu oedolyn y credir iddo gamdrin plentyn;
- Mae plentyn yn perthyn i deulu sydd wedi symud i'r ardal, ac mae wedi cael ei gofrestru mewn ardal arall;
- Mae asiantaeth arall yn galw am gynnal cynhadledd.

Dan y tair set gyntaf o amgylchiadau, dylai ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47 ddod bob amser o flaen y gynhadledd amddiffyn plant.

Os y farn yw bod angen amddiffyn plentyn ar unwaith, cyn i gynhadledd amddiffyn plant gael ei chynnal, ni ddylai'r ffaith fod y gynhadledd ar fin cael ei chynnal achosi unrhyw oedi wrth fynd ati i amddiffyn y plentyn.

3.13 Yr asesiad craidd

Rhaid dechrau asesiad craidd ar gyfer pob plentyn sy'n destun ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47; mae'r ddwy broses yn dechrau ar yr un pryd. Pwrpas yr asesiad craidd yw galluogi gweithwyr i ffurfio barn broffesiynol gadarn ynglŷn â'r ffordd orau i ymyrryd i ddiogelu a hybu lles plentyn.

Dylid cwblhau'r asesiad craidd o fewn 35 diwrnod gwaith. Dylai adeiladu ar yr holl wybodaeth a ddaeth i law wrth wneud yr asesiad cychwynnol a'r ymholiadau adran 47. Dylai gynnig tystiolaeth a fydd yn sylfaen i farn a chynlluniau ynglŷn â'r ffordd orau o ddiogelu plentyn, hybu ei les, a chynorthwyo'r rhieni i hybu lles eu plant.

Mae pob un o'r gweithwyr proffesiynol sy'n perthyn i'r grŵp craidd yn gyfrifol am wneud yr asesiad craidd. Bydd hyd a lled y cyfrifoldeb hwn i'w weld yn eu cyfraniad llawn at y broses.

Bydd yr asesiad craidd yn cynnwys dadansoddiad o:

- Anghenion datblygu'r plentyn;
- Gallu'r rhieni i ymateb i'r anghenion hynny, yn cynnwys gallu'r rhieni i ddiogelu'r plentyn rhag niwed;
- Amgylchiadau ehangach y teulu.

Bydd yr asesiad yn rhoi sylw i anghenion ethnig a diwylliannol y plentyn a'r teulu. Dylid rhoi cyfle i'r teulu gymryd rhan yn yr asesu, a'u hannog i wneud hynny gan esbonio'r broses bob cam o'r ffordd.

Blwch 13: Ymarfer da wrth asesu

Mae adolygiadau achosion difrifol yn tanlinellu'n aml bwysigrwydd asesu a dadansoddi. Wrth asesu mae rhywun yn casglu, trefnu a dadansoddi gwybodaeth. Mae asesu effeithiol yn chwilio am batrymau cyffredinol sy'n esbonio'r hyn sydd wedi digwydd i blentyn. Mae'n rhoi fframwaith ar gyfer deall a dadansoddi angen, risg a'r perygl mae unigolion yn ei achosi i blant.

Rhaid bod yn arbennig o ofalus nad yw asesiadau'n mynd yn rhy optimistaidd neu'n lleihau'r risg i blant. Mae angen canolbwyntio ar gasglu tystiolaeth er mwyn barnu p'un ai yw plentyn yn ddiogel rhag cael ei anafu, ei esgeuluso, a'i gam-drin yn emosiynol neu'n rhywiol.

Y Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd



3.14 Y gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol

3.14.1 Cwmpas a phwrpas

Mae'r gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol yn dod ag aelodau'r teulu, y plentyn pan fo hynny'n briodol, a'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud fwyaf â'r plentyn a'r teulu, at ei gilydd ar ôl ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47.

Pwrpas y gynhadledd gychwynnol yw:

- Dadansoddi'n wrthrychol, mewn sefyllfa ryng-asiantaethol, yr holl bryderon a'r wybodaeth a ddaeth i law o'r asesiad cychwynnol, yr ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47, yr asesiad craidd hyd yn hyn ac o'r wybodaeth sydd ar gael yn barod am y teulu;
- Barnu a yw'n debygol y bydd plentyn neu unrhyw blentyn cysylltiedig arall neu blentyn sydd heb ei eni'n dioddef niwed arwyddocaol yn y dyfodol, hynny yw, lefel y perygl sy'n parhau;
- Penderfynu pa weithredu sydd ei angen yn y dyfodol i ddiogelu'r plentyn ac i hybu ei les, cytuno sut mae mynd â hyn yn ei flaen a gwneud yn glir y canlyniadau sydd wedi'u bwriadu ar gyfer y plentyn (yr angen i'w gofrestru ac i greu cynllun amddiffyn plant ar ei gyfer).

3.14.2 Cynllunio'r gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol

Dylid cynnal y gynhadledd amddiffyn gychwynnol o fewn 15 diwrnod gwaith i ddyddiad y drafodaeth/cyfarfod strategaeth diwethaf.

Mae'r gynhadledd yn gofyn am waith paratoi ac asesu cychwynnol effeithiol. Dylai cadeirydd y gynhadledd fodloni bod gwybodaeth digonol yn debygol o fod ar gael i'r gynhadledd fedru barnu'n ddeallus a yw'r plentyn yn parhau mewn perygl o ddioddef niwed. Dan amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd y cadeirydd am ohirio'r gynhadledd. Ond, wrth wneud hynny, dylai fodloni'i hun fod y plentyn yn cael ei amddiffyn, a rhaid pennu dyddiad y gynhadledd cyn gynted ag y bo modd.

Dylai'r rhai sy'n cael eu gwahodd i gynadleddau fod â chyfraniad gwerthfawr i'w wneud ar sail eu harbenigedd proffesiynol, eu gwybodaeth am y plentyn neu'r teulu, neu'r ddau. Dim ond y bobl ag angen i fod yno a ddylai fod yn bresennol.

Dylid ystyried gwahodd y bobl canlynol:

- Y plentyn, y rhai sy'n rhoi gofal ac aelodau o'r teulu, yn cynnwys pawb sydd â chyfrifoldeb rhiant;
- Staff y gwasanaethau cymdeithasol sydd wedi bod wrthi'n gwneud asesiad o'r plentyn a'r teulu, a'r ymholiadau;
- Yr heddlu;
- Cynrychiolydd ysgol y plentyn (os yw'r plentyn o oedran ysgol);
- Unrhyw rai eraill o staff y gwasanaeth addysg sy'n ymwneud â'r plentyn, er enghraifft, swyddog lles addysg/gweithiwr cymdeithasol addysg, seicolegydd addysg neu weithiwr ieuenctid;
- Paediatregydd yr ardal neu'r gymuned a/neu'r meddyg a wnaeth yr archwiliad;
- Meddyg teulu'r plentyn;
- Gwasanaeth yr ymwelwyr iechyd/nyrs yr ysgol/y fydwraig/yr uwch nyrs sy'n gyfrifol am amddiffyn plant ac unrhyw un arall o weithwyr perthnasol y proffesiynau iechyd;
- Gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc;
- Y gwasanaeth prawf cenedlaethol;
- Gwasanaeth troseddwyr ifanc;
- Yr NSPCC (os yw ar waith yn yr ardal);
- Gwasanaethau cyfreithiol yr awdurdod lleol (plant a theuluoedd);

- Gwasanaethau iechyd meddwl oedolion/gwasanaethau camddefnyddio sylweddau;
- Gwasanaethau cefnogi teuluoedd/gwasanaethau gofal dydd;
- Cymorth i Fenywod neu unrhyw fudiad gwirfoddol neu annibynnol arall sy'n ymwneud â'r achos;
- Un o gynrychiolwyr y lluoedd arfog, mewn achosion lle mae cyswllt â'r gwasanaethau.

Bydd rheolwr priodol y gwasanaethau cymdeithasol, ar y cyd â'r gweithiwr cymdeithasol sydd wedi'i ddynodi i'r achos, yn penderfynu pwy i'w gwahodd. Dylai'r bobl sy'n cael eu gwahodd roi blaenoriaeth i'r gynhadledd. Dylen nhw gael gwybod pwy arall sydd wedi cael eu gwahodd.

Os yw achos gofal wedi cael ei ddechrau ac mae gwarcheidwad plant (sy'n cael ei alw hefyd yn swyddog achosion teulu yng Nghymru) wedi cael ei benodi, dylid gwahodd y gwarcheidwad i'r gynhadledd. Ond bydd y gwarcheidwad yn dod i gynhadledd amddiffyn plant fel sylwebydd yn unig, ac ar yr amod y cafodd ei benodi gan y llys i gynrychioli'r plentyn. Rhaid cadw hefyd at amodau'r Adran Iechyd sydd wedi'u disgrifio yn '*Manual of Practice Guidance for Guardians and Reporting Officers'*. Dylai gwarcheidwaid ofalu bob amser nad ydyn nhw'n mynd yn rhan o'r broses pan fydd y gynhadledd yn gwneud penderfyniadau. Dylai'r cadeirydd ofalu bod y gwahaniaeth hwn yn rôl y gwarcheidwad yn cael ei barchu bob amser.

3.14.3 Cworwm ar gyfer y gynhadledd amddiffyn gychwynnol

Dylai cynhadledd fod â digon o wybodaeth a thystiolaeth i allu dod i benderfyniadau deallus. Ond, rhaid cadw cydbwysedd rhwng y gofyn hwn a'r perygl o'r gynhadledd yn mynd yn rhy fawr. Gallai hynny amharu ar y drafodaeth a gwneud y plentyn a'r teulu'n llai parod i gyfrannu.

Fel arfer, bydd angen i o leiaf tair asiantaeth neu grwpiad proffesiynol sydd wedi dod i gysylltiad uniongyrchol â phlentyn fod yn bresennol cyn y gall cynhadledd fynd yn ei blaen. Efallai y bydd pobl eraill sydd heb wybodaeth uniongyrchol am y plentyn yn cael eu gwahodd oherwydd eu harbenigedd proffesiynol neu'r ffaith eu bod yn gyfrifol am wasanaethau. Os yw'r gynhadledd yn trafod plentyn sydd heb ei eni, mae'n hanfodol i'r gwasanaethau bydwreigiaeth/gwasanaeth yr ymwelwyr iechyd gael eu cynnwys.

Ond, gallai sefyllfaoedd godi lle mai dim ond dwy asiantaeth neu grwpiad proffesiynol sy'n bresennol. Un enghraifft o'r fath sefyllfa yw pan nad yw'r plentyn wedi dod i gysylltiad â thair asiantaeth, ond amgylchiadau eithriadol fyddai'r rhain. Dan y fath amgylchiadau, mae'r hawl gan y cadeirydd fynd ymlaen ar yr amod ei fod yn fodlon bod y wybodaeth hanfodol ar gael, yn arbennig oddi wrth y prif asiantaethau sy'n ymwneud â'r achos.

Dylai pob gweithiwr proffesiynol ac asiantaeth sydd wedi cael gwahoddiad i ddod i gynhadledd amddiffyn plant roi adroddiad ysgrifenedig, p'un ai ydyn nhw'n gallu bod yn bresennol ai peidio.

Ni ddylai'r ffaith fod cynhadledd amddiffyn plant ar fin cael ei chynnal achosi unrhyw oedi wrth gymryd camau angenrheidiol i sicrhau diogelwch plentyn sydd mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol.

3.14.4 Cynnwys y plentyn yn y gynhadledd amddiffyn plant

Rhaid i'r plentyn gael cyfle ym mhob cynhadledd i roi ei farn a disgrifio'i ddymuniadau, p'un ai yw'n bresennol ei hun neu fod rhywun arall yn mynegi ei deimladau a'i ddymuniadau ar ei ran. Os y teimlad yw bod y gallu gan y plentyn i elwa ar y profiad o ddod i gynhadledd, dylid ei annog i fod yn bresennol. Os y farn yw y gallai'r profiad o fynd i gynhadledd niweidio'r plentyn oherwydd ei oedran, ei allu i ddeall, neu'r wybodaeth a fydd yn cael ei chyflwyno, ni ddylid ei annog i fod yn bresennol. Gallai fod yn fwy addas i'r plentyn gyflwyno'i deimladau'n ysgrifenedig ac, os oes angen, dylai'r plentyn gael help i wneud hynny. Mae gan blentyn hawl i gael eiriolwr annibynnol a fyddai'n dod i gynhadledd gydag e neu'n mynd ar ei ran.

Mae rôl cadeirydd y gynhadledd yn allweddol wrth wneud y profiad yn un cadarnhaol i'r plentyn. Dylai plentyn sy'n dod i gynhadledd gael cyfle i ddod ag eiriolwr, ffrind neu gefnogwr gydag e. Rhaid rhoi sylw i ddewis iaith y plentyn, ei hoff ddull o gyfathrebu neu unrhyw anghenion penodol eraill. Dylai'r cadeirydd gyfarfod y plentyn cyn y gynhadledd, yn ystafell y gynhadledd a chyn i bobl eraill gyrraedd. Dylai'r cadeirydd ofalu bod y plentyn yn deall beth fydd yn digwydd yn y gynhadledd, sut y gallai gyfrannu, a sut y gallai wneud cwyn os yw am wneud.

Pan mae rhiant y plentyn neu'r un sy'n rhoi gofal iddo'n gwadu'r honiadau, neu'n ceisio'u lleihau, neu'n dangos diffyg cefnogaeth i'r plentyn/person ifanc, ni ddylai hyn fod yn rheswm dros gadw'r plentyn o'r gynhadledd. Ond bydd rhaid i'r cadeirydd feddwl am drefn y gynhadledd er mwyn peidio ag achosi rhagor o ofid i'r plentyn. Gallai hyn gynnwys trefnu i'r plentyn a'i rieni ddod i'r gynhadledd ar wahân, ac i'r naill gyfrannu iddi heb i'r llall fod yn bresennol.

Ar ôl y gynhadledd, dylai'r cadeirydd gynnig cyfle i'r plentyn ei thrafod yn syth ac i roi ei farn arni. Dylai'r gweithiwr allweddol ddilyn hyn trwy ymweld â'r plentyn o fewn 72 awr. Os yw plentyn yn anghytuno â phenderfyniadau cynhadledd, rhaid rhoi gwybodaeth a chyngor iddo am drefn gwyno/apelio'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant, gan roi sylw i'w oedran a'i allu i ddeall.

3.14.4.1 Cau allan plant o gynhadledd amddiffyn plant

Cyfrifoldeb cadeirydd y gynhadledd yw penderfynu a ddylai plentyn gael ei gau allan am ran o'i gynhadledd amddiffyn, neu am y gynhadledd gyfan. Ymhlith y ffactorau i'w hystyried y mae:

- Oedran cronolegol y plentyn neu ei oedran ymarferol sy'n awgrymu mai prin y byddai'n gallu deall y broses a'r wybodaeth;
- Mae ymddygiad y plentyn yn awgrymu y byddai ei bresenoldeb yn amharu'n ddrwg ar y gynhadledd i'r fath raddau na fyddai'n effeithiol;
- Mae'n debygol y byddai'r plentyn yn clywed gwybodaeth a fyddai'n creu llawer o ofid iddo;
- Nid yw'r rhiant neu'r person â chyfrifoldeb rhiant yn fodlon cydsynio i bresenoldeb y plentyn yn y gynhadledd.

Pan mae angen cau allan plentyn o gynhadledd, rhaid i'r cadeirydd deimlo'n fodlon fod trefniadau wedi cael eu gwneud i'w farn, ei ddymuniadau a'i deimladau gael eu cyfleu, ac iddo gael gwybod am ganlyniad y gynhadledd. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i eiriolwr y plentyn, er enghraifft, ddod i'r gynhadledd.

Rhaid cofnodi yn y cofnodion unrhyw benderfyniad i gau allan plentyn am ran o gynhadledd, neu am y gynhadledd gyfan, a rhaid nodi'r rhesymau dros benderfynu hynny. Dylid ystyried a ddylai eiriolwr y plentyn fod yn bresennol i gyfleu barn a dymuniadau'r plentyn pan mae'r plentyn wedi'i gau allan neu'n dewis peidio â bod yn bresennol.

3.14.5 Cynnwys yn y gynhadledd amddiffyn yr oedolion sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu'r rhai sy'n rhoi gofal iddo

Dylid mynd ati i annog rhieni neu'r rhai sy'n rhoi gofal i blentyn i ddod i'r gynhadledd amddiffyn, oni bai fod penderfyniad wedi ei wneud i'w cau allan. Efallai y bydd eu cyfraniad yn werthfawr. Mae pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth gyda rhieni ac aelodau'r teulu'n sail i holl waith amddiffyn plant. Mae angen i weithwyr proffesiynol a theuluoedd fod yn gwbl onest â'i gilydd o gamau cyntaf yr ymholiadau. Dylai'r gweithiwr cymdeithasol sy'n cynnull y gynhadledd roi gwybod am y broses a ddilynir i'r rhieni/y rhai sy'n rhoi gofal. Dylai ofalu eu bod yn deall pwrpas y gynhadledd a phwy fydd yn bresennol.

Tra bo angen annog rhieni i fod yn bresennol, ni ddylai hynny olygu bod plentyn sy'n dymuno bod yn bresennol yn cael ei gau allan. Efallai na fydd bob amser yn bosib i bob aelod o deulu gael ei gynnwys. Er enghraifft, pan mae oedolion a phlant yn dymuno cyflwyno'u hachos mewn cynhadledd, efallai nad yw'r naill yn awyddus i siarad o flaen y llall. Efallai fod angen rhannu gwybodaeth am deulu arall. Neu efallai fod rhaid cyflwyno gwybodaeth sensitif iawn, yn arbennig os oes mai un o'r rhieni yw'r sawl y mae honiad o gam-drin yn ei erbyn.

3.14.5.1 Cynorthwyo rhieni neu rai sy'n rhoi gofal i ddod i'r gynhadledd amddiffyn plant

Dylid esbonio pwrpas a threfn cynhadledd i'r rhieni ac i unrhyw aelodau eraill o'r teulu sy'n rhan o'r broses, ac esbonio pwy fydd yn bresennol.

Oni bai fod y meini prawf yn cael eu bodloni ar gyfer cau allan o gynhadledd y rhieni neu'r rhai sy'n rhoi gofal, dylid mynd ati bob tro i'w hannog i fod yn bresennol. Trwy ddod i'r gynhadledd, bydd y rhieni neu'r rhai sy'n rhoi gofal yn gwybod am natur y pryderon, yn debygol o ddeall y perygl i'w plant a'r rhesymau dros ymwneud yr asiantaethau â'r teulu a'r plant. Dylai'r holl weithwyr proffesiynol sy'n dod i gysylltiad uniongyrchol â'r teulu eu hannog i ddod i'r gynhadledd, oni bai fod rhesymau da dros weld y cadeirydd yn ystyried eu cau allan.

Gallai hyn olygu:

- Cynnig help ariannol neu ymarferol i drefnu cludiant i safle'r gynhadledd;
- Trefnu'r gynhadledd ar adeg sy'n cyd-fynd â threfniadau gofal plant neu gyfrifoldebau eraill;
- Dewis safle ar gyfer y gynhadledd sy'n rhwydd mynd iddo, a/neu un a allai gynnig gwasanaeth gwarchod plant i ryddhau'r rhiant i gymryd rhan lawn yn y gynhadledd;
- Trefnu i blentyn a'i deulu weld safle'r gynhadledd cyn iddi gael ei chynnal;
- Trefnu gwasanaeth cyfieithu neu fod unrhyw anghenion eraill yn cael eu diwallu;
- Annog y rhiant/yr un sy'n rhoi gofal i wahodd rhywun i'w gefnogi – gallai'r person hwnnw fod yn ffrind, yn aelod o'r teulu, neu'n aelod o fudiad proffesiynol neu wirfoddol.

Dylai'r gweithiwr cymdeithasol sy'n cynnull y gynhadledd hysbysu'r rhieni/ y rhai sy'n rhoi gofal am y broses a ddilynir. Dylai ofalu eu bod yn deall pwrpas y gynhadledd a phwy fydd yn bresennol. **Nid yw bod yn bresennol yr un fath â chymryd rhan**. Dylai rhieni/y rhai sy'n rhoi gofal gael eu paratoi'n ddigonol cyn y gynhadledd er mwyn cymryd rhan mor lawn â phosib ynddi. Dylai rhieni gael gwahoddiad llafar ac ysgrifenedig i'r gynhadledd a thaflen yn esbonio pwrpas y fath gynadleddau a phwrpas cofrestru, a thaflen yn esbonio'r drefn gwyno. Efallai fod angen y wybodaeth hon ar rai rhieni er mwyn gofalu eu bod yn deall y broses a'u rôl eu hunain ynddi. Dylai'r gweithiwr cymdeithasol fynd ati wedyn i drafod y materion hyn gyda nhw, yn cynnwys pwy sy'n debygol o fod yn bresennol a pham, a pha fath o faterion fydd yn cael eu trafod. Gallai defnyddio eiriolwr hwyluso'r broses hon, yn arbennig pan mae cyfathrebu'n creu anawsterau.

Er mwyn i'r rhieni gyfrannu'n llwyddiannus ac yn effeithiol i'r gynhadledd, efallai fod angen eu helpu i baratoi ar ei chyfer, er enghraifft, trwy eu hannog i ysgrifennu nodiadau am yr hyn sydd ganddyn nhw i'w ddweud. Efallai hefyd y bydd angen eu helpu gyda threfniadau gofal plant neu i oresgyn anawsterau teithio. Dylid annog rhieni i ddod â ffrind neu berthynas i'r gynhadledd, neu rywun arall i'w cefnogi, ar yr amod nad yw'r person dan sylw'n cael ei amau neu wedi'i gael yn euog o gam-drin. Ond, wrth wneud hyn, rhaid rhoi sylw i unrhyw ddymuniadau neu deimladau mae'r plentyn wedi'u mynegi.

Pan nad yw rhiant/un sy'n rhoi gofal yn dymuno dod i'r gynhadledd, rhaid gwneud popeth posib i ofalu bod eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau'n cael eu cyfleu a'u cofnodi. Gallai eiriolwr helpu i ddatblygu'r math hwn o gyfathrebu.

Dylai cadeirydd y gynhadledd gwrdd â'r rhieni o flaen llaw, a gorau oll os gall wneud hynny yn yr ystafell gynhadledd cyn i bawb arall gyrraedd. Dylai esbonio trefn a rheolau sylfaenol y gynhadledd iddyn nhw.

Os bydd aelodau'r gynhadledd yn penderfynu rhoi enw'r plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant, dylai'r rhieni gael gwybod beth y mae gofyn iddyn nhw ei gyfrannu at gynllun amddiffyn y plentyn, a sut y byddan nhw'n cyfrannu at gynllunio ac adolygu gofal pellach. Os bydd rhieni'n anghytuno â phenderfyniad y gynhadledd, mae gofyn rhoi gwybod iddyn nhw am drefn gwyno a/neu apelio'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant.

P'un ai yw'r rhieni'n bresennol yn y gynhadledd ai peidio, dylid ysgrifennu atyn nhw i'w hysbysu o benderfyniad y gynhadledd a'r cynllun amddiffyn plant o fewn pum diwrnod gwaith i ddyddiad y gynhadledd. Dylai'r gweithiwr allweddol drafod yr argymhellion gyda'r rhieni er mwyn gofalu eu bod yn deall y rhesymau dros wneud y penderfyniad, a'i oblygiadau. Gallai hyn olygu trafod cynlluniau wrth gefn neu'r canlyniadau os ydyn nhw'n methu cydymffurfio â'r cynllun amddiffyn plant neu os yw'r cynllun yn aneffeithiol.

Dylid anfon cofnodion y gynhadledd amddiffyn plant at y rhieni ac at y plentyn hefyd, os yw hynny'n briodol, **ac eithrio pan fyddai eu hanfon yn rhoi'r plentyn neu unrhyw berson arall mewn perygl**. Dylai'r cadeirydd benderfynu a ddylai'r cofnodion gael eu hanfon ai peidio ar ôl ymgynghori ag aelodau'r gynhadledd. Er mwyn peidio â datgelu gwybodaeth sensitif, dylid penderfynu pwy sydd i gael set gyfan o'r cofnodion a phwy sydd i gael crynodeb. Dylid cofnodi'n ofalus yn y cofnodion y rhesymau dros benderfynu peidio ag anfon cofnodion at aelodau perthnasol y teulu.

3.14.5.2 Cau allan rhiant neu'r sawl sy'n rhoi gofal o gynhadledd amddiffyn plant

Dim ond oherwydd diogelwch y plentyn a/neu i ofalu bod y gynhadledd yn cyflawni'i hamcanion a'i phwrpas y dylid cau allan o gynhadledd amddiffyn plant y rhiant neu'r sawl sy'n rhoi gofal ac sydd â chyfrifoldeb rhiant. Dylai'r

gweithiwr cymdeithasol fynd ati o leiaf 24 awr cyn y gynhadledd, ac yn gynt os yw'n bosib, i drafod gyda'r cadeirydd a ddylai'r rhiant neu'r sawl sy'n rhoi gofal ddod i'r gynhadledd.

Mae hawl gan y cadeirydd i gau rhieni neu'r sawl sy'n rhoi gofal allan o gynhadledd gyfan neu o ran ohoni os yw un neu fwy o'r meini prawf sy'n dilyn yn cael eu bodloni:

- Mae perygl cryf y bydd aelod o'r teulu'n bygwth y plentyn neu unrhyw un arall yn ystod neu ar ôl y gynhadledd;
- Gallai presenoldeb y rhiant neu'r sawl sy'n rhoi gofal amharu'n ddrwg ar drefn y gynhadledd;
- Mae goblygiadau i achos troseddol rhiant sydd yn gamdriniwr honedig wrth ddod i'r gynhadledd. Ond nid yw'r ffaith y gallai person gael ei erlyn yn rheswm ynddo'i hun dros ei gau allan. Dylai'r cadeirydd ofyn am gyngor yr heddlu a gwasanaeth erlyn y goron cyn dod i'r fath benderfyniad;
- Mae plant sy'n ddigon hen a deallus yn dweud nad ydyn nhw am weld eu rhieni/y rhai sy'n rhoi gofal yn dod i'r gynhadledd.

Os yw person â chyfrifoldeb rhiant yn cael ei gau allan:

- Mae ganddo hawl i wybod pam y mae'n cael ei gau allan. Gall ofyn i'r cadeirydd ailystyried ei benderfyniad i'w gau allan, ac mae ganddo hawl i'r aelodau ymgynghori ag e cyn ac ar ôl y gynhadledd;
- Dylai gael cyfle i drafod y sefyllfa gyda'r cadeirydd, ac i gael ffordd arall o gyfleu ei farn i'r gynhadledd;
- Pan mae penderfyniad wedi cael ei wneud i gau rhiant allan, dylai'r cadeirydd ofalu bod y gweithiwr cymdeithasol yn gofyn i'r rhiant am ei farn, ac yn cyfleu'r farn honno yn ystod y gynhadledd;
- Mae gan y person hawl i gael gwybod am benderfyniadau'r gynhadledd sy'n effeithio'n uniongyrchol ar fywyd ei deulu;
- Rhaid nodi yn y cofnodion y rhesymau dros gau'r rhieni allan;
- Mae penderfyniad y cadeirydd i gau rhywun allan yn derfynol. Mae'n cael ei wneud mewn amgylchiadau eithriadol, ond mae'n bosib cwyno am y penderfyniad;
- Os yw rhieni wedi cael eu cau allan, neu maen nhw'n methu dod neu'n amharod i ddod, rhaid cynnwys y rhesymau yn y cofnodion;
- Gall unrhyw weithiwr proffesiynol ofyn am gau rhiant/un sy'n rhoi gofal allan o'r gynhadledd. Rhaid i'r cais fynd cyn gynted â phosib at gadeirydd y gynhadledd. Dylai'r cadeirydd drafod y cais gyda rheolwr

perthnasol yr asiantaeth cyn penderfynu a yw am gau'r person allan ai peidio.

3.14.6 Adroddiadau ar gyfer cynhadledd amddiffyn plant

Dylai pob asiantaeth sy'n cael ei gwahodd i'r gynhadledd ddarparu adroddiad ysgrifenedig o flaen llaw. Dylai'r adroddiad grynhoi ymwneud yr asiantaeth â'r teulu a disgrifio'r hyn y mae'n gwybod am iechyd a datblygiad y plentyn ac, yn bwysig, rhoi ei barn ar allu'r rhieni i ddiogelu'r plentyn a hybu ei les. Dylai adroddiadau ysgrifenedig ddefnyddio'r canllawiau yn ffurflen enghreifftiol y System Integredig ar gyfer Plant. Dylen nhw fod ar gael i'r cadeirydd 48 awr cyn y gynhadledd, yn unol â chanllawiau'r System Integredig ar gyfer Plant. Mae'n ymarfer da i'r rhai sy'n ysgrifennu adroddiadau rannu a thrafod eu hadroddiadau gyda theuluoedd o leiaf diwrnod cyn y gynhadledd, ac esbonio'r cynnwys. Rhaid i gynrychiolwyr yr asiantaethau ddod i'r gynhadledd yn disgwyl cyflwyno'u hadroddiad a chrynhoi eu pwyntiau pwysig.

Dylai pob adroddiad ddangos y gwahaniaeth clir rhwng ffeithiau, arsylw, honiad a barn.

Dylai'r rhai sy'n ysgrifennu adroddiadau roi sylw i anghenion pob plentyn. Dylen nhw wirio'u cofnodion am ddata ffeithiol fel rhestr o'u brechiadau, eu hymweliadau â chlinigau neu unedau ddamweiniau ysbyty, a'u presenoldeb yn yr ysgol. Dylid archwilio cofnodion oedolion perthnasol hefyd. Mae hyn yn arbennig o bwysig os oes gan oedolyn broblemau fel afiechyd meddwl neu ei fod yn ddibynnol ar alcohol neu gyffuriau. Gallai'r ffactorau hyn effeithio ar allu'r oedolyn i ddiwallu anghenion neu amddiffyn plentyn.

Dylid tynnu sylw'r cadeirydd at unrhyw wybodaeth arbennig o sensitif neu gyfrinachol cyn y gynhadledd. Yn yr un ffordd, dylai'r cadeirydd gael gwybod o flaen llaw os yw unrhyw weithiwr proffesiynol yn bryderus am y posibilrwydd o drais neu fygwth.

3.14.8 Adroddiad y gweithiwr cymdeithasol

Mae adroddiad y gweithiwr cymdeithasol yn crynhoi a dadansoddi'r wybodaeth a ddaeth i law wrth wneud yr asesiad cychwynnol a'r ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47. Mae'n cael ei baratoi'n unol â'r Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd a'r ffurflen enghreifftiol yn y System Integredig ar gyfer Plant. Dylai'r adroddiad gynnwys:

- Yr asesiad cychwynnol, a'r wybodaeth sy'n deillio o'r gwaith sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn ar yr asesiad craidd;
- Cronoleg o'r digwyddiadau pwysig, a chyswllt asiantaethau a gweithwyr proffesiynol gyda'r plentyn a'r teulu gan gynnwys rhestr wedi'i threfnu yn ôl dyddiadau o'r digwyddiadau yn arwain at y gynhadledd amddiffyn plant. Dylid tynnu sylw at feysydd lle mae angen mwy o wybodaeth;

- Agweddau pwysig ar gyflwr iechyd a datblygiad y plentyn yn y presennol a'r gorffennol;
- Adroddiad ar yr ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47 a disgrifiad cryno o'r digwyddiadau;
- Gwybodaeth am allu'r rhieni ac aelodau eraill o'r teulu i ddiogelu'r plentyn rhag niwed ac i hybu ei iechyd a'i ddatblygiad;
- Y farn, y dymuniadau a'r teimladau mae'r plentyn, y rhieni ac aelodau eraill o'r teulu wedi'u mynegi;
- Asesiad o'r perygl ac unrhyw gamau amddiffyn plant sydd wedi cael eu cymryd;
- Dadansoddiad o oblygiadau'r wybodaeth a ddaeth i law am ddiogelwch, iechyd a datblygiad y plentyn yn y dyfodol;
- Argymhellion o ran y gwaith i'w wneud yn y dyfodol gyda'r plentyn a'r teulu;

Gallai'r adroddiad gynnwys argymhellion o ran cofrestru, ond ni ddylai gymryd yn ganiataol y bydd y gynhadledd yn dod i'r fath benderfyniad. Rhaid i'r gweithiwr cymdeithasol fod yn barod i roi crynodeb clir a dadansoddiad i helpu'r gynhadledd i benderfynu sut mae mynd ati i amddiffyn y plentyn.

3.14.9 Adroddiadau gweithwyr proffesiynol eraill

Bydd gofyn i weithwyr proffesiynol eraill ddarparu adroddiadau. Dylai'r rhain fod yn gyson â meysydd a dimensiynau'r fframwaith asesu. Rhaid i weithwyr proffesiynol fod yn barod i ddehongli, dadansoddi ac esbonio'u gwybodaeth er mwyn helpu'r bobl eraill fydd yn bresennol yn y gynhadledd i ddeall.

- Bydd **staff y gwasanaeth iechyd**, yn cynnwys y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS), yn cynnig cronolegau ac adroddiadau'n trefnu'r holl wybodaeth berthnasol arall am iechyd sy'n berthnasol i'r gweithiwr proffesiynol hwnnw gan gynnwys hefyd yr un wybodaeth am y rhieni a'r rhai sy'n rhoi gofal gan ei bod yn effeithio ar allu'r rhieni i ofalu am iechyd, diogelwch a lles y plant;
- Dylai **meddygon teulu** gael eu gwahodd bob amser. Os ydyn nhw'n methu dod, dylen nhw roi adroddiad ysgrifenedig. Rhaid anfon y cofnodion atyn nhw bob amser;
- Bydd **staff addysg ac ysgolion** yn casglu a gwirio'r holl gofnodion perthnasol, yn cynnwys presenoldeb y plentyn yn yr ysgol a gwybodaeth fugeiliol, ac yn rhoi adroddiad ysgrifenedig;
- Bydd **yr heddlu'n** gwirio'r cofnodion ynglŷn a phob oedolyn y mae gwybodaeth amdanyn nhw sydd wedi ymwneud yn sylweddol â'r plentyn, ac yn gwirio cofnodion achosion o gam-drin domestig. Mae angen i'w hadroddiad gynnwys pob dyfarniad blaenorol mewn

perthynas â chyffuriau neu alcohol, trais yn cynnwys cam-drin domestig, troseddau rhywiol, neu anonestrwydd os yw'n berthnasol i les y plentyn;

- Bydd y **gwasanaeth prawf cenedlaethol** yn gwirio'u cofnodion, yn cynnwys amodau trwydded, ac yn rhoi adroddiad ysgrifenedig;
- Dylai **gwasanaethau oedolion** fod yn barod i adrodd ar eu hymwneud â'r cleient sy'n oedolyn, ac am unrhyw faterion a allai fod yn cyfaddawdu ar eu gallu fel rhieni;
- Bydd **cynrychiolwyr asiantaethau eraill** yn paratoi a rhoi adroddiadau ysgrifenedig os ydyn nhw'n briodol.

Dylai adroddiad pob asiantaeth gynnwys:

- Gwybodaeth sylfaenol am y plentyn a'r teulu;
- Natur gwaith yr asiantaeth gyda'r teulu;
- Ydyn nhw'n gwybod am y digwyddiad diweddaraf neu ydyn nhw wedi cael achos i bryderu?
- Pa mor aml mae'r asiantaeth yn gweld pob plentyn a dyddiad y cyswllt diwethaf?
- Manylion am ddatblygiad pob plentyn;
- Y cefndir / unrhyw bryderon blaenorol;
- Asesiad o broblemau a chryfderau'r teulu, a ffactorau perygl i'r plentyn neu'r plant.

3.14.10 Adroddiadau meddygol

Bydd staff meddygol yn trefnu'r holl wybodaeth feddygol berthnasol ac yn paratoi adroddiadau ysgrifenedig. Pan mae cyngor meddygol yn hanfodol i drafodaethau'r gynhadledd, dylai'r gynhadledd gael ei threfnu ar adeg sy'n golygu y gall y meddyg(on) a wnaeth yr archwiliad neu'r paediatregydd lleol/cymunedol ddod iddi. Os yw amgylchiadau eithriadol yn rhwystro'r meddyg rhag dod, rhaid iddo gyflwyno adroddiad ysgrifenedig a dylai cadeirydd y gynhadledd ddarllen y darganfyddiadau meddygol yn llawn i bawb sy'n bresennol. Dim ond ymarferwr meddygol ddylai dehongli'r adroddiad, er bod rhwydd hynt i'r gynhadledd archwilio'r posibilrwydd fod y diagnosis yn cau allan dewisiadau eraill a fyddai'n esbonio pam mae'r plentyn yn ymddangos fel pe bai wedi cael ei gam-drin, neu'n esbonio'i anafiadau. Os nad yw cynnwys neu ddehongliad yr adroddiad yn gwbl glir i'r gynhadledd, dylai'r cadeirydd fynd ati i drefnu eglurhad. Ni ddylai unrhyw oedi amharu ar ddiogelwch y plentyn.

Os yw barn gwahanol feddygon yn groes i'w gilydd, dylai'r cadeirydd ofyn i'r meddygon dan sylw adolygu eu darganfyddiadau ar y cyd, gan gadw

buddiannau'r plentyn mewn cof. Os na allant gytuno, dylid gofyn iddyn nhw esbonio eu gwahaniaeth barn. Rhaid ystyried eu barn yng nghyd-destun gweddill y wybodaeth sydd ar gael. Os yw'n amhosib cymodi, efallai y bydd angen comisiynu barn arbenigwr arall i adolygu'r darganfyddiadau meddygol er mwyn ceisio cael un farn sy'n rhagori.

3.14.11 Cadeirio'r gynhadledd amddiffyn plant

Rhaid i gadeirydd y gynhadledd fod yn wybodus am y maes ac wedi'i hyfforddi ar gyfer y rôl. Dylai fod:

- Yn weithiwr proffesiynol sydd heb unrhyw gyfrifoldebau o ran gweithredu neu reoli'r achos dan sylw;
- Wedi'i hyfforddi i gadeirio cynadleddau amddiffyn plant;
- Yn deall yn dda meysydd amddiffyn plant, lles a datblygiad plant, a'r ymarfer gorau wrth weithio gyda phlant a theuluoedd, ac â gwybodaeth broffesiynol am y meysydd hyn;
- Yn gallu edrych yn wrthrychol ar oblygiadau'r dystiolaeth, a'u hasesu er mwyn ffurfio barn; ac yn hyderus wrth reoli barn a safbwyntiau aelodau'r gynhadledd er mwyn dod i gasgliad clir;
- Yn gallu cadeirio cyfarfodydd yn fedrus gan annog pobl i gyfrannu'n adeiladol ond yn cadw lles y plentyn a'r penderfyniadau y mae'n rhaid eu gwneud yn ganolbwynt clir;
- Yn gwybod llawer am amrywiaeth ac wedi ymrwymo i ymarfer gwrth-wahaniaethol.

3.14.12 Rôl cadeirydd y gynhadledd

Rôl cadeirydd y gynhadledd yw:

- Cwrdd â'r plentyn ac aelodau o'r teulu o flaen llaw, er mwyn gofalu eu bod yn deall pwrpas a threfn y gynhadledd;
- Penderfynu a oes rhesymau dilys dros gau allan o'r gynhadledd unrhyw blant neu aelodau eraill o'r teulu, os bydd rhywun yn gofyn am hyn;
- Gofalu bod agenda'r gynhadledd yn cael ei ddilyn;
- Galluogi **pawb** sy'n bresennol, yn cynnwys plant ac aelodau'r teulu, i gyfrannu'n llawn at y drafodaeth a'r broses benderfynu gan ystyried trefniadau eiriolaeth ar gyfer y rhieni, y rhai sy'n rhoi gofal a/neu'r plentyn;
- Gofalu bod y gynhadledd yn dod i benderfyniadau mewn ffordd ddeallus, drefnus a chlir;

- Galluogi aelodau'r gynhadledd i rannu'r holl wybodaeth briodol ac i bwyso a mesur y peryglon;
- Gofalu bod y gynhadledd yn canolbwyntio ar y plentyn;
- Gofalu nad yw'r gynhadledd yn gwahaniaethu mewn unrhyw ffordd a'i bod yn rhoi sylw teg i faterion hil, diwylliant, iaith, crefydd, rhyw ac anabledd;
- Gofalu bod unrhyw anghytuno'n cael ei gofnodi'n llawn, a hefyd y rhesymau dros yr anghytuno;
- Dangos y gwahaniaeth clir rhwng ffeithiau, arsylwadau, honiadau a barn;
- Casglu barn y bobl sy'n arwain ar ran grwpiad proffesiynol ynglŷn â rhoi enw'r plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant;
- Crynhoi barn aelodau'r gynhadledd a chyflafareddu pan mae'r farn yn wahanol, yn unol â phrotocolau'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant;
- Bod ar gael ar ôl y gynhadledd i esbonio'r penderfyniadau i'r rhieni a'r plant;
- Bod yn gyfrifol am gywirdeb cofnodion y gynhadledd;
- Bod yn gyfrifol am drefnu bod y bobl sydd i gael copïau o gofnodion y gynhadledd yn eu cael.

3.14.13 Trefn y gynhadledd

Bydd y gynhadledd amddiffyn plant yn dilyn agenda a fydd yn cynnwys:

- Pwrpas a thasgau'r gynhadledd arbennig hon, neu'r rhesymau dros ei chynnull;
- Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, cyfrinachedd a rolau'r gwahanol asiantaethau gyda'r teulu;
- Cylchredeg adroddiadau;
- Manylion y digwyddiadau oedd yn arwain at y gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol;
- Gwybodaeth o'r asesiad cychwynnol, yr ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47 a'r asesiad craidd hyd yn hyn;
- Gwybodaeth gefndirol gan yr holl asiantaethau, yn cynnwys eu hymwneud â'r teulu ar hyn o bryd ac yn y gorffennol;
- Crynodeb y cadeirydd o'r holl wybodaeth a ddaeth i law ar gyfer y gynhadledd;
- Barn y plant ac aelodau'r teulu;

- Dadansoddiad o'r holl wybodaeth sy'n cael ei rhannu am ddiogelwch, iechyd a datblygiad y plentyn yn y dyfodol, hynny yw, a yw'r plentyn yn parhau mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol ai peidio;
- Ystyried y perygl o niwed i'r plentyn os yw'n aros yn ei gartref, ac argymhellion manwl o ran rheoli'r peryglon;
- Ystyried a oes angen cyngor cyfreithiol;
- Penderfynu a ddylai enw'r plentyn gael ei roi ar y gofrestr amddiffyn plant ai peidio, a phenderfynu ar y categori risg.

3.14.14 Cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth mewn cynadleddau amddiffyn plant

Mae'n hanfodol i'r broses benderfynu i staff unigol a gweithwyr proffesiynol gyfrannu'r holl wybodaeth berthnasol sydd yn eu cofnodion. Sylfaen y broses o weld cydweithredu'n llwyddiannus rhwng asiantaethau yw cyfnewid a rhannu gwybodaeth berthnasol. Ym mhob achos lle mae cam-drin yn cael ei honni neu ei amau, mae dyletswydd i rannu unrhyw wybodaeth berthnasol. Ym mhob sefyllfa o'r fath, y peth pwysicaf un yw amddiffyn y plentyn.

Mae rhagor o wybodaeth am rannu gwybodaeth a therfynau cyfrinachedd ym mhennod 14 o *Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004*.

Rhaid trin gwybodaeth sy'n dod i law mewn unrhyw ran o'r broses amddiffyn plant yn gwbl gyfrinachol. Ni ddylai unrhyw un sy'n cael gwybodaeth trwy'r broses amddiffyn plant ei datgelu at unrhyw bwrpas heblaw amddiffyn plant, a heb ganiatâd clir y gweithwyr proffesiynol neu'r aelod o'r teulu a roddodd y wybodaeth. Os oes unrhyw amheuaeth ynglŷn â rhannu gwybodaeth, dylid trafod y mater gyda'r cadeirydd cyn y gynhadledd. Dylai'r un rheolau cyfrinachedd fod yn berthnasol hefyd mewn cyfarfodydd strategaeth.

Mae'n ymarfer da i'r cadeirydd ofyn i weithwyr proffesiynol cyn dechrau'r gynhadledd a oes unrhyw wybodaeth ganddyn nhw a fyddai'n anodd ei rhannu gyda'r rheini. Bydd y cadeirydd yn trafod gyda'r aelodau proffesiynol sut i rannu'r fath wybodaeth. Os bydd unrhyw aelod o'r gynhadledd yn penderfynu ar ôl i'r gynhadledd ddechrau ei fod am gadw gwybodaeth gyfrinachol oddi wrth aelodau'r teulu, bydd cais i'r teulu adael y gynhadledd am gyfnod byr i'r aelodau drafod mewn sesiwn gaeedig. Gallai aelodau'r gynhadledd benderfynu bod y fath wybodaeth yn berthnasol i amddiffyn y plentyn a bod rhaid felly ei rhannu gyda'r teulu ar ôl iddyn nhw ddod yn ôl i'r ystafell gynhadledd. Dylai'r cadeirydd hwyluso'r broses hon.

Os nad yw'r rhieni neu aelodau o'r teulu'n bresennol yn y cyfarfod, gallai'r cadeirydd ac aelodau'r gynhadledd benderfynu ei bod hi'n briodol iddyn nhw gael y cofnodion llawn er budd y plant. Y gweithiwr allweddol fydd yn trefnu hyn fel arfer.

Dylai aelodau'r gynhadledd gadw mewn cof fod hawl gan unrhyw berson i ofyn am gael gweld gwybodaeth gyfrinachol sy'n cael ei chadw amdano, p'un ai oedd yn y gynhadledd ai peidio. Rhaid i holl aelodau'r gynhadledd gadw hyn mewn cof wrth gyfrannu ati.

Mae nifer o amgylchiadau pan mae'n rhaid datgelu gwybodaeth:

- Gyda rhai eithriadau prin, mae gan unrhyw berson yr hawl i ofyn am gael gweld y wybodaeth bersonol sy'n cael ei chadw amdano. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth yng nghofnodion y gynhadledd amddiffyn plant. Rhaid datgelu'r wybodaeth pan ddaw cais amdani, p'un ai yw'r unigolyn yn dod i'r gynhadledd ai peidio. Dylid nodi hefyd y gallai pobl y tu allan i'r teulu ofyn am gael gweld gwybodaeth amdanyn nhw a allai fod yng nghofnodion cynhadledd amddiffyn plant;
- Os oes achos llys, mae cofnodion cynadleddau amddiffyn plant yn cael eu datgelu i'r partïon i gyd. Mae hyn yn berthnasol i achosion teulu ac achosion troseddol fel ei gilydd. Efallai y bydd aelodau o'r gynhadledd yn cael cais neu orchymyn i fynd i'r llys i roi tystiolaeth;
- Os oes achos cyfreithiol, gallai gwarcheidwad (neu swyddog lles y llys teuluol mewn achosion preifat) weld cofnodion y gynhadledd amddiffyn plant a chofnodion unrhyw gyfarfod strategaeth. Gallan nhw gyfeirio atyn nhw yn eu hadroddiadau.

Dylid gofyn am ganiatâd cadeirydd y gynhadledd cyn rhoi gwybodaeth i drydydd parti, yn cynnwys asiantaethau eraill. Ymhlith yr amgylchiadau eraill pan mae hawl i ddatgelu gwybodaeth y mae: -

- Datgelu gwybodaeth i weithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'r plentyn ac nad oedd yn y gynhadledd;
- Gallai'r rhai oedd yn y gynhadledd ddatgelu ei chofnodion i'r sawl sy'n rhoi cyngor cyfreithiol iddyn nhw;
- Datgelu gwybodaeth gyfrinachol er lles y cyhoedd pan fo angen hynny os yw rhywun mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol;

Mae lles y cyhoedd wrth amddiffyn plant yn uwch na lles y cyhoedd wrth gynnal cyfrinachedd. Dylai fod yn bosib cyfiawnhau pob achos o ddatgelu gwybodaeth, a dylid gofyn am gyngor cyfreithiol ym mhob achos.

Mewn achos troseddol, bydd yr heddlu'n datgelu'r cofnodion i wasanaeth erlyn y goron. Os oes unrhyw wybodaeth yn y cofnodion a fyddai'n tanseilio achos yr erlyniad neu o help yn achos y diffynnydd, bydd tîm yr amddiffyniad yn eu cael hefyd.

3.14.15 Y broses o ddod i benderfyniad mewn cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol

Yr unig benderfyniad y mae modd ei wneud yn y gynhadledd yw a fydd enw'r plentyn yn cael ei gynnwys ar y gofrestr amddiffyn plant ai peidio. Ac os bydd yn cael ei gynnwys, ym mha gategori. Gallai'r trafodaethau yn y gynhadledd gyfrannu at y broses benderfynu, ynghyd â chreu sylfaen i'r gwaith o gynllunio ar gyfer y plentyn yn y dyfodol. Mae angen i'r gynhadledd sefydlu, cyn belled ag y bo hynny'n bosib, achos y niwed arwyddocaol a'r tebygolrwydd y bydd y plentyn yn dioddef niwed arwyddocaol.

Mae'r penderfyniad i roi enw'r plentyn ar y gofrestr yn dibynnu ar yr ateb i'r cwestiwn: "A yw'r plentyn mewn perygl parhaus o ddioddef niwed arwyddocaol?'

Mae'r plentyn mewn perygl parhaus o ddioddef niwed arwyddocaol os *naill ai*:

- Fod modd dangos bod y plentyn wedi cael ei drin yn wael neu wedi datblygu nam ar ei iechyd neu ei ddatblygiad o ganlyniad i gam-drin corfforol, emosiynol neu rhywiol, neu esgeulusdod, a bod gweithwyr proffesiynol o'r farn bod y plentyn yn debygol o barhau i gael ei drin yn wael neu ddatblygu nam arall; **neu**
- Fod gweithwyr proffesiynol yn seiliedig ar gasgliadau'r achos unigol hwn neu dystiolaeth ymchwil, o'r farn bod y plentyn yn debygol o gael ei drin yn wael neu ddatblygu nam mewn perthynas â'i iechyd neu ei ddatblygiad o ganlyniad i gam-drin corfforol, emosiynol neu rhywiol,

Blwch 14: Sefydlu niwed arwyddocaol

I ddeall a sefydlu niwed arwyddocaol, rhaid ystyried:

- Cyd-destun y teulu;
- Datblygiad y plentyn o fewn cyd-destun ei deulu a'i amgylchedd cymdeithasol a diwylliannol ehangach;
- Ymatebion y plentyn a'r hyn y mae'n ei ganfod, yn ôl ei oedran a'i allu i ddeall;
- Unrhyw anghenion arbennig, fel cyflwr meddygol, anawsterau cyfathrebu, neu anabledd a allai effeithio ar ddatblygiad a gofal y plentyn o fewn y teulu;
- Natur y niwed, yn nhermau triniaeth wael neu fethiant i ddarparu digon o ofal;
- Yr effaith ar iechyd a datblygiad y plentyn a pha mor ddigonol yw gofal y rhieni.

neu esgeulusdod.

Dylai'r gynhadledd ddilyn patrwm pendant wrth ddod i benderfyniadau:

- Trwy broses o rannu gwybodaeth a thrafod y bydd y gynhadledd yn penderfynu a fydd enw'r plentyn yn cael ei roi ar y gofrestr amddiffyn plant ai peidio. Bydd y broses honno'n cynnwys pawb sy'n bresennol, unrhyw adroddiadau ysgrifenedig a ddaeth i law, ac adroddiadau pawb oedd yn methu dod i'r gynhadledd;
- Cyn dod i benderfyniad ynglŷn â chofrestru a chyn gofyn i aelodau'r gynhadledd am eu dadansoddiad o'r perygl, dylai'r cadeirydd grynhoi'r peryglon ar sail y ffeithiau a gafodd eu cyflwyno yn y gynhadledd. Cyn symud ymlaen, dylai'r cadeirydd ofyn a yw aelodau'r gynhadledd yn cytuno bod y crynodeb hwnnw'n gywir;
- Mae rôl y cadeirydd yn cynnwys rhoi'r holl ffeithiau a gafodd eu cyflwyno mewn cyd-destun ar sail gwaith ymchwil. Trwy wneud hynny, dylai grynhoi'r peryglon i'r plentyn;
- Ni ddylid gadael i'r drafodaeth yn y gynhadledd ganolbwyntio'n unig ar gofrestru. Dylid rhoi amser a sylw i ddatblygu cynllun amddiffyn plant, os oes angen un;
- Dylai'r cadeirydd ofyn i bob aelod o'r gynhadledd am ei farn am y peryglon i'r plentyn ac a oes angen cynllun amddiffyn plant. Dylai holi hefyd ynglŷn â chynnwys y fath gynllun yn nhermau'r peryglon i roi sylw iddynt.
- **Rhaid i bob gweithiwr proffesiynol sy'n dod i gynhadledd sylweddoli ei fod yn rhan o'r broses benderfynu ac nad oes hawl ganddo i ymwrthod â'i gyfrifoldeb**;
- Dylai'r penderfyniad adlewyrchu barn gyffredinol y gynhadledd. Bydd barn pob unigolyn sy'n bresennol yn y gynhadledd yn cael sylw. Mae barn y rhieni a'r plant yn bwysig i'r gynhadledd, ond gweithwyr proffesiynol sy'n dod i benderfyniad ynglŷn â chofrestru;
- Os yw'r gynhadledd yn methu cytuno, dylai benderfynu ar sail barn y mwyafrif er mwyn gadael i'r broses symud yn ei blaen.

3.14.16 Dod i benderfyniad mewn cynadleddau amddiffyn plant lle nad yw pawb yn cytuno

Dylai pob person sy'n bresennol yn y gynhadledd, heblaw am aelodau o'r teulu neu bobl sydd yno i gefnogi'r rhieni, roi ei farn am yr angen am gynllun amddiffyn plant ac, yn sgil hynny, cofrestru. Nid oes disgwyl, fel arfer, i aelodau CAFCASS Cymru roi barn ynglŷn â chofrestru.

Dylai'r rhieni, y plant (pan mae hynny'n briodol) ac aelodau o'r teulu gael cyfle hefyd i roi eu barn. Ond y gweithwyr proffesiynol fydd yn gyfrifol am wneud y penderfyniad terfynol.

Mewn llawer o gynadleddau, bydd yr aelodau'n unfryd o blaid neu yn erbyn cofrestru.

Ond yn yr achosion lle mae'r aelodau'n methu cytuno, dylai'r cadeirydd geisio cyrraedd penderfyniad trwy, er enghraifft, ail-grynhoi'r materion a'r peryglon a hwyluso rhagor o drafod. Dylid osgoi pleidleisio lle bynnag y mae hynny'n bosib, er bod angen i'r cadeirydd ofalu bod staff pob asiantaeth wedi cael cyfle i roi eu barn. Ond os yw'n dal yn amhosib cytuno, dylid pleidleisio ynglŷn â'r penderfyniad i gofrestru.

Yr asiantaethau a/neu grwpiadau proffesiynol a ddylai bleidleisio, nid unigolion. Dylai'r cadeirydd enwi'n glir y cylch o grwpiadau proffesiynol a fydd yn pleidleisio ar ran asiantaethau. Dylai staff uwch yr asiantaethau sy'n bresennol helpu i drefnu bod cyn lleied â phosib o grwpiadau o weithwyr proffesiynol.

Dylid ystyried yr enghreifftiau sy'n dilyn o grwpiadau proffesiynol:

- Gwasanaethau cymdeithasol plant;
- Gwasanaethau cymdeithasol oedolion;
- Yr heddlu;
- Y gwasanaeth prawf;
- Y gwasanaeth tai;
- Yr awdurdod addysg lleol;
- Yr ysgol gynradd;
- Yr ysgol uwchradd;
- Iechyd plant (i gynnwys yr ymwelydd iechyd, nyrs yr ysgol, y fydwraig, y nyrs paediatreg [gofal llym a gofal cymunedol]);
- Y paediatregydd;
- Y meddyg teulu;
- Gwasanaeth iechyd meddwl oedolion;
- Gwasanaeth camddefnyddio sylweddau;
- Gwasanaeth iechyd meddwl plant a phobl ifanc (CAMHS).

Dylid gofyn i'r swyddog sydd wedi'i enwi neu'r sawl sy'n arwain ar ran pob asiantaeth/grŵp proffesiynol i bleidleisio o blaid neu yn erbyn cofrestru.

Pan mae'r aelodau'n methu cytuno ond mae barn fwyafrifol, bydd y cadeirydd yn derbyn barn y mwyafrif hyd yn oed os yw'n anghytuno â'r farn. Os yw'r cadeirydd o'r farn fod y penderfyniad yn rhoi'r plentyn mewn perygl, mae angen iddo drafod ei bryderon ar unwaith gyda'r uwch reolwr sy'n gyfrifol am amddiffyn plant.

Pan mae barn yr aelodau wedi'i rhannu 50:50, y cadeirydd fydd yn dod i benderfyniad ynglŷn â chofrestru.

Dylai cofnodion y gynhadledd gofnodi'r gwahaniaethau ym marn yr aelodau. Rhaid cofnodi hefyd unrhyw bryderon mae'r cadeirydd wedi'u cyfleu ynglŷn â'r penderfyniad.

Pan mae'r methu cytuno'n seiliedig ar wahaniaethau proffesiynol, efallai y bydd angen defnyddio protocol gwahaniaethau proffesiynol y Bwrdd Lleol Diogelu Plant yn ddiweddarach.

3.14.17 Gohirio penderfyniad mewn cynhadledd amddiffyn plant

Nid yw gohirio penderfyniad ynglŷn â chofrestru'n ymarfer da mewn cynhadledd amddiffyn plant.

Mae'n well gohirio cynnull cynhadledd am y tro os na fydd elfennau pwysig o'r wybodaeth ar gael i helpu'r aelodau i farnu'n ddeallus ynglŷn â'r perygl i'r plentyn ac i benderfynu a ddylai ei enw gael ei roi ar y gofrestr ai peidio.

Os nad oes digon o wybodaeth ar gael i fod yn sail i benderfyniad, mae'n debygol y bydd y gynhadledd yn penderfynu peidio â rhoi enw'r plentyn ar y gofrestr, ac yn argymell i'r asesiad craidd gael ei gwblhau. Byddai'r fath asesiad craidd yn cynnig gwybodaeth gliriach am y plentyn a'i deulu. Rhaid i'r gynhadledd, a'r cadeirydd yn benodol, deimlo'n fodlon nad oes unrhyw arwyddion o berygl buan i'r plentyn i'w canfod. Dylid pennu dyddiad ar gyfer y gynhadledd amddiffyn plant nesaf.

Hyd yn oed os y farn yw nad yw'r plentyn yn parhau mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol, efallai fod y plentyn mewn angen. Efallai, felly, fod angen cyngor neu wasanaethau arno i hybu ei ddatblygiad a bydd angen i'r asesiad craidd barhau, yn unol â'r meini prawf cymhwyster a threfniadau'r gwahanol asiantaethau i greu cynllun ar gyfer darparu'r gefnogaeth neu'r gwasanaethau priodol.

Os y farn yw bod y plentyn yn parhau mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol a bod ei enw i gael ei roi ar y gofrestr amddiffyn plant, bydd angen help ac ymyrraeth gan asiantaethau eraill i ddiogelu a hybu ei les. I wneud hyn, bydd rhaid creu cynllun amddiffyn ffurfiol, i'w gytuno yn y gynhadledd.

3.15 Rhoi enw plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant

Gan roi sylw i farn aelodau'r gynhadledd, dylai'r cadeirydd benderfynu dan ba gategori o gamdriniaeth y dylid cofrestru enw'r plentyn. Bydd y categori a gafodd ei ddefnyddio wrth gofrestru'n arwydd i bobl sy'n ymgynghori â'r gofrestr o'r prif bryderon pan gafodd enw'r plentyn ei gofrestru. Mae modd defnyddio un neu fwy o'r categorïau sy'n dilyn :

- Cam-drin corfforol;
- Cam-drin emosiynol;
- Cam-drin rhywiol;
- Esgeulustod.

Dylai'r categorïau sy'n cael eu dewis roi sylw i'r holl wybodaeth a ddaeth i'r amlwg wrth wneud yr ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47, a'r broses ddadansoddi oedd yn dilyn yr ymholiadau. Ni ddylai'r broses o ddewis categori ystyried un neu fwy o ddigwyddiadau cam-drin yn unig.

Rhaid ystyried unrhyw ddigwyddiad o gamdriniaeth bosib yn ei gyd-destun er mwyn asesu hyd a lled y niwed i blentyn a'r ymyriadau priodol. Yn aml iawn, y rhyngweithio rhwng nifer o ffactorau sy'n ei gwneud hi'n fwy tebygol y bydd plentyn yn cael niwed arwyddocaol, neu y bydd niwed yn fwy llym. Ym mhob achos, mae angen ystyried unrhyw sefyllfa lle mae plentyn yn cael ei drin yn wael yng nghyd-destun cryfderau a chefnogaeth y teulu.

3.15.1 Pwrpas rhoi enw plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant

Pwrpas rhoi enw plentyn ar y gofrestr yw rhybuddio pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r plentyn ei fod mewn perygl o gael niwed arwyddocaol. Mae'n cadarnhau bod cynllun rhyng-asiantaethol ar waith ar gyfer amddiffyn y plentyn, a bod rhaid cydymffurfio â'r cynllun hwnnw. Ac mae'n dangos bod gweithiwr allweddol yn gweithio gyda'r plentyn a'r teulu. Mae dyletswydd ar weithwyr proffesiynol i roi gwybod i'r gweithiwr allweddol am ddigwyddiadau arwyddocaol neu am newidiadau yn amgylchiadau'r plentyn. Ni ddylai'r ffaith fod enw plentyn ar y gofrestr rwystro unrhyw un rhag cyfleu eu pryderon i'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu.

Mae adran 3.25 yn cynnig gwybodaeth am y gwaith o reoli'r gofrestr ac am wneud ymholiadau i'r gofrestr.

3.15.2 Plant sy'n derbyn gofal, a chofrestru

Mae'r Rheoliadau Adolygu Achosion Plant 1991, fel y'i diwygiwyd gan y Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Diwygio) (Cymru) 2004, yn berthnasol i awdurdodau lleol sy'n gofalu am blant, mudiadau gwirfoddol sy'n rhoi llety i blant dan adran 59 o Ddeddf Plant 1989, a chartrefi cofrestredig sy'n rhoi llety i blant sydd ddim yn derbyn gofal gan awdurdod lleol. Mae'r rheoliadau'n

pennu pa mor aml y mae'n rhaid mynd ati i wneud adolygiadau. Mae rheoliadau 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau benodi swyddog adolygu annibynnol (IRO). Pan mae plant sy'n derbyn gofal yn destun hefyd i gynhadledd adolygu amddiffyn plant, dylai'r ddwy system gael eu hintegreiddio'n llawn er mwyn hybu dull o gynllunio sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Mae hyn yn golygu y dylai adolygiad o gynllun gofal plentyn, dan y rheoliadau plant sy'n derbyn gofal, gael yr holl wybodaeth wrth law a oedd ar gael wrth adolygu'r cynllun amddiffyn plant o dan y canllawiau hyn. Rhaid ystyried amseru'r ddau adolygiad yn ofalus, a phwy fydd yn rhan o'r broses adolygu. Dylai'r ddau adolygiad gynnwys yr holl bobl berthnasol. Pan mae plentyn sy'n derbyn gofal yn aros ar y gofrestr, mae gofyn cytuno'n benodol ar y trefniadau ar gyfer adolygu a chyd-drefnu'r cynlluniau.

Pan mae'n amhosib i blentyn fyw gartref, ac mae ganddo gynllun gofal sy'n diwallu ei anghenion gofal ac amddiffyn, dylai adolygiad argymell dadgofrestru fel arfer.

3.16 Y cynllun amddiffyn plant amlinellol

Pan mae enw plentyn yn cael ei roi ar y gofrestr amddiffyn plant, nid yw'r weithred gofrestru ynddi ei hun yn amddiffyn y plentyn mewn unrhyw ffordd. Dylai cynllun amddiffyn plant gyd-fynd â'r broses gofrestru bob amser.

Rhaid creu cynllun amddiffyn rhyng-asiantaethol ar gyfer pob plentyn y mae ei enw wedi cael ei roi ar y gofrestr amddiffyn plant. Dylai fod dau gam i'r broses o ddatblygu'r cynllun amddiffyn plant. Bydd cynllun **amlinellol** yn cael ei greu yn y gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol. Bydd hwnnw'n cael ei ddatblygu'n gynllun **manwl** yng nghyfarfod cyntaf y grŵp craidd.

Dylai'r gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol drafod a chytuno ar yr elfennau sy'n dilyn ar gynllun amddiffyn amlinellol pob plentyn sydd wedi'i gofrestru:

- Cytuno beth yw'r peryglon i'r plentyn ddioddef niwed arwyddocaol, a'r ffordd y gall cynllun rhyngasiantaethol amddiffyn y plentyn;
- Y canlyniadau y mae bwriad eu cyflawni yn y tymor byr a'r tymor hir. Eu cysylltu'n glir â'r gwaith o leihau'r peryglon i'r plentyn gael niwed ac o hybu ei les;
- Disgrifio'n glir pwy fydd yn gyfrifol am weithredu, sut mae gweithredu, a'r amserlen ar ei gyfer;
- Penderfynu ar y trefniadau ar gyfer monitro a mesur y cynnydd yn erbyn y cynllun;
- Enwi'r gweithwyr proffesiynol a fydd yn monitro cynnydd, datblygiad, lles a diogelwch y plentyn, a sut bydd y monitro'n cael ei wneud;

- Os ydyn nhw'n gyson â lles y plentyn, rhaid i'r cynllun amddiffyn plant amlinellol roi sylw i ddymuniadau a theimladau'r plentyn, a barn y rhieni.

Dylid anfon, o fewn pum diwrnod gwaith, gopi o'r cynllun amlinellol, crynodeb o benderfyniadau'r gynhadledd amddiffyn gychwynnol, a dyddiad y gynhadledd nesaf at bawb a gafodd wahoddiad i'r gynhadledd, pawb oedd yn bresennol ynddi, ac aelodau'r grŵp craidd.

3.17 Tasgau eraill y gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol

Pan mae enw'r plentyn yn cael ei roi ar y gofrestr amddiffyn plant, dylai'r gynhadledd:

- Gytuno sut y bydd penderfyniadau ac argymhellion y gynhadledd yn cael eu cyfleu i'r rhieni neu'r rhai sy'n rhoi gofal, a'r plentyn neu'r plant yn ôl eu hoedran a'u gallu i ddeall, os nad ydyn nhw'n bresennol yn y gynhadledd;
- Penodi gweithiwr allweddol a disgrifio'i rôl, yn cynnwys y trefniadau ymweld a ddylai gydymffurfio o leiaf â'r safonau sy'n cael sylw yn adran 3.20;
- Enwi aelodau'r grŵp craidd o weithwyr proffesiynol ac aelodau'r teulu a fydd yn datblygu ac yn rhoi ar waith y cynllun amddiffyn manwl fel erfyn gweithio;
- Sefydlu sut y bydd plant a theuluoedd yn cyfrannu at y broses gynllunio a gweithredu, ac enwi'r ffynonellau o gymorth ac eiriolaeth sydd ar gael iddyn nhw;
- Gosod yr amserlen ar gyfer cyfarfodydd y grŵp craidd, yn cynnwys dyddiad y cyfarfod cyntaf a dyddiad creu'r cynllun amddiffyn plant. Dylai'r grŵp craidd gwrdd o fewn 10 diwrnod i ddyddiad y gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol, ac yn fisol wedi hynny, ond dim llai aml nag unwaith bob chwe wythnos;
- Gosod yr amserlen ar gyfer y cynadleddau adolygu, hynny yw, dim hwyrach na thri mis ar ôl dyddiad y gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol, a dim llai aml nag unwaith bob chwe mis wedi hynny;
- Adnabod yn fras y meysydd sydd i gael sylw yn yr asesiad craidd sy'n parhau. Gosod yr amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith o fewn 35 diwrnod i ddyddiad dechrau'r ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47;
- Enwi'n fras y gweithwyr proffesiynol a fydd yn cyfrannu at yr asesiad craidd, a natur eu cyfraniad;

- Amlinellu'r cynllun amddiffyn plant, yn cynnwys adnabod yr hyn sydd angen ei newid er mwyn diogelu'r plentyn, a'r trefniadau ar gyfer monitro iechyd, datblygiad a chynnydd y plentyn.
- Ystyried a oes angen cynllun wrth gefn ar gyfer amgylchiadau neilltuol, er enghraifft, mewn achosion lle mae'r sawl sydd wedi'i gyhuddo o gam-drin yn cael ei ddedfrydu i garchar, mae'r teulu'n penderfynu peidio â chydweithredu mwyach neu'n methu cydymffurfio â chytundebau;
- Esbonio gwahanol bwrpas a chylch gwaith y gynhadledd gychwynnol, y grŵp craidd a'r gynhadledd adolygu amddiffyn plant;
- Argymell, os yw hynny'n briodol, fod y gwasanaethau cymdeithasol yn ystyried yr angen i gymryd camau cyfreithiol i amddiffyn y plentyn;
- Cynllunio unrhyw asesiadau iechyd neu ofal sydd eu hangen.

3.18 Cofnodion y gynhadledd amddiffyn plant

Mae cofnod ysgrifenedig y gynhadledd yn ddogfen waith hanfodol i'r holl weithwyr proffesiynol a'r teulu fel ei gilydd. Dylai person sydd wedi'i hyfforddi i gymryd nodiadau a chreu cofnodion y cyfarfod fod ym mhob cynhadledd amddiffyn plant, p'un ai yw'n gynhadledd gychwynnol neu'n gynhadledd adolygu. Ni ddylai'r person sy'n ysgrifennu'r cofnodion fod ag unrhyw rôl arall yn y gynhadledd nag unrhyw ymwneud â'r achos.

Dylai'r cofnodion gynnwys:

- Manylion y sawl sy'n bresennol, manylion unrhyw un sydd wedi'i gau allan ac enwau'r bobl sydd wedi darparu adroddiadau;
- Ffeithiau hanfodol yr achos;
- Crynodeb o'r trafod yn y gynhadledd sy'n ddarlun cywir o'r cyfraniadau a gafodd eu gwneud ac yn gwahaniaethu'n glir rhwng ffeithiau a barn;
- Dadansoddiad clir o'r perygl i'r plentyn;
- Pob penderfyniad a gafodd ei wneud, gyda disgrifiad bras o'r rhesymau dros ei wneud;
- Cynllun amddiffyn plant amlinellol neu ddiwygiedig sy'n rhoi darlun clir o dasgau pawb a'r amserlen ar gyfer eu cwblhau;
- Unrhyw anghytuno â chasgliadau, penderfyniadau neu argymhellion y gynhadledd;
- Dylid ysgrifennu'r cofnodion yn iaith y gynhadledd a threfnu eu cyfieithu ar gyfer cyfranogwyr sydd am eu cael mewn iaith arall. Efallai

y bydd teulu am weld y gynhadledd yn cael ei chynnal yn eu dewis iaith, ond am gael y cofnodion mewn iaith arall;

- Dylai cadeirydd y gynhadledd ddarllen a chymeradwyo'r cofnodion, a dweud, cyn iddyn nhw gael eu dosbarthu, pwy ddylai gael copi llawn neu gopi rhannol. Dylid cylchredeg crynodeb a chynllun amlinellol o fewn pum diwrnod gwaith i ddyddiad y gynhadledd, neu erbyn cyfarfod cyntaf y grŵp craidd. Dylid anfon copi cyn gynted â phosib ar ôl y gynhadledd i bawb oedd yn bresennol ynddi neu a gafodd eu gwahodd, yn cynnwys aelodau'r teulu, ac eithrio unrhyw ran o'r gynhadledd pan roedden nhw wedi'u cau allan. Byddai anelu at gylchredeg y cofnodion o fewn 20 diwrnod gwaith i ddyddiad y gynhadledd yn ymarfer da. Dylai unrhyw aelod sy'n pryderu nad yw cofnodion y gynhadledd yn gwbl gywir anfon eu sylwadau at y cadeirydd o fewn 10 diwrnod gwaith i'r dyddiad y daethon nhw i law;
- Mae cofnodion y gynhadledd yn gyfrinachol ac ni ddylai gweithwyr proffesiynol eu rhoi i drydydd parti heb ganiatâd y cadeirydd, heblaw am eu trosglwyddo i swyddfa arall o fewn yr un asiantaeth. Dylai staff asiantaethau ddilyn polisïau'r asiantaeth ei hun wrth gadw cofnodion cynadleddau amddiffyn plant ac unrhyw gofnodion eraill sy'n perthyn i'r broses gofrestru.

3.19 Cwynion gan rieni, rhai sy'n rhoi gofal a phlant am benderfyniadau a gweithrediad cynhadledd amddiffyn plant

Dylai'r Byrddau Lleol Diogelu Plant gytuno ar y protocolau lleol ar gyfer gofalu bod rhieni, rhai sy'n rhoi gofal a phlant yn gwybod am y drefn gwyno. Rhaid iddyn nhw ofalu bod gwybodaeth ar gael yn disgrifio'r drefn, a threfnu bod cwynion yn cael eu derbyn a'u hymchwilio (cyfeiriwch at adran 5.2).

Dylai'r drefn gwyno gynnwys:

- Prosesau'r gynhadledd yn nhermau cadw at y drefn weithredu;
- Y penderfyniad ynglŷn â chofrestru, yn cynnwys y categori;
- Penderfyniad i beidio â chofrestru neu i ddadgofrestru.

Ni ddylai'r drefn gynnwys:

- Cwynion ynglŷn â chynnwys y cofnodion – bydd cadeirydd y gynhadledd yn delio â'r rhain;
- Cwynion neu sylwadau am y gwasanaethau mae gwahanol asiantaethau'n eu darparu yn sgil penderfyniadau cynhadledd;
- Cwynion am un o'r gweithwyr proffesiynol sy'n dod i gynhadledd.

Bydd y cwynion hyn yn cael sylw dan drefn gwyno fewnol yr asiantaeth berthnasol. Os bydd mater yng nghyswllt gweithiwr proffesiynol penodol yn dod i'r amlwg fel rhan o'r broses o ymchwilio i gwyn am gynhadledd, bydd y mater yn cael ei gyfeirio at asiantaeth yr unigolyn dan sylw.

Dylai'r Byrddau Lleol Diogelu Plant ofalu bod:

- Y drefn yn agored ac yn rhwydd mynd ati;
- Sylw'n cael ei roi i gwynion am ganlyniad a phrosesau cynadleddau, a bod ymateb yn dilyn yn ôl amserlen sydd wedi'i chytuno;
- Yr holl gwynion yn cael eu monitro, a bod adroddiadau amdanyn nhw'n mynd yn rheolaidd at y Byrddau Lleol;
- Proses o wneud iawn yn dilyn achos o gadarnhau cwynion, gan ddilyn amserlen sydd wedi'i chytuno, a bod gwersi'n cael eu dysgu.

3.19.1 Rhoi gwybod i deuluoedd am y drefn gwyno

Bydd gwybodaeth ar gael i'r rhieni, y rhai sy'n rhoi gofal a'r plant sy'n cael eu gwahodd i'r gynhadledd am y broses o fynd ati i wneud cwynion.

Ar ddechrau pob cynhadledd, bydd y cadeirydd yn holi a yw hyn wedi digwydd. Rhaid nodi hyn yn y cofnodion.

Pan mae rhieni, rhai sy'n rhoi gofal a phlant wedi mynegi pryder yn ystod cynhadledd am y prosesau neu'r canlyniad, dylid eu hatgoffa am eu hawl i gwyno. Rhaid nodi hyn yn y cofnodion. Mae mwy o wybodaeth yn adran 5.2 am y broses o reoli cwynion am gynhadledd amddiffyn plant.

3.20 Y gweithiwr allweddol

Dylai pob plentyn y mae ei enw'n cael ei roi ar y gofrestr amddiffyn plant gael gweithiwr allweddol wedi'i enwi. Hwn yw'r gweithiwr proffesiynol sy'n gyfrifol am yr achos. Dylai cadeirydd y gynhadledd gychwynnol enwi'r gweithiwr allweddol. Gweithiwr cymdeithasol yw'r gweithiwr allweddol bob amser. Bydd wedi'i gofrestru gyda Chyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol (General Social Care Council) ac yn gweithio i'r gwasanaethau cymdeithasol, a bydd ganddo gymwysterau, hyfforddiant a phrofiad addas.

Os nad yw'n bosib penodi gweithiwr allweddol, rhaid i'r uwch reolwr sy'n gyfrifol am amddiffyn plant yn y gwasanaethau cymdeithasol gael gwybod ar unwaith.

Dylai'r gweithiwr allweddol:

- Weld y plentyn o leiaf bob 10 diwrnod gwaith, a gofalu bod y plentyn yn cael ei weld gartref o leiaf bob pedair wythnos;

- Os bydd y gweithiwr allweddol yn absennol yn annisgwyl, bydd y cyfrifoldeb hwn yn trosglwyddo i'w reolwr llinell;
- Gofalu bod y plentyn yn cael ei weld ar ei ben ei hun lle bynnag y bo hynny'n bosib. Dylai hyn ddigwydd o leiaf bob chwe wythnos;
- Gofalu bod ystafell wely'r plentyn yn cael ei gweld o leiaf unwaith rhwng cynadleddau;
- Gofalu bod y grŵp craidd yn datblygu cynllun amddiffyn amlinellol y plentyn yn gynllun amddiffyn rhyngasiantaethol mwy manwl;
- Cyd-drefnu'r gwaith o gwblhau'r asesiad craidd o anghenion y plentyn a'r teulu;
- Arwain unrhyw waith gyda'r plentyn a'r teulu sy'n golygu cyfraniad gan y gwahanol asiantaethau;
- Cyd-drefnu cyfraniadau aelodau'r teulu ac asiantaethau eraill at y gwaith o roi'r cynllun amddiffyn plant ar waith;
- Adolygu'r broses o weld y cynllun amddiffyn plant yn arwain at ganlyniadau o ran diogelwch a lles y plentyn;
- Bod yn gyfrwng i helpu'r holl weithwyr proffesiynol ac aelodau'r teulu i gyfathrebu â'i gilydd;
- Gofalu bod y plentyn a'r rhieni'n deall amcanion y cynllun yn glir, a'u bod yn gwybod am eu hawl i gwyno a sut mae mynd ati i gwyno;
- Llenwi cofnod yr asesiad craidd.

Os yw plentyn yn derbyn gofal neu'n byw i ffwrdd o'i gartref, efallai y bydd y safonau ar gyfer ymweld â phlant sy'n derbyn gofal yn berthnasol.

Mae dyletswydd ar bob gweithiwr proffesiynol i roi gwybod i'r gweithiwr allweddol am unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol neu newid amgylchiadau sy'n berthnasol i'r plentyn. Ddylai hyn ddim atal gwneud atgyfeiriad newydd os daw peryglon neu bryderon eraill i'r amlwg. Rhaid mynd ati wedyn i gyflwyno'r fath bryderon yn ysgrifenedig hefyd.

Dylai'r gweithiwr allweddol roi gwybod ar unwaith i'r swyddog sy'n cadw'r gofrestr amddiffyn plant am unrhyw wybodaeth berthnasol fel newidiadau yn nheulu'r plentyn, fel bod modd diweddaru'r gofrestr. Dylai'r gweithiwr allweddol roi gwybod i weithwyr proffesiynol am newidiadau hefyd.

Os bydd y gweithiwr allweddol yn newid, rhaid i'r gweithiwr allweddol sy'n trosglwyddo'r cyfrifoldebau neu ei reolwr llinell roi gwybod ar lafar, a chadarnhau hynny'n ysgrifenedig, i bob asiantaeth berthnasol ac i'r teulu. Rhaid diwygio'r cofnodion cofrestru yn syth hefyd.

3.21 Y grŵp craidd

Y grŵp craidd sy'n gyfrifol am ddatblygu a rhoi ar waith y cynllun amddiffyn plant fel erfyn gweithio manwl o fewn y cynllun amlinellol a gafodd ei gytuno yn y gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol. Mae aelodau'r grŵp yn cael eu penderfynu ar adeg y cofrestru. Bydd yn cynnwys y gweithiwr allweddol, aelodau perthnasol o'r teulu (yn cynnwys plant) a'r gweithwyr proffesiynol a/neu'r rhai sy'n rhoi gofal maeth sydd â chyswllt uniongyrchol â'r teulu. Dylai pob gweithiwr proffesiynol y mae ei ymwneud â'r teulu'n arwyddocaol berthyn i'r grŵp craidd. Gallai gynnwys staff o'r gwasanaethau gadael gofal neu gamddefnyddio sylweddau. Os yw staff asiantaeth arall yn dechrau ymwneud â'r achos, gallai'r gweithiwr allweddol eu gwahodd i ymuno â'r grŵp craidd.

Dylai cyfarfod cyntaf y grŵp craidd gael ei gynnal o fewn 10 diwrnod gwaith fan bellaf i ddyddiad y gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol. Dylid dilyn trefniadau lleol wrth benodi cadeirydd y grŵp. Dylai'r grŵp craidd barhau i gwrdd o leiaf unwaith y mis, ond dim llai aml nag unwaith bob chwe wythnos.

Mae angen i'r grŵp craidd gael ei gadeirio'n effeithiol. Gall unrhyw aelod proffesiynol o'r grŵp weithredu fel ei gadeirydd. Mae'n ymarfer da i gadw rôl y gweithiwr allweddol a rôl cadeirydd y grŵp craidd ar wahân.

Er bod y gweithiwr allweddol yn gweithredu fel arweinydd, mae pob aelod o'r grŵp craidd yn gyfrifol ar y cyd am baratoi a rhoi ar waith y cynllun amddiffyn plant. Gall aelodau o'r grŵp craidd fynd ati i wneud gwaith penodol fel rhan o'r cynllun. Dylai'r grŵp craidd gyfrannu at adroddiad y gweithiwr cymdeithasol.

Tasgau'r grŵp craidd yw:

- Adnabod yn fanwl y peryglon i'r plentyn, a'r ffordd o fynd ati i roi sylw iddyn nhw;
- Cytuno pa mor aml y bydd y gweithiwr allweddol a/neu aelodau eraill o'r grŵp craidd yn gweld y plentyn. Dylai'r fath gyswllt gydymffurfio o leiaf â'r safonau sy'n cael eu disgrifio yn adran 3.20;
- Cytuno yn y cyfarfod cyntaf ar yr amcanion a'r amserlen;
- Datblygu'r cynllun amddiffyn amlinellol, yn cynnwys pennu trefniadau wrth gefn rhag ofn y bydd aelodau'r teulu'n peidio â chydymffurfio â'r cynllun;
- Penderfynu sut mae mynd ati i gwblhau'r asesiad craidd mewn pryd, a phwy fydd yn gweithredu;
- Cynorthwyo'r gweithiwr allweddol gyda'r gwaith o baratoi'r asesiad craidd o'r plentyn a'r teulu;

- Cynllunio a rhoi ar waith gwaith y gwahanol asiantaethau'n unol ag argymhellion y gynhadledd;
- Monitro'r cynnydd yn erbyn yr amcanion sydd wedi'u disgrifio yn y cynllun, a chaboli'r cynllun yn ôl yr angen;
- Gofalu bod y rhieni, a'r plant lle y bo hynny'n briodol, yn cyfrannu'n llawn at y broses o roi'r cynllun amddiffyn plant ar waith. Gofalu'u bod nhw'n deall disgwyliadau ac amcanion pob asiantaeth sy'n ymwneud â'r achos;
- Os bydd mwy o ddigwyddiadau'n effeithio ar y plentyn, ailgynnull y gynhadledd amddiffyn plant;
- Gofalu bod y grŵp craidd cyfan a rheolwr y gwasanaethau cymdeithasol yn cael gwybod am unrhyw sefyllfa lle mae hawl gweithiwr proffesiynol neu aelod o'r grŵp craidd i weld y plentyn a/neu'r cartref yn cael ei gwrthod;
- Cyfrannu at adroddiadau ysgrifenedig y gweithiwr allweddol ar gyfer y gynhadledd adolygu amddiffyn plant. Disgrifio'r gwaith mae aelodau'r teulu a gweithwyr proffesiynol wedi'i wneud, a nodi i ba raddau'r oedd y gwaith yn llwyddiannus o'i fesur yn erbyn yr amcanion, ac yn nhermau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y plentyn;
- Rhaid i bwyslais y cynllunio fod bob amser ar ofyn a fydd rhiant/rhieni plentyn yn llwyddo i wneud a chynnal newidiadau er mwyn diwallu ei angen am ofal diogel sy'n emosiynol gadarn. Mae angen i ymyriadau amddiffyn plant gael eu gwneud yng nghyd-destun cynllunio gofal sy'n canolbwyntio ar y plentyn er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau posib ar ei gyfer. I gyflawni hyn, mae gofyn asesu clir a chynlluniau sy'n cael eu monitro er mwyn ffurfio barn am y canlyniad gorau sy'n fwyaf tebygol ar gyfer plentyn;
- Dylai grwpiau craidd gadw mewn cof fod angen ymlyniadau cadarn a gofal parhaol diogel ar blant. Mae cynlluniau a chytundebau clir yn hanfodol wrth weithio gyda rhieni plant ifanc iawn yn arbennig, ac wrth benderfynu a yw'r gallu gan rieni i roi sylw i ddiogelwch, lles a datblygiad eu plentyn.

Dylid ysgrifennu cofnodion ar gyfer pob un o gyfarfodydd grŵp craidd, yn cynnwys nodiadau am y camau a gafodd eu cytuno a'r penderfyniadau a fydd yn sail i'r gynhadledd adolygu. Dylid dosbarthu'r cofnodion i aelodau'r grŵp craidd. Mae ymarfer da'n awgrymu y dylid cylchredeg y cofnodion o fewn pum diwrnod gwaith i ddyddiad y cyfarfod.

Os yw'r grŵp craidd yn methu rhoi ar waith y cynllun a gafodd ei gytuno, waeth beth yw'r rheswm, mae angen ystyried gofyn am gyngor cyfreithiol. Dylai'r gweithiwr allweddol ailgynnull y gynhadledd amddiffyn plant, ar ôl ymgynghori â'r rheolwr tîm perthnasol.

Os yw'r gweithiwr allweddol neu aelod proffesiynol arall o'r grŵp craidd yn cael ei rwystro ar unrhyw adeg rhag gweld neu fynd at blentyn y mae ei enw ar y gofrestr amddiffyn plant, dylid rhoi gwybod i uwch reolwr perthnasol y gwasanaethau cymdeithasol ac i aelodau eraill y grŵp craidd. Dylai'r grŵp craidd gytuno'n ffurfiol i asiantaeth arall gysylltu wyneb yn wyneb, a/neu dylid trefnu cynhadledd adolygu amddiffyn plant. Ar ôl ymgynghori â rheolwyr a chynghorwyr cyfreithiol, dylai'r gweithiwr allweddol ystyried a oes gofyn cymryd unrhyw gamau cyfreithiol i ofalu bod y plentyn yn ddiogel ac yn cael ei amddiffyn, yn cynnwys symud y plentyn.

Ni ddylai'r ffaith fod cyfarfod o'r grŵp craidd ar fin cael ei gynnal achosi unrhyw oedi wrth gymryd camau angenrheidiol i amddiffyn unrhyw blentyn sydd mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol, ac i sicrhau ei ddiogelwch a'i les.

3.22 Y cynllun amddiffyn plant manwl

Bydd y grŵp craidd yn mynd ati yn ei gyfarfod cyntaf i ddatblygu'r cynllun amddiffyn manwl.

Y cynllun manwl fydd y ddogfen weithio y bydd aelodau'r grŵp craidd yn ei defnyddio wrth asesu, cynllunio, darparu ac adolygu'r gwasanaethau i'r teulu. Bydd y cynllun yn manylu ar y perygl o niwed arwyddocaol i'r plentyn, ei anghenion oherwydd y perygl, a'r canlyniadau sydd i'w disgwyl o'r broses ymyrraeth.

Dylai'r cynllun gael ei gofnodi a'i gylchredeg i bob aelod o'r grŵp craidd. Dylai'r broses gynllunio gynnwys y teulu cyfan gymaint â phosib, cyn belled ag y bo gwneud hynny'n gyson ag amddiffyn y plant. Dylid defnyddio dewis iaith y teulu wrth drafod y cynllun gyda nhw. A dylen nhw gael copi yn eu dewis iaith o gofnodion cyfarfodydd y grŵp craidd a'r cynllun amddiffyn plant.

Wrth ysgrifennu'r cynllun, dylid defnyddio iaith glir y gall pawb ei deall. Dylai'r cynllun ddisgrifio'n glir y newidiadau mae angen eu gwneud er mwyn lleihau'r peryglon i'r plentyn. Dylai ddisgrifio'r canlyniadau dymunol a dylai gynnig ffordd o farnu sut mae pethau'n symud yn eu blaen. Er enghraifft, mae angen i'r cynllun ddangos y gwahaniaeth rhwng rhiant yn mynd ar gwrs rhianta, a gallu'r rhiant hwnnw i gyflawni'r tasgau sy'n perthyn i'w rôl fel rhiant y plentyn.

Rhaid i'r cynllun amddiffyn manwl roi sylw i ddymuniadau a theimladau'r plentyn. Dylai roi sylw hefyd i farn y rhieni, ar yr amod ei bod yn gyson â lles y plentyn.

Nod y cynllun amddiffyn plant yw:

- Diogelu'r plentyn rhag cael rhagor o niwed;
- Hybu iechyd a datblygiad y plentyn;

- Cynorthwyo'r teulu ac aelodau o'r teulu ehangach i hybu lles y plentyn, ar yr amod y bo hynny er lles pennaf y plentyn.

Dylai'r cynllun amddiffyn plant ddisgrifio'r gwaith y mae angen ei wneud, y rhesymau dros ei wneud, pryd bydd yn cael ei wneud, a phwy fydd yn ei wneud.

Dylai'r cynllun:

- Ddisgrifio'r perygl sydd wedi cael ei adnabod yng nghyswllt y plentyn, anghenion y plentyn, ac unrhyw wasanaethau therapiwtig sy'n ofynnol;
- Cynnwys, gan gofio mai'r nod yw diogelu'r plentyn a hybu ei les, amcanion penodol y mae modd eu cyflawni, sy'n canolbwyntio ar y plentyn, gydag amserlenni clir ar gyfer eu cyflawni;
- Cynnwys amserlenni penodol sy'n adlewyrchu anghenion y plentyn;
- Disgrifio rhan y rhieni yn y broses yn glir, a disgrifio beth y gallan nhw'n rhesymol ei ddisgwyl oddi wrth yr asiantaethau a beth y gallai'r asiantaethau'n rhesymol ei ddisgwyl oddi wrthyn nhw;
- Cynnwys strategaethau realistig, a chamau pendant ar gyfer cyflawni'r amcanion;
- Disgrifio rôl a chyfrifoldebau'r gweithwyr proffesiynol ac aelodau'r teulu. Rhaid disgrifio natur y cyswllt rhwng y gweithwyr proffesiynol a'r plant ac aelodau'r teulu, a pha mor aml y bydd y cyswllt hwnnw'n digwydd;
- Dweud pryd a sut y bydd cynnydd yn cael ei adolygu, ei fesur a'i farnu;
- Disgrifio rôl a chyfrifoldebau'r gweithwyr proffesiynol sy'n dod i gyswllt rheolaidd â'r plentyn. Rhaid cynnwys unrhyw gymorth arbenigol neu gymorth sydd wedi'i dargedu'n arbennig ar gyfer y plentyn a'r teulu;
- Cytuno ar gynlluniau wrth gefn os yw'r hawl i weld y plentyn neu'r cartref yn cael ei gwrthod.

Mae pob aelod o'r grŵp craidd yn berchen yn gyfartal ar y cynllun amddiffyn plant manwl, ac â chyfrifoldeb cyfartal drosto. Dylen nhw gydweithredu i gyflawni ei amcanion.

Dylai pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a/neu deuluoedd dan gynllun amddiffyn plant fod yn effro i'r posibilrwydd nad yw'r cynllun yn llwyddo i amddiffyn y plentyn.

3.22.1 Defnyddio cytundebau ysgrifenedig

Wrth roi'r cynllun ar waith, mae creu cytundeb ysgrifenedig yn rhan neu'n ychwanegol iddo'n ymarfer da. Dylai'r plentyn, y teulu a'r gweithwyr

proffesiynol drafod y broses o greu'r fath gytundeb. Dylai'r cytundeb esbonio'n glir i'r rhieni:

- Achosion y pryder a arweiniodd at roi enw'u plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant;
- Y newidiadau sy'n ofynnol a'r amserlen ar gyfer eu cyflawni;
- Yr hyn y mae disgwyl i rieni neu'r rhai sy'n rhoi gofal ei wneud fel rhan o'r cynllun i ddiogelu'r plentyn;
- Y canlyniadau os byddan nhw'n methu cydweithredu.

I gytundebau fod yn effeithiol, mae angen iddyn nhw gael eu hysgrifennu mewn iaith glir, syml ac ymarferol. Rhaid iddyn nhw roi sylw i safon llythrennedd y rhieni neu'r rhai sy'n rhoi gofal, a'u gallu i ddeall. Dylid annog rhieni i feddwl am yr hyn y dylai'r cytundeb ei ddweud, a dylai'r cytundeb ddisgrifio tasgau yn ogystal â'r canlyniadau yr hoffai pawb eu gweld. Dylai'r cytundebau osgoi jargon a pheidio â chyffredinoli, er enghraifft, yn hytrach na dweud mai'r amcan yw cadw plentyn yn ddiogel, disgrifiwch union natur y perygl a arweiniodd at gofrestru a dywedwch yn glir beth fydd rhieni'n ei wneud i leihau'r perygl hwnnw. Dylai'r cytundeb ddisgrifio hefyd beth fydd gweithwyr proffesiynol yn ei wneud.

3.23 Sut i weithredu pan mae gweithiwr proffesiynol yn credu nad yw plentyn ar y gofrestr yn cael ei amddiffyn yn ddigonol

Os yw unrhyw weithiwr proffesiynol yn poeni nad yw plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant yn cael ei amddiffyn yn ddigonol, rhaid mynd ati'n syth i ddod â'r mater i sylw ei reolwr a'i weithiwr proffesiynol amddiffyn plant, sydd wedi'i enwi. Rhaid rhoi gwybod hefyd i'r gweithiwr allweddol a rheolwr tîm y gwasanaethau cymdeithasol sy'n goruchwylio'r gweithiwr allweddol. Os nad ydyn nhw ar gael, neu os y farn yw bod ymateb y rheolwr tîm yn annigonol, rhaid rhoi gwybod yn syth i uwch reolwr y gwasanaethau cymdeithasol sy'n gyfrifol am amddiffyn plant.

Mewn rhai achosion, gallai asiantaeth ystyried bod angen iddi weithredu ar ei phen ei hun. Mewn achosion eithriadol lle mae gweithiwr neu asiantaeth yn mynnu gweithredu ar eu pen eu hun heb ddilyn cynllun wedi'i gytuno, rhaid rhoi gwybod i'r gweithiwr allweddol a'i reolwr tîm. Bydd y rheolwr tîm yn mynd ati wedyn i drafod y mater gyda'r uwch reolwr sy'n gyfrifol am amddiffyn plant ac uwch reolwr perthnasol yr asiantaeth dan sylw. Bydd cadeirydd y Bwrdd Lleol Diogelu Plant yn cael gwybod am unrhyw fater sy'n deillio o'r broses hon o ymgynghori. Bydd cynhadledd adolygu amddiffyn plant yn cael ei chynnull os oes angen. Gallai'r achos gael ei gyfeirio hefyd i'w adolygu'n fewnol.

3.24 Y gynhadledd adolygu amddiffyn plant

3.24.1 Pwrpas y gynhadledd adolygu amddiffyn plant

Bydd achos pob plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Dylai'r broses ystyried hefyd a oes angen ychwanegu enwau unrhyw blant eraill yn y cartref.

Tasgau'r gynhadledd adolygu amddiffyn plant yw:

- Adolygu diogelwch, iechyd a datblygiad y plentyn yn erbyn y canlyniadau'r oedd bwriad i'r cynllun amddiffyn plant eu cyflawni;
- Rhoi sylw i wybodaeth a chasgliadau'r asesiad craidd;
- Ystyried pa mor llwyddiannus yw'r cynllun presennol wrth geisio wella'r pryderon gwreiddiol a gafodd eu canfod;
- Gofalu bod lles y plentyn yn dal i gael ei ddiogelu'n ddigonol;
- Ystyried a yw'r cyd-drefnu rhwng yr asiantaethau'n effeithiol;
- Ystyried a ddylai'r cynllun amddiffyn plant barhau i fod ar waith neu oes angen ei newid;
- Ystyried a yw aelodaeth y grŵp craidd yn briodol;
- Ystyried a ddylai enw'r plentyn aros ar y gofrestr amddiffyn plant, oes modd ei dynnu oddi ar y gofrestr neu oes angen newid y categori cofrestru?

Bydd y cadeirydd yn penderfynu oes angen newid y categori cofrestru.

3.24.2 Cynllunio'r gynhadledd adolygu a'i rhoi ar waith

Dylai'r gynhadledd adolygu gyntaf gael ei chynnal o fewn tri mis i ddyddiad y gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol. Dylai adolygiadau pellach gael eu cynnal o fewn chwe mis i ddyddiad yr un blaenorol, tra bo enw'r plentyn yn aros ar y gofrestr amddiffyn plant. Rhaid rhoi gwybod i reolwr perthnasol y gwasanaethau cymdeithasol os yw amgylchiadau'n newid yn arwyddocaol, os oes digwyddiad pellach o niwed arwyddocaol, os oes mwy o ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47 yn cael eu gwneud, neu os oes digwyddiadau pellach sy'n codi pryderon amddiffyn plant. Bydd y rheolwr yn penderfynu wedyn a oes angen cynnal yr adolygiad yn gynt. Dylai'r rheolwr gytuno fel arfer i unrhyw gais o'r math hwn gan asiantaeth arall, os yw uwch reolwr neu weithiwr proffesiynol wedi'i enwi neu ei ddynodi a/neu'r grŵp craidd yn ei ategu.

Dylai'r bobl sy'n dilyn ddod i'r gynhadledd: holl aelodau'r grŵp craidd, aelodau'r teulu a'r plentyn, a staff unrhyw asiantaethau perthnasol eraill fel y rhai oedd yn bresennol yn y gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol. Mae

dyletswydd ar aelodau proffesiynol unigol y grŵp craidd i greu adroddiadau ar ran eu hasiantaeth ar gyfer y gynhadledd adolygu amddiffyn plant. Dylai'r holl adroddiadau gynnig golwg cyffredinol o'r gwaith mae aelodau'r teulu a gweithwyr proffesiynol wedi'i wneud. Dylen nhw hefyd bwyso a mesur effaith y gwaith ar les y plentyn o'i gymharu â'r amcanion a'r canlyniadau a gafodd eu disgrifio yn y cynllun i'w amddiffyn.

Y gweithiwr allweddol sy'n gyfrifol am ofalu bod yr holl bobl briodol yn cael eu gwahodd. Pan mae gweithwyr proffesiynol allweddol yn absennol o'r gynhadledd ac nid oes gwybodaeth ysgrifenedig ar gael, dylid ystyried gohirio'r gynhadledd. Bydd yr adolygiad yn cael ei ailgynnull er mwyn iddyn nhw fod yn bresennol, a rhaid ysgrifennu at eu hasiantaethau i roi gwybod am achos o fethu cydymffurfio.

Mae'r rheolau cworwm ar gyfer cynadleddau adolygu'r un fath â'r rhai ar gyfer cynadleddau cychwynnol, hynny yw, o leiaf tair asiantaeth neu dri grwpiad proffesiynol. Mae cadeirydd y gynhadledd yn rhydd, mewn amgylchiadau eithriadol, i ddewis ei chynnal gyda dim ond dwy asiantaeth neu ddau grwpiad proffesiynol yn bresennol.

3.24.3 Gwneud penderfyniadau mewn cynadleddau adolygu amddiffyn plant

Bydd y gynhadledd adolygu'n ystyried a yw'r plentyn yn parhau mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol, ac felly a ddylai ei enw aros ar y gofrestr amddiffyn plant ai peidio. Bydd yn gofyn a oes angen cynllun amddiffyn plant ffurfiol o hyd i ddiogelu lles y plentyn.

Er ei bod hi'n briodol i bob cynhadledd adolygu ystyried tynnu enw plentyn oddi ar y gofrestr, fel arfer dim ond os yw amgylchiadau'r plentyn wedi newid i'r fath raddau nad oes angen cynllun i'w amddiffyn mwyach y byddai dadgofrestru'n digwydd yn y gynhadledd adolygu gyntaf ar ôl cofrestru.

Rhaid seilio penderfyniad y gynhadledd adolygu ar ddadansoddiad trwyadl a gofalus iawn o'r holl wybodaeth sydd ar gael. Wrth ddadansoddi, rhaid ystyried adroddiadau ysgrifenedig y grŵp craidd a'r asesiad craidd gorffenedig, a rhoi cyfle i holl aelodau'r gynhadledd drafod y penderfyniad. Rhaid i'r gynhadledd allu gweld y cynllun amddiffyn plant ac argymhellion y gynhadledd amddiffyn flaenorol i'w helpu i benderfynu a oes cynnydd i'w weld.

Dylid gofyn am farn aelodau proffesiynol y grŵp craidd ynglŷn â dadgofrestru, cyn gofyn am farn aelodau eraill y gynhadledd.

Cyn penderfynu tynnu enw plentyn oddi ar y gofrestr, rhaid i aelodau'r gynhadledd fodloni eu hunain nad yw'r niwed arwyddocaol neu'r perygl o niwed arwyddocaol dal yn bresennol, neu nad yw'n bresennol mwyach i'r fath raddau fel bod rhaid cofrestru'r plentyn. A rhaid iddyn nhw deimlo'n fodlon nad oes angen cynllun amddiffyn ar y plentyn mwyach. Dylid rhoi rhesymau clir dros wneud y penderfyniad, a'u cofnodi.

Wrth ffurfio'u barn, dylai aelodau'r gynhadledd ofyn i'w hunain:

- A yw'r perygl o niwed wedi cael ei leihau yn sgil gweithredu dan y cynllun amddiffyn plant?
- A yw amgylchiadau'r plentyn a'r teulu wedi newid?
- A yw'r asesiad craidd o'r plentyn a'r teulu'n dangos nad oes angen cynllun amddiffyn plant?

Rôl y cadeirydd yw crynhoi barn aelodau'r gynhadledd. Dylai holl aelodau'r gynhadledd adolygu gytuno ar y penderfyniad ynglŷn â dadgofrestru. Os nad yw pawb yn cytuno, dylai'r gynhadledd adolygu dderbyn penderfyniad y mwyafrif. Mae barn rhieni a phlant yn bwysig, ond y gweithwyr proffesiynol mewn cynhadledd sy'n gwneud penderfyniad ynglŷn â chofrestru. Os bydd enw'r plentyn yn cael ei dynnu o'r gofrestr amddiffyn plant, dylai'r rhieni a'r rhai sy'n rhoi gofal gael gwybod y bydd hanes y cofrestru blaenorol yn aros yn y cofnodion.

Efallai y bydd angen cymorth a gwasanaethau o hyd ar blentyn y mae ei enw wedi cael ei dynnu oddi ar y gofrestr amddiffyn plant. Dan yr amgylchiadau hyn, dylai'r gynhadledd adolygu ystyried gweithio mewn partneriaeth gyda'r plentyn a'r teulu i greu cynllun 'plentyn mewn angen'.

3.24.4 Siart llif 5: Gweithredu ar ôl y gynhadledd amddiffyn plant, yn cynnwys y broses adolygu



3.25 Y gofrestr amddiffyn plant

Rhestr gyfrinachol yw'r gofrestr amddiffyn plant o'r plant mewn awdurdod lleol sy'n cael eu hystyried i fod yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed arwyddocaol. Mae'r plant ar y pryd yn destun cynllun amddiffyn plant rhyng-asiantaethol.

Pwrpas y gofrestr yw:

- Cynnig rhestr hawdd mynd ati o enwau'r holl blant sy'n byw yn yr ardal dan sylw sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd;
- Cynnig man canolog lle y gall staff proffesiynol ymholi, 24 awr y diwrnod, os ydyn nhw'n pryderu y gall plentyn for mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol;
- Gwneud asiantaethau a gweithwyr proffesiynol yn ymwybodol o'r plant sy'n parhau mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol, ac mae angen eu diogelu mewn modd gweithredol;
- Darparu cofnod o'r holl blant yn yr ardal y mae pryderon amddiffyn plant heb eu datrys yn eu cylch, ac sydd ar y pryd yn destun cynllun amddiffyn plant rhyng-asiantaethol;
- Cynnig gwybodaeth ystadegol am dueddiadau cyfredol yn yr ardal, a chyfrannu at y gwaith o gasglu ystadegau cenedlaethol ynglŷn ag amddiffyn plant;
- Trwy ei defnyddio'n iawn, bydd cofnod cronolegol yn y gofrestr o'r holl bryderon blaenorol ynglŷn â niwed arwyddocaol posib i blentyn. Gallai'r cofnod helpu'r sawl sy'n ymholi i benderfynu pa gamau sydd angen eu cymryd, os o gwbl.

3.25.1 Rheoli'r gofrestr amddiffyn plant

Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn gweinyddu'r gofrestr amddiffyn plant ar ran y Byrddau Lleol Diogelu Plant. Bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn pennu uwch reolwr i fod yn geidwad ar y gofrestr.

Ar ôl i blentyn gael ei gofrestru, cyfrifoldeb ceidwad y gofrestr yw gofalu bod yr holl fanylion yn mynd ar y gofrestr amddiffyn plant. Dylai pob Bwrdd Lleol fod â threfniadau ar waith i ofalu bod ceidwad y gofrestr yn cael yr holl wybodaeth i'w hychwanegu at y gofrestr neu newidiadau iddi. Dylai'r wybodaeth ddiweddaraf fod ar y gofrestr, a dylai ei chynnwys fod yn gyfrinachol heblaw i'r sawl sydd am wneud ymholiadau dilys iddi.

3.25.2 Rhoi enw plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant

Dim ond yn sgil penderfyniad mewn cynhadledd amddiffyn plant y gall rhywun roi enw plentyn ar y gofrestr. Yr unig eithriad yw pan mae plentyn ar

gofrestr awdurdod arall yn symud i mewn i'r ardal. Yn y fath achos, bydd y plentyn yn cael ei gofrestru ar unwaith, a bydd adolygiad o hynny yng nghynhadledd amddiffyn gychwynnol y plentyn yn yr ardal newydd. Dylid cofnodi'r math o gamdriniaeth mae plant wedi'i ddioddef dan un neu fwy o gategorïau: cam-drin corfforol, emosiynol neu rywiol, neu esgeulustod. Cadeirydd y gynhadledd amddiffyn plant fydd yn penderfynu ar y categori hwnnw. Mae'r categorïau hyn yn arwydd o'r pryder ar y pryd ynglŷn â phlant neilltuol. Byddan nhw hefyd yn hwyluso gwaith y Byrddau Lleol wrth gasglu a dadansoddi gwybodaeth.

3.25.3 Tynnu enw plentyn oddi ar y gofrestr amddiffyn plant

Fel arfer, yn sgil penderfyniad gan gynhadledd amddiffyn plant y bydd enw plentyn cael ei dynnu oddi ar y gofrestr amddiffyn plant.

Dim ond dan yr amgylchiadau sy'n dilyn y mae modd penderfynu tynnu enw plentyn oddi ar y gofrestr amddiffyn plant heb gynnull cynhadledd adolygu amddiffyn plant:

- Mae'r plentyn wedi cael ei ben-blwydd yn 18 oed;
- Mae'r plentyn wedi gadael y DU yn barhaol;
- Mae'r plentyn wedi marw.

Dim ond rheolwr perthnasol y gwasanaethau cymdeithasol sydd â'r hawl i wneud y penderfyniadau hyn.

Ym mhob achos arall, dim ond mewn cynhadledd adolygu amddiffyn plant y mae modd penderfynu dadgofrestru.

Rhaid rhoi gwybod yn ysgrifenedig i'r rhieni pan mae enw eu plentyn wedi cael ei dynnu oddi ar y gofrestr amddiffyn plant.

Dylid rhoi gwybod yn ffurfiol hefyd i'r holl asiantaethau a fu'n ymwneud â'r plentyn.

Ddylai'r ffaith fod enw plentyn wedi cael ei dynnu oddi ar y gofrestr ddim golygu bod gwasanaethau'n dod i ben yn awtomatig. Efallai fod angen cymorth a gwasanaethau ychwanegol ar y plentyn o hyd, er bod ei enw wedi cael ei dynnu oddi ar y gofrestr. Dylai'r gweithiwr allweddol fynd ati i drafod gyda'r rhieni a'r plentyn pa wasanaethau y maen nhw eu hangen.

Mae ymarfer da'n awgrymu fod angen creu cynllun plentyn mewn angen os yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn dal i ddarparu gwasanaethau ar ôl i'r plentyn gael ei ddadgofrestru. Dylid adolygu cynllun o'r fath bob chwe mis fan bellaf, tan fydd yr achos yn cau.

3.26 Mynediad at y gofrestr amddiffyn plant, ac ymholiadau iddi

Gall unrhyw asiantaeth sy'n aelod o'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant perthnasol ofyn am wybodaeth o'r gofrestr.

Dylai pob Bwrdd Lleol fod â threfn ar waith sy'n galluogi asiantaethau i fynd at y gofrestr amddiffyn plant, 24 awr y diwrnod. Os oes mwy nag un ffordd o fynd ati, rhaid bod trefn wedi'i chytuno ar waith ar gyfer cofnodi ymholiadau a bwydo'r wybodaeth yn ôl i geidwad y gofrestr.

Rhaid i'r Byrddau Lleol ofalu bod trefn ar waith ar gyfer monitro'r ffordd mae'r gofrestr yn gweithio.

Yn ardaloedd rhai Byrddau Lleol, mae gan asiantaethau gyswllt electronig â'r gofrestr, 24 awr y diwrnod. Un enghraifft o hyn yw gwasanaethau damweiniau ac argyfwng ymddiriedolaethau GIG. Yn yr ardaloedd hyn, dylai'r Byrddau Lleol ofalu bod gwahaniaeth clir rhwng gwirio'r gofrestr yn awtomatig ar gyfer pob plentyn sy'n defnyddio gwasanaeth, ac ymholiad penodol i'r gofrestr. Sail y fath ymholiad yw pryderon y gallai plentyn neilltuol fod wedi cael ei gam-drin.

3.26.1 Ymholiadau i'r gofrestr amddiffyn plant

Mae ymholiadau i'r gofrestr amddiffyn plant yn ffordd i weithiwr proffesiynol sy'n pryderu am blentyn:

- holi a yw enw'r plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant ar hyn o bryd, neu a yw ei enw wedi bod arni yn y gorffennol;
- gael gwybod am unrhyw ymholiadau eraill i'r gofrestr.

Rhaid peidio byth â defnyddio ymholiadau i'r gofrestr fel rhywbeth i gymryd lle'r broses o drafod pryderon amddiffyn plant gyda'r gwasanaethau cymdeithasol, ac atgyfeirio'n ôl y drefn briodol.

3.26.1.1 Y broses

Mae'n bosib ymholi dros y ffôn neu drwy lythyr, ffacs neu neges electronig.

Pan ddaw ymholiad, bydd y ceidwad neu ei gynrychiolydd yn:

- Cadarnhau enw a gwaith y sawl sy'n gwneud yr ymholiad;
- Gofyn am y rheswm dros wneud yr ymholiad.

Bydd yr ymateb yn dod o fewn dwy awr ar ffurf galwad ffôn at y gweithiwr proffesiynol wedi'i enwi a wnaeth yr ymholiad neu ei reolwr llinell. Mae hyn yn ffordd o wirio pwy ydyn nhw a'u hawl i gael gwybodaeth.

Wrth i'r ceidwad dderbyn unrhyw ymholiad, rhaid iddo gofnodi'r wybodaeth sy'n dilyn;

- Enw a rhif ffôn y sawl sy'n ymholi, ac enw'i asiantaeth;
- Dyddiad ac amser yr ymholiad;
- Y rheswm dros wneud yr ymholiad;
- Dyddiad ac amser yr ymateb;
- Y canlyniad.

Bydd y ceidwad yn rhoi statws cofrestru'r plentyn ac, os yw wedi'i gofrestru:

- Categori'r cofrestru;
- Dyddiad y cofrestru;
- Enw a manylion cysylltu'r gweithiwr allweddol;
- Manylion unrhyw gofrestru blaenorol, os ydyn nhw ar gael;
- Manylion unrhyw ymholiadau blaenorol, os ydyn nhw ar gael.

Os yw enw plentyn ar y gofrestr, bydd y sawl sy'n ymholi'n cael enw'r gweithiwr allweddol. Cyfrifoldeb y sawl sy'n ymholi yw rhoi gwybod i'r gweithiwr allweddol am yr ymholiad ac am y pryderon.

Dylai ceidwad y gofrestr roi gwybod i'r gweithiwr allweddol am unrhyw ymholiad ynglŷn â phlentyn sydd ar y gofrestr, neu ynglŷn â phlentyn sy'n byw yn yr un cyfeiriad â phlentyn sydd ar y gofrestr.

Os daw ymholiad **ac nid yw enw'r plentyn ar y gofrestr**, rhaid cofnodi'r ymholiad a'r cyngor a roddwyd i'r sawl oedd yn ymholi.

Mae cofnod yn cael ei gadw o enwau'r holl blant y daw ymholiadau yn eu cylch:

- Rhaid cofnodi pob ymholiad i'r gofrestr, o fewn 24 awr, ar gronfa ddata o wybodaeth am gleientiaid y gwasanaethau cymdeithasol;
- Dylid ymateb i ymholiadau o fewn dwy awr;
- Pan fydd unrhyw atgyfeiriad amddiffyn plant yn cyrraedd y gwasanaethau cymdeithasol, dylid gwneud ymholiad i'r gofrestr amddiffyn plant fel rhan o'r broses asesu gychwynnol.

3.26.1.2 Ail ymholiadau

Os daw dau ymholiad o fewn chwe mis ynglŷn â phlentyn sydd heb ei gofrestru, bydd y ceidwad yn gofalu bod yr uwch reolwr sy'n gyfrifol am amddiffyn plant yn cael gwybod.

Pan ddaw ail ymholiad ynglŷn â phlentyn sydd heb ei gofrestru:

- dylid dweud wrth y sawl sy'n gwneud yr ail ymholiad am yr un cyntaf;
- dylai'r sawl a wnaeth yr ymholiad cyntaf gael gwybod am yr ail un.

3.26.2 Ceisiadau eraill am wybodaeth am blant sydd ar y gofrestr

Mae modd gwneud ceisiadau eraill am blant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant dan yr amgylchiadau sy'n dilyn:

- Pan fydd gweithiwr proffesiynol yn paratoi adroddiad ar gyfer llys neu os yw'n cyfrannu at ymchwiliad troseddol neu amddiffyn plant (fel arfer gan CAFCASS Cymru neu'r gwasanaeth prawf cenedlaethol);
- **I bwrpasau diogelu plant, er enghraifft, wrth weithio mewn lleoliadau wedi'u rheoleiddio – gwarchodwyr plant, maethu, mabwysiadu etc;**
- Gwybodaeth ystadegol ddienw (sydd ar gael i unrhyw asiantaeth neu unigolyn).

Os yw'r achos yn dal yn agored, dylid cyfeirio'r fath geisiadau at y rheolwr tîm ar gyfer y plentyn. Yn achos plentyn nad oes unrhyw wybodaeth amdano neu achos sydd wedi'i gau, bydd y ceidwad yn rhoi gwybod i'r sawl sy'n ymholi a oedd y plentyn wedi'i gofrestru yn y gorffennol ai peidio.

Bydd gweithiwr proffesiynol sy'n gwneud cais i'r gofrestr amddiffyn plant am wybodaeth yn ei chael o fewn 14 diwrnod gwaith.

3.27 Symudiadau plant ar y gofrestr amddiffyn plant

Dylai unrhyw un sy'n gweithio i un o'r asiantaethau sy'n perthyn i Fwrdd Lleol Diogelu Plant ddweud wrth y gwasanaethau cymdeithasol os ydyn nhw'n dod i wybod am deulu sy'n symud i mewn i'r ardal neu allan ohoni, ac mae enw un o blant y teulu ar y gofrestr amddiffyn plant. Dylai'r gwasanaethau cymdeithasol roi gwybod i bob asiantaeth arall sy'n ymwneud â'r achos, yn cynnwys ceidwad y gofrestr.

3.27.1 Pan mae teulu'n symud allan o'r ardal

3.27.1.1 Rhoi gwybod i'r awdurdod sy'n derbyn yr achos

Pan ddaw'n amlwg bod teulu wedi symud neu'n bwriadu symud yn barhaol neu dros dro allan o ardal awdurdod lleol, ac mae enw un o blant y teulu ar y gofrestr amddiffyn plant, rhaid i'r sawl sy'n cael y wybodaeth roi gwybod yn syth i'r rheolwr tîm.

Dylai'r rheolwr tîm yn yr ardal lle'r oedd y teulu'n byw fynd ati wedyn i ffonio'r tîm yn adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod mae'r teulu wedi

symud iddo i roi gwybod am yr achos. Bydd y rheolwr tîm yn gofalu bod gwybodaeth ysgrifenedig yn dilyn, o fewn tri diwrnod, yn cynnwys:

- Cronoleg;
- Asesiad cychwynnol neu asesiad craidd;
- Cofnodion unrhyw gynhadledd amddiffyn plant berthnasol (nodwch nad yw crynodeb yn ddigon, oni bai i'r gynhadledd gael ei chynnal yn ddiweddar iawn ac nad yw'r cofnodion ar gael eto).

Dylai'r rheolwr tîm ofyn i'r wybodaeth gael ei chydnabod yn ysgrifenedig pan ddaw i law.

Bydd y gweithiwr allweddol yn rhoi gwybod ar unwaith i geidwad y gofrestr. Yn ei dro, bydd y ceidwad yn rhoi gwybod i geidwad y gofrestr yn yr awdurdod mae'r teulu wedi symud iddo. Bydd enw'r plentyn yn cael ei roi dros dro ar gofrestr yr awdurdod newydd. Bydd yr awdurdod newydd yn aros wedyn am gais gan yr awdurdod lle'r oedd y teulu'n byw am gynhadledd drosglwyddo i mewn, os y farn yw bod y teulu wedi symud yn barhaol.

Dylai'r gweithiwr allweddol roi gwybod hefyd i wasanaethau iechyd ac addysg yr awdurdod lle'r oedd y teulu'n byw. Yn eu tro, gallan nhw roi gwybod i'r swyddogion sy'n gwneud yr un gwaith â nhw yn yr awdurdod newydd, gan ddilyn protocolau lleol.

Pan mae teulu'n symud o'r ardal, rhaid i bob asiantaeth ofalu bod cofnodion y plant yn cael eu trosglwyddo'n ddiogel ac yn brydlon i'r asiantaeth briodol yn yr ardal newydd. Rhaid gwneud hyn o fewn 10 diwrnod gwaith fan bellaf.

Wrth drosglwyddo cofnodion y gwasanaethau cymdeithasol, dylid gofalu eu bod yn cynnwys crynodeb a chronoleg. Dylid anfon hefyd yr asesiadau sydd ar waith, cofnodion cynadleddau amddiffyn plant, cofnodion cyfarfodydd y grŵp craidd, a'r cynllun amddiffyn plant diweddaraf.

3.27.2 Pan mae teulu'n symud i gyfeiriad anhysbys

Os yw teulu wedi symud, nid oes cyfeiriad newydd ar eu cyfer ac mae ymdrech deg i gael y cyfeiriad wedi methu, dylai'r rheolwr tîm yn yr awdurdod lle'r oedd y teulu'n byw fynd ati ar unwaith i drafod gyda'r rheolwr uwch priodol yn y gwasanaethau cymdeithasol beth sydd angen ei wneud nesaf. Dylai'r gweithredu gynnwys rhoi gwybod i'r Bwrdd Iechyd Lleol neu'r nyrs benodol sy'n gyfrifol am amddiffyn plant ar ran ymddiriedolaeth GIG ac sy'n gyfrifol yn barod am wybodaeth am blant coll ac atgyfeiriadau cyn geni o fewn awdurdod lleol pan mae pryderon o safbwynt amddiffyn plant. Cyfrifoldeb nyrs benodol yr ymddiriedolaeth yw rhybuddio unedau ddamweiniau, adrannau bydwreigiaeth, gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau ymwelwyr iechyd ynglŷn â'r teulu coll. Wrth wneud hynny, mae'n bwysig cynnwys yr ymwelwyr iechyd a'r nyrsys cymunedol sy'n mynd i lochesau menywod neu unedau i deuluoedd digartref.

Gallai'r gweithredu gynnwys:

- Cylchredeg gwybodaeth am y teulu coll trwy'r rhwydwaith amddiffyn plant;
- Rhybuddio'r heddlu;
- Rhybuddio'r gwasanaethau iechyd, naill ai trwy'r rhwydwaith amddiffyn plant neu drwy weithiwr proffesiynol y gwasanaeth iechyd sy'n gyfrifol am amddiffyn plant.

3.27.3 Pan mae plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant yn symud dros dro allan o'r ardal

Yn dilyn asesiad cychwynnol, bydd rheolwr tîm yr awdurdod mae'r plentyn wedi symud iddo'n penderfynu ai wedi symud dros dro neu'n barhaol y mae e. Dim ond dan amgylchiadau eithriadol y byddai symudiad plentyn yn cyfrif fel un dros dro os yw wedi byw (neu fod disgwyl iddo fyw) yn y lle newydd am fwy na thri mis.

Os y farn yw mai symud dros dro y mae'r plentyn, bydd y rheolwr tîm yn gofyn i'w enw gael ei roi dros dro ar gofrestr amddiffyn plant yr awdurdod mae'r plentyn wedi symud iddo. Mae angen i'r awdurdod gwreiddiol barhau i adolygu amgylchiadau'r plentyn tan fydd yn dod yn ei ôl i'r ardal wreiddiol, neu fod penderfyniad yn cael ei wneud fod y symudiad wedi dod yn barhaol.

Os oes amheuaeth y bydd plentyn yn aros am fwy na thri mis yn yr awdurdod mae wedi symud iddo, ond fod y symudiad yn dal i gyfrif fel un dros dro, dylai'r awdurdod mae'r plentyn wedi symud iddo gynnull cynhadledd 'trosglwyddo i mewn' amddiffyn plant. Ar ôl y gynhadledd, yr awdurdod gwreiddiol fydd yn cadw'r cyfrifoldeb cyffredinol am y cynllun amddiffyn rhyng-asiantaethol. Bydd y gynhadledd yn gyfle i greu darlun cliriach o'r holl wybodaeth sydd ar gael er mwyn i'r cynllun amddiffyn rhyngasiantaethol fod ar waith yn yr ardal mae'r plentyn wedi symud iddi.

3.27.4 Pan mae teulu'n symud i mewn i'r ardal

Dylai unrhyw un sy'n gweithio i asiantaeth sy'n perthyn i'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant roi gwybod i'r gwasanaethau cymdeithasol os ydyn nhw'n dod i wybod am deulu y mae enw un o'u plant ar y gofrestr amddiffyn plant yn symud i'r ardal. Dylai'r gwasanaethau cymdeithasol roi gwybod i bob asiantaeth berthnasol arall, yn cynnwys ceidwad y gofrestr.

3.27.4.1 Derbyn yr atgyfeiriad

Pan mae teulu'n symud i ardal awdurdod lleol, yn cynnwys lloches Cymorth i Fenywod, ac mae enw'r plentyn neu'r plant ar gofrestr amddiffyn plant Bwrdd Lleol arall, dylai'r sawl sy'n cael y wybodaeth yn gyntaf roi gwybod i geidwad y gofrestr amddiffyn plant yn yr ardal newydd.

Bydd ceidwad y gofrestr amddiffyn plant yn rhoi gwybod i bob asiantaeth berthnasol arall. Bydd y ceidwad yn ychwanegu enw'r plentyn (neu enwau'r plant) dros dro at y gofrestr amddiffyn plant, tra bydd cynhadledd dderbyn amddiffyn plant yn cael ei chynnull.

Dylai rheolwr tîm yr awdurdod sy'n derbyn yr achos wirio a yw'r awdurdod gwreiddiol wedi gwneud atgyfeiriad ysgrifenedig. Bydd yn gofyn hefyd am wybodaeth berthnasol fel, er enghraifft, asesiad cychwynnol, asesiad craidd, a chofnodion unrhyw gynadleddau amddiffyn plant sydd wedi cael eu cynnal. Os oes angen, dylai rheolwr tîm yr awdurdod newydd ofyn i'r awdurdod gwreiddiol atgyfeirio'r achos yn ysgrifenedig. Dylai'r atgyfeiriad gynnwys y wybodaeth angenrheidiol.

Bydd yr awdurdod sy'n derbyn yr achos yn gwneud asesiad cychwynnol o drefniadau byw newydd y plentyn. Ar ôl yr asesiad cychwynnol, bydd rheolwr tîm yr awdurdod newydd yn penderfynu a yw'r plentyn wedi symud dros dro neu'n barhaol. Dim ond dan amgylchiadau eithriadol y byddai symudiad plentyn yn cyfrif fel un dros dro os yw wedi byw (neu fod disgwyl iddo fyw) yn y lle newydd am fwy na thri mis.

3.27.4.2 Y gynhadledd 'trosglwyddo i mewn' amddiffyn plant

Os daw'n glir mai'r bwriad yw i'r plentyn aros yn barhaol yn yr ardal newydd, bydd yr awdurdod sy'n derbyn yr achos yn galw cynhadledd 'trosglwyddo i mewn' o fewn 15 diwrnod gwaith. Yn ogystal â'r bobl a fyddai fel arfer yn cael eu gwahodd, dylid gwahodd gweithiwr allweddol yr awdurdod gwreiddiol ac aelodau perthnasol o grŵp craidd yr awdurdod. Dylai'r bobl hyn ddarparu adroddiad ysgrifenedig.

Ar ôl y gynhadledd, bydd y cyfrifoldeb am yr achos yn trosglwyddo i'r awdurdod newydd, waeth beth oedd y penderfyniad ynglŷn â chofrestru. Os bydd penderfyniad yn cael ei wneud i gofrestru'r plentyn/plant, bydd yr awdurdod newydd yn enwi gweithiwr allweddol cymwys yn syth.

Bydd rheolwr tîm yr awdurdod newydd, neu ei gynorthwyydd, yn mynd ati heb oedi i roi gwybod am ganlyniad y gynhadledd i geidwad y gofrestr amddiffyn plant. Bydd ceidwad y gofrestr amddiffyn plant yn diwygio'r wybodaeth yn y cofnodion. Bydd hefyd yn ysgrifennu at geidwad cofrestr amddiffyn plant yr awdurdod gwreiddiol i gadarnhau y gall yr awdurdod hwnnw dynnu enw'r plentyn/plant o'i gofrestr amddiffyn plant.

3.27.5 Pan mae plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant yn symud dros dro i mewn i'r ardal

Os y casgliad yw mai wedi symud dros dro y mae plentyn, mae'n bwysig i reolwr tîm yr awdurdod newydd a rheolwr tîm yr awdurdod gwreiddiol gytuno ar y trefniadau ar gyfer ei oruchwylio.

Mae'n debygol y bydd y fath drefniadau'n golygu gofyn:

- Pwy sy'n gyfrifol am wneud yr ymweliadau monitro amddiffyn plant?
- Pa mor aml y bydd ymweliadau monitro'n cael eu gwneud?
- At bwy y dylai gweithwyr proffesiynol eraill gyfeirio'u pryderon?
- Pwy sy'n trefnu ac yn cadeirio grwpiau craidd?
- Sut mae trosglwyddo'r fath wybodaeth i weithwyr proffesiynol perthnasol eraill?

Pan mae plentyn wedi aros, neu mae disgwyl iddo aros dros dro mewn awdurdod am dri mis neu fwy, dylai'r awdurdod lle mae'r plentyn yn byw cyn i'r tri mis hwnnw ddod i ben gynnull cynhadledd dderbyn.

3.27.6 Plant 'coll' ar y gofrestr amddiffyn plant

Dylai pob gweithiwr proffesiynol roi gwybod yn syth i'r gweithiwr allweddol a'r heddlu os yw'n dod i wybod bod plentyn y mae ei enw ar y gofrestr amddiffyn plant 'ar goll'. Bydd y gweithiwr allweddol yn ymgynghori â'r rheolwr tîm sy'n gyfrifol ac yn gwneud ymholiadau brys ar y cyd â'r heddlu er mwyn ceisio dod o hyd i'r plentyn.

Bydd yr adeg y mae teulu'n cyfrif fel teulu 'coll' yn dibynnu ar y ffeithiau sydd ar gael amdanyn nhw ac asesiad o ba mor ddifrifol yw'r sefyllfa. Y prif reswm dros geisio dod o hyd i'r fath deuluoedd yw'r pryder bod y diflannu'n arwydd fod mwy o gam-drin wedi digwydd. Gallai fod yn berthnasol hefyd pan mae gweithiwr proffesiynol wedi methu sawl gwaith â gweld plentyn mewn angen.

Dylai'r gweithiwr allweddol gydweithio'n agos â'r heddlu er mwyn osgoi ail-wneud yr un gwaith a gofalu bod yr holl ymholiadau'n cael eu cyd-drefnu a'u cofnodi. Dylai uwch reolwr y gwasanaethau cymdeithasol sy'n gyfrifol am amddiffyn plant gael gwybod am yr achos. Dylid gofyn am gyngor cyfreithiol cyn gynted â phosib.

Os yw pob ymdrech i ddod o hyd i'r plentyn yn methu, gallai rheolwr perthnasol y gwasanaethau cymdeithasol ofyn am help: swyddfa'r Adran Gwaith a Phensiynau yn yr ardal; y Ganolfan Budd-dal Plant; mudiadau iechyd, addysg ac ysgolion.

Dylai'r gweithiwr allweddol roi gwybod i geidwad y gofrestr amddiffyn plant. Dylai ceidwad y gofrestr ystyried a oes angen anfon manylion am y teulu coll at geidwaid yr holl gofrestri amddiffyn plant yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig. Gallai'r ceidwad gydweithio gyda'r gweithiwr proffesiynol sy'n gyfrifol am amddiffyn plant i benderfynu pa wybodaeth i'w chylchredeg o fewn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, os oes angen cylchredeg unrhyw wybodaeth o gwbl.

Dylai'r gweithiwr allweddol gael gwybod pan mae rhywun yn dod o hyd i'r teulu. Os yw hynny'n briodol, bydd y gweithiwr allweddol yn dilyn y drefn ar

gyfer trosglwyddo achosion ar y gofrestr amddiffyn plant. Bydd hefyd yn rhoi gwybod i bob asiantaeth arall a cheidwad y gofrestr amddiffyn plant.

Dylai bob Bwrdd Lleol Diogelu Plant ddatblygu canllawiau ar gyfer delio â phlant coll. Dylai'r fath drefniadau gynnwys cronfeydd data a systemau gwybodaeth sy'n cofnodi ac yn dilyn hynt plant oedran ysgol, ond sydd heb eu cofrestru mewn ysgol. Mae gan weithwyr y proffesiynau iechyd rôl bwysig iawn wrth rybuddio asiantaethau eraill pan mae plant cyn oedran ysgol yn mynd ar goll.

Blwch 15: Sylwi pan mae teulu'n mynd ar goll

Pan mae teulu'n methu sawl apwyntiad mewn rhes neu os nad ydyn nhw gartref pan mae swyddog yn ymweld, efallai eu bod nhw wedi symud yn ddisymwth ac yn annisgwyl o'r ardal. Dylai unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd y mae pryderon amddiffyn plant yn eu cylch (yn cynnwys os oes pryder ynglŷn â phlentyn sydd heb ei eni a allai fod mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol yn y dyfodol) fod yn wyliadwrus, a rhoi gwybod i'r gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu ar unwaith.

3.28 Symudiadau teuluoedd â phlant mewn angen

Pan mae teuluoedd â phlant mewn angen yn croesi ffiniau daearyddol unrhyw asiantaeth sy'n gyfrifol amdanyn nhw, bydd y gweithwyr proffesiynol dan sylw'n ystyried a oes angen rhybuddio'u cydweithwyr yn yr ardal newydd. Byddai hyn yn cael ei wneud fel arfer gyda chaniatâd y teulu. Mae modd ei wneud trwy drosglwyddo cofnodion yn y ffordd arferol, neu trwy atgyfeirio'n benodol os oes pryderon neu broblemau arbennig.

3.28.1 Pan mae plant mewn angen yn symud allan o'r awdurdod

Wrth sôn am blant mewn angen yn yr adran hon, mae'r term yn cynnwys yr achosion sy'n agored yn yr awdurdod lleol gwreiddiol. Efallai:

- Fod asesiad wedi dangos eu bod nhw'n blant mewn angen a'u bod nhw'n cael gwasanaethau ar hyn o bryd;
- Bod asesiadau wedi cael eu cwblhau ond eu bod nhw'n aros i gael eu rhoi yn nwylo'r gwasanaethau priodol;
- Bod asesiadau wrthi'n cael eu gwneud ar y pryd.

Pryd bynnag y mae teulu â phlentyn neu blant mewn angen yn symud allan o ardal awdurdod lleol, ac mae gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod yn trin yr achos fel un agored, rhaid i weithwyr cymdeithasol yr awdurdod gwreiddiol ystyried a oes angen rhoi gwybod i'w cydweithwyr yn yr awdurdod mae'r teulu wedi symud iddo. Byddan nhw'n gwneud hynny fel mater o drefn (a gyda chaniatâd y teulu) os:

- Ydyn nhw o'r farn y byddai er lles pennaf y plentyn dan sylw i barhau i gael gwasanaethau gan yr awdurdod newydd; a/neu
- Mae hanes o bryder ynglŷn â phlentyn neu blant, hyd yn oed os nad yw enw'r plentyn neu enwau'r plant ar y gofrestr amddiffyn plant.

O gofio nad oes trefniadau ar gyfer trosglwyddo cofnodion yn arferol rhwng awdurdodau lleol, bydd hyn bob amser yn cael ei wneud trwy atgyfeirio'r achos.

3.28.1.1 Dod i benderfyniad

Pan ddaw unrhyw aelod o staff y gwasanaethau cymdeithasol yn yr awdurdod gwreiddiol i wybod am deulu sydd wedi symud neu'n bwriadu symud o'r ardal, ac mae gan blant y teulu weithiwr cymdeithasol, bydd yn rhoi gwybod yn syth i'r rheolwr tîm â chyfrifoldeb yn yr awdurdod gwreiddiol. Bydd y rheolwr tîm yn:

- Trafod gyda'r ymarferwr sy'n gofalu am yr achos a oes angen ei atgyfeirio i'r awdurdod mae'r teulu'n symud iddo;
- Os oes gofyn atgyfeirio'r achos, trefnu i'r teulu gael gwybod am y penderfyniad a gofyn iddyn nhw gydsynio i'r achos gael ei atgyfeirio;
- Pan mae gan y teulu blant oedran ysgol, ac ar ôl trafod y sefyllfa gyda'r teulu, rhoi gwybod i wasanaeth lles addysg yr awdurdod addysg lleol gwreiddiol am y symudiad a gofyn iddyn nhw gysylltu ag awdurdod addysg lleol yr ardal mae'r teulu'n symud iddi;
- Pan mae gan y teulu blant oedran ysgol, ac ar ôl trafod y sefyllfa gyda'r teulu, rhoi gwybod i wasanaeth nyrsys ysgol yr awdurdod gwreiddiol er mwyn iddo roi gwybod i wasanaeth nyrsys ysgol yr awdurdod mae'r teulu'n symud iddo;
- Pan mae gan y teulu blant dan bump oed, ac ar ôl trafod y sefyllfa gyda'r teulu, rhoi gwybod i wasanaeth ymwelwyr iechyd yr awdurdod gwreiddiol er mwyn iddo roi gwybod i wasanaeth ymwelwyr iechyd yr awdurdod mae'r teulu'n symud iddo;
- Dilyn y protocolau lleol o ran rhoi gwybod a throsglwyddo cofnodion.

Os yw'r rhieni'n gwrthod cydsynio i'r achos gael ei atgyfeirio i'r awdurdod newydd, rhaid i'r rheolwr tîm benderfynu a yw'r plentyn yn debygol o ddioddef niwed arwyddocaol os nad yw'r atgyfeiriad yn mynd yn ei flaen.

Wrth ddod i benderfyniad, rhaid i'r rheolwr tîm ddefnyddio'i farn broffesiynol a dilyn canllawiau'i awdurdod ei hun. Os yw'n barnu ei bod hi'n debygol y bydd y plentyn yn dioddef niwed arwyddocaol, dylai'r rheolwr tîm atgyfeirio'r achos hyd yn oed os nad yw'r rhieni'n cydsynio.

3.28.1.2 Atgyfeirio

Os y penderfyniad yw atgyfeirio'r teulu at yr awdurdod newydd, bydd y rheolwr tîm yn trefnu i'r awdurdod mae'r teulu'n symud iddo gael gwybod yn llafar. Bydd hyn yn cael ei gofnodi yn ffeil yr achos. Bydd yr atgyfeiriad yn cael ei gadarnhau'n ysgrifenedig, o fewn pum diwrnod gwaith. Bydd yn cynnwys y wybodaeth sy'n dilyn:

- Enwau a dyddiadau geni holl aelodau'r teulu (os ydyn nhw'n eu gwybod);
- Cyfeiriad y teulu yn yr awdurdod gwreiddiol a'i gyfeiriad yn yr awdurdod newydd (os ydyn nhw'n ei wybod);
- Manylion y trefniadau addysg ac iechyd;
- Canlyniad unrhyw asesiadau a wnaeth yr awdurdod gwreiddiol;
- Manylion unrhyw wasanaethau'r oedd yr awdurdod gwreiddiol yn eu rhoi;
- Hanes y teulu a'r rheswm dros eu hatgyfeirio.

Mewn unrhyw achos lle mae anghytuno ynglŷn â'r camau sydd wedi'u cymryd neu heb eu cymryd, ac mae'r ymarferwyr gwaith cymdeithasol yn methu datrys yr anghydfod, byddan nhw'n cyfeirio'r mater at reolwyr priodol y ddau awdurdod. Bydd y rheolwyr yn datrys y mater o fewn 20 diwrnod gwaith.

3.28.1.3 Ar ôl penderfynu peidio ag atgyfeirio

Os y penderfyniad yw peidio ag atgyfeirio'r achos i'r awdurdod newydd, bydd ffeil yr achos yn cael ei chau. Bydd y rheolwr tîm yn cofnodi'r rhesymau dros wneud hyn ar gofnod yr achos, a bydd yn trefnu i roi gwybod i'r teulu am y penderfyniad.

3.28.1.4 Pan mae teulu'n symud i gyfeiriad anhysbys

Os yw'r teulu wedi symud heb roi gwybod am eu cyfeiriad newydd, ac mae ymdrechion rhesymol i ddod o hyd i'r wybodaeth wedi methu, dylai rheolwr tîm yr awdurdod gwreiddiol fynd ati'n syth i drafod y mater gydag uwch reolwr priodol y gwasanaethau cymdeithasol. Rhaid penderfynu beth sydd angen ei wneud, os oes angen gwneud rhywbeth o gwbl. Os oes pryderon y gallai'r plentyn fod angen ei amddiffyn, dylid ystyried a oes angen rhoi gwybod i'r rhwydwaith amddiffyn plant a'r heddlu am y teulu coll. Rhaid cytuno'n

benodol gyda'r heddlu beth yw natur y pryderon a sut y dylen nhw weithredu os ydyn nhw'n dod o hyd i'r plentyn.

Os yw'r plentyn yn dod i'r golwg mewn ardal arall, ac mae wedi cael ei asesu fel plentyn mewn angen ond heb fod angen ei amddiffyn, mae'n bosib wedyn i'r awdurdod gwreiddiol gau ei ffeil ar yr achos. Rhaid cofnodi'r holl gamau gweithredu yn gyntaf, a rhaid i'r rheolwr tîm eu llofnodi hefyd. Bydd rheolwr tîm yr awdurdod gwreiddiol yn rhoi gwybod i'r asiantaethau perthnasol am y penderfyniad i gau ffeil yr achos.

3.28.2 Pan mae plant mewn angen yn symud i mewn i'r awdurdod

Atgyfeiriadau

Pan fydd awdurdod lleol yn rhoi gwybod i awdurdod arall ei fod am atgyfeirio plentyn mewn angen sy'n symud i'r ardal, dylid gofyn i'r awdurdod gwreiddiol lenwi ffurflen atgyfeirio. Bydd y rheolwr tîm yn gwneud penderfyniad ynglŷn â'r atgyfeiriad yn y ffordd arferol.

Mewn unrhyw achos lle mae anghytuno ynglŷn â'r camau sydd wedi'u cymryd neu heb eu cymryd, ac mae'r ymarferwyr gwaith cymdeithasol yn methu datrys yr anghydfod, byddan nhw'n cyfeirio'r mater at reolwyr priodol y ddau awdurdod. Bydd y rheolwyr yn datrys y mater o fewn 20 diwrnod gwaith.

3.28.3 Symudiadau plant mewn angen ac ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47

Os yw'r awdurdod gwreiddiol yn dweud ei fod ar fin dechrau ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47 cyn i'r teulu symud, bydd yn atgyfeirio'r achos i'r awdurdod mae'r teulu wedi symud iddo.

Bydd yr awdurdod newydd yn cynnull trafodaeth neu gyfarfod strategaeth i gynllunio'r ymholiadau dan adran 47. Bydd yr awdurdod newydd a'r awdurdod gwreiddiol yn bresennol yn y drafodaeth neu'r cyfarfod strategaeth a fydd yn cael ei gynnal o fewn 48 awr i'r adeg y daeth yr atgyfeiriad gan yr awdurdod gwreiddiol i law. Cyfrifoldeb yr awdurdod newydd yw gwneud asesiad cychwynnol ac i gael gwybod gan yr awdurdod gwreiddiol a oes angen gwneud unrhyw beth i amddiffyn y plentyn ar unwaith. Dylid cofnodi'r penderfyniadau'n glir yn ffeiliau achos y ddau awdurdod.

Blwch 16: Atgyfeiriadau penodol am blant mewn angen yn symud i ardaloedd eraill

Mae atgyfeiriadau penodol yn bwysig fel ffordd o rybuddio asiantaethau sy'n derbyn achos ynglŷn ag unrhyw hanes o bryderon am blentyn neu blant, er nad ydyn nhw ar y gofrestr ar y pryd. Mae angen i bawb sy'n gweithio gyda theulu ystyried yn ofalus oes angen gwneud atgyfeiriad penodol ynglŷn â

phlentyn sy'n symud i ardal arall. Cofiwch roi sylw i ystyriaethau cydsynio. Peidiwch â chymryd yn ganiataol bod anghenion y plentyn yn cael eu diwallu, na chymryd yn ganiataol y bydd ei anghenion yn cael sylw'n systematig. Nid yw'n ddiogel nac yn broffesiynol i gymryd yn ganiataol y bydd asiantaethau eraill naill ai'n gwybod am y newid neu'n bwriadu cymryd y camau iawn.

3.29 Y broses amddiffyn plant a chrynodeb o'r amserlen

- Yr asiantaeth sy'n atgyfeirio'n adrodd am bryderon i'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu. Yr asiantaeth sy'n atgyfeirio'n dilyn hynny gydag adroddiad llafar ac adroddiad ysgrifenedig **o fewn dau ddiwrnod gwaith**;
- Y gweithiwr ar ddyletswydd yn mynd ati **ar yr un diwrnod** i rannu'r atgyfeiriad â'r rheolwr-goruchwyliwr sydd wedi'i ddynodi iddo;
- Dylid gweld a siarad gyda phlentyn sy'n destun honiad o gam-drin bwriadol neu bryderon **o fewn 24 awr**;
- Gwneud ymholiad i'r gofrestr amddiffyn plant **o fewn 24 awr**;
- Ymateb gan geidwad y gofrestr amddiffyn plant **o fewn dwy awr;**
- Cwblhau'r asesiad cychwynnol o fewn **saith diwrnod gwaith** i'r dyddiad y daeth yr atgyfeiriad i law;
- Rhoi gwybod **o fewn 10 diwrnod** i'r asiantaeth sy'n atgyfeirio am y camau sy'n cael eu cymryd;
- Pan mae'n amlwg bod angen gwneud ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47, mae trafodaeth strategaeth gyda'r heddlu a phenderfyniad ynglŷn â'r camau gweithredu nesaf yn digwydd **o fewn 24 awr**;
- Mynd ati cyn gynted â phosib i gynnull cyfarfod strategaeth os yw'n briodol, ond **o fewn wyth diwrnod gwaith** i'r dyddiad y daeth yr atgyfeiriad i law;
- Cynnull cynhadledd amddiffyn plant **o fewn 15 diwrnod gwaith** i ddyddiad y drafodaeth neu'r cyfarfod strategaeth diwethaf;
- Y gynhadledd yn cytuno ar gynllun amddiffyn plant amlinellol. Copi o'r cynllun yn cael ei gylchredeg **o fewn pum diwrnod gwaith** neu cyn cyfarfod cyntaf y grŵp craidd;
- Cwblhau'r asesiad craidd **o fewn 35 diwrnod gwaith i'w ddechrau**;
- Cynnull grŵp craidd **o fewn 10 diwrnod gwaith i ddyddiad y gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol**;
- Cynnal y gynhadledd adolygu gyntaf **o fewn tri mis i ddyddiad y gynhadledd amddiffyn gychwynnol**;

- Adolygiadau dilynol i'w cynnal **o fewn chwe mis**;
- **Rhaid rhoi gwybod i'r heddlu ar unwaith am blant coll** a, beth bynnag, dim hwyrach na hanner nos ar ddiwrnod cyntaf y diflannu;
- Yr heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol yn cyfweld plentyn coll sy'n dod i'r golwg **o fewn 72 awr;**
- Cynnull cyfarfod strategaeth yn achos plentyn sydd wedi bod ar goll **am fwy na saith diwrnod;**
- **Cynnull cyfarfod strategaeth** yn achos plentyn sydd wedi bod ar goll mwy na theirgwaith mewn cyfnod o 12 mis.

RHAN 4

4. Amddiffyn Plant mewn Amgylchiadau Penodol

4.1 Rhagarweiniad

Mae'r adran yma yn ategu'r wybodaeth yn Rhan 3: *Y Broses Amddiffyn Plant,* a dylid darllen y ddwy adran gyda'i gilydd. Tra fo Rhan 3 yn egluro'r fframwaith sylfaenol ar gyfer gweithredu ym mhob amgylchiad pan fo pryder am les plentyn, mae Rhan 4 yn delio gydag ystyriaethau ychwanegol neu esboniad llawnach o'r drefn. Gallai un neu fwy o adrannau fod yn berthnasol i amgylchiadau plentyn penodol.

4.2 Plant sy'n byw oddi cartref

4.2.1 Amgylchiadau lle mae plant yn byw oddi cartref

Rhaid i blant sy'n byw oddi cartref allu disgwyl yr un lefel o amddiffyn â phlant sy'n byw gyda'u teuluoedd.

Rhaid dilyn y canllawiau yma ym mhob sefyllfa lle ceir pryderon am les plentyn, ac mae hyn yn cynnwys plant sy'n byw oddi cartref. Mae plant yn yr amgylchiadau dilynol yn cyfrif fel rhai sy'n byw oddi cartref:

- Gofal maeth y mae'r awdurdod lleol neu asiantaeth annibynnol yn ei ddarparu;
- Maethu preifat;
- Gofal preswyl y mae'r awdurdod lleol neu asiantaeth wirfoddol neu annibynnol yn ei ddarparu;
- Unedau diogel,
- Ysgolion preswyl dan ofal yr awdurdod lleol neu ysgolion gwirfoddol/ annibynnol;
- Sefydliadau iechyd fel ysbytai;
- Llety annibynnol y mae pobl ifanc sy'n gadael gofal a phobl ifanc eraill dan 18 oed yn ei ddefnyddio;
- Carchardai, canolfannau hyfforddi diogel a sefydliadau ar gyfer troseddwyr ifanc.

Pan mae awdurdod lleol yn comisiynu gwasanaethau ond ddim yn eu darparu'n uniongyrchol, rhaid rhoi sylw penodol i fesurau diogelu sylfaenol. Rhaid i unrhyw gytundebau lefel gwasanaeth neu gontractau gyda'r darparwr allanol eu nodi'n glir.

4.2.2 Mesurau diogelu hanfodol

Dylai pob lleoliad lle mae plant yn byw oddi cartref gynnig yr un mesurau sylfaenol i'w diogelu rhag cael eu cam-drin a dylai'r fath fesurau hybu eu lles cyffredinol, eu hamddiffyn rhag dioddef niwed, a'u trin ag urddas a pharch.

Blwch 17: Plant sy'n byw oddi cartref: mesurau diogelu sylfaenol

Mae plant sy'n byw i ffwrdd o'u cartrefi angen mesurau diogelu i'w hamddiffyn rhag dioddef niwed. Dylai'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant ofalu bod asiantaethau neu gyrff sy'n comisiynu lleoliadau a gwasanaethau ar gyfer plant sy'n byw oddi cartref yn rhoi sylw penodol bob amser i'r mesurau diogelu sy'n dilyn wrth lunio contractau neu gytundebau lefel gwasanaeth gyda'r darparwyr.

- Datganiadau sy'n disgrifio'r camau fydd yn gwneud i blant deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, a'u parchu, a'u bod yn ddiogel;
- Datganiadau a pholisïau sy'n parchu amrywiaeth ac yn hybu sensitifrwydd o ran hil, diwylliant, crefydd, rhyw, rhywioldeb ac anabledd;
- Datganiadau sy'n cadarnhau'r trefniadau ar gyfer craffu allanol;
- Datganiadau sy'n cadarnhau'r trefniadau ar gyfer cynnwys teuluoedd;
- Trefn gadarn ar gyfer recriwtio ac archwilio cefndir staff, a bod y drefn yn cydymffurfio â chanllawiau a safonau cenedlaethol;
- Bod yr holl staff a'r rhai sy'n rhoi gofal yn cael eu hyfforddi ym maes amddiffyn a diogelu plant, yn cynnwys rheoli hunan-niweidio;
- Trefn gwyno glir ac effeithiol, a bod digon o sylw iddi;
- Trefniadau sy'n gofalu bod plant yn gwybod sut mae cwyno, eu bod nhw'n cael gwybodaeth am y drefn ac am yr help sydd ar gael gan y gwasanaethau eiriolaeth;
- Mynediad plentyn at wasanaeth eiriolaeth annibynnol;
- Mynediad plentyn at y gwasanaeth ymweld annibynnol;
- Mynediad plentyn at swyddog cwynion yr awdurdod lleol, y Comisiynydd Plant a *Childline*;
- Protocolau ffurfiol sy'n disgrifio hyd a lled y gofal a'r rheolaeth sy'n cael eu caniatáu;
- Hyfforddiant i staff a rhai sy'n rhoi gofal o ran hyd a lled y mesurau gofal a rheolaeth sy'n cael eu caniatáu;
- Mynediad staff a rhai sy'n rhoi gofal i fynd at drefniadau 'chwythu'r chwiban' clir sydd wedi'u hysbysebu'n dda;

- Trefniadau clir ar gyfer goruchwylio a chefnogi staff a rhai sy'n rhoi gofal, yn cynnwys rhai dros dro a gwirfoddol;
- Protocolau ffurfiol ar gyfer rheoli a gofalu am blant sy'n mynd ar goll o'u lleoliadau ac sy'n rhoi digon o gyfle i blentyn siarad â pherson annibynnol am unrhyw bryderon;
- Cydymffurfio â phrotocolau a Chanllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

Blwch 18: Dyletswydd i roi gwybod i'r gwasanaethau cymdeithasol am blant mewn ysbyty neu ysgol breswyl

Mae *adran 85 Deddf Plant 1989* yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n darparu iechyd a gwasanaethau addysg hysbysu awdurdod lleol yr ardal mae'r plentyn yn arfer byw ynddi, neu'r awdurdod lle mae'r plentyn wedi'i leoli os nad yw'n glir ym mha ardal yr arferai fyw, pan mae plentyn wedi bod neu y bydd yn cael ei leoli (er enghraifft, mewn ysbyty neu ysgol breswyl) am dri mis neu fwy. Pwrpas hyn yw rhoi cyfle i staff yr awdurdod asesu lles y plentyn os oes angen, a'i gadw dan ystyriaeth.

Dylai'r darparwr iechyd neu'r gwasanaeth addysg hysbysu'r gwasanaethau cymdeithasol a ydyn nhw'n gwneud hysbysiad arferol neu a ydynt yn ystyried bod angen asesu anghenion a sefyllfa deuluol y plentyn. Os yw'r darparwr iechyd neu'r gwasanaeth addysg yn arbennig o bryderus ynglŷn â diogelu'r plentyn, dylid gwneud atgyfeiriad amddiffyn ffurfiol, gan ddilyn y drefn yn adran 2.

Dylai unrhyw hysbysiad/atgyfeiriad gael ei wneud ar ôl ymgynghori â'r rhieni neu'r sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant, a gyda'u cydweithrediad, oni bai y byddai gwneud hynny'n peryglu'r plentyn neu staff.

4.3 Honiadau o gam-drin plant yn erbyn gweithwyr proffesiynol / staff

Dylai pob corff, sefydliad a grwpiad proffesiynol sy'n gweithio neu sydd mewn cysylltiad gyda phlant a theuluoedd fod â'u canllawiau'u hunain ar gyfer rheoli honiadau yn erbyn staff a gweithwyr proffesiynol, ac ar gyfer chwythu'r chwiban. Dylai'r canllawiau gydymffurfio â *Chanllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan*. Dylai pob aelod o staff a gweithiwr proffesiynol gael gwybod am y canllawiau hyn. Dylai'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant gael copi o'r canllawiau a dylai'r Bwrdd ofalu eu bod nhw'n effeithiol.

Rhaid dilyn y drefn amddiffyn plant wrth reoli honiadau bod gweithwyr proffesiynol neu staff yn cam-drin plant. Mae rhai gwahaniaethau sy'n dibynnu ar natur y lleoliad.

Rhaid rhoi sylw i'r amgylchiadau sy'n dilyn:

4.3.1 Honiadau o gam-drin yn erbyn staff cartrefi preswyl;

4.3.2 Honiadau o gam-drin yn erbyn gofalwyr maeth;

4.3.3 Honiadau o gam-drin yn erbyn gofalwyr maeth preifat;

4.3.4 Canllawiau ychwanegol mewn perthynas â gwarchodwyr plant;

4.3.5 Honiadau bod plant yn y ddalfa'n cael eu cam-drin;

4.3.6 Honiadau o gam-drin ynglŷn â neu yn erbyn gweithiwr proffesiynol, aelod o staff neu wirfoddolwr sydd â chyswllt â phlant ac oedolion agored i niwed.

Mae'r amodau sy'n dilyn yn berthnasol i'r adrannau 4.3.1 – 4.3.6:

Os diswyddir aelod o satff neu os yw'n cael ei symud i swydd arall oherwydd ymholiadau amddiffyn plant a/neu ymchwiliad troseddol, dylai'r cyfarfod canlyniad yr ymchwiliad hysbysu'r cyflogwr o'i ddyletswydd i ddarparu manylion yr unigolyn o dan Ddeddf Amddiffyn Plant 1999, protocolau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed, ac unrhyw gyfarwyddiadau perthnasol dilynol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ni ddylai unrhyw asiantaeth sy'n cyflogi unigolyn adael iddo ymddiswyddo os yw'n destun i ymholiadau amddiffyn plant a/neu ymchwiliad troseddol. Dylai'r asiantaeth ddilyn ei threfn ddisgyblu er mwyn gofalu bod yr ymchwiliad, ei ganlyniad ac unrhyw gamau disgyblu sy'n dilyn yn cael eu cofnodi'n ffurfiol ac yn glir yn hanes cyflogaeth y gweithiwr.

Mae'n bosib chwilio am fwy o wybodaeth ar www.crb.gov.uk

- Dylai'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant gael gwybod pan mae'r cyfarfod canlyniad yr ymchwiliad yn argymell i'r awdurdod sy'n cyflogi gyfeirio at y rhestri gwahardd a/neu at y cyrff rheoleiddio proffesiynol perthnasol.
- Dylid ei gwneud hi'n ofynnol i'r asiantaeth ysgrifennu at y Bwrdd Lleol Diogelu Plant i gadarnhau bod hyn wedi cael ei wneud.
- Dylai'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant fonitro'r broses o roi'r fath argymhellion ar waith.

Blwch 19: Dyletswydd i adrodd camdriniaeth gan weithiwr proffesiynol

- Mae dyletswydd ar bob aelod o staff a phob gweithiwr proffesiynol i

ddiogelu a hybu lles plant.

- Rhaid i bob corff ofalu bod disgrifiadau swyddi, codau ymddygiad a chontractau/cytundebau lefel gwasanaeth yn ei gwneud hi'n ddyletswydd i ddiogelu a hybu lles plant.
- Mae dyletswydd ar bob aelod o staff a gweithiwr proffesiynol i adrodd os yw'n pryderu am ymddygiad aelod arall o staff, gweithiwr proffesiynol neu wirfoddolwr tuag at blant.
- Rhaid i bob mudiad ofalu bod ganddo drefn chwythu'r chwiban.
- Rhaid i bob prif swyddog ofalu bod unrhyw honiad bod aelod o'i staff efallai'n cam-drin plentyn yn cael ei gofnodi'n gywir ar gofrestr.

4.3.1 Honiadau o gam-drin yn erbyn staff cartrefi preswyl

Os yw rhywun yn adrodd bod aelod o staff mewn cartref preswyl yn cam-drin plant, rhaid dilyn y canllawiau amddiffyn plant sy'n delio â honiadau yn erbyn gweithwyr proffesiynol pob tro. Rhaid hysbysu'r heddlu am unrhyw drosedd. Gallai'r fath honiad olygu hefyd fod trefn ddisgyblu'r cartref yn cael ei weithredu.

Bydd gweithredu Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn cael blaenoriaeth bob amser dros drefn ddisgyblu cartref preswyl.

Bydd ymholiadau amddiffyn plant i honiadau bod plant mewn lleoliadau preswyl yn cael eu cam-drin yn dilyn y canllawiau yn Rhan 3. Rhaid i'r ymholiadau ystyried hefyd a yw'n debygol bod plant eraill yn y lleoliad wedi cael eu cam-drin, ac y gall fod yna batrwm o gam-drin hanesyddol. Oherwydd hynny, rhaid i'r gweithwyr cymdeithasol a swyddogion yr heddlu sy'n cwblhau'r ymholiadau fod yn gyfarwydd â'r canllawiau o ran rheoli cam-drin wedi ei drefnu.

Fel arfer, bydd aelod o staff sy'n bryderus bod plentyn yn cael ei gam-drin yn adrodd ei bryderon wrth bennaeth a/neu ddirprwy'r cartref. Bydd yn dilyn trefn a chanllawiau'r cartref ei hun.

Rhaid ystyried ar unwaith a fyddai'n ddoeth gohirio unrhyw leoliadau newydd neu rai sydd eisoes ar y gweill ar gyfer lleoli plant yn y cartref.

Mae dyletswydd ar bennaeth y cartref preswyl i hysbysu Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CSSIW) am unrhyw honiadau o gam-drin yn ôl Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002 (Rheoliad 29 (1) [Atodlen 5]).

Pan mae'r aelod o staff wedi dweud wrth bennaeth neu ddirprwy'r cartref breswyl am yr honiad o gam-drin, bydd y pennaeth neu'r dirprwy'n hysbysu'r aelod o staff a wnaeth yr honiad am y camau a gafodd eu cymryd i roi sylw i'r honiad ac i amddiffyn y plentyn. Os yw'r aelod o staff:

- Yn poeni nad yw'r hyn a wnaeth y pennaeth a/neu'r dirprwy wedi llwyddo i amddiffyn y plentyn a phlant eraill rhag parhau i ddioddef niwed; *neu*
- Yn methu trafod ei bryderon gyda'r pennaeth a/neu'r dirprwy; *neu*
- Yn amau bod y pennaeth a/neu'r dirprwy yn cydgynllwynio neu'n rhan o'r cam-drin;

Dylai'r aelod o staff adrodd ei bryderon yn uniongyrchol wrth reolwr y gwasanaethau cymdeithasol sy'n gyfrifol am amddiffyn plant yn ardal yr awdurdod lleol lle mae'r cartref, a/neu'r heddlu.

Os yw'r honiad yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn erbyn y pennaeth a/neu'r dirprwy, dylai'r aelod o staff roi gwybod am yr honiad i reolwr y gwasanaethau cymdeithasol sy'n gyfrifol am amddiffyn plant yn ardal yr awdurdod lleol lle mae'r cartref, a/neu'r heddlu.

Os yw'r cartref plant yn cael ei reoli gan neu ar ran yr awdurdod lleol:

- Dylid cynnwys rhywun annibynnol yn yr ymholiad amddiffyn plant o'r dechrau un;
- Ni ddylai'r person sy'n rheoli'r ymchwiliad fod â chyfrifoldebau rheolwr llinell dros staff y cartref.

Yn y cyfarfod strategaeth neu'r cyfarfod canlyniad yr ymchwiliad, mae gofyn gwneud penderfyniad ynglŷn â'r materion ychwanegol sy'n dilyn:

- Trefniadau i'r gwasanaethau cymdeithasol i roi gwybod yn gynnar i rieni'r plentyn am fanylion yr honiad a'r camau sydd i'w cymryd;
- Cynnig eiriolwr annibynnol (er enghraifft, Gwasanaeth Hawliau Plant neu Wasanaeth Eiriolaeth) i'r plentyn;
- Cytuno ar unrhyw gamau ar gyfer amddiffyn y plentyn sy'n atgyfeirio'r achos, y plentyn y mae'r honiad yn ei gylch ac unrhyw blant eraill yn yr uned breswyl;
- Trosglwyddo'r plentyn i leoliad arall os byddai hynny er ei les gorau;
- Ystyried pa gamau disgyblu y mae angen eu cymryd, hyd yn oed os nad oes digon o dystiolaeth i erlyn y sawl sy'n cael ei amau.

Hefyd, os yw honiadau o gam-drin yn digwydd mewn ysgolion annibynnol, dylai uwch reolwr y gwasanaethau cymdeithasol sy'n gyfrifol am amddiffyn plant hysbysu CSSIW a chofrestrydd yr ysgolion annibynnol yn gynnar yn y broses.

4.3.2 Honiadau o gam-drin yn erbyn gofalwr maeth

4.3.2.1 Adnabod y perygl o ddioddef niwed

Mae'r adran hon yn berthnasol i leoliadau maeth y mae awdurdod lleol wedi'u trefnu, asiantaethau maethu annibynnol a chyrff gwirfoddol.

Yn aml iawn, plant sy'n derbyn gofal maeth yw'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Mae'r mwyafrif o ofalwyr maeth yn cynnig gofal diogel safonol i blant. Ond, fe all y ffaith fod y gofal maeth yn digwydd o fewn pedair wal cartref y sawl sy'n rhoi gofal ei wneud hi'n anodd adnabod unrhyw gam-drin ac i blant sôn am eu pryderon. Gall plentyn mewn lleoliad fod wedi cael ei gam-drin yn y gorffennol.

Mae'n bwysig i'r plentyn a'r gofalwr fel ei gilydd fod unrhyw bryderon yn cael eu hymchilio'n drwyadl. Mae gan honiad yn erbyn gofalwr maeth oblygiadau difrifol iawn i'r gofalwr ei hun ac i'w deulu.

Rhaid cyfeirio unrhyw honiad, amheuaeth neu bryderon bod gofalwr maeth neu aelod o'i deulu'n cam-drin plentyn at reolwyr y gwasanaethau cymdeithasol sy'n gyfrifol am amddiffyn plant, plant sy'n derbyn gofal a maethu.

Ni ddylai unrhyw un sydd wedi bod yn rhan o'r gwaith o asesu'r gofalwr maeth, nac unrhyw un sy'n gyfrifol am y gwasanaeth lleoli/maethu yn yr ardal, weithredu'r ymholiadau amddiffyn plant. Er hynny, mae gan staff maethu wybodaeth bwysig y gallan nhw ei rhannu, a gallan nhw gynnig cefnogaeth i'r gofalwr maeth. Ond, dylid bob amser ystyried cynnig cymorth annibynnol i'r gofalwr maeth hefyd.

Wrth ddelio â'r atgyfeiriad, dylid dilyn y canllawiau yn Rhan 3, gyda'r camau ychwanegol sy'n dilyn:

- Hysbysu'r gweithiwr cymdeithasol am unrhyw blant sy'n derbyn gofal sydd wedi'u lleoli yn y cartref;
- Mynd ati'n syth ac yn ôl yr angen i amddiffyn pob plentyn sydd yn y cartref;
- Mynd ati'n syth ac yn ôl yr angen i amddiffyn plant y gofalwr maeth ei hun;
- Gofalu nad oes unrhyw blant eraill yn cael eu lleoli yn y cartref tan fydd yr ymholiad amddiffyn plant wedi cael ei gwblhau;
- Cynnull cyfarfod strategaeth cyn gynted â phosib. Dylai un o uwch reolwyr y gwasanaethau cymdeithasol gadeirio'r cyfarfod a'r arfer gorau fyddai cynnal y cyfarfod strategaeth o fewn dau ddiwrnod gwaith;
- Hysbysu CSSIW am yr honiadau.

4.3.2.2 Y cyfarfod strategaeth

Dylid ystyried gwahodd y swyddogion sy'n dilyn i'r cyfarfod:

- Uwch reolwr y gwasanaethau cymdeithasol sy'n gyfrifol am amddiffyn plant;
- Y rheolwr sy'n gyfrifol am faethu;
- Cyd-drefnydd amddiffyn plant y gwasanaethau cymdeithasol;
- Gweithiwr cymdeithasol y plentyn a'r rheolwr tîm;
- Gweithiwr cymdeithasol y gofalwr maeth;
- Cynrychiolydd o'r heddlu;
- Cynrychiolydd cyfreithiol ar ran yr awdurdod;
- CSSIW;
- Nyrs glinigol arbenigol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal / y gweithiwr iechyd proffesiynol amddiffyn plant sydd wedi'i enwi neu ei ddynodi,
- Asiantaethau perthnasol eraill, er enghraifft, cynrychiolydd maes addysg;
- Y person sydd â'r manylion am yr atgyfeiriad.

Mae dyletswyddau penodol y cyfarfod strategaeth yn dilyn, ond rhaid hefyd dilyn y canllawiau yn rhan 3.5 ar gyfer pob cyfarfod strategaeth:

- Ystyried diogelwch ac anghenion pob plentyn sydd yn y lleoliad ar y pryd, yn ogystal â rhai sydd wedi eu lleoli yn y gorffennol.
- Trin **pob plentyn** fel unigolyn ac argymell a ddylai'r plentyn/plant aros gyda'r gofalwyr maeth tan fydd yr ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47 yn cael eu cwblhau. Rhaid rhoi sylw bob amser i farn y plentyn;
- Cynllunio camau diogelu ychwanegol os bydd y plentyn yn aros yn y lleoliad maeth tra bo'r ymholiadau ar waith;
- Dylid gofyn am gymeradwyaeth yr uwch reolwr os yr argymhelliad yw i'r plentyn aros yn y lleoliad;
- Penodi eiriolwr ar gyfer y plentyn/plant. Gallai fod yn weithiwr cymdeithasol, yn aelod o'r teulu neu'n berson annibynnol. Mae'n arbennig o werthfawr cynnwys eiriolwr annibynnol a allai gynrychioli'r plentyn ym mhob cam o'r broses. Ond, ni fyddai'r eiriolwr, fel arfer, yn dod i'r cyfarfod strategaeth, oni bai fod gwybodaeth ganddo i'w rhannu;
- Ystyried diogelwch a lles plant y gofalwr maeth ei hun ac unrhyw blant eraill y mae'n dod i gysylltiad rheolaidd â nhw;

- Rhoi sylw i unrhyw swyddi eraill neu weithgarwch gwirfoddol mae'r gofalwr maeth yn eu gwneud, os ydyn nhw'n golygu dod i gysylltiad â phlant a allai fod mewn perygl o ddioddef niwed;
- Adnabod pob plentyn arall a gafodd ei leoli gyda'r gofalwr yn y gorffennol ac ystyried a oes pryderon yn eu cylch;
- Penderfynu pa wybodaeth i'w rhoi i'r gofalwyr maeth am yr honiad a'r ymholiadau adran 47, pryd i'w rhoi a phwy fydd yn ei rhoi. Dylai cadeirydd y cyfarfod strategaeth ysgrifennu at y gofalwyr maeth i gadarnhau hyn;
- Penderfynu pwy fydd yn cefnogi'r gofalwyr maeth yn ystod yr ymchwiliad, a sut mae rhoi gwybod iddyn nhw wrth iddo fynd yn ei flaen. Os bydd y cyfarfod strategaeth yn penderfynu mai aelod o staff sydd i wneud hyn, rhaid i bawb ddeall ei statws er mwyn osgoi unrhyw ddryswch;
- Trefnu i'r gofalwyr maeth gael gwybod na fydd unrhyw blant eraill yn cael eu lleoli gyda nhw tra bydd yr ymholiadau amddiffyn plant ar waith;
- Dylid hysbysu'n gynnar yn y broses rieni'r plentyn am yr honiad a'r drefn sydd i'w dilyn a chynnig cefnogaeth ac eiriolaeth iddyn nhw. Dylid ystyried yn ofalus a oes angen datgelu gwybodaeth i rieni plant eraill sydd wedi'u lleoli gyda'r gofalwr, yn arbennig os oes rhaid symud plentyn oherwydd yr honiad;
- Cytuno ar enw'r rheolwr a fydd yn cael gwybodaeth am ganlyniad yr ymholiadau amddiffyn plant a'r ymchwiliad troseddol.
- Dylid cadw cofnod manwl o'r cyfarfod, yn cynnwys cofnodi'r rhesymau os y penderfyniad yw peidio â chymryd unrhyw gamau pellach.

4.3.2.3 Y gofalwyr maeth

Dylai'r person sy'n cefnogi'r gofalwyr maeth ofalu bod y gofalwyr:

- Yn deall y pryderon sy'n cael eu codi a threfnu i'r gofalwyr gadarnhau'r wybodaeth ffeithiol dan sylw ac i gynnig eu sylwadau, oni bai y byddai hyn yn amharu ar unrhyw ymchwiliad troseddol;
- Yn cael gwybod am y canllawiau amddiffyn plant fydd yn cael ei dilyn;
- Yn cael gwybod am yr amserlen ar gyfer y broses;
- Yn cael gwybod am y gefnogaeth sydd ar gael iddyn nhw, sut mae cysylltu â'r Rhwydwaith Maethu, ac am unrhyw drefniadau allanol eraill mae'r awdurdod lleol wedi'u gwneud ar gyfer cefnogi gofalwyr maeth;
- Yn cael gwybodaeth glir am ganlyniad yr ymholiadau amddiffyn plant a'r ymchwiliad troseddol;

- Yn deall y gallai tystion, yn cynnwys gweithwyr cymorth, gael eu galw i roi tystiolaeth os bydd gwrandawiad mewn llys.

4.3.2.4 Ar ôl i'r ymholiadau amddiffyn plant adran 47 gael eu cwblhau

Rhaid cynnal cyfarfod i roi canlyniad yr ymchwiliad ar ôl i'r ymholiadau amddiffyn plant a/neu'r ymchwiliad troseddol gael eu cwblhau. Rhaid i gyfarfod canlyniad yr ymchwiliad benderfynu beth ddylai ddigwydd nesaf.

- Dylai pawb a oedd yn y cyfarfod strategaeth ddod i'r cyfarfod hwn, ynghyd â'r staff a'r swyddogion a oedd yn cyfrannu'n uniongyrchol at yr ymholiadau amddiffyn plant a'r ymchwiliad troseddol, ac eiriolwr y plentyn;
- Bydd rheolwr y gwasanaethau cymdeithasol sy'n gyfrifol am amddiffyn plant yn cynnull y cyfarfod hwn. Mae tasgau'r cyfarfod yn dilyn:
- Pwyso a mesur y wybodaeth a ddaeth i law a darganfyddiadau'r ymholiadau amddiffyn plant a'r ymchwiliad troseddol;
- Penderfynu a oes sail i'r honiadau;
- Penderfynu pa gamau y mae angen eu cymryd i ddiogelu unrhyw blentyn arall yng ngoleuni'r wybodaeth a ddaeth i law;
- Penderfynu a oes angen cynnull cynhadledd amddiffyn plant gychwynnol i drafod y plant maeth a/neu unrhyw blant eraill y gall fod pryderon amddiffyn plant yn eu cylch;
- Ystyried pa wybodaeth am y canlyniad y dylid ei rhoi i rieni'r plentyn neu'r plant sy'n destun i'r honiadau, a/neu i'r rhai sy'n rhoi gofal iddyn nhw;
- Gofalu bod cefnogaeth ar gael yn ôl y gofyn i'r plentyn a'r gofalwr maeth;
- Dylai cadeirydd y cyfarfod strategaeth ysgrifennu at y gofalwyr maeth o fewn pum diwrnod gwaith i ddyddiad cyfarfod canlyniad yr ymchwiliad i roi'r manylion sy'n dilyn:
- Natur yr honiad;
- Canlyniad yr ymholiadau amddiffyn plant adran 47;
- Penderfyniadau'r cyfarfod strategaeth.

Ar ôl unrhyw ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47, neu ar ôl digwyddiad neu gwyn arwyddocaol, dylai'r panel maethu bob amser ystyried statws cymeradwyaeth y gofalwr maeth. Dylid cofnodi'r honiad a chanlyniad yr ymholiadau amddiffyn plant a/neu'r ymchwiliad troseddol ar ffeil y gofalwr maeth.

Dylai'r swyddog adolygu annibynnol (IRO) gael gwybod am yr ymholiadau amddiffyn plant a'r canlyniadau.

Efallai bydd gofalwr maeth sy'n destun honiadau yn ei erbyn yn penderfynu roi rhybudd o'i fwriad i roi'r gorau i faethu. Yn ôl y rheoliadau, mae hawl gan ofalwr maeth roi 28 diwrnod o rybudd o'i fwriad i roi'r gorau i'r gwaith cyn i'r ymddiswyddiad ddod i rym. Os yw gofalwr maeth yn penderfynu rhoi'r gorau i'r gwaith yn ystod camau cynnar ymholiadau amddiffyn plant, mae'n debygol y bydd yr ymddiswyddiad yn dod i rym cyn i'r ymchwiliad gael ei gwblhau. Os yw'r gofalwr maeth wedi ymddiswyddo'n barod, dylai'r panel maethu gael adroddiad am ganlyniad yr ymholiadau amddiffyn plant a/neu'r ymchwiliad troseddol. Rhaid hefyd gofalu bod cofnod o drafodaethau'r panel ac unrhyw gyngor neu argymhellion yn mynd ar ffeil y gofalwr maeth. Os bydd asiantaethau eraill yn gofyn yn y dyfodol am eirda, rhaid i unrhyw ymateb gynnwys sylwadau am yr argymhellion neu'r cyngor. Rhaid iddyn nhw ddangos yn glir fod y gofalwr maeth wedi ymddiswyddo cyn i'r asiantaeth ddod i benderfyniad ynglŷn â'i statws cymeradwyaeth.

Hyd yn oed os yw gofalwr maeth yn ymddiswyddo, rhaid i'r ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47 a/neu'r ymchwiliad troseddol gael eu cwblhau.

Rhaid i'r gwasanaethau cymdeithasol ofalu bod manylion gofalwr maeth sydd wedi cael ei dynnu o gofrestri lleol oherwydd honiadau yn ei erbyn, p'un ai cafodd yr honiadau eu cadarnhau ai peidio, yn cael eu hanfon i'w cynnwys dan brotocolau Deddf Amddiffyn Plant (POCA) ac Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA), ac unrhyw rai o ofynion dilynol eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru.

4.3.3 Honiadau o gam-drin yn erbyn gofalwyr maeth preifat

Cytundeb preifat yw trefniant maethu preifat. Mae'n golygu bod rhywun heblaw rhiant neu berthynas agos yn gofalu am blentyn dan 16 oed (dan 18 oed os yw'n anabl), nid yw'r awdurdod lleol yn rhan o'r cytundeb ac mae bwriad iddo bara am o leiaf 28 diwrnod.

Gall gofalwr maethu preifat fod yn ffrind i'r teulu, yn rhiant un o ffrindiau'r plentyn neu'n rhywun nad yw'r plentyn na'i deulu'n ei adnabod yn barod ond sy'n fodlon maethu'r plentyn yn breifat.

Mae gofyn i'r gofalwyr maethu preifat a'r sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant hysbysu'r awdurdod lleol am y trefniant.

Mae dyletswydd ar bob gweithiwr proffesiynol hysbysu'r awdurdod lleol am unrhyw drefniant maethu preifat y maen nhw'n dod i wybod amdano.

Roedd marwolaeth Victoria Climbié yn 2000 yn tanlinellu'r perygl o blant sy'n destun trefniadau maethu preifat yn cael eu cam-drin. Mae *Deddf Plant 2004* yn sefydlu dyletswyddau ar bob awdurdod lleol i hyrwyddo ymwybyddiaeth am yr angen i roi gwybod i'r awdurdod am unrhyw blant sy'n cael eu maethu'n breifat yn eu hardal.

Mae'r canllawiau ar gyfer gwneud ymholiadau i honiadau yn erbyn gofalwyr maeth preifat yn dilyn yr un drefn â'r canllawiau ar gyfer gofalwyr maeth eraill. Ond mae rhai gwahaniaethau pwysig, sef:

- Dylai cyfarfod strategaeth gynnwys y gweithiwr cymdeithasol sydd wedi bod yn gwneud ymweliadau statudol gyda'r gofalwr maeth preifat a'r plentyn;
- Os nad yw'r plentyn yn un o wladolion y DU, dylid cysylltu â'r llysgenhadaeth briodol;
- Dylid ystyried cynnig cymorth i'r gofalwr maeth preifat ar ôl i'r ymholiadau gael eu cwblhau.

4.3.4 Canllawiau ychwanegol mewn perthynas â gwarchodwyr plant

Mae'r Rheoliadau Cofrestru ac Arolygu'n berthnasol i bob trefniant gwarchod plant. Felly, dylai aelodaeth y cyfarfod strategaeth gynwys:

- Swyddog Cofrestru ac Arolygu Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CSSIW);
- Un o uwch swyddogion y gwasanaethau cymdeithasol sy'n gyfrifol am wasanaethau gofal dydd;
- Yn ogystal â'r canllawiau yn Rhan 3, bydd y cyfarfod strategaeth hefyd yn:
- Ystyried y camau y gallai CSSIW eu cymryd o ran atal cofrestriad y gwarchodwr plant;
- Adnabod y plant mae'r gwarchodwr yn gofalu amdanyn nhw ar hyn o bryd a'r rhai mae wedi'u gwarchod yn y gorffennol;
- Pa wybodaeth a ddylid ei rhoi i'r rhieni eraill sy'n defnyddio gwasanaeth y gwarchodwr plant ar hyn o bryd;
- Ystyried amgylchiadau a lles plant y gwarchodwr ei hun ac unrhyw blant eraill mae wedi cael cyswllt arwyddocaol gyda nhw;
- Cytuno ar y wybodaeth i'w rhoi i'r gwarchodwr plant am yr honiad a'r ymholiadau amddiffyn plant. Bydd cadeirydd y cyfarfod strategaeth yn ysgrifennu at y gwarchodwr i roi'r wybodaeth;
- Penderfynu pa wybodaeth i'w rhoi i'r rhieni neu'r rhai sy'n rhoi gofal. Bydd cadeirydd y cyfarfod strategaeth yn ysgrifennu at y rhieni neu'r rhai sy'n rhoi gofal i roi'r wybodaeth;
- Adnabod y math a'r maint o gefnogaeth a ddylid ei gynnig i'r plant a'u rhieni, ac i'r gwarchodwr plant.

Tra bo'r ymholiadau ar y gweill, dylid annog y gwarchodwr plant i ofyn am gymorth gan Gymdeithas Genedlaethol Gwarchodwyr Plant. Bydd y gwarchodwr plant yn cael cymaint o wybodaeth â phosib heb i hynny amharu ar effeithiolrwydd yr ymholiadau.

4.3.5 Honiadau bod plant yn y ddalfa'n cael eu cam-drin

Pan mae plant yn cael eu trosglwyddo i ofal y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu i aros eu prawf, dylai'r protocolau ddisgrifio'r trefniadau ar gyfer atgyfeirio unrhyw honiadau o gam-drin. Dylai'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant fod wedi cytuno'r protocolau hyn.

4.3.5.1 Ymateb i honiadau bod plant mewn carchar yn cael eu cam-drin

Dylai aelodau staff neu weithwyr proffesiynol sy'n ymweld â phlant yn y ddalfa fod â chyfrifoldeb i atgyfeirio i'r gwasanaethau cymdeithasol unrhyw bryderon am ddiogelwch neu les plentyn yn y ddalfa. Gallai'r pryderon fod wedi'u seilio ar rywbeth mae'r plentyn ei hun wedi'i ddweud, neu ar arwyddion neu symptomau o gamdriniaeth, neu ar wybodaeth gan rywun arall. Gallai'r honiadau neu'r amheuon greu pryderon mai carcharorion eraill neu aelod o staff sy'n cam-drin y plentyn.

Dylai aelodau staff neu weithwyr proffesiynol sy'n pryderu am ddiogelwch neu les plentyn yn y ddalfa, neu sydd wedi gweld tystiolaeth o'r fath gam-drin, fynd ati ar unwaith i ddod â'r mater i sylw'r cyd-drefnydd yn y sefydliad sy'n gyfrifol am amddiffyn plant. Dylid ystyried a yw'r pryderon yn ddigon difrifol i'w hatgyfeirio at dîm dyletswydd gwasanaethau cymdeithasol yr ardal. Dylid atgyfeirio pob achos lle mae aelod o staff yn cael ei amau o gam-drin, a dilyn y canllawiau yn adran 4.3.6.

Dylai aelodau staff neu weithwyr proffesiynol sy'n ymweld â phlentyn yn y ddalfa ac sy'n bryderus neu'n dod i wybod am honiadau o gam-drin, ofalu bod yr achos yn cael ei atgyfeirio at dîm dyletswydd y gwasanaethau cymdeithasol yn yr ardal lle mae'r sefydliad. Mae'n arfer da i roi gwybod i'r swyddog sy'n gyfrifol am gyd-drefnu amddiffyn plant o fewn y sefydliad am y pryderon neu'r honiad, cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol.

4.3.5.2 Y camau gweithredu sy'n ofynnol

Mae'r canllawiau sy'n cael eu disgrifio yn Rhan 3 ac adran 4.3 yn berthnasol i blant yn y ddalfa neu rai mewn carchar, canolfan hyfforddi ddiogel neu sefydliad i droseddwyr ifanc, os ydyn nhw wedi'u henwi mewn warant neu orchymyn llys.

Dylai'r cyfarfod strategaeth ddilyn y canllawiau yn Rhan 3, gan roi sylw hefyd i'r ystyriaethau sy'n dilyn:

- Penderfynu a oes goblygiadau i ddiogelwch ac anghenion plant eraill neu'r **holl** blant yn y sefydliad yn sgil yr honiadau neu'r amheuon;

- Argymell yn ôl yr angen a ddylai'r plentyn/plant aros yn y sefydliad tra bo'r ymholiadau amddiffyn plant adran 47 ar y gweill. Dylid ystyried lles, diogelwch a barn y plentyn ei hun, cyn belled ag y bo hynny'n gyson â gofynion diogelwch corfforol y plentyn;
- Os yw'r plentyn i aros yn y sefydliad pan mae'r ymholiadau ar y gweill, cynllunio mesurau diogelu ychwanegol yn ôl yr angen. Os yw'r honiadau'n cynnwys plant eraill sydd yn y ddalfa, dylai'r cyfarfod gytuno ar y trefniadau i'w gwneud i atal rhagor o gam-drin neu godi ofn;
- Gofyn am gymeradwyaeth i symud y plentyn i sefydliad arall os y farn yw bod hynny'n angenrheidiol ac yn ymarferol;
- Penodi eiriolwr ar gyfer y plentyn/plant. Mae'n arbennig o werthfawr cynnwys eiriolwr annibynnol a allai gynrychioli'r plentyn ym mhob cam o'r broses. Ond, ni fyddai'r eiriolwr fel arfer yn dod i'r cyfarfod strategaeth, oni bai fod gwybodaeth ganddo i'w rhannu;
- Os yw'r honiadau yn erbyn aelod o staff, rhaid ystyried amgylchiadau ei blant ei hun a gofyn a oes angen gwneud rhagor o ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47 yn eu cylch;
- Os yw'r honiadau yn erbyn carcharorion eraill, rhaid ystyried eu teuluoedd a'u rhwydweithiau cymdeithasol. Rhaid gofyn a oes angen gwneud rhagor o ymholiadau amddiffyn plant adran 47 i gynorthwyo'r ymholiadau neu i ddiogelu plant eraill;
- Penderfynu a oes angen adnabod plant eraill a gafodd eu lleoli yno yn y gorffennol ac a oes unrhyw bryderon yn eu cylch;
- Penderfynu pa wybodaeth i'w rhoi i'r aelod(au) staff dan sylw am yr honiad a'r ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47, pryd i'w rhoi a phwy fydd yn ei rhoi;
- Penderfynu pwy fydd yn cefnogi'r camdriniwr honedig yn ystod yr ymchwiliad, a sut mae rhoi gwybod iddo wrth i'r ymchwiliad fynd yn ei flaen. Os bydd y cyfarfod strategaeth yn penderfynu mai aelod o staff sydd i wneud hyn, rhaid i bawb ddeall ei statws er mwyn osgoi unrhyw ddryswch;
- Penderfynu pa wybodaeth i'w rhoi i rieni'r plentyn, a phwy fydd yn rhoi'r wybodaeth. Dylid hysbysu'n gynnar yn y broses rieni'r plentyn am yr honiad a'r drefn sydd i'w dilyn. Dylid cynnig cefnogaeth ac eiriolaeth iddyn nhw. Dylai cadeirydd y cyfarfod strategaeth ysgrifennu at y rhieni i gadarnhau'r wybodaeth. Dylid ystyried yn ofalus a oes angen datgelu gwybodaeth i rieni plant eraill sydd wedi'u lleoli yn y sefydliad, yn arbennig os oes rhaid symud plentyn oherwydd yr honiad;
- Trefnu i staff wirio'r wybodaeth ffeithiol a ddaeth i law, ac i roi sylwadau arni;

- Penodi cyd-drefnydd o fewn y sefydliad i ofalu am yr achos a fydd yn derbyn y wybodaeth am ganlyniad yr ymholiadau amddiffyn plant a'r ymchwiliad troseddol.

Rhaid ysgrifennu cofnodion llawn o'r cyfarfod. Rhaid cofnodi hefyd unrhyw resymau dros benderfynu peidio â chymryd camau pellach.

4.3.6 Honiadau o gam-drin ynglŷn â neu yn erbyn gweithiwr proffesiynol, aelod o staff neu wirfoddolwr sydd â chyswllt â phlant ac oedolion agored i niwed (neu rai sy'n rheoli neu'n goruchwylio gwasanaethau neu'n dylanwadu arnyn nhw)

Rhaid i bob asiantaeth benodi uwch reolwr neu reolwr gweithredol i fod yn gyfrifol am bolisïau'r asiantaeth o ran cam-drin gan weithwyr proffesiynol.

4.3.6.1 Ymateb i atgyfeiriadau ynglŷn â gweithwyr proffesiynol sy'n cam-drin plentyn yn eu gwaith neu yn eu bywyd preifat

Mae'r adran hon yn rhoi sylw i'r holl weithwyr proffesiynol, staff a gwirfoddolwyr sydd wedi'u hachredu gan neu'n gweithio i asiantaeth gyhoeddus, wirfoddol neu breifat, sefydliad addoli, mudiad ffydd neu gontractwr annibynnol y mae eu gwaith yn dod â nhw i gyswllt â phlant a/neu oedolion agored i niwed. Mae'n cynnwys gweithwyr mewn carchardai a sefydliadau hyfforddi diogel, a gwasanaethau gyrru a hebrwng plant. I bwrpasau'r adran hon, bydd y term gweithiwr unigol yn ffordd o ddisgrifio gweithwyr proffesiynol, gweithiwyr wedi'u cyflogi, aelodau staff a gwirfoddolwyr.

Gall honiadau o gam-drin gael eu gwneud yn erbyn gweithiwr unigol naill ai yn ei fywyd preifat neu yn ei waith.

Pan mae rhywun yn honni bod gweithiwr unigol yn cam-drin yn ei fywyd preifat, dylid gwneud ymholiadau amddiffyn plant yn unol â'r canllawiau sy'n cael sylw yn Rhan 3. Yn ogystal â'r canllawiau yn Rhan 3, dylai'r drafodaeth strategaeth a/neu'r cyfarfod strategaeth ystyried:

- Hysbysu'r cyflogwr am yr honiad;
- Ymestyn yr ymholiadau amddiffyn plant adran 47 i gynnwys plant eraill y mae'r gweithiwr unigol yn dod i gysylltiad â nhw yn ei waith;
- Cynnull cyfarfod strategaeth i ystyried a yw plant eraill y mae'r gweithiwr unigol yn dod i gysylltiad â nhw yn ei waith yn debygol o ddioddef niwed.

Pan mae'r gweithiwr unigol yn gweithio gydag oedolion agored i niwed, dylid atgyfeirio'r honiadau at yr uwch reolwr perthnasol sy'n gyfrifol am oedolion agored i niwed.

Rhaid i'r cyflogwr roi gwybod i adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol pan mae rhywun yn honni bod gweithiwr unigol wedi cam-drin plentyn a/neu wedi cyflawni trosedd yn erbyn plentyn yn ei waith, neu'n rhoi gwybodaeth sydd yn arwydd ei fod wedi ymddwyn tuag at blentyn mewn ffordd a allai ei wneud yn anaddas i weithio gyda phlant. Rhaid i'r cyflogwr hefyd roi gwybod ar unwaith i'r heddlu am unrhyw drosedd bosib. Ar ôl derbyn yr atgyfeiriad, bydd yr uwch reolwr priodol yn adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yn cyd-drefnu'r ymateb.

Bydd yr uwch reolwr sy'n gyfrifol yn mynd ati i drafod yn y lle cyntaf gyda'r cyflogwr. Os gall y cyflogwr ddangos yn gwbl ddiamheuol yn ystod y drafodaeth gychwynnol hon fod yr honiad yn ffug a/ neu nad oes sail i'r honiad, gallai'r uwch reolwr benderfynu nad oes angen camau pellach. Gallai'r uwch reolwr benderfynu ymgynghori â'r heddlu cyn dod i'r fath benderfyniad. Ni ddylai'r penderfyniad fyth gael ei seilio ar farn y cyflogwr am gymeriad a/neu amgylchiadau personol y gweithiwr unigol dan sylw, ac am y sawl a wnaeth yr honiad. Os y penderfyniad yw i beidio â chymryd camau pellach, mae gofyn i'r uwch reolwr ystyried:

- Rhoi gwybod i rieni'r plentyn am yr honiad a'r canlyniad. Mewn rhai amgylchiadau neilltuol (er enghraifft, os oes angen triniaeth feddygol ar y plentyn) efallai y bydd angen i'r cyflogwr roi gwybod i'r rhieni ar unwaith, cyn mynd ati i drafod.
- Rhoi gwybod i'r gweithiwr unigol am yr honiad, yn cynnwys faint o fanylion i'w rhoi iddo.

Rhaid cofnodi'r rhesymau dros wneud y penderfyniad.

Os oes lle i amau, ar ôl y drafodaeth gychwynnol rhwng yr uwch reolwr a'r cyflogwr fod plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed arwyddocaol, a/neu fod trosedd wedi cael ei chyflawni yn ei erbyn, a/neu fod y gweithiwr unigol wedi ymddwyn tuag at y plentyn mewn ffordd sy'n awgrymu nad yw'n addas iddo weithio gyda phlant, bydd yr uwch reolwr yn trefnu i drafodaeth strategaeth gael ei chynnal gyda'r heddlu i ystyried a oes angen mynd ati i amddiffyn y plentyn ar unwaith. Bydd hefyd yn trefnu cyfarfod strategaeth.

Gallai'r cyflogwr benderfynu ar unrhyw adeg ar ôl cael gwybod am yr honiad i atal y gweithiwr unigol o'i waith er mwyn amddiffyn y plentyn. Bydd modd pwyso a mesur wedyn a oes perygl i blant eraill ddioddef niwed, a mynd ati i wneud yr ymholiadau amddiffyn plant a/neu'r ymchwiliad troseddol.

Ar ben hynny, os yw'r gweithiwr unigol yn penderfynu ymddiswyddo ar unrhyw adeg ar ôl i'r honiad gael ei wneud, rhaid i'r camau amddiffyn plant ac unrhyw gamau disgyblu fynd yn eu blaen. Rhaid i'r cyflogwr beidio â gwneud unrhyw gytundebau cyfaddawdu gyda'r gweithiwr.

4.3.6.2 Y cyfarfod strategaeth

Bydd yr uwch reolwr yn trefnu i gyfarfod strategaeth gael ei gynnull o fewn 2 ddiwrnod gwaith i ddyddiad yr atgyfeiriad.

Bydd pob asiantaeth berthnasol yn cael ei gwahodd i'r cyfarfod strategaeth. Rhaid hefyd ystyried gwahodd:

- Y cyflogwr;
- Adran adnoddau dynol neu bersonél y corff sy'n cyflogi;
- Y corff rheoleiddio yn ôl y diffiniad yn Neddf Safonau Gofal 2000;
- Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, os yw'r honiad yn erbyn gweithiwr mewn carchar, canolfan hyfforddi ddiogel neu sefydliad troseddau ieuenctid;
- Os yw'r honiad yn erbyn unigolyn sydd hefyd â chyswllt ag oedolyn sy'n agored i niwed, neu mae'r fath oedolyn yn ei ofal, dylid gwahodd y cyd-drefnydd ar ran oedolion agored i niwed neu'r rheolwr sydd wedi'i ddynodi i arwain yn yr ardal lle mae'r oedolyn sy'n agored i niwed yn byw.

Rhaid i uwch swyddog gadeirio'r cyfarfod strategaeth.

Bydd y cyfarfod strategaeth yn rhoi sylw i'r holl wybodaeth ragarweiniol a ddaeth i law trwy'r atgyfeiriad a'r asesiad cychwynnol. Bydd yn ystyried hefyd y wybodaeth a ddaeth i law gan y cyflogwr am yr amgylchiadau a chyd-destun yr honiad. Dylai'r cyfarfod strategaeth ddilyn y canllawiau yn Rhan 3 a rhoi sylw i'r ystyriaethau sy'n dilyn:

- Bydd angen i'r cyfarfod strategaeth ystyried ac asesu a oes perygl i blant y gweithiwr unigol ei hun ddioddef niwed, a chytuno ar unrhyw gamau gweithredu sy'n ofynnol;
- Pan mae'r honiad yn erbyn un o weithwyr unigol yr adran gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu, gallai'r cyfarfod strategaeth argymell comisiynu asiantaeth annibynnol i wneud yr ymholiadau amddiffyn plant;
- Yn ystod y cyfarfod strategaeth, rhaid bob amser ystyried atal gweithiwr unigol o'i waith os oes lle i amau bod plentyn mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol, a/neu bod yr honiad yn ddigon difrifol i'r heddlu wneud ymchwiliad troseddol, a/neu gallai'r honiad fod yn achos dros ddiswyddo'r unigolyn. Nid yw atal gweithiwr unigol o'i waith yn un o'r gofynion awtomatig a dylid ystyried yn ofalus cyn argymell gwneud hynny. Dylai'r sefyllfa gael ei hadolygu ym mhob cyfarfod strategaeth ac yn y cyfarfod i roi canlyniad yr ymchwiliad. Dim ond argymell atal y gweithiwr y gall y cyfarfod strategaeth ei wneud. Dim ond y cyflogwr sydd â'r awdurdod i atal gweithiwr unigol. Ond, os bydd cyflogwr yn penderfynu peidio ag atal gweithiwr unigol, dylid ei annog i

wneud asesiad rheoli risg, a dylai rannu'r canlyniad gyda'r cyfarfod strategaeth. Dylai hefyd ystyried symud gweithiwr unigol i swydd arall o fewn y sefydliad lle nad yw'n dod i gysylltiad â phlant.

Mae atal gweithiwr o'i waith yn cael ei ystyried fel gweithred niwtral a dylai gael ei ystyried:

- Yn achos honiad a fyddai'n arwain at ddiswyddo neu erlyniad os yw'n cael ei brofi;
- Lle y gallai plentyn fod mewn perygl pe na bai'r aelod o staff yn cael ei atal o'i waith;
- Lle y mae'n angenrheidiol cyn y gall ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47 a/neu ymchwiliad troseddol a'r broses o gymryd datganiadau ar gyfer achos llys fynd yn eu blaen yn iawn.

4.3.6.3 Canlyniad y cyfarfod strategaeth

Bydd y cyfarfod strategaeth yn gwneud un o'r penderfyniadau sy'n dilyn:

- I fynd ymlaen gydag ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47 a/neu ymchwiliad troseddol;
- Nad yw ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47 yn ofynnol ac y dylai'r cyflogwr ddelio â'r honiad dan drefn ddisgyblu'r corff ei hun;
- Nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach.

Os yw'r cyfarfod strategaeth yn penderfynu nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach, dylid cofnodi'r rhesymau dros y penderfyniad.

Efallai y bydd angen cynnal rhagor o gyfarfodydd strategaeth os yw'r ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47 a/neu ymchwiliad troseddol a/neu drefn ddisgyblu'r corff ei hun yn dangos bod perygl i blant eraill gael niwed. Ar ben hynny, yn ystod ymholiad maith a chymhleth, dylai adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol fynd ati i fonitro cynnydd yr ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47 trwy gytuno i gynnull cyfarfod strategaeth yn rheolaidd i'w hadolygu.

Dylai'r cyfarfod strategaeth greu cynllun gweithredu gydag amserlenni er mwyn osgoi unrhyw oedi diangen.

Mae'n debygol mai canlyniad nifer o honiadau fydd na fydd erlyniad troseddol yn digwydd, a bod y cyflogwr a/neu'r corff rheoleiddio'n cymryd camau disgyblu. Gall fod yn bosib osgoi oedi a dyblygu gwaith trwy argymell yn y cyfarfod strategaeth fod swyddog yr heddlu a/neu'r gweithiwr cymdeithasol sy'n gwneud y cyfweliadau'n gofyn am ganiatâd y sawl sy'n cael ei gyfweld i'r wybodaeth y mae'n ei rhoi gael ei rhannu gyda'r cyflogwr a/neu'r corff rheoleiddio a/neu'r gwasanaeth ymchwilio annibynnol pan ddaw'r ymholiadau i ben a/neu ar ôl y gwrandawiad llys.

4.3.6.4 Rhoi gwybodaeth i'r aelod staff

Dylai'r cyflogwr roi gwybod cyn gynted â phosib i'r gweithiwr unigol am yr honiad, oni bai y byddai gwneud hynny'n rhoi plentyn mewn perygl o ddioddef rhagor o niwed a/neu'n amharu ar yr ymchwiliad troseddol. Dylai'r cyflogwr roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r gweithiwr wrth i'r ymholiad fynd ei flaen. Rhaid i uwch reolwr adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, yr heddlu a'r cyflogwr gytuno ar y wybodaeth y mae'n bosib ei datgelu i'r gweithiwr unigol.

Dylai'r gweithiwr unigol gael gwybod y bydd yr ymholiad amddiffyn plant yn cael ei weithreu yn unol â'r canllawiau amddiffyn plant. Bydd rhaid tawelu meddwl y gweithiwr unigol y bydd popeth yn cael ei wneud i barchu cyfrinachedd ac i osgoi cyhoeddusrwydd gan y cyfryngau yn ystod yr ymholiadau. Ond, bydd unrhyw wybodaeth sy'n dod i law ac sy'n berthnasol i achos llys neu drefn ddisgyblu'n cael ei datgelu i'r pwrpasau hynny.

Os yw'r gweithiwr unigol yn perthyn i undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol, dylid ei gynghori i gysylltu â'r corff hwnnw.

Ni fydd y gweithiwr unigol yn cael ei wahodd i'r cyfarfodydd strategaeth nac i'r cyfarfod canlyniad yr ymchwiliad. Ar ôl y cyfarfod canlyniad yr ymchwiliad, ac o fewn pum diwrnod gwaith, rhaid i'r cadeirydd ysgrifennu at y gweithiwr unigol i roi gwybod iddo am yr honiad a wnaed yn ei erbyn, y drefn a gafodd ei dilyn, a'r canlyniad. Rhaid rhoi gwybod hefyd am y penderfyniadau a gafodd eu gwneud, oni bai y byddai hynny'n amharu ar ymholiadau pellach neu ar y drefn gyfreithiol.

4.3.6.5 Cyfarfod canlyniad yr ymchwiliad

Pan mae'r ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47 a/neu'r ymchwiliad troseddol wedi cael eu cwblhau, dylid cynnull cyfarfod canlyniad yr ymchwiliad.

Y rheolwr yn y gwasanaethau cymdeithasol sy'n gyfrifol am amddiffyn plant fydd yn cynnull y cyfarfod canlyniad yr ymchwiliad, a hynny o fewn pum diwrnod gwaith i ddyddiad cwblhau'r ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47. Bydd y cyfarfod yn penderfynu a fydd honiad yn dal i gael sylw dan y canllawiau hyn. Bydd y bobl oedd yn bresennol yn y cyfarfod strategaeth yn dod i'r cyfarfod canlyniad, gydag unrhyw swyddogion eraill sydd wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r ymchwiliad, ac eiriolwr y plentyn.

Bydd y cyfarfod i roi canlyniad yr ymchwiliad yn:

- Pwyso a mesur y wybodaeth a ddaeth i law yn ystod yr ymholiadau;
- Penderfynu, wrth gydbwyso yr hyn sy'n debygol, pa un ai a oes sail i'r honiad neu mewn geiriau eraill a yw'r honiad wedi ei gadarnhau ;
- Penderfynu, yng ngoleuni'r wybodaeth a ddaeth i law, a oes angen camau pellach;

- Gofalu, os oes angen, fod cymorth a gwasanaethau ar gael i'r plentyn neu'r plant;
- Penderfynu a oes angen argymell i'r cyflogwr atgyfeirio'r achos dan Ddeddf Amddiffyn Plant (POCA) neu ganllawiau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA) a Rhestr 99 (ac unrhyw drefniadau eraill y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n eu cyflwyno yn y dyfodol);
- Cynnig cyngor i'r heddlu o ran cofnodi gwybodaeth ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu, gan ofalu'n benodol fod canlyniad yr ymchwiliad yn cael ei gofnodi'n glir;
- Cytuno ar y wybodaeth am yr ymchwiliad a'r camau gweithredu i'w rhoi i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, os yw'r Arolygiaeth yn ymwneud â'r achos;
- Trafod a gwneud argymhellion i'r rheolwr sy'n cynrychioli'r cyflogwr ynglŷn â gweithredu yn achos gweithiwr a gafodd ei atal dros dro neu ei symud i swydd arall yn ystod yr ymchwiliad;
- Cynghori ar gymorth i staff pan mae pryderon wedi eu cadarnhau/heb eu cadarnhau;
- Os y penderfyniad yw nad yw'r honiad wedi ei gadarnhau, cofnodi'r rheswm dros y penderfyniad.

4.3.6.6 Ystyriaethau ychwanegol o ran addysg

Mae'r drefn sy'n cael ei disgrifio yn 4.3.6 yr un mor berthnasol i staff dysgu, a rhaid i'r atgyfeiriad amddiffyn plant gael ei wneud i'r gwasanaethau cymdeithasol.

Roedd y Comisiynydd Plant yn argymell yn adroddiad Clywch y dylai fod elfen ymchwilio annibynnol yn bodoli mewn perthynas ag unrhyw drefn ddisgyblu yn achos staff dysgu y mae pryderon amddiffyn plant yn eu cylch.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi disgrifio'r angen hwn am wasanaeth ymchwilio annibynnol yn *Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006.* Mae gofyn bellach i ysgolion ddefnyddio gwasanaeth ymchwilio annibynnol ar gyfer unrhyw drefn ddisgyblu yn ymwneud â staff dysgu. Pwrpas y gwasanaeth ymchwilio annibynnol yw cynorthwyo cyrff llywodraethol ysgolion sy'n ystyried materion disgyblu.

Ond ni ddylai'r elfen ymchwilio annibynnol gael ei chyflwyno tan fydd yr asiantaethau statudol wedi cwblhau'r ymholiadau amddiffyn plant a/neu'r ymchwiliad troseddol.

Bydd rôl gan gyfarfod canlyniad yr ymchwiliad wrth benderfynu pryd fydd elfen ymchwilio annibynnol unrhyw drefn ddisgyblu'n dechrau.

Dylai'r Byrddau Lleol Diogelu Plant ofalu bod protocolau'n bod ar gyfer rhannu gwybodaeth yn briodol â'r gwasanaeth ymchwilio annibynnol.

4.3.6.7 Gweithredu ar ôl y gwrandawiad llys

Dylai'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron roi gwybod i'r cyflogwr ac i uwch reolwr adran y gwasanaethau cymdeithasol pan fydd achos troseddol wedi dod i ben, ac am ganlyniad yr achos. Dylai uwch reolwr adran y gwasanaethau cymdeithasol drefnu i gyfarfod strategaeth amddiffyn plant gael ei gynnull. Pwrpas y cyfarfod strategaeth fydd ystyried canlyniad yr achos llys a phenderfynu a oes angen unrhyw argymhellion neu gamau pellach.

Os bydd y llys yn penderfynu bod y gweithiwr unigol yn euog o'r drosedd ac mae'n cael ei ddiswyddo neu'n ymddiswyddo, rhaid i'r cyfarfod strategaeth argymell i'r cyflogwr roi gwybod i'r corff rheoleiddio perthnasol neu'r corff gwahardd. Mae dyletswydd statudol ar gyflogwyr yn y sector addysg i atgyfeirio gweithwyr unigol.

Pan mae llys yn penderfynu nad yw gweithiwr unigol yn euog, bydd y cyflogwr yn penderfynu a oes angen unrhyw gamau disgyblu pellach. Os bydd y gweithiwr unigol yn dychwelyd i'w waith, bydd y cyfarfod strategaeth yn penderfynu sut mae rheoli'r cyswllt rhwng y gweithiwr unigol a'r plentyn. Bydd yn penderfynu hefyd a oes angen unrhyw wasanaethau ar y plentyn.

Ni ddylai'r cyflogwr byth ddod i gytundeb cyfaddawdu gyda gweithiwr unigol sy'n penderfynu ymddiswyddo. Dylai'r drefn ddisgyblu a'r broses hysbysu fynd yn eu blaen bob amser.

Dylai'r cyfarfod strategaeth drefnu i'r plentyn a'i rieni gael gwybod am y canlyniadau.

4.4 Honiadau o gam-drin yn achos plant sy'n derbyn gofal ac sy'n byw y tu allan i ardal eu hawdurdod lleol

Mae'r canllaw hwn yn berthnasol pan mae plentyn sy'n derbyn gofal yn byw y tu allan i ardal ei awdurdod lleol ei hun a/neu ei fod mewn lleoliad sydd ddim yn cael ei ddarparu'n uniongyrchol gan yr awdurdod gwreiddiol. Gallai'r plentyn fod yn byw gyda gofalwyr sy'n perthyn iddo, mewn cartref preswyl neu mewn lleoliad y mae asiantaeth faethu annibynnol wedi'i drefnu. Dylai'r drefn fod yn berthnasol hefyd i blant mewn llety diogel, canolfannau hyfforddi diogel, sefydliadau i droseddwyr ifanc a charchardai lle mae pobl ifanc dan 18 oed yn cael eu cadw.

Rhaid i unrhyw honiad neu ddigwyddiad o gamdrin plant ynglŷn â phlentyn sy'n derbyn gofal ac sydd wedi ei leoli mewn awdurdod arall, gael ei adrodd i uwch reolwr y cartref preswyl neu reolwr gofal maeth yr awdurdod lle mae'r plentyn wedi cael ei leoli. Rhaid rhoi gwybod hefyd i'r rheolwr sy'n gyfrifol am amddiffyn plant yn adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod hwnnw. Rhaid i weithiwr cymdeithasol y plentyn gael gwybod am yr honiad neu'r digwyddiad hefyd.

Rhaid i'r awdurdod gwreiddiol roi gwybod am y digwyddiad yn syth i weithiwr cymdeithasol y plentyn, a bydd y gweithiwr cymdeithasol yn rhoi gwybod i'r rheolwr tîm perthnasol. Os y plentyn sydd wedi'i leoli yn ardal yr awdurdod arall yw'r sawl sydd wedi'i gyhuddo o gam-drin, bydd rhaid dilyn yr un canllawiau.

Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn rhoi gwybod i rieni'r plentyn am y digwyddiad ac yn esbonio y bydd canllawiau amddiffyn plant yn cael eu dilyn.

4.4.1 Cyfrifoldeb dros y cyfarfod strategaeth a'r ymchwiliad

- Pan ddaw cwyn gan blentyn sy'n derbyn gofal ac sy'n cael ei ddarganfod yn byw y tu allan i'r awdurdod gwreiddiol, yr awdurdod lle cafodd y plentyn ei ddarganfod a fydd yn cynnull y cyfarfod strategaeth cychwynnol;
- Rhaid i reolwyr perthnasol y gwasanaethau cymdeithasol gael gwybod am yr atgyfeiriad, heb unrhyw oedi. Rhaid trefnu'r cyfarfod strategaeth (neu'r drafodaeth strategaeth os yw pellter yn creu problemau) fel ei bod hi'n bosib i gynrychiolwyr ddod o'r awdurdod gwreiddiol a'r awdurdod lle'r oedd y digwyddiad i fod wedi digwydd, os yw'n wahanol i'r awdurdod lle y cafodd y plentyn ei ddarganfod ar adeg y gwyn. Bydd y cyfarfod strategaeth yn penderfynu pa un o'r awdurdodau a fydd yn gyfrifol am wneud yr ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47, er mai'r drefn arferol yw i'r awdurdod lle bu'r digwyddiad wneud yr ymholiadau. Bydd y cyfarfod strategaeth yn penderfynu hefyd sut bydd yr awdurdodau perthnasol eraill yn cyfrannu at yr ymholiadau amddiffyn plant adran 47;
- Rhaid cofnodi'n glir y penderfyniad hwn a'r rhesymau dros ei wneud. Dylai'r penderfyniad gael ei wneud gyda'r bwriad clir o amddiffyn y plentyn.

4.4.2 Y cyfarfod strategaeth

Dylai rheolwr y gwasanaethau cymdeithasol sy'n gyfrifol am amddiffyn plant ofalu bod cyfarfod strategaeth yn cael ei gynnull gyda'r aelodau craidd sy'n dilyn yn bresennol:

- Un o uwch reolwyr yr awdurdod lleol lle mae'r plentyn yn byw neu'r awdurdod lle y cafodd ei ddarganfod ar adeg yr honiad. Yr uwch reolwr hwn fydd yn cadeirio'r cyfarfod;
- Swyddog(ion) yr heddlu sy'n perthyn i'r tîm sy'n gwneud yr ymholiadau amddiffyn plant a/neu'r ymchwiliad troseddol;
- Un neu fwy o aelodau staff adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol perthnasol;
- Aelod o staff y cartref preswyl neu'r rheolwr gofal maeth, p'un bynnag sy'n berthnasol;

- Unrhyw weithiwr proffesiynol arall a allai gyfrannu at y cyfarfod.

Bydd y cyfarfod strategaeth yn rhoi sylw i'r materion sy'n cael eu disgrifio yn yr adrannau blaenorol mewn perthynas â honiadau o gam-drin yn erbyn gweithwyr proffesiynol neu ofalwyr maeth. Ar ben hynny, bydd angen iddyn nhw benderfynu:

- Ar y gweithwyr proffesiynol a fydd yn gyfrifol am y gwahanol rannau o'r ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47;
- Ar rôl awdurdod gwreiddiol y plentyn yn yr ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47, ac mewn unrhyw ymchwiliad troseddol posib a materion disgyblu staff.

Bydd yr holl benderfyniadau'n cael eu cofnodi a'u cylchredeg o fewn pum diwrnod gwaith. Efallai y bydd angen cynnull rhagor o gyfarfodydd strategaeth yn ystod yr ymholiadau, a rhaid cofnodi a chylchredeg penderfyniadau'r rheini.

Weithiau, bydd rhai pobl ifanc yn arbennig o agored i niwed neu'n cael eu cydnabod fel perygl i blant eraill. Yn y fath achosion, bydd uwch reolwr yr awdurdod gwreiddiol ac uwch reolwr yr awdurdod lle y cafodd y plentyn ei ddarganfod neu ei leoli'n penderfynu ar y cyd ar leoliad y plentyn yn y dyfodol.

Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn rhoi gwybodaeth i rieni'r plentyn trwy gydol y broses amddiffyn plant. Dylai rheolwr tîm y gweithiwr cymdeithasol ofalu bod y trefniadau hyn wedi cael eu gwneud.

4.5 Ymchwilio i gam-drin wedi ei drefnu neu gam-drin lluosog

4.5.1 Diffiniad o gam-drin wedi ei drefnu neu gam-drin lluosog

Dylid cyfeirio hefyd at *Ddiogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004 (Pennod 9)*, ac *Ymchwiliadau i Achosion Cymhleth o Gam-drin Plant: Materion Ryngasiantaethol (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2003)*.

Mae cam-drin wedi ei drefnu a cham-drin lluosog yn golygu bod un neu fwy o bobl yn cam-drin nifer o blant neu bobl ifanc sy'n perthyn iddyn nhw, neu ddim yn perthyn. Gallai'r rhai sy'n cam-drin fod yn gweithio gyda'i gilydd neu ar wahân. Gallan nhw fod yn defnyddio fframwaith sefydliadol a/neu safle o awdurdod i recriwtio plant i gael eu cam-drin. Gallan nhw fod yn targedu sefydliadau/cyrff lle nad yw mesurau amddiffyn plant yn ddigon cadarn.

Mae cam-drin wedi ei drefnu a cham-drin lluosog yn digwydd oherwydd rhwydwaith o gam-drin ar draws teulu neu gymuned ac o fewn sefydliadau fel cartrefi neu ysgolion preswyl. Mae'r cam-drin yn drawmatig iawn i'r plant dan

sylw. Mae ymchwilio i'r fath gam-drin yn gofyn am lawer o amser, sgiliau arbenigol a chadernid emosiynol gan yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae rhai ymchwiliadau wedi bod yn arbennig o anodd oherwydd nifer y llefydd a'r bobl sy'n rhan o'r cam-drin. Gall yr achosion fynd yn fwy cymhleth byth pan mae'r honiadau'n mynd yn ôl mewn amser ac nid yw'r dioddefwyr neu'r rhai yr honnir iddyn nhw gam-drin yn dal â chyswllt â lleoliad arbennig.

Yn gyffredinol, mae rhwydweithiau cam-drin wedi ei drefnu a cham-drin lluosog yn creu mecanweithiau soffistigedig i osgoi cael eu dal. Mae torri i mewn i'r fath rwydweithiau'n gofyn am ystyried yn ofalus y peryglon o fod yn gysylltiedig ag ymchwiliadau cymhleth.

Y prif ystyriaethau yw:

- Oedi cyn mynd ati i gynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb er mwyn casglu tystiolaeth;
- Dod o hyd i ran fach yn unig o'r rhwydwaith cyfan, a allai olygu bod rhagor o blant yn cael eu cam-drin ym mhellach.

Wrth gynllunio'r ymateb, rhaid cofio bod natur ddifrifol a hyd a lled y math hwn o gam-drin yn ei gwneud hi'n hynod o bwysig i'r holl wybodaeth gael ei chadw'n gwbl gyfrinachol.

Mae goblygiadau unrhyw ymyriadau sydd heb eu cynllunio a'r posibilrwydd o ddenu llawer o sylw yn y cyfryngau yn gofyn i uwch reolwyr y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu fod yn rhan o'r ymchwiliad o'r dechrau un. Dylai'r Byrddau Lleol Diogelu Plant fod â phrotocolau ysgrifenedig sy'n disgrifio'r drefn leol ar gyfer rheoli ymchwiliadau cymhleth.

4.5.2 Y camau gweithredu gofynnol

Bydd pob ymchwiliad i gam-drin wedi ei drefnu a cham-drin lluosog yn wahanol gan fod amgylchiadau, hyd a lled a chymhlethdod pob ymchwiliad yn amrywio.

Dylid mynd ati ar unwaith i ddod ag unrhyw amheuon o gam-drin wedi ei drefnu at sylw uwch reolwr dynodedig y gwasanaethau cymdeithasol ac uwch swyddog ditectif adran yr heddlu. Bydd y swyddogion hyn yn cydweithio ac yn gyfrifol am ddechrau'r broses ymchwilio. Bydd y naill swyddog a'r llall yn gyfrifol am roi gwybod ar unwaith i uwch reolwr ei asiantaeth. Dylai uwch reolwr yr asiantaeth drefnu bod digon o adnoddau ar gael ac y bydd staff yn cael y gefnogaeth angenrheidiol.

Dylai'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant ofalu bod grŵp rheoli strategol yn cael ei ffurfio i weithredu fel grŵp llywio ac i greu strategaeth, polisïau a threfniadau gwaith yn ôl yr angen. Dylai'r grŵp hwn ofalu bod cylch gorchwyl clir yn cael ei sefydlu ar y dechrau, a bod digon o staff ac adnoddau eraill ar gael ar gyfer yr ymchwiliad. Wrth benderfynu ar y dechrau ynglŷn â'r gwaith o reoli'r

ymchwiliad, rhaid ystyried hefyd y gallai maint a chymhlethdod y gwaith gynyddu'n sylweddol dros amser. Mae gan y grŵp rheoli strategol rôl wahanol i'r grŵp o staff sy'n gyfrifol am roi'r ymchwiliad ar waith.

Yn ôl yr angen, dylid casglu grŵp o swyddogion heddlu a gweithwyr proffesiynol arbenigol sydd wedi'u harchwilio ac y gellir ymddiried ynddyn nhw i ymgymryd ag ymchwiliadau cymhleth o gam-drin mewn lleoliadau preswyl a lleoliadau eraill. Gallai'r tîm gynnwys staff o'r NSPCC sydd wedi'u hyfforddi'n briodol.

4.5.3 Y cyfarfod strategaeth

Dylai cyfarfod strategaeth sy'n cynnwys staff o'r prif asiantaethau amddiffyn plant benderfynu ar ffurf ac amseru cychwynnol yr ymchwiliad. Bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn cydweithio â'r heddlu i gynnull y cyfarfod o fewn 2 ddiwrnod gwaith i'r dyddiad y daeth yr atgyfeiriad neu'r awgrym fod angen ymchwilio i gam-drin cymhleth neu wedi ei drefnu i law.

Rhaid i'r cyfarfod gynnwys uwch reolwyr. Rhaid i'r cadeirydd fod yn uwch reolwr. Bydd y gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu (o leiaf ar lefel swyddog ymchwilio uwch), cyfreithiwr yr awdurdod lleol ac unrhyw asiantaethau priodol eraill yn dod i'r cyfarfod, yn ogystal ag unrhyw weithwyr proffesiynol eraill sydd "angen cael gwybodaeth am yr achos". Os yw'r honiad yn ymwneud â lleoliad gofal wedi'i reoleiddio, dylid gwahodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i'r cyfarfod.

Bydd y cyfarfod strategaeth yn rhoi sylw i'r holl faterion sy'n cael sylw yn Rhan 3, *Y Broses Amddiffyn Plant*, ac yn cyfeirio hefyd at y canllawiau Achieving Best Evidence o ran gwneud cyfweliadau ymchwilio gyda phlant.

Bydd hefyd yn:

- Ystyried:
  - a oes angen amddiffyn unrhyw blant;
  - a oes angen cymorth therapiwtig ar unrhyw blant;
  - sut mae cyflawni hyn a pheidio ag amharu ar yr ymchwiliad troseddol.
- Penodi uwch swyddogion o'r gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu i gyd-drefnu a rheoli'r ymchwiliad cyffredinol;
- Penodi tîm o'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol a/neu'r NSPCC;
- Gosod cylch gorchwyl clir sy'n diffinio rôl ac amcanion y tîm a'r dull gweithio. Bydd hyn yn cynnwys trefniadau penodol i'r tîm gael hawl i fynd at gofnodion ac unigolion sydd â gwybodaeth bwysig;
- Cytuno ar gynllun ar y cyd ar gyfer yr ymchwiliad sy'n disgrifio rolau a thasgau'r gwahanol staff ac unrhyw oblygiadau o ran adnoddau;
- Cytuno ar amseru unrhyw gamau gweithredu a'r canlyniadau posib, er enghraifft, peidio â symud plant yn ystod oriau anghymdeithasol;

- Cytuno ar lwybrau atebolrwydd a chyfathrebu;
- Cytuno sut bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu a phwy fydd yn cael y wybodaeth, gan gofio bod angen cadw'n cyfrinachedd;
- Ystyried yn ofalus ba wybodaeth i'w rhoi i'r rhieni a phryd i wneud hynny. Fel arfer, mae hawl gan rieni i gael y wybodaeth lawnaf bosib ond mae'r penderfyniad yn fwy cymhleth yn yr amgylchiadau hyn;
- Sicrhau arbenigwyr i roi cyngor cyfreithiol a gofalu y bydd yr ymchwiliad yn gallu cael cyngor cyfreithiol arbenigol yn gyson o safbwynt prosesau troseddol, sifil a chyflogaeth os yw'r honiad yn erbyn staff proffesiynol;
- Trefnu i gofnodion papur ac electronig gael eu storio'n gwbl ddiogel;
- Cytuno ar strategaeth ar gyfer delio â'r cyfryngau. Er enghraifft, bydd uwch reolwyr yn cytuno ar amseru a chynnwys datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau. Rhaid bod yn ofalus iawn gyda materion *sub judice* neu rai a allai enwi'r dioddefwr(wyr) neu'r teulu;
- Os yw'r honiad yn croesi ffiniau gwahanol awdurdodau lleol, cysylltu â'r awdurdodau eraill er mwyn cynllunio ar y cyd;
- Cytuno y bydd cynadleddau amddiffyn plant yn cael eu cynnull yn ôl yr angen;
- Cytuno ar amserlen cyfarfodydd dilynol;
- Rhoi gwybod am ganlyniad y cyfarfod i'r cyfarwyddwr sy'n arwain y gwasanaethau plant, ac i'r prif gwnstabl.

4.5.4 Cynllunio'r ymchwiliad a'i roi ar waith

Dylai'r ymchwiliad ddilyn y canllawiau ar wneud ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47 sydd i'w cael yn Rhan 3. Dylen nhw hefyd roi sylw i'r materion ychwanegol sy'n dilyn:

- Dylai'r heddlu benodi uwch swyddog ymchwilio o safle addas a phrofiad digonol. Dylen nhw ystyried defnyddio'r ystafell digwyddiadau mawr, canllawiau gweinyddol safonol a threfn ymholiadau mawr y Swyddfa Gartref;
- Dylid mynd ati i ddatblygu strategaeth gyfathrebu sy'n cynnwys aelodau o'r awdurdod, staff, plant a'u teuluoedd, y cyfryngau ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru;
- Dylai cyfarfodydd cynllunio strategol ac adolygiadau rheolaidd ystyried trefn yr ymchwiliad a'r camau nesaf a gofyn pa mor effeithlon yw'r cydweithio;
- Dylid pennu'r adnoddau a allai fod yn ofynnol yn nhermau staff a chyllid priodol;

- Cytuno ar brotocolau ysgrifenedig rhwng yr heddlu, y gwasanaethau cymdeithasol a'r asiantaethau eraill o ran y prif faterion gweithredol a'r polisïau, yn cynnwys rhannu gwybodaeth;
- Dylid gwneud asesiad trwyadl o anghenion y dioddefwr(wyr), ac ystyried pa wasanaethau sy'n angenrheidiol. Mae'n ymarfer da i gynnig gwasanaeth cynghori cyfrinachol ac annibynnol i ddioddefwyr a'u teuluoedd. Rhaid cytuno gyda'r gwasanaethau cynghori a lles ar y canllawiau o ran datgelu gwybodaeth, er mwyn osgoi amharu ar y dystiolaeth;
- Pan mae plant i gael eu symud o'u cartrefi, lles y plentyn neu'r plant fydd yr ystyriaeth bwysicaf bob amser. Felly, dylai'r holl weithwyr proffesiynol fynd ati i drafod y broses symud a chytuno ar yr amseru, oni bai fod y plentyn neu'r plant mewn perygl corfforol difrifol yn y tymor byr iawn;
- Dylai gofal a chymorth fod ar gael i'r tîm ymchwilio gan fod llawer o'r math yma o waith yn anodd ac yn achosi gofid;
- Pan mae staff y gwasanaethau cymdeithasol, gofalwyr maeth neu swyddogion yr heddlu'n destun i ymchwiliad, mae'n hanfodol i'r asiantaethau sy'n perthyn i'r tîm ymchwilio fod yn gwbl annibynnol a gwrthrychol. Mae'n bwysig bod y staff ymchwilio'n ddigon annibynnol ar a phell oddi wrth y rhai sy'n cael eu hymchwilio, er enghraifft, trwy gael staff ymchwilio o ardal arall i wneud yr ymchwiliad;
- Dylai rheolwyr y tîm ymchwilio fod â phrofiad ac wedi cael hyfforddiant mewn gwneud ymchwiliadau, prosesau cyfreithiol, achosion disgyblu, lles plant, a phroffiliau a chamau gweithredu pobl sy'n cam-drin;
- Gallai'r rheolwyr ddewis cyfethol cydweithiwr o ardal awdurdod arall. Os oes gan y cydweithiwr hwnnw brofiad o reoli ymchwiliadau cymhleth gallai gynnig cyngor a chymorth yn unrhyw ran o'r ymchwiliad. Mae angen profiad o wneud ymchwiliadau a gwybodaeth am brosesau amddiffyn plant a lles plant ar aelodau'r tîm ymchwilio. Dylen nhw fod wedi ymrwymo i weithio'n agos gyda'i gilydd;
- Mae angen trefn ar gyfer adnabod y gwersi sydd i'w dysgu o'r ymchwiliad wrth iddo fynd yn ei flaen, a'r gallu i weithredu arnyn nhw.

Ar ôl i'r ymchwiliad gael ei gwblhau, dylai ei reolwyr a'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant asesu'r broses o'i reoli a chofnodi unrhyw wersi a ddysgwyd ar gyfer ymchwiliadau tebyg a fydd yn ei ddilyn. Dylid rhannu'r gwersi â Byrddau Lleol Diogelu Plant eraill.

Blwch 20: Cydbwyso lles y plentyn gyda'r angen i gynnal ymchwiliad troseddol

Weithiau, bydd angen penderfynu a ddylid gohirio gweithredu i amddiffyn er mwyn casglu rhagor o dystiolaeth yn erbyn y rhai sy'n cam-drin. Ond rhaid

bod yn ofalus iawn, yn arbennig mewn ymchwiliadau mawr, nad yw staff yn canolbwyntio ar agweddau troseddol yr ymchwiliad ac yn anghofio am ddiogelu a hybu lles y plentyn.

Yr ystyriaeth unigol bwysicaf un yw diogelwch a lles y plentyn neu'r plant. Rhaid i'r gwaith o'u hamddiffyn gael y flaenoriaeth gyntaf bob amser. Rhaid cydbwyso hyn gyda'r wybodaeth mewn achosion o gamdrin wedi ei drefnu y bydd y perygl i blant yn cynyddu os yw camdrinwyr yn osgoi cael eu dal.

4.6 Perygl o niwed yn y dyfodol i blentyn sydd heb ei eni

4.6.1 Adnabod y perygl o ddioddef niwed

Rhaid i staff a gweithwyr proffesiynol sy'n bryderus am berygl o niwed yn y dyfodol i blentyn sydd heb ei eni, wneud atgyfeiriad amddiffyn plant at y gwasanaethau cymdeithasol. Er na all ymyrraeth statudol gychwyn cyn i'r plentyn gael ei eni, mae'n bosib gwneud asesiad, a gall cynhadledd amddiffyn plant greu cynlluniau er mwyn diwallu anghenion y babi ar ôl iddo gael ei eni. Mae adolygiadau o achosion difrifol yn ategu pwysigrwydd creu cynlluniau ar gyfer amddiffyn plant sydd heb eu geni.

Mae'r amgylchiadau ar gyfer atgyfeirio'n cynnwys:

- Fod plant eraill y teulu wedi cael eu symud oherwydd eu bod wedi dioddef niwed;
- Bod enwau plant eraill y teulu ar y gofrestr amddiffyn plant;
- Bod y fam feichiog neu'r tad wedi cam-drin plentyn yn y gorffennol, neu fod amheuaeth o gam-drin;
- Bod gan y fam feichiog bartner sydd wedi cam-drin plentyn, neu mae mewn cysylltiad â rhywun sydd wedi cam-drin plentyn;
- Bod pryderon ynglŷn â gallu'r naill riant neu'r llall i amddiffyn y babi;
- Bod pryderon ynglŷn â gallu rhieni newydd fel rhieni a'r gred yw y gallai unrhyw blentyn ddioddef niwed gyda'r teulu;
- Bod pryderon fod rhywbeth yn amharu ar y gallu i rianta, er enghraifft:
    - Anawsterau dysgu difrifol;
    - Problemau iechyd meddwl difrifol (yn cynnwys hanes o seicosis cyn neu ar ôl geni plentyn oedd yn creu pryderon ynglŷn â'r gallu i fod yn rhiant);

  - Cam-drin alcohol neu sylweddau (a allai fod yn effeithio ar iechyd y babi sydd heb ei eni ac a allai amharu ar allu a sgiliau'r rhiant);
  - Achosion difrifol neu gyson o gam-drin domestig (o fewn y berthynas, sy'n creu pryderon ynglŷn â diogelwch neu les plentyn).
- Bod un o'r rhieni'n ifanc iawn ac efallai fod angen gwneud asesiad o anghenion y rhiant hwnnw fel plentyn, yn ogystal ag asesiad o'i allu i ddiwallu anghenion y babi;
- Bod ffordd o fyw'r fam feichiog a/neu'r bobl mae'n dod i gysylltiad â nhw'n creu pryderon y gallai'r plentyn fod mewn perygl ar ôl cael ei eni;
- Bod hanes o ddiffyg cydweithredu ag asiantaethau gan y teulu y mae pryderon yn eu cylch, yn arbennig os oes partner newydd.

4.6.2 Y camau gweithredu gofynnol

Bydd y gweithiwr cymdeithasol penodedig yn gwneud asesiad cychwynnol ac yn dilyn y canllawiau sy'n cael sylw yn Rhan 3, Y Broses Amddiffyn Plant.

Bydd rhaid ystyried wedyn a oes angen cynnull cynhadledd amddiffyn plant gychwynnol cyn y geni er mwyn cyd-drefnu'r camau a'r gwasanaethau ar gyfer amddiffyn y plentyn o adeg yr enedigaeth. Rhaid dilyn y canllawiau yn Rhan 3 wrth benderfynu ynglŷn â chynnull cynhadledd amddiffyn plant gychwynnol. Bydd yr un statws a threfn i'r fath gynhadledd ag unrhyw gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol arall.

Dylai'r gynhadledd amddiffyn plant gael ei chynnal rhwng 8-16 wythnos cyn y dyddiad y mae disgwyl i'r plentyn gael ei eni. Bydd hyn yn caniatáu digon o amser ar gyfer asesu a chynllunio'n briodol.

Bydd aelodau'r gynhadledd yn rhannu gwybodaeth ac yn ystyried a oes angen cofrestru'r plentyn ar adeg ei eni. Ar ôl cytuno y bydd y babi yn cael ei gofrestru ar adeg ei eni, bydd y gweithiwr allweddol ac aelodau'r grŵp craidd yn cytuno, cyn yr enedigaeth, ar gynllun amddiffyn manwl.

Bydd angen i'r cynllun gynnwys:

- Asesiad craidd cyn i'r babi gael ei eni er mwyn gofalu bod yr ymateb yn effeithiol pan ddaw'r enedigaeth;
- Gofalu bod y fydwraig/nyrs benodol yn rhoi gwybod i'r tîm esgor am yr ymateb sydd wedi'i gynllunio a bod copi o'r cynllun yn mynd at yr uned famolaeth.

Dylai'r asesiad craidd gynnwys gwybodaeth gan y meddyg teulu, y fydwraig a gweithwyr eraill y sector iechyd. Mae gofyn hefyd cael hanes cymdeithasol

trylwyr, asesiad o'r rhieni ac asesiad o'u perthynas, eu gallu fel rhieni a phatrwm gweithredu'r teulu, a chofnod o unrhyw gam-drin blaenorol yn hanes y teulu neu'r rhieni. Dylai'r asesiad bwyso a mesur agweddau'r teulu at rôl gweithwyr proffesiynol yn eu bywydau a'u gallu i ddeall a diwallu anghenion sylfaenol eu babi.

Gall y gynhadledd benderfynu, heb orfod galw cynhadledd arall, y bydd enw'r plentyn yn mynd ar y gofrestr amddiffyn plant pan gaiff ei eni. Ond gellid cynnull cynhadledd arall os oes galw. Mae'r un meini prawf ar gyfer cofrestru'n berthnasol â'r rheini ar gyfer unrhyw blentyn arall. Dylid cynnal cynhadledd adolygu o fewn tri mis i ddyddiad cofrestru enw'r plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant, hynny yw, ar adeg ei eni. Ond efallai y bydd angen cynnal y gynhadledd adolygu'n gynt.

Pan mae penderfyniad yn cael ei wneud i symud babi ar adeg ei eni, rhaid bod cynllun wedi'i greu sy'n disgrifio'r trefniadau'n gwbl glir. Dylai'r rhain gynnwys:

- Gofalu bod staff yr ysbyty'n gwybod â phwy i gysylltu pan mae'r fam yn cael ei derbyn i'r ysbyty;
- Y trefniadau os yw'r babi yn cael ei eni'r tu allan i oriau gwaith arferol;
- Bod pawb yn cytuno faint o gyswllt y bydd y rhiant yn ei gael gyda'r babi;
- Bod y cynllun yn cynnwys trefniadau gofal ymarferol fel bwydo o'r fron;
- Ystyried a oes angen rhybuddio ysbytai eraill ynglŷn â'r cynllun;
- Y trefniadau ar gyfer cychwyn camau cyfreithiol;
- Cynlluniau wrth gefn os yw'r babi yn cael ei eni'r tu allan i ysbyty;
- Enwau'r bobl sydd i gael copi o'r cynllun.

Os yw'r babi yn cael ei eni'n gynnar, efallai na fydd yn bosib cynnal cyfarfod neu gynhadledd cyn yr enedigaeth. Dylai'r gynhadledd gael ei chynnal cyn gynted â phosib ar ôl yr enedigaeth a chyn i'r babi adael yr ysbyty.

Ar ben hynny, os yw babi yn cael ei eni'n gynnar, efallai nad oedd amser i adnabod y pryderon amddiffyn plant cyn yr enedigaeth. Yn y fath achosion, mae'n debygol iawn y bydd y babi yn cael gofal mewn uned gofal dwys i'r newydd-anedig (NICU) neu'r uned gofal arbennig i fabanod (SCBU). Mae angen i'r unedau hyn ofalu bod trefniadau trwyadl wedi cael eu gwneud cyn gadael i'r babi adael yr ysbyty. Rhaid i'r trefniadau gynnwys asesiad priodol o allu'r rhieni i rianta a rhaid iddo gynnwys yr ymarferwyr perthnasol yn y gymuned. Os daw unrhyw bryderon ynglŷn â diogelu i'r amlwg, rhaid gwneud atgyfeiriad amddiffyn plant at y gwasanaethau cymdeithasol.

4.7 Pan mae plant anabl yn cael eu cam-drin

Wrth amddiffyn a diogelu plant anabl, rhaid dilyn yr un canllawiau â'r rhai ar gyfer pob plentyn arall.

Mae llawer iawn o dystiolaeth yn awgrymu bod mwy o berygl i blant anabl gael eu cam-drin. Ymddengys bod mwy o berygl i blant ag anableddau lluosog gael eu cam-drin a'u hesgeuluso fel ei gilydd.

Mae plant anabl yn arbennig o agored i niwed am nifer o resymau sy'n cynnwys:

- Bod â llai o gysylltiadau allanol na phlant eraill;
- Eu bod nhw'n cael gofal personol iawn, weithiau gan amryw o ofalwyr, ac mae hyn yn cynyddu'r posibilrwydd a'r cyfle i gam-drin;
- Bod llai o allu ganddyn nhw i wrthsefyll neu osgoi cael eu cam-drin;
- Eu bod nhw'n cael anhawster i gyfathrebu;
- Efallai eu bod nhw'n poeni y gallan nhw golli gwasanaethau os byddan nhw'n cwyno;
- Eu bod nhw'n arbennig o agored i gael eu bwlio a'u dychryn.

Efallai fod rhai gweithwyr proffesiynol a phobl eraill sy'n gweithio gyda phlant anabl yn ei chael hi'n anodd credu y gallai'r fath blant gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Os felly, gallan nhw fod yn amharod i herio rhieni neu'r rhai sy'n rhoi gofal.

Dylid dilyn y canllawiau yma wrth fynd ati i roi sylw i bryderon am les plentyn anabl. Ond mae rhai pethau ychwanegol i'w hystyried:

- Pan mae gan blentyn anawsterau cyfathrebu, anawsterau dysgu a/neu broblemau emosiynol a phroblemau iechyd, mae angen rhoi sylw gofalus i'w anghenion cyfathrebu. Mae'n bwysig cael dehongliad y plentyn o'r digwyddiadau, a dod i ddeall ei ddymuniadau a'i deimladau;
- Mae angen i'r gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu ofalu bod staff sy'n gwneud cyfweliadau wedi cael eu hyfforddi, ac y gallan nhw gael mynediad rhwydd at wybodaeth ac adnoddau arbenigol. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio lladmeryddion neu hwyluswyr addas os oes angen;
- Meddyliwch am ddefnyddio staff arbenigol i weithio gyda'r rhai sy'n gwneud yr ymchwiliad.

Mae angen i weithwyr proffesiynol ofalu nad ydyn nhw'n cymryd yn ganiataol nad yw plentyn yn gallu rhoi tystiolaeth ddilys. Rhaid mynd ati'n ofalus iawn i geisio cael gwybodaeth gan blant y mae eu gallu i ddeall a'u sgiliau

cyfathrebu'n gyfyngedig. Rhaid bod yn arbennig o ofalus i beidio ag arwain datleniad oddi wrth blentyn. Mae hwn yn faes arbennig o sensitif os oes amheuaeth bod y plentyn wedi cael ei gam-drin yn rhywiol. Rhaid cyd-bwyso'r angen i'r gyfundrefn cyfiawnder troseddol ymchwilio a chanfod ac erlyn pobl sy'n euog o drosedd, gyda'r angen i amddiffyn a diogelu plentyn. Ni ddylai asiantaethau gymryd yn ganiataol nad yw'r gallu gan blentyn i roi tystiolaeth neu i fynd trwy achos llys. Ond, mae angen iddyn nhw gydbwyso lles pennaf y plentyn gyda gofynion cyfiawnder.

Pan mae'r pryderon yn para ac mae'r person ifanc yn agosau at fod yn 18 mlwydd oed, rhaid i gynlluniau fod wedi cael eu gwneud i'r achos gael ei drosglwyddo'n iawn i'r treniadau sy'n gofalu am oedolion agored i niwed.

Mae'n bwysig i'r Byrddau Lleol Diogelu Plant fynd ati i wneud pobl yn fwy ymwybodol o'r gwaith o ddiogelu plant anabl. Rhaid i'r byrddau hybu'r broses o greu cronfa o arbenigeddau'r gwahanol asiantaethau i gynnwys pobl â gwybodaeth arbenigol am anableddau penodol a phobl â gwybodaeth a sgiliau ym maes amddiffyn plant.

4.8 Camfanteisio'n rhywiol ar blant

4.8.1 Diffiniad

Ffurf gudd ar gam-drin yw camfanteisio'n rhywiol ar blant a phobl ifanc. Ond, mae'r cysyniadau o gamfanteisio a chyfnewid yn ganolog i'r cam-drin.

Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn cynnwys:

- cam-drin trwy buteindra;
- cam-drin trwy ddefnyddio plant i greu delweddau a deunydd cam-drin plant yn rhywiol;
- cam-drin trwy baratoi (grooming), p'un ai yw hynny trwy gyswllt uniongyrchol neu trwy ddefnyddio technolegau fel ffonau symudol a'r rhyngrwyd;
- cam-drin trwy fasnachu mewn pobl(trafficking) at bwrpasau rhywiol.

4.8.2 Ei adnabod

Mae *Diogelu Plant sy'n Ymwneud â Phuteindra* (2000) yn tynnu sylw at yr angen i drin plant sy'n cael eu camfanteisio'n rhywiol fel dioddefwyr ac i ofalu bod y bobl sy'n eu camfanteisio'n cael eu hymchwilio'n iawn a'u herlyn. Mae'r ddogfen yn dweud y dylai gweithwyr proffesiynol a staff asiantaethau sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd fod â gwybodaeth drwyadl am ddangosyddion camdriniaeth a'r perygl i blant gael eu cam-drin trwy gamfanteisio'n rhywiol arnyn nhw.

Mae'n hanfodol i asiantaethau weithio gyda'i gilydd. Dylai asiantaethau gyfrannu at y gwaith o ddiogelu plant a hybu eu lles trwy weithio gyda'i gilydd, rhannu gwybodaeth a chytuno a gweithredu ar gynllun amddiffyn plentyn neu gynllun plentyn mewn angen sy'n rhoi sylw i holl anghenion y plentyn.

Mae gofyn i weithwyr y gwasanaeth iechyd rhywiol fod yn arbennig o wyliadwrus ynglŷn ag arwyddion posib fod plentyn yn cael ei gamfanteisio'n rhywiol. Dylid hyfforddi'r gweithwyr hyn i adnabod yr arwyddion (cyfeiriwch at Adran 5.4 Diogelu a Hybu Lles Pobl Ifanc sy'n Weithredol yn Rhywiol).

Mae'r dystiolaeth ymchwil ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn awgrymu bod y rhan fwyaf o'r cam-drin yn gudd ac yn digwydd 'oddi ar y stryd' mewn llefydd preifat fel tai pobl, gwestai neu fusnesau sy'n cynnig gwasanaethau sawna a thylino'r corff.

Mae bob amser yn anodd i blant roi gwybod am gam-drin a thrais rhywiol. Gall y broses soffistigedig o baratoi a meithrin plant y mae'r oedolion sy'n eu cam-drin yn ei chreu, a'r elfen gyfnewid yn y math hwn o gam-drin achosi rhwystrau ychwanegol i'r plant. Maen nhw'n cynyddu'r gwadu ac yn ei gwneud hi'n arbennig o anodd i'r plant roi gwybod am y cam-drin.

Blwch 21 Mae arwyddion bod yn agored i niwed yn cynnwys:

- Cam-drin neu esgeuluso gan riant, gofalwr neu aelod o'r teulu
- Hanes o fod yng ngofal awdurdod lleol;
- Hanes yn y teulu o gam-drin domestig;
- Hanes yn y teulu o gamddefnyddio sylweddau;
- Hanes yn y teulu o anawsterau iechyd meddwl;
- Perthynasau yn y teulu'n chwalu;
- Diffyg hunan-barch.

Mae'r dangosyddion o berygl yn cynnwys:

- Aros allan yn hwyr;
- Llawer o bobl yn galw (oedolion diarth neu'n bobl ifanc hŷn);
- Defnyddio ffôn symudol mewn ffordd sy'n creu pryderon;
- Arwyddion o anobaith (hunan-niweidio, cymryd gorddos, anhwylder bwyta, ymddygiad heriol neu ymosodol);
- Rhoi gwybod am ymosodiad rhywiol/corfforol a thynnu'r honiad yn ôl wedyn;

- Heintiau a drosglwyddir yn rhywiol (STIs);
- Cyfoedion yn ymwneud â chlipio/camfanteisio'n rhywiol;
- Camddefnyddio cyffuriau neu alcohol;
- Defnyddio'r rhyngrwyd mewn ffordd sy'n creu pryderon;
- Byw mewn lle anaddas neu amhriodol;
- Peidio â bod yn rhan o rwydweithiau cyfoedion neu gymdeithasol;
- Diffyg perthynas bositif gydag oedolyn sy'n cynnig gofal a magwraeth;
- Bod wedi'i wahardd o'r ysgol neu'n absennol o ysgol, coleg neu hyfforddiant, heb esboniad;
- Byw'n annibynnol ac yn methu ymateb i ymdrechion y gweithiwr i gadw mewn cysylltiad;
- Bod â llawer o bartneriaid rhywiol.

Mae'r dangosyddion o berygl arwyddocaol yn cynnwys:

- Cyfnodau o fynd ar goll dros nos neu am gyfnod hirach;
- Bod â chariad neu mewn perthynas â rhywun sydd â dylanwad sy'n llawer hŷn;
- Cam-drin corfforol/emosiynol gan gariad neu oedolyn dylanwadol;
- Yn gadael neu'n mynd i gerbydau y mae oedolion anhysbys yn eu gyrru;
- Bod â symiau mawr o arian, dillad drud neu eitem arall, heb esboniad;
- Yn mynd yn aml i ardaloedd lle mae puteiniaid yn gweithio;
- Anaf corfforol heb esboniad credadwy;
- Plant dan 13 mlwydd oed yn gofyn am gyngor ynglŷn ag iechyd rhywiol.

4.8.3 Atgyfeirio

Rhaid i unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd ac sy'n pryderu bod plentyn mewn perygl o gael ei gam-drin trwy gamfanteisio'n rhywiol arno atgyfeirio'r achos gan ddilyn y canllawiau amddiffyn plant yn Rhan 3. Mae hyn yn cynnwys unrhyw bryderon lle nad oes prawf bod sail iddynt neu eu bod wedi eu cadarnhau. Gallai'r fath bryderon gyfrannu at wybodaeth arall y mae rhywun arall wedi'i rhoi a helpu i greu darlun cyflawn sy'n dangos bod y plentyn yn dioddef niwed.

4.8.4 Y camau gweithredu gofynnol

Ar ôl atgyfeirio'r achos, rhaid dilyn y canllawiau yn Rhan 3. Bydd cyfarfod strategaeth yn cael ei gynnal a fydd hefyd yn ystyried y pwyntiau sy'n dilyn:

- Os yw'r camfanteisio rhywiol yn digwydd neu wedi digwydd mewn ardal arall, dylai'r gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu gysylltu â'u hasiantaethau yn yr ardal honno i roi gwybod am y pryderon ac i gytuno ar y camau gweithredu. Dylai hyn gynnwys eu gwahodd i'r cyfarfod strategaeth;
- Gan fod natur y math hwn o gam-drin yn gymhleth ac yn gudd ac anaml iawn y bydd plant a phobl ifanc yn rhoi gwybod amdano, mae'n bwysig gweithredu ar bryderon yn hytrach na dibynnu ar dystiolaeth gadarn.
- Rhowch sylw i'r troseddau newydd y mae Deddf Troseddau Rhywiol 2003 yn eu cyflwyno o safbwynt camfanteisio'n rhywiol ar blant; mae manylion yn dilyn:

1. Talu am wasanaethau rhywiol plentyn o dan 13 mlwydd oed (Adran 47);

2. Talu am wasanaethau rhywiol plentyn sydd rhwng 14 ac 16 mlwydd oed (Adran 47);

3. Talu am wasanaethau rhywiol plentyn sydd rhwng 16 ac 18 mlwydd oed (Adran 47);

4. Rheoli plentyn sy'n butain (Adran 49);

5. Achosi neu annog puteindra plant (Adran 48);

6. Trefnu neu hwyluso puteindra plant (Adran 50);

7. Paratoi rhywiol (grooming) ar blentyn sydd o dan 16 mlwydd oed.

Canlyniad y cyfarfod strategaeth fydd un o'r canlyniadau sy'n cael eu disgrifio yn Rhan 3. Hefyd bydd rhaid:

- Monitro a chasglu gwybodaeth ar gyfer unrhyw achos llys dilynol yn erbyn oedolion. Os yw'n briodol gwneud hynny, atgyfeirio'r achos at MAPPA (y Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd);
- Rhoi canllawiau cam-drin wedi ei drefnu ar waith os oes amheuaeth fod yr honiad yn ymwneud â cham-drin wedi ei drefnu neu luosog (cyfeiriwch at adran 4.5);
- Gofalu bod gweithiwr yn cael ei bennu i gyd-drefnu unrhyw gynllun aml-asiantaethol os nad yw'n briodol i'r gweithiwr cymdeithasol penodedig ymgymryd â'r rôl;
- Trefnu i'r cynllun cael ei adolygu cyn pen tri mis fan bellaf.

4.8.5 Cyfrifoldebau'r Byrddau Lleol Diogelu Plant

Dylai'r Byrddau Lleol ofalu bod canllawiau a phrotocolau clir wedi'u creu yn disgrifio'r drefn ar gyfer ymateb i bryderon bod plant (yn cynnwys rhai 16-17 mlwydd oed) yn cael neu efallai'n cael eu cam-drin trwy gamfanteisio'n rhywiol.

ON. Mae Protocol Cymru Gyfan ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

4.9 Plant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol

Mae'r adran hon yn rhoi sylw i blant a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad rhywiol sy'n niweidiol neu'n droseddol.

4.9.1 Ymateb i gamdriniaeth rywiol gan blant a phobl ifanc

Dylid trin achosion o gamdriniaeth gan blant a phobl ifanc fel mater difrifol. Dylai'r fath achosion gael eu hatgyfeirio bob tro at y gwasanaethau cymdeithasol a/neu'r heddlu.

Mae angen canllawiau clir a hyfforddiant ar aelodau staff a rhai sy'n rhoi gofal i'w helpu i adnabod pan mae perthynas rhwng plant yn anaddas neu fod arwyddion o orfodi neu gamfanteisio. Mae angen iddyn nhw fod yn ymwybodol y gall plant a phobl ifanc fod yn euog o droseddau rhyw. Ni ddylen nhw ddiystyru ymddygiad rhywiol sy'n cam-drin fel rhywbeth normal neu arwydd o addasu. Mae angen iddyn nhw wybod nad yw'n gyfreithiol bosib i blentyn dan 13 mlwydd oed gydsynio i weithredoedd rhywiol.

Os yr heddlu yw'r cyntaf i ymchwilio'n uniongyrchol i honiadau o ymddygiad sy'n cam-drin, rhaid iddyn nhw roi gwybod bob tro i'r gwasanaethau cymdeithasol. Rhaid trin y wybodaeth fel atgyfeiriad amddiffyn plant, a rhaid dilyn y canllawiau yn Rhan 3 wrth ei rheoli.

Wrth ymchwilio i honiadau o gam-drin rhywiol yn erbyn plant neu bobl ifanc, dylai'r gwaith gael ei gyd-drefnu. Rhaid cynnwys y Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid yn ogystal â'r gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu, y gwasanaethau addysg (yn cynnwys seicoleg addysgol a lles addysg), y gwasanaeth iechyd (yn cynnwys gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc) ac unrhyw wasanaethau sy'n arbenigo ar ymddygiad sy'n niweidio, os ydyn nhw ar gael.

Dylid ystyried anghenion plant a phobl ifanc sy'n cam-drin plant eraill ar wahân i anghenion eu dioddefwyr. Dylid gwneud asesiad ym mhob achos. Dylai'r asesiad roi sylw i'w hanghenion emosiynol a therapiwtig yn ogystal â chadw mewn cof yr angen i amddiffyn plant eraill rhag cael eu cam-drin yn y dyfodol. Mae'n debygol y bydd llawer iawn o anghenion gan blant a phobl ifanc sy'n cam-drin plant eraill yn ogystal a'u bod yn creu perygl arwyddocaol o niweidio plant eraill. Efallai hefyd eu bod nhw angen cael eu hamddiffyn.

Rhaid i blant a phobl ifanc sy'n cam-drin plant eraill weld eu bod nhw'n gyfrifol am eu hymddygiad niweidiol. Ond, ar yr un pryd, dylid ymateb iddyn nhw mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion yn ogystal ag yn amddiffyn plant eraill. Felly, pan mae plentyn yn honni bod plentyn neu berson ifanc wedi'i gam-drin, p'un ai yw'n aelod o'r un teulu ai peidio, rhaid dilyn y canllawiau amddiffyn plant o safbwynt y dioddefwr ac **ystyried** y canllawiau o safbwynt y sawl sy'n cael ei amau o gam-drin. Dylid hefyd ystyried lles plant eraill, er enghraifft, rhai sy'n byw yn yr un cartref preswyl.

Os yw'r asesiad cychwynnol a/neu'r ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47 yn dangos bod gofynion brys gan y plentyn am wasanaethau yn sgil honiad o gam-drin neu oherwydd ei ymddygiad rhywiol amhriodol, dylai'r gwasanaethau fod ar gael iddo cyn i'r asesiad craidd gael ei gwblhau.

4.9.2 Y camau gweithredu gofynnol

Ar ôl atgyfeirio'r achos, rhaid dilyn y canllawiau amddiffyn plant yn Rhan 3, gyda'r amrywiadau sy'n dilyn.

Pan mae plentyn mewn cartref preswyl yn honni bod un arall o blant y cartref wedi'i gam-drin, rhaid rhoi gwybod i reolwr y cartref. Dylai rheolwr y cartref atgyfeirio'r achos i reolwr y gwasanaethau cymdeithasol sy'n gyfrifol am amddiffyn plant yn yr ardal. Rhaid i reolwr y cartref preswyl a gweithiwr allweddol y plentyn ddod i'r cyfarfod strategaeth.

Wrth gynllunio'r ymholiadau amddiffyn plant, mae'n bwysig gofalu:

- Mai dim ond unwaith y bydd gwybodaeth am anghenion y dioddefwr a'r sawl sydd wedi cam-drin yn cael ei chasglu a'i rhannu;
- Bod yr ymholiadau'n cael eu cadw'n gwbl ar wahân fel bod anghenion y naill blentyn a'r llall yn cael eu hasesu gyda mesur o'r perygl iddo, ac nad yw anghenion na lles y naill blentyn i'w gweld yn bwysicach na rai'r llall;
- Bod sylw wedi cael ei roi i unrhyw anabledd dysgu a allai fod ar unrhyw un o'r plant.

Dylai'r ymholiadau roi sylw i'r ffactorau sy'n dilyn hefyd:

- Y gwahaniaeth mewn pwer rhwng y sawl sy'n cael ei amau o gam-drin a'i ddioddefwr. Gallai'r gwahaniaeth fod ar sail oedran, maint corfforol, gallu deallusol neu statws cymdeithasol;
- Pa mor soffistigedig oedd y weithred, a pha mor briodol oedd hi o ystyried oedran y person dan sylw a'i allu i ddeall;
- Unrhyw dystiolaeth o drais amlwg, bwlio neu gamfanteisio rhywiol;

- P'un ai oedd y dioddefwr yn methu cydsynio neu'n cael ei rwystro rhag gwrthod cymryd rhan oherwydd ei fod yn agored i niwed yn sgil ffactorau cymdeithasol neu economaidd;
- P'un ai oedd y weithred yn cael ei chuddio neu ei gwadu;
- Y perygl posib buan i'r dioddefwr presennol oddi wrth y camdriniwr honedig, ac i ddioddefwyr posib eraill;
- P'un ai yw'r sawl sydd wedi'i gyhuddo o gam-drin yn blentyn sydd angen ei amddiffyn a/neu wedi cael ei gam-drin yn y gorffennol neu'n dal i gael ei gam-drin.
- Canfod a oedd rhieni neu ofalwyr y plant yn gwybod am y cam-drin cyn i'r atgyfeiriad gael ei wneud, ond eu bod nhw wedi methu gweithredu neu wedi cydgynllwynio gyda'r cam-drin.

Blwch 22: Camdriniaeth gan blant a phobl ifanc ac anabledd/anhawster dysgu

- Dylid asesu unrhyw anawsterau dysgu neu anableddau ar y dechrau un a threfnu eiriolaeth addas yn ystod yr ymholiadau;
- Er nad yw'n bosib dal plentyn ag anawsterau dysgu'n gyfrifol, efallai ei fod yn dal i achosi perygl o niwed arwyddocaol i blant eraill.
- Bydd angen i driniaeth roi sylw i alluoedd y plentyn a bydd rhaid edrych ar anghenion y plentyn mewn ffordd holistig.

4.9.3 Cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol os mai plentyn/person ifanc yw'r sawl yr honnir iddo gyflawni'r weithred

Dylid cynnal cynhadledd amddiffyn plant gychwynnol i drafod dioddefwr y cam-drin honedig os naill ai:

- Y gall fod rhieni'r plentyn wedi cyfrannu at y gamdriniaeth trwy esgeulustod neu gydgynllwynio; *neu*
- Fod y sawl sy'n cael ei amau o gam-drin yn debyg o barhau i achosi perygl i'r dioddefwr sy'n blentyn.

4.9.4 Plentyn sydd wedi cam-drin

Dylai cyfarfod strategaeth gael ei gynnal yn achos unrhyw honiad bod plentyn neu berson ifanc wedi cam-drin trwy gyflawni gweithred rywiol. Bydd y cyfarfod yn ystyried p'un ai yw cynhadledd amddiffyn plant yn briodol ac a oes angen rhoi asesiad craidd ar waith.

Mae tystiolaeth yn awgrymu y gallai plant sy'n cam-drin plant eraill yn rhywiol fod:

- Wedi dioddef llawer o aflonyddu yn eu bywydau;
- Wedi bod yn dyst i drais o fewn y teulu;
- Wedi bod yn dyst neu'n destun esgeuluso a cham-drin corfforol neu rywiol;
- Problemau yn eu datblygiad addysgol;
- Wedi cyflawni troseddau eraill.

Mae plant a phobl ifanc sy'n niweidio eraill trwy eu hymddygiad rhywiol yn debygol o fod yn blant mewn angen. Bydd rhai hefyd yn dioddef (neu mewn perygl o ddioddef) niwed arwyddocaol, ac angen eu hamddiffyn eu hunain. Mae gwaith ymchwil gydag oedolion sy'n cam-drin yn dangos bod llawer wedi dechrau cam-drin yn ystod eu plentyndod neu eu harddegau, a bod nifer arwyddocaol wedi cael eu cam-drin eu hunain. Gall ymyrraeth gynnar felly gyda phlant a phobl ifanc sy'n ymddwyn yn rhywiol niweidiol fynd yn rhan bwysig o'r broses o amddiffyn y cyhoedd trwy dorri cylch yr ymddygiad niweidiol neu ei rwystro rhag gwaethygu.

Dylai'r cyfarfod strategaeth benderfynu p'un ai oes angen trefnu cynhadledd amddiffyn plant gychwynnol i drafod y sawl sy'n cael ei amau o gam-drin. Os y penderfyniad yw peidio â chynnal cynhadledd, dylai'r gwasanaethau cymdeithasol ofalu bod y penderfyniad yn cael ei wneud ar ôl ymgynghori'n drwyadl gyda'r holl asiantaethau sy'n rhan o'r ymholiadau amddiffyn plant. Os nad yw'n bosib cytuno ar y penderfyniad, dylid ymgynghori â rheolwr y gwasanaethau cymdeithasol sy'n gyfrifol am amddiffyn plant.

Dylai cynhadledd amddiffyn plant ar gyfer y sawl sy'n cael ei amau o gam-drin fynd ati i:

- Rannu'r holl wybodaeth sydd ar gael am y person ifanc, yn cynnwys amgylchiadau ei deulu, amgylchiadau'r ymddygiad niweidiol a natur y drosedd a gafodd ei chyflawni. Rhaid ystyried hefyd a ddylid rhoi enw'r person ifanc ar y gofrestr amddiffyn plant;
- Ystyried i ba raddau y mae'r person ifanc yn deall y drosedd;
- Penderfynu, fel rhan o'r asesiad craidd, ar unrhyw gyngor neu asesu arbenigol pellach sy'n ofynnol;
- Pennu dyddiad ar gyfer trafod canlyniadau'r asesiad craidd ac unrhyw asesiadau arbenigol ychwanegol;
- Gofalu bod lleoliad y person ifanc yn amddiffyn y dioddefwr ei hun a dioddefwyr eraill posib yn llawn, a bod y person ifanc yn cael ei gynnal yn ddiogel;

- Ystyried a oes angen cynnig unrhyw help arall i'r person ifanc a'i deulu;
- Gofyn i'r person ifanc a'i deulu am eu cytundeb i unrhyw ymyriadau pellach sydd eu hangen;
- Pennu anghenion therapiwtig y person ifanc a sut mae mynd ati i'w diwallu;
- Ystyried ffyrdd eraill o ymyrryd, yn cynnwys achos llys, os yw'r person ifanc yn gwrthod cytuno'n wirfoddol.

Dylid gofyn am gyngor a chymorth gan wasanaeth sy'n arbenigo mewn ymddygiad rhywiol niweidiol. Os nad oes gwasanaeth o'r fath ar gael, dylai gweithiwr proffesiynol profiadol sydd wedi'i hyfforddi ym maes ymddygiad rhywiol plant sy'n niweidio/troseddu helpu gyda chanlyniad yr asesiad craidd.

Os y penderfyniad yw peidio â chynnal cynhadledd amddiffyn plant ac nid yw enw'r plentyn i fynd ar y gofrestr amddiffyn plant ac efallai mai'r argymhelliad o hyd yw gweithio gyda'r person ifanc a'i deulu/ofalwyr hefyd efallai, rhaid parhau gyda gweithio a chyfrafodydd amlasiantaethol.

4.9.5 Plentyn sy'n destun amheuaeth

Efallai y daw plentyn sy'n cael ei gyfweld yn ystod ymholiadau amddiffyn plant dan amheuaeth o fod wedi cyflawni trosedd, efallai trwy roi datganiad sy'n awgrymu ei fod wedi troseddu. Dylid dod â'r cyfweliad i ben a dweud wrth y plentyn y gallai gael ei gyfweld rywbryd eto ynglŷn â'r materion hyn.

Os yw'r plentyn i gael ei gyfweld yn unol â Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol, bydd rhaid ei rybuddio ac esbonio pwrpas y cyfweliad yn glir.

Os mai cael tystiolaeth gan y plentyn fel dioddefwr neu dyst yw'r flaenoriaeth, gallai'r cyfweliad fynd yn ei flaen gan ddilyn canllawiau Achieving Best Evidence.

4.10 Plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches

4.10.1 Rhagarweiniad

Mae mwy a mwy o blant a phobl ifanc yn dod i'r DU bob blwyddyn i geisio lloches, ac mae'r niferoedd yn sylweddol. Maen nhw "ar eu pen eu hunain" yn yr ystyr nad oes rhieni neu warcheidwaid y gallan nhw droi atyn nhw ar ôl cyrraedd er efallai fod tywysydd neu gydymaith arall wedi bod gyda nhw yn ystod y daith. Maen nhw fel arfer yn bobl ifanc 16-18 mlwydd oed, er bod rhai plant iau'n cyrraedd hefyd.

Yr un fath ag unrhyw blentyn arall yn y DU, mae gan blant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches hawl i gael cymorth gan wasanaethau cymdeithasol awdurdod sydd wedi'i enwi. Mae'r hawl yn para cyhyd ag y byddan nhw'n

blant neu'n aros yn y Deyrnas Unedig, neu tan fydd eu hanghenion yn cael eu diwallu mewn ffordd arall. Mae gan y fath blant hawl i gael eu hasesu, eu cynnal a'u hamddiffyn yn yr un ffordd ag unrhyw blentyn arall. Fel arfer, yr awdurdod lleol sydd wedi adnabod anghenion y plentyn sy'n gyfrifol am eu diwallu.

Mae plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches yn aml yn cyrraedd heb fawr ddim dogfennau. Efallai bydd ansicrwydd neu dadlau ynglŷn â'u hoedran, ac weithiau ynghylch pa un ai ydyn nhw'n blant o gwbl. Mae eu statws fel mewnfudwyr, eu hawliau a'r gwasanaethau cymorth y mae ganddyn nhw hawl i'w cael i gyd yn dibynnu ar asesiad o'u hoedran. Mae staff y gwasanaeth mewnfudo a staff a gweithwyr proffesiynol yr awdurdod sy'n eu derbyn yn aml yn gorfod mynd ati i farnu ynglŷn ag oedran a hawliau person ifanc. Mae'n gallu bod yn waith anodd sy'n creu gwrthdaro.

Mae prinder sylweddol o wybodaeth am blant sy'n cyrraedd y mae eu hanghenion amddiffyn yn ddwys. Mae gofyn i aelodau staff a gweithwyr proffesiynol fod â sgiliau arbenigol i amddiffyn plant sydd mewn perygl oherwydd masnachu pobl ac adnabod dioddefwyr potensial cyn gynted â phosib.

4.10.2 Penderfynu pwy sy'n gyfrifol am blant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches

Dylai plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches, fel plant eraill mewn angen brys, gael cymorth ar unwaith gan yr awdurdod lleol agosaf, tan fydd awdurdod â chyfrifoldeb yn y tymor hir yn derbyn yr achos.

Pan mae plant sy'n ceisio lloches yn sefydlu cyswllt lleol, mae'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol yn cael ei bennu yn y ffordd arferol. Dylid gadael i blant a phobl ifanc ddewis yr ardal y maen nhw am gael eu cysylltu â hi oherwydd cymunedau sydd yno'n barod. Dylid rhoi gymaint â phosib o barch i'w barn.

Pan nad yw plentyn wedi sefydlu cyswllt lleol gydag awdurdod lleol penodol, dylid mynd ati'n gyflym i bennu pa un sy'n gyfrifol.

4.10.3 Asesu anghenion plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches

Yn yr un ffordd ag unrhyw blentyn arall, dylai awdurdodau lleol ddefnyddio'r Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd wrth asesu anghenion plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches. Rhaid rhoi sylw arbennig i'r pwyntiau sy'n dilyn:

- hanes teulu, iaith, diwylliant, crefydd;
- gwybodaeth y plentyn am y cynlluniau ar ei gyfer yn y DU;
- gwybodaeth y plentyn am yr oedolyn sydd gydag e neu'n ei gwrdd;
- p'un ai oes gan y plentyn unrhyw ofnau neu bryderon;

- p'un ai oes gan y plentyn rifau ffôn neu wybodaeth am berthnasau ac ati yn y DU;
- unrhyw fylchau yn y wybodaeth sydd wedi'i rhestru.

Rhaid rhoi sylw arbennig i'r pwyntiau sy'n dilyn, sef dangosyddion o'r perygl o ddioddef niwed arwyddocaol sy'n ychwanegol i'r rheini sy'n berthnasol i bob plentyn:

- rhoi cyfeiriad ffug yn y DU;
- tystiolaeth fod y cyfeiriad yn anaddas;
- tystiolaeth fod yr oedolyn sydd gyda'r plentyn neu'n ei gwrdd yn anaddas;
- tystiolaeth nad yw'r rhieni wedi gwneud trefniadau ar gyfer y plentyn;
- dim perthynas rhwng y plentyn â'r oedolyn sydd gydag e neu'n ei gwrdd. Cofiwch ei bod hi'n dderbyniol mewn rhai diwylliannau i aelod o'r teulu estynedig neu ffrind ofalu am blentyn. **Ond fe allai fod yn drefniant maethu preifat a byddai'n rhaid i'r awdurdod lleol sy'n derbyn yr achos gael gwybod amdano a chael cyfle i'w asesu**;
- mae'r rhifau ffôn sydd gan y plentyn yn codi amheuon;
- mae gwiriadau'r heddlu ar yr oedolion sy'n cwrdd y plentyn yn creu pryderon;
- diffyg cysondeb rhwng stori'r plentyn a stori'r oedolyn sydd gydag e neu'n ei gwrdd;
- ymddygiad y plentyn sydd gyda'r oedolyn;
- stori'r plentyn;
- stori'r rhiant (absennol);
- cynnwys bagiau'r plentyn, er enghraifft, cyffuriau, pornograffi, symiau mawr o arian.

Lle bynnag y bo hynny'n berthnasol, dylid defnyddio *Language Line* neu gyfieithydd annibynnol.

4.10.4 Rhannu gwybodaeth am symudiadau plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches

Mae cofrestr genedlaethol ar gyfer plant ar eu pen eu hunain *(National Register for Unaccompanied Children / NRUC).* Mae'r gofrestr ar y we a'i bwriad yw cofnodi manylion pob plentyn ar ei ben ei hun. Mae hyn yn golygu y bydd yn bosib i awdurdod lleol fynd at y wybodaeth am blentyn, os yw'n symud o ardal un awdurdod i ardal un arall. **Rhaid rhoi gwybod i'r wefan pan ddaw awdurdod i wybod am blentyn ar ei ben ei hun sy'n symud naill ai i mewn i'r ardal neu allan ohoni.**

4.11 Trefniadau amlasiantaethol ar gyfer diogelu'r cyhoedd (MAPPA)

Mae'r trefniadau amlasiantaethol ar gyfer diogelu'r cyhoedd (*Multi Agency Public Protection Arrangements / MAPPA*) yn cynnig fframwaith cenedlaethol ar gyfer asesu a rheoli'r perygl y mae troseddwyr rhyw a throseddwyr treisiol yn ei achosi. Mae hyn yn cynnwys unigolion sy'n cyflwyno perygl neu berygl posib o niwed i blant. Mae'r trefniadau'n ei gwneud hi'n ofynnol yn statudol i'r heddlu a'r gwasanaethau prawf (yr "Awdurdodau Cyfrifol") i wneud y trefniadau hyn dan Adrannau 67 a 68 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000.

Mae Adran 325 (3) Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 yn gosod 'dyletswydd i gydweithredu' â MAPPA ar asiantaethau neilltuol:

- Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid
- Awdurdodau Addysg Lleol
- Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol
- Canolfan Byd Gwaith
- Awdurdodau Tai Lleol
- Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
- Cyrff sy'n darparu Monitro Electronig
- Cyrff Iechyd, yn cynnwys:-
- Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol
- Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol
- Byrddau Iechyd Lleol

Pwrpas MAPPA yw canolbwyntio ar droseddwyr rhyw a throseddwyr treisiol sydd wedi'u cael yn euog ac sy'n dod yn ôl i'r gymuned neu'n byw ynddi. Mae'r gwaith o ddatblygu cronfeydd data cenedlaethol wedi'i gwneud hi'n llawer haws dilyn hynt droseddwyr sy'n symud o'r naill gymuned i'r llall ac ar draws ffiniau cyfundrefnau. Dylai'r Byrddau Lleol Diogelu Plant ofalu bod cronfeydd data lleol effeithiol ar gael i storio gwybodaeth am oedolion a allai achosi perygl i blant, ac i ganiatáu i bobl chwilio am y fath wybodaeth.

Bydd trefniadau lleol yn bodoli i roi sylw i ffactorau fel protocolau rhannu gwybodaeth. Bydd y fath drefniadau'n caniatáu i'r holl asiantaethau rannu gwybodaeth yn drwyadl.

Mae tri chategori o droseddwyr wedi cael ei bennu ar gyfer MAPPA:

- **Categori 1**: troseddwyr rhyw cofrestredig yn ôl y diffiniad yn Neddf Troseddwyr Rhyw 1997 fel y cafodd ei diwygio gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000 a Deddf Troseddau Rhyw 2003;
- **Categori 2**: troseddwyr treisiol a throseddwyr rhyw eraill; troseddwyr treisiol a throseddwyr rhyw sydd wedi'u dedfrydu i garchar am 12 mis neu fwy; y rhai sy'n cael eu cadw'n gaeth dan Orchmynion Ysbyty neu Warcheidiaeth a'r rhai sydd wedi cyflawni troseddau neilltuol yn erbyn plant;
- **Categori 3**: troseddwyr eraill sydd heb fod yn Nghategori 1 neu 2 ond y mae'r awdurdod cyfrifol yn dal i'w hystyried fel rhai sy'n achosi perygl difrifol i'r cyhoedd.

Mae troseddwyr yn cael eu hatgyfeirio at y drefn MAPPA ar ôl eu cael yn euog o drosedd berthnasol. Ar ôl cael eu hatgyfeirio at MAPPA, dylid mynd ati ym mhob achos unigol i wneud asesiad trwyadl a chadarn o'r perygl. Dylai pob ardal fod wedi penodi cyd-drefnydd MAPPA y mae modd cysylltu ag e trwy unrhyw un o'r awdurdodau cyfrifol lleol.

Mae rheolwyr sy'n arwain ar ran yr heddlu, y gwasanaeth prawf, carchardai a nifer o asiantaethau eraill sydd â dyletswydd i gydweithredu a dau gynghorydd lleyg yn perthyn i Fwrdd Rheoli Strategol MAPPA ym mhob ardal.

Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Gwasanaeth Carchardai sy'n gyfrifol am asesu'r perygl dan drefniadau MAPPA. Mae'r gwasanethau hyn yn asesu'r perygl o niwed gan ddefnyddio'r System Asesu Troseddwyr (OASys). Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn defnyddio ASSET ar gyfer pobl ifanc dan 18 mlwydd oed. Mae'r pwyntiau sy'n dilyn yn disgrifio'r lefelau o berygl:

- **Isel**: dim dangosyddion arwyddocaol o berygl o achosi niwed ar hyn o bryd;
- **Canolig**: rhai dangosyddion o berygl o achosi niwed ar hyn o bryd. Mae'r potensial gan y troseddwr i achosi niwed ond mae'n annhebygol o wneud hynny oni bai fod newid yn ei amgylchiadau, er enghraifft, methu cymryd meddyginiaeth, colli ei gartref, perthynas yn chwalu, camddefnyddio cyffuriau neu alcohol;
- **Uchel**: mae dangosyddion ar hyn o bryd o'r perygl o achosi niwed difrifol. Gallai'r niwed ddigwydd ar unrhyw adeg a byddai ei effeithiau'n ddifrifol;
- **Uchel iawn**: mae perygl ei fod ar fin achosi niwed. Mae'n fwyaf tebygol fod y digwyddiad ar fin digwydd a byddai ei effeithiau'n ddifrifol.

Mae perygl yn cael ei ddosbarthu yn ôl y bobl a allai fod yn destun i'r math hwnnw o niwed. Mae hyn yn cynnwys plant a allai fod yn agored i wahanol

fathau o niwed, yn cynnwys ymddygiad rhywiol neu dreisiol, niwed emosiynol neu esgeulustod. Yn y cyd-destun hwn, rhaid i MAPPA weithio'n agos gyda'r Byrddau Lleol i gynnig y trefniadau lleol, ar y cyd, gorau posib ar gyfer unrhyw blentyn sy'n dod i sylw'r naill gyd-destun a'r llall.

Mae fframwaith MAPPA'n adnabod tair lefel ar wahân, ond mae cyswllt rhwng y tair, ar gyfer asesu a rheoli perygl:

- **Lefel 1** lle mae'r perygl yn cael ei reoli'n gyffredinol: byddai hon yn sefyllfa lle y gallai un asiantaeth reoli'r peryglon sydd ynghlwm â'r troseddwr, heb orfod cael cyfraniad sylweddol gan asiantaethau eraill;
- **Lefel 2** lle mae amryw o asiantaethau'n rheoli'r perygl yn lleol: mae'r patrwm yma i'w weld pan mae gofyn cyfraniad sylweddol gan fwy nag un asiantaeth, ond nid yw lefel y perygl neu gymhlethdod y broses o'i reoli'n mor fawr fel bod angen atgyfeirio ar lefel 3;
- **Lefel 3** MAPPP (Paneli Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd): Mae hwn yn ymwneud â'r "lleiafrif difrifol" sydd wedi cael eu hasesu dan OASys/ASSET fel rhai sy'n achosi perygl uchel neu uchel iawn o niwed difrifol.

4.11.1 Y camau gweithredu gofynnol pan mae MAPPA yn adnabod perygl i blentyn/blant

Pan mae asesiad yn awgrymu bod perygl canolig neu uchel i droseddwr achosi niwed i blentyn neu blant, y cyd-drefnydd MAPPA sy'n gyfrifol am atgyfeirio'r achos at y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu. Bydd yr asiantaethau hyn yn ystyried a oes angen cynnull cyfarfod strategaeth.

Rhaid i'r cyfarfod strategaeth:

- Ystyried ble mae'r troseddwr yn bwriadu byw, lleoliad y cartref a'r cyfle a fydd ganddo i ddod i gyswllt â phlant;
- Ystyried diogelwch ac anghenion yr **holl** blant sy'n byw yn y cartref mae'r troseddwr yn bwriadu symud iddo neu'r plant y bydd y troseddwr yn dod i gyswllt â nhw, gyda sylw arbennig i'w hoedran, eu gallu i ddeall, unrhyw anghenion arbennig a chyswllt blaenorol.
- Penderfynu a oes angen gwneud ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47, a/neu ystyried a oes angen asesiad o anghenion plentyn cyn cynnig gwasanaeth sy'n ei ddiogelu ac yn hybu ei les;
- Penderfynu a oes angen adnabod unrhyw blant eraill y mae'r troseddwr wedi dod i gyswllt â nhw yn y gorffennol;
- Nodi'r wybodaeth mae MAPPA wedi'i rhoi am y troseddwr i ysgolion, grwpiau gwirfoddol ac eraill, ac ystyried a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach i ddiogelu plant neilltuol

- Creu cynllun wrth gefn ac, os oes angen, cynnull cynhadledd amddiffyn plant.

Rhaid cofnodi trafodaethau'r cyfarfod yn llawn, yn cynnwys cofnodi unrhyw resymau dros benderfynu i beidio â chymryd camau pellach.

4.11.2 Y gynhadledd amlasiantaethol asesu'r perygl o drais yn y cartref (MARAC)

Proses yw MARAC (Cynhadledd amlasiantaethol ar gyfer asesu perygl) i fynd ati i ddiogelu ac amddiffyn pobl sydd mewn perygl o gael rhywun yn ymosod arnyn nhw neu'n eu llofruddio yn sgil cam-drin domestig. Cyfrifoldeb amlasiantaethol yw amddiffyn dioddefwyr a'u plant yn effeithiol. Mae partneriaeth o asiantaethau cyfiawnder troseddol, cyrff statudol eraill a gwasanaethau o'r sector gwirfoddol yn dod i'r fath gynhadledd er mwyn hwyluso'r broses o asesu perygl.

Mae trefn MARAC yn ffordd o symud y cyfrifoldeb dros gam-drin domestig oddi wrth y dioddefwr i grŵp eang o asiantaethau.

Mewn llawer o sefyllfaoedd lle mae perygl uchel, gall dioddefwyr fynd yn fwy a mwy goddefol a derbyn eu sefyllfa heb weld ffordd o'i newid. Gall hyn eu gwneud nhw'n amharod iawn i ofyn am help. Mae MARAC yn erfyn pwysig iawn yn y broses o roi sylw i'w diogelwch.

Mae cyfarfod MARAC yn cyfuno gwybodaeth ddiweddar iawn am y perygl gyda asesiad trwyadl o anghenion dioddefwr. Mae'n cysylltu'r cyrff sy'n cynnig gwasanaethau i'r dioddefwr, i'w blant ac i'r sawl sy'n achosi'r cam-drin domestig.

4.11.2.1 Amcanion y MARAC

Amcanion y gynhadledd MARAC yw:

- Rhannu gwybodaeth er mwyn gwella diogelwch, iechyd a lles dioddefwyr, oedolion a'u plant;
- Gwneud pobl yn fwy ymwybodol o effeithiau cam-drin domestig ar blant;
- Cytuno ar gynllun i reoli'r perygl, a rhoi'r cynllun ar waith;
- Lleihau'r achosion o gam-drin yn digwydd tro ar ôl tro;
- Penderfynu a yw'r camdriniwr yn creu perygl arwyddocaol i unrhyw unigolyn penodol neu i'r gymuned gyffredinol;
- Lleihau'r achosion o lofruddiaethau a cham-drin domestig;
- Atal cam-drin plant;
- Sicrhau atebolrwydd asiantaethau;

- Darparu cefnogaeth ar gyfer staff a gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud ag achosion difrifol o gam-drin domestig.

Gallai'r gynhadledd MARAC argymell i achos gael ei gyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol. Yn yr un ffordd, gallai cynhadledd MARAC gael ei hargymell ar unrhyw adeg pan mae'r gwasanaethau cymdeithasol wrthi'n gwneud asesiad, a rhaid bod trefniadau'n bodoli i'r ddwy broses rannu gwybodaeth.

Mae gwaith ymchwil yn dangos bod effaith ar bob agwedd ar fywydau plant sy'n byw gyda cham-drin domestig – eu diogelwch, eu hiechyd, eu presenoldeb yn yr ysgol, eu cyraeddiadau addysgol, eu lles economaidd a'u datblygiad emosiynol a chymdeithasol. Yn yr achosion mwyaf difrifol, mae plant mewn perygl o ddioddef anafiadau difrifol neu o gael eu lladd.

Mae'r asiantaethau sy'n perthyn i MARAC yn cydnabod bod cam-drin domestig a cham-drin plant yn gorgyffwrdd. Mae'r diffiniad cyfreithiol o niwed i blant wedi cael ei ymestyn i gynnwys rhai sy'n byw mewn cartrefi lle mae cam-drin domestig yn digwydd. Diwygiad, *Adran 120, Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002*.

4.12 Diogelu plant sy'n ymweld â charcharorion sy'n oedolion

Pwrpas y canllawiau hyn yw cynnig fframwaith o ganllawiau ar gyfer rheoli'r cyswllt rhwng plant a'u rhieni/gwarcheidwaid neu berthnasau agos y mae pryder eu bod nhw'n achosi perygl i'r plant neu i blentyn neilltuol. Bydd gofyn i weithwyr proffesiynol farnu, fel rhan o'r broses o wneud asesiad cyffredinol, ynglŷn ag unrhyw gyswllt rhwng carcharor a phlentyn.

Mae Strategaeth Amddiffyn y Cyhoedd y Gwasanaeth Carchardai'n dweud:

- Yr egwyddor gyffredinol yw mai lles y plentyn yw'r peth pwysicaf un;
- Dylai unrhyw gyswllt fod er budd gorau'r plentyn;
- Mae angen gwneud asesiad perygl o'r carcharor ac asesiad lles gorau'r plentyn er mwyn penderfynu pa fath o gyswllt a fyddai'n briodol, os bydd unrhyw gyswllt o gwbl;
- Mae cyswllt yn cynnwys gohebiaeth, galwadau ffôn ac ymweliadau;
- Mae unrhyw un dan 18 mlwydd oed yn cyfrif fel plentyn dan oed.

Yr egwyddor gyffredinol wrth wneud unrhyw benderfyniadau yw diogelu a hybu lles plant. Wrth asesu trefniadau cyswllt ar gyfer plentyn, dylai'r gwasanaethau cymdeithasol ymgynghori â'r carchar a rhoi sylw i ddymuniadau a theimladau'r plentyn. Rhaid cydymffurfio ag unrhyw

orchymynion y mae llys wedi'i wneud o ran y cyswllt rhwng plentyn a phobl sydd wedi'u henwi. Bydd y fath orchymyn yn cael blaenoriaeth dros y canllawiau hyn. Os yw gorchymyn yn gwahardd neu'n cyfyngu ar y cyswllt â charcharor, ac mae gweithiwr cymdeithasol yn goruchwylio'r plentyn, rhaid i'r gweithiwr cymdeithasol ofalu bod Llywodraethwyr/Cyfarwyddwr y Carchar yn cael gwybod am y gorchymyn a thelerau'r cyfyngiad.

Llywodraethwr y carchar sy'n bennaf gyfrifol am drefniadau ymweld.

4.12.1 Adnabod carcharorion a allai niweidio plant

Mae dyletswydd ar garchardai i adnabod y carcharorion:

- Sydd wedi'u cael yn euog neu wedi'u cyhuddo o drosedd rhyw yn erbyn plentyn;
- Sydd wedi'u cael yn euog yn flaenorol am drosedd rhyw yn erbyn plentyn;
- Sydd wedi'u cael yn euog neu wedi'u cyhuddo o lofruddio plentyn neu o ymosod ar blentyn;
- Sydd wedi'u cyhuddo neu eu cael yn euog o gam-drin domestig ac roedd plentyn yn rhan o'r achos;
- Sydd wedi'u cyhuddo neu eu cael yn euog o drosedd oedd yn golygu cam-drin emosiynol neu esgeuluso plentyn;
- Ymddwyn tra'r oedden nhw yn y ddalfa mewn unrhyw ffordd sy'n awgrymu bod perygl iddyn nhw niweidio plentyn;
- Mae asiantaethau eraill wedi rhoi gwybod bod perygl i'r carcharor niweidio plentyn.

Mae dyletswydd ar garchardai i fynd ati i asesu'r perygl er mwyn penderfynu a oes perygl i droseddwr neilltuol niweidio plant.

Rhaid i'r fath asesiad roi sylw i:

- batrwm o ymddygiad;
- oedran y carcharor ar adeg y drosedd;
- p'un ai yw carcharor yn sylweddoli pa mor ddifrifol oedd ei ymddygiad.

Cyn gynted ag y bydd asesiad yn dangos bod carcharor yn achosi *Perygl i Blant*, ni fydd yn cael cysylltu mewn unrhyw ffordd ag unrhyw blentyn, waeth beth yw ei statws fel carcharor (hynny yw, wedi'i gael yn euog neu ar remand). Mae carcharorion yn cael gwybod am y penderfyniad ac yn cael cyfle i wneud cais am gyswllt â phlentyn.

4.12.2 Y drefn asesu

Yn unol â llawlyfr amddiffyn y cyhoedd y gwasanaeth carchardai, gall troseddwr wneud cais am gyswllt â:

- Ei blant ei hun;
- Plant ei frodyr a'i chwiorydd; ac,
- Mewn amgylchiadau eithriadol, ei wyrion a'i wyresau.

Pan mae carcharor yn gofyn am gael ymweliad gan blentyn, y carchar sy'n gyfrifol am asesu'r troseddwr.

Bydd gofyn i'r gwasanaeth carchardai ysgrifennu at brif ofalwr y plentyn i ofyn am ei ganiatâd i'r cyswllt fynd yn ei flaen. Bydd rhaid cysylltu â rhiant y plentyn neu'r sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant drosto i ofyn am eu caniatâd hefyd. Rhaid gwrando ar farn y plentyn neu'r person ifanc hefyd a rhoi sylw i'w farn.

Os bydd y cyswllt yn cael ei gefnogi, bydd asesiad llawn yn cael ei wneud o'r perygl. Bydd cais am gymorth yn cael ei anfon i'r gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu a'r gwasanaeth prawf. Bydd disgwyl i'r asiantaethau hyn roi adroddiad ysgrifenedig.

Bydd y gwasanaeth carchar yn cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol i ofyn am asesiad i ddangos a yw ymweliad y plentyn yn addas ai peidio. Dylai'r gwasanaethau cymdeithasol ymateb os ydyn nhw'n gwybod am y plentyn a/neu'r teulu. Os yw'r plentyn yn blentyn sy'n derbyn gofal, rhaid gofyn ym mhob achos am farn y gwasanaethau cymdeithasol.

Os nad yw'r prif ofalwr, sydd â chyfrifoldeb rhiant neu mae'n rhannu'r cyfrifoldeb, yn fodlon i'r cyswllt â'r carcharor fynd yn ei flaen, yna ni fydd y carcharor yn cael hawl i weld y plant. Ni fydd asesiad llawn o'r perygl yn cael ei wneud.

Pan mae'r carchar wedi cael yr holl asesiadau, bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynglŷn â lefel y cyswllt y mae gan y carcharor hawl i'w gael. Yn achos cyswllt carcharor â'i wyrion a'i wyresau, Llywodraethwr neu Gyfarwyddwr y carchar fydd yn penderfynu'n derfynol.

Mae pedair lefel o gyswllt:

Lefel 1 Nid oes hawl i gael unrhyw gyswllt;

Lefel 2 Gohebiaeth ysgrifenedig yn unig;

Lefel 3 Cyswllt ysgrifenedig a galwadau ffôn;

Lefel 4 Cyswllt llawn, yn cynnwys ymweliadau, post a galwadau ffôn.

Gall troseddwr apelio yn erbyn penderfyniad. Rhaid iddo wneud hynny trwy drefn fewnol y carchar. Mae pob achos yn cael ei adolygu o leiaf bob chwe mis.

4.12.3 Diogelu buddiannau plant

Dim ond troseddwyr sydd wedi mynd trwy asesiad trwyadl o'r perygl fydd â hawl i gael cyswllt â phlant.

Bydd ffotograff o'r plentyn yn cael ei ddal yn y dderbynfa ac yn y man ymweld. Bydd pob plentyn yn cael ei adnabod wrth gyrraedd y carchar ac unwaith eto wrth iddo gyrraedd y neuadd ymweliadau. Os bydd plentyn yn dod i garchar heb ganiatâd i weld y carcharor, ni fydd yn cael mynd at y carcharor. Bydd staff carchardai'n monitro ymweliadau'n ofalus iawn.

RHAN 5

5. Protocolau Cymru Gyfan ar gyfer diogelu plant mewn amgylchiadau penodol

5.1 Rhagarweiniad

Mae'r canllawiau *Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004* yn gofyn bod Byrddau Lleol Diogelu Plant wedi creu nifer o brotocolau aml-asiantaethol penodol ar gyfer amddiffyn plant. Mae'n bosib datblygu'r protocolau'n lleol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol. Un o ddyletswyddau Grŵp Adolygu Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yw ymgymryd â'r gwaith hwn ar ran y Byrddau Lleol Diogelu Plant yng Nghymru. Dylai pob Bwrdd unigol dderbyn a chymeradwyo pob un o'r protocolau amddiffyn plant aml- asiantaethol cyn iddyn nhw gael eu rhoi ar waith. Dylid eu hadolygu'n rheolaidd.

Mae Adroddiad Clywch yn argymell y dylai pob Bwrdd Lleol gadw cofrestr o'r protocolau amddiffyn plant, yn cynnwys protocolau amddiffyn plant asiantaethau unigol sy'n cael eu cyhoeddi yn eu hardal.

Mae'r canllawiau'n gofyn i Fyrddau Lleol Diogelu Plant fod â'r protocolau amddiffyn plant sy'n dilyn.

	Teitl y Protocol	**Fersiwn Cymru Gyfan ar gael fel dogfen ar wahân**	**Wedi'i gynnwys yn y Canllawiau**		**Gofyn i Fwrdd Lleol Diogelu Plant fod â fersiwn**
1	Protocol ar gyfer Ymholiadau / Ymchwiliadau Amddiffyn Plant (Adran 47 Deddf Plant 1989)				√
2	Datrys Gwahaniaethau Proffesiynol				√

3	Protocol ar gyfer rhannu gwybodaeth wrth asesu plant mewn angen a phlant y mae angen eu hamddiffyn				√
4	Mynd at y Gofrestr Amddiffyn Plant a gwneud ymholiadau iddo		√	**3.26**	
5	Presenoldeb mewn cynadleddau amddiffyn plant (yn cynnwys cworwm)		√	**3.14.3**	
6a	Cynnwys plant, a chyfleu barn, dymuniadau a theimladau plentyn mewn cynadleddau amddiffyn plant		√	**3.14.4**	
6b	Cynnwys oedolion â chyfrifioldeb rhiant neu ofalwyr plentyn, a chyfleu eu barn, dymuniadau a theimladau mewn cynadleddau amddiffyn plant		√	**3.14.5**	
7	Dod i benderfyniad mewn cynadleddau amddiffyn plant lle nad		√	**3.14.16**	

	yw pawb yn cytuno				
8	Delio â chwynion gan deuluoedd ynglŷn â chynadleddau amddiffyn plant		√	**5.2**	
9	Trefniadau cydweithio ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CSSIW)				√
10	Symudiadau achosion amddiffyn plant a phlant agored i niwed rhwng gwahanol awdurdodau lleol		√	**3.27** **3.28**	
11	Diogelu plant sy'n dioddef o salwch ffug neu salwch gwneud		√	**5.3**	
12	Diogelu plant mewn perygl o ddioddef Camfanteisio Rhywiol				√
13	Cynnig therapi i dystion sy'n blant cyn mynd i lys				√
14	Plant yn ymweld ag				√

	ysbytai seiciatrig diogel				**(os yw'n berthnasol)**

Mae Grŵp Adolygu Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn argymell y dylai Byrddau Lleol Diogelu Plant fod â'r protocolau sy'n dilyn. Mae rhai (neu bydd rhai) ar gael fel fersiynau ar gyfer Cymru gyfan:

	Teitl y Protocol	**Fersiwn Cymru Gyfan ar gael fel dogfen ar wahân**	**Wedi'i gynnwys yn Rhan 5**		**Gofyn i Fwrdd Lleol Diogelu Plant fod â fersiwn**
15	Yr effaith ar y plentyn/plant pan mae teulu'n cael profiad o salwch/anhwylder meddwl	**I'w ddatblygu**			√
16	Effaith teuluoedd sy'n camddefnyddio sylweddau neu alcohol ar y plentyn/plant	**I'w ddatblygu**			√
17	Effaith Cam-drin Domestig ar y plentyn/plant	**I'w ddatblygu**			√
18	Plant sydd ar goll o'u cartrefi neu o ofal awdurdod lleol	**I'w ddatblygu**			√
19	Protocol Aml-asiantaethol Cymru Gyfan ar gyfer Marwolaethau Sydyn Annisgwyl Babanod a Phlant (SUDI)	√			

20	Protocol Anffurfio Organau Cenhedlu Merched	√			
21	Diogelu a Hybu Lles Pobl Ifanc sy'n Weithredol yn Rhywiol		√	**5.4**	
22	Rheoli plant ag arwyddion o ymddygiad rhywiol niweidiol				√
23	Amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin trwy dechnoleg gwybodaeth		√	**5.5**	
24	Adolygiadau Achosion Difrifol				√
25	Diogelu plant o fewn trefniadau benthyg croth				√
26	Plant ar wyliau cyfnewid				√
27	Plant teuluoedd sy'n ceisio Lloches				√ **(cyfeiriwch hefyd at**

					4.10)
28	Diogelu plant rhag cael eu cam-drin ar sail cred bod ysbrydion yn eu meddiannu				√ **(cyfeiriwch hefyd at 5.6)**

Mae'n bosib mynd at brotocolau Cymru Gyfan sydd yn ddogfennau ar gyfer Cymru Gyfan (ond sydd heb eu cynnwys yn y Canllawiau hyn) ar www.awcpp.org.uk.

Hefyd, mae templed enghreifftiol ar gael ar y wefan hefyd ar gyfer cronoleg Adolygiad Achos difrifol.

PROTOCOL
CYMRU GYFAN

Delio â chwynion

gan

Deuluoedd

am

Weithrediad

Cynhadledd

Amddiffyn Plant

5.2 Delio â chwynion gan blant, rhieni a'r rhai sy'n roi gofal am weithrediad cynhadledd amddiffyn plant

Efallai fydd gan rieni, rhai sy'n rhoi gofal a phlant sy'n rhan o broses cynhadledd bryderon y byddan nhw am drafod gyda rhywun neu wneud cwyn amdanynt ynghyd-destun yr agweddau dilynol;

- Gweithrediad y gynhadledd o ran cadw at ganllawiau;
- Y penderfyniad i gofrestru, yn cynnwys y categori;
- Penderfyniad i beidio â chofrestru neu i ddadgofrestru.

Rhaid anfon cwynion at gadeirydd y gynhadledd o fewn 14 diwrnod gwaith i ddyddiad anfon cofnodion y gynhadledd. Efallai y bydd angen help ar y sawl sy'n gwneud y gwyn i ysgrifennu'r gwyn yn ffurfiol. Dylai'r sawl sy'n cwyno gytuno ar y gwyn, a'i llofnodi. Dylai'r cadeirydd roi gwybod am y gwyn i'r uwch reolwr yn y gwasanaethau cymdeithasol sy'n gyfrifol am amddiffyn plant.

Bydd y cadeirydd yn ceisio datrys y gwyn o fewn saith niwrnod i'r dyddiad y daeth i law.

Os nad yw'n bosib datrys y gwyn, dylai'r cadeirydd roi gwybod i'r uwch reolwr sy'n gyfrifol am amddiffyn plant fod y sawl sy'n cwyno'n awyddus i fynd â'r gwyn yn ei blaen i'r cam nesaf, sef panel rhyngasiantaethol y Bwrdd Lleol Diogelu Plant.

5.2.1 Panel y Bwrdd Lleol Diogelu Plant

Bydd yr uwch reolwr sy'n gyfrifol am amddiffyn plant yn cynnull cyfarfod o banel rhyngasiantaethol y Bwrdd Lleol Diogelu Plant. Mae gan y panel hwn 25 ddiwrnod gwaith o'r dyddiad y cafodd y gwyn ei **llofnodi** i roi gwybod am eu darganfyddiadau i'r sawl sy'n gwneud y gwyn.

Dylai aelodaeth y panel gynnwys o leiaf tri o uwch gynrychiolwyr yr asiantaethau sy'n perthyn i'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant. Bydd un o'r tri'n cadeirio'r panel. Ni ddylai'r panel gynnwys unrhyw un sydd wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r achos dan sylw.

Dylai'r sawl sy'n gwneud y gwyn gael cyfle i ddod i'r cyfarfod i roi datganiad i'r panel neu i'w gyflwyno'n ysgrifenedig, ac i alw tystiolaeth ynglŷn â'i gwyn. Bydd ganddo hawl i ddod ag eiriolwr a/neu gynghorwr cyfreithiol i'r cyfarfod.

Gall y panel a'r sawl sy'n gwneud y gwyn alw tystion.

Bydd y panel yn penderfynu:

- P'un ai wnaeth y broses a ddilynwyd gadw at Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan;

- P'un ai yw'r penderfyniad sy'n sail i'r gwyn yn dilyn yn rhesymol o'r broses o gadw at y canllawiau yn gywir;
- P'un ai yw'r penderfyniad sy'n sail i'r gwyn yn dilyn yn rhesymol o'r wybodaeth a oedd ar gael i'r gynhadledd wreiddiol.

Bydd cadeirydd y panel yn rhoi gwybod am benderfyniad y panel i'r sawl sy'n gwneud y gwyn.

Bydd y penderfyniad yn cael ei anfon yn ysgrifenedig ac yn cael ei anfon hefyd at:

- Y plentyn, yn unol â'i oed a'i ddealltwriaeth
- Unrhyw riant neu ofalwr arall
- Unrhyw berson arall â chyfrifioldeb rhiant
- Aelodau o'r gynhadledd amddiffyn berthnasol
- Cadeirydd y gynhadledd amddiffyn plant dan sylw

5.2.2 Os yw'r gwyn yn cael ei chadarnhau:

Bydd y panel yn cyfeirio'u hargymhellion at gynhadledd amddiffyn plant sydd wedi'i hailgynnull. Bydd y gynhadledd yn edrych eto ar y penderfyniad i gofrestru, ac ar y categori.

Rhaid enwebu cadeirydd gwahanol ar gyfer y gynhadledd. Rhaid ailgynnull y gynhadledd o fewn 15 diwrnod gwaith i ddyddiad penderfyniad y panel. Bydd penderfyniad gwreiddiol y gynhadledd yn sefyll tan fydd yr ail gynhadledd wedi cael ei chynnal.

Rhaid i'r gynhadledd roi sylw i argymhellion y panel wrth ystyried a yw'r meini prawf ar gyfer cofrestru'n cael eu bodloni.

Os yw'r meini prawf ar gyfer cofrestru wedi'u bodloni, dylai cadeirydd y gynhadledd benderfynu wedyn pa gategori o gofrestru sy'n berthnasol.

5.2.3. Cwynion sydd heb eu datrys

Dylai Byrddau Lleol Diogelu Plant ystyried gwneud eu trefniadau eu hunain er mwyn delio gyda chwynion heb eu datrys.

5.2.4. Adroddiadau

Dylai'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant ofalu bod adroddiadau'n cael eu creu bob chwarter blwyddyn ar unrhyw gwynion a wnaed, y canlyniadau a chrynodeb o'r materion oedd dan sylw.

5.2.5 Siart Llif 6: Delio â chwynion am Gynadleddau Amddiffyn Plant



PROTOCOL
CYMRU GYFAN

Diogelu Plant sy'n dioddef o Salwch Ffug neu Salwch Gwneud

2007

Yn disodli fersiwn blaenorol 2004

5.3 Protocol Salwch Ffug

Cyhoeddwyd y polisi hwn yn flaenorol yn 2004, ac fe'i ail-gyhoeddir fel diweddariad ar gyfer y Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan newydd 2007

Ffurf ar gam-drin, nid cyflwr meddygol, yw salwch ffug neu salwch gwneud mewn plant.

5.3.1

Yn 2002, cyhoeddodd yr Adran Iechyd, y Swyddfa Gartref, yr Adran Addysg a Sgiliau a Llywodraeth Cynulliad Cymru ganllawiau cynhwysfawr dan statud, sef *Safeguarding Children in Whom Illness is Fabricated or Induced.*

- Mae'r canllawiau'n cynnig fframwaith cenedlaethol ar gyfer pob asiantaeth, ac yn argymell y dylid creu canllawiau mwy penodol a manwl yn lleol;
- Ar ben hynny, cyhoeddodd Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH) adroddiad ei weithgor ei hun yn 2001/02;
- Mae'r canllawiau'n rhoi disgrifiad llawn o salwch ffug, ac mae'n rhoi sylw arbennig i gymhlethdodau gweithio gyda theuluoedd;
- Rhaid cymryd y polisi cenedlaethol *Safeguarding Children in whom Illness is Fabricated/Induced* a'r protocol hwn ar gyfer Cymru Gyfan fel atodiadau i'r dogfennau *Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan* a *Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004* (2006);
- Dylai fod modd i unrhyw ymarferwr fynd at y dogfennau hyn, a rhaid eu darllen ar y cyd â'r protocol hwn;
- Mae pecyn hyfforddi ar gael bellach i weithwyr proffesiynol: **'Incredibly Caring'** (www.radcliffe-oxford.com).

5.3.1.1

Dylid rheoli atgyfeiriadau ym maes salwch ffug neu salwch gwneud yn unol â Rhan 3 o'r Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2007 (Y Broses Amddiffyn Plant) a'r protocol hwn.

- **Pan mae un sy'n rhoi gofal yn ffugio arwyddion a symptomau salwch bydd y plentyn yn cael ei niweidio p'un a yw'r un sy'n rhoi gofal yn gwneud rhywbeth uniongyrchol iddo**

NEU

- o ganlyniad i archwiliadau a thriniaethau meddygol diangen.

Rhaid i bob gweithiwr proffesiynol ym mhob asiantaeth fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd o salwch ffug.

Rhaid ystyried yn ofalus y derminoleg mae rhywun yn ei defnyddio a'r meini prawf diagnostig.

Dylid cadw'r termau salwch ffug a salwch gwneud ar gyfer rhieni sy'n niweidio plentyn neu mewn perygl o'i niweidio yn sgil salwch y maen nhw'n fwriadol yn ei ffugio neu'n ei achosi.

Bydd sbectrwm yr achosion yn amrywio o rai ysgafn iawn i rai difrifol iawn a rhai sy'n rhoi peryglu bywyd.

5.3.1.2 Gallai'r rhain fod yn amlwg:

- Gorliwio salwch a symptomau go iawn;
- Ffugio symptomau fel apnoea wrth gysgu, ffitiau, pyliau o asthma ac alergedd;
- Ffugio arwyddion, profion a chofnodion trwy, er enghraifft, ychwanegu gwaed neu siwgr at wrin neu greu cofnodion ffug o dymheredd;
- Creu salwch corfforol trwy, er enghraifft, wenwyno, mygu, newynu neu fwyta diet anaddas;
- Marwolaeth annisgwyl sydyn baban neu blentyn;
- Honiadau ffug o gam-drin;
- Annog neu orfodi plentyn i ymddangos yn anabl yn cynnwys anabledd dysgu, a/neu hawlio triniaethau arbenigol neu gyfarpar diangen ar gyfer y plentyn.

5.3.2 Er bod salwch ffug yn anarferol, dylai pob gweithiwr proffesiynol, yn arbennig rhai ym maes iechyd, ei ystyried wrth wneud diagnosis, ac wrth drin a gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

5.3.2.1 Os yw rhywun yn amau salwch ffug, mae angen atgyferio'r achos at y gwasanaethau cymdeithasol.

Pan mae'r fath bryderon yn codi:

- Mae angen i bob gweithiwr proffesiynol ym mhob asiantaeth ystyried yr angen i ofyn yn gynnar am gyngor gweithiwr proffesiynol uwch;
- Rhaid bod yn arbennig o ofalus wrth benderfynu a ddylid rhannu'r pryderon â'r teulu yn y cam hwn. Dylid gwneud hynny dim ond pan yw'n glir nad yw'n rhoi'r plentyn mewn rhagor o berygl. Mae hwn yn

achos sy'n wahanol i'r rheol arferol o weithio mewn partneriaeth gyda rhieni;

- Nid cyfrifoldeb gweithiwr asiantaeth unigol yw ystyried a ddylid rhannu pryderon â'r teulu. Dylai fod yn gyfrifoldeb aml- asiantaethol, o bosib wedi ei benderfynu mewn cyfarfod proffesiynol/strategaeth ar ôl i'r asesiad cychwynnol gael ei weithredu;
- Rhaid mynd ati i weithredu yn ôl amserlen na fydd yn amharu ar anghenion y plentyn;
- **RHAID** i bob gweithiwr proffesiynol gadw cofnodion clir, cywir a chyfoes.

5.3.2.2 Bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn mynd ati wedyn i wneud asesiad cychwynnol, a bydd cyfarfod strategaeth yn cael ei gynnal yn unol â'r canllawiau amddiffyn plant. Bydd gweithwyr proffesiynol uwch o bob asiantaeth berthnasol yn dod i'r cyfarfod strategaeth:

- Uwch reolwr / arweinydd tîm / gweithiwr cymdeithasol o'r gwasanaethau cymdeithasol;
- Y meddyg penodol a'r nyrs benodol neu weithiwr cyfatebol;
- Uwch swyddog ymchwilio'r heddlu;
- Cynghorydd cyfreithiol yr awdurdod lleol;
- Y meddyg teulu;
- Gweithwyr eraill o'r proffesiynau iechyd yn ôl y galw (sydd naill ai'n ymwneud â'r teulu neu'n rhoi cyngor arbenigol);
- Unrhyw asiantaethau eraill, yn cynnwys gwasanaethau addysg, yn ôl y galw.

5.3.2.3 Ar ôl penderfynu bod angen cynnull cyfarfod strategaeth;

Bydd y cyfarfod strategaeth yn:

- Rhannu gwybodaeth a chynllunio creu cronoleg fanwl o'r holl faterion gan adnabod a chadarnhau'r arwyddion a'r symptomau amlwg. Mae cyfrifoldeb arbennig ar y gweithwyr iechyd i esbonio arwyddocâd y wybodaeth feddygol. Efallai y byddai creu llinell amser o'r wybodaeth sydd ar gael o fantais hefyd;
- Cadarnhau enwau'r gweithwyr proffesiynol allweddol o'r gwasanaethau iechyd a'r asiantaethau eraill;
- Cadarnhau a chadw'r nifer yn isel efallai o weithwyr proffesiynol o'r gwasanaeth iechyd a fydd yn gweld y plentyn, er enghraifft, gofalu mai'r un meddyg teulu sy'n ymateb i geisiadau i'r plentyn gael ei weld;

- Pwyso a mesur yr angen i weld cofnodion iechyd y teulu. Dylai'r nyrs neu'r meddyg penodol neu'r rhai sydd wedi'u dynodi hyrwyddo hyn;
- Penderfynu a ddylid rhannu gwybodaeth â'r teulu ai peidio. (Mae salwch ffug yn eithriad i'r drefn "Gweithio mewn partneriaeth gyda'r rhieni".);
- Pwyso a mesur trefniadau amddiffyn addas ar gyfer y plentyn;
- Ystyried a oes angen gofyn am farn arbenigol gan weithwyr iechyd proffesiynol neu weithiwr proffesiynol gofal plant sy'n annibynnol o'r achos. Gellid gofyn am farn gweithiwr proffesiynol sy'n arbenigo ar salwch ffug a/neu weithiwr proffesiynol sy'n arbenigo ar y diagnosis targed;
- Gofalu bod pob asiantaeth yn deall yr angen i gydweithio'n agos ac i gyfnewid gwybodaeth yn gyson;
- Dim ond ar ôl ei thrafod yn drwyadl yn y cyfarfod strategaeth y dylid ystyried rhoi gwyliadwriaeth fideo gudd ar waith. Dim ond yr heddlu all ei rhoi ar waith ac, wrth wneud hynny, rhaid iddyn nhw gadw at eu canllawiau a chydymffurfio â Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000;
- Datblygu cynllun gweithredu clir er mai casglu rhagor o wybodaeth fydd y camau nesaf mewn llawer o achosion, yn arbennig os yw'r atgyfeiriad newydd gael ei wneud;
- Pwysleisio y gallai fod angen i bob asiantaeth ofyn am gyngor cyfreithiol. Efallai y bydd angen i'r cynghorwyr cyfreithiol gwrdd yr holl weithwyr proffesiynol perthnasol, yn arbennig mewn achosion cymhleth;
- Penderfynu oes angen cychwyn ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47;
- Ystyried yr angen i gynnal rhagor o gyfarfodydd strategaeth;
- Bydd angen i'r cyfarfod gynghori a oes angen cadw llygad ar y sefyllfa tymor hir;
- Bydd angen ysgrifennu cofnodion y cyfarfod a dewis yn ofalus pwy sydd i gael copi;
- Ystyried anghenion y gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r teulu, a chynnig cefnogaeth a goruchwyliaeth iddyn nhw.

Efallai y bydd gofyn cynnal cyfres o gyfarfodydd strategaeth dan ganllawiau amddiffyn plant cyn penderfynu mynd ymlaen i gynnal cynhadledd amddiffyn plant.

5.3.3 Gweithredu pwrpasol gan Fyrddau Lleol Diogelu Plant:

Mae angen i bob Bwrdd ofalu:

- bod pob asiantaeth yn enwebu gweithwyr proffesiynol allweddol, a chadw rhestr o'r holl enwau;
- bod modd cael barn feddygol arbenigol yn rhwydd, a gwneud hynny trwy'r gwasanethau iechyd.

RHESTR Y BYRDDAU O WEITHWYR PROFFESIYNOL "ALLWEDDOL"

(Pob Bwrdd Lleol Diogelu Plant i greu rhestr)

Gweithwyr Proffesiynol wedi'u Henwi i ddelio â Salwch Ffug:

- **Gweithwyr proffesiynol allweddol y sector Iechyd**
- **Gweithwyr proffesiynol allweddol y Gwasanaethau Cymdeithasol**
- **Gweithwyr proffesiynol allweddol y Gwasanethau Addysg**
- **Gweithwyr proffesiynol allweddol yr Heddlu, yn cynnwys rhai sy'n gyfrifol am wyliadwriaeth fideo gudd**
- **Gweithwyr proffesiynol allweddol Cyfreithiol a fydd yn gallu gael gafael ar gyngor meddygol.**

5.3.4 YSTYRIAETHAU AR GYFER GWEITHWYR PROFFESIYNOL Y SECTOR IECHYD

Yn aml, Iechyd fydd yr asiantaeth gyntaf i godi pryderon. Er mwyn gallu trafod achosion yn gynnar, mae'n bwysig felly i'r sector iechyd fod â chysylltiadau cadarn â gwasanaethau plant, y gwasanaethau cymdeithasol ac unedau'r heddlu ar gyfer amddiffyn y teulu/plant.

Mae'n hanfodol i weithwyr proffesiynol y sector iechyd, yn arbennig rhai'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus lle mae arbenigwyr heblaw staff paediatrig yn gofalu am blant a phobl ifanc, yn cadw mewn cof y posibilrwydd y gallai'r fath diagnosis gael ei wneud ac yn gwybod ble i gael cyngor. Fel arfer, y nyrs neu'r meddyg penodol sy'n gofalu am amddiffyn plant ar ran yr ymddiriedolaeth fydd yn rhoi'r fath gyngor.

Rhaid i weithwyr proffesiynol y sector iechyd sylweddoli bod angen mynd ati'n gynnar i rannu gwybodaeth â'r asiantaethau statudol.

Dylai'r meddyg penodol neu'r nyrs benodol (neu un arall o weithwyr proffesiynol arbenigol y sector iechyd) weithio gyda'u cydweithwyr yn y sector iechyd sy'n ymwneud â'r achos i gasglu'r holl wybodaeth sydd ar gael ac i ddod i benderfyniad yn gynnar ynglŷn â rhannu gwybodaeth â'r gwasanaethau cymdeithasol.

5.3.4.1 Gweithredu ar gyfer gweithwyr proffesiynol y sector iechyd (os mai gweithwyr iechyd sy'n codi pryderon yn y lle cyntaf)

- Dylai staff meddygol a nyrsio gofnodi'u pryderon a holi yn y lle cyntaf o fewn eu hadran am ragor o wybodaeth am y teulu. Dylai gweithwyr

proffesiynol y sector iechyd wybod am brotocolau lleol ynglŷn â defnyddio'r "math atodol o gofnodion". **Rhaid** iddyn nhw gysylltu wedyn â gweithwyr proffesiynol eraill y sector iechyd yn yr ardal a allai fod wedi dod i gyswllt â'r teulu, e.e. y meddyg teulu, y meddyg penodol a/neu ddynodedig, y nyrs amddiffyn plant ac asiantaethau eraill;

- Dylai staff heblaw rhai meddygol neu nyrsio sy'n gweithio yn y sector iechyd gysylltu â'r gweithiwr proffesiynol penodol a/neu'r gweithiwr sy'n arwain amddiffyn plant ar ran yr asiantaeth. Rhaid cadw cofnodion manwl;
- Dylid enwebu gweithiwr proffesiynol allweddol i gasglu'r **HOLL** wybodaeth o unedau acíwt y sector iechyd ac o'r gymuned. Dylai'r wybodaeth gynnwys hanes perthnasol y teulu y mae modd ei gael gan y meddyg teulu, a gwybodaeth berthnasol am y rhai sy'n rhoi gofal i'r plentyn;
- Yn ystod y cam hwn, gelllid cynnull cyfarfod o weithwyr proffesiynol y sector iechyd sy'n ymwneud â'r achos, neu gysylltu'n syth â'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n hanfodol o hyd nad yw'r rhai sy'n cael eu hamau o ffugio salwch yn cael gwybod am y gweithredu.

5.3.4.2 Ystyriaethau ychwanegol o ran iechyd:

- Gofalu bod gweithiwr proffesiynol "allweddol" o'r sector iechyd yn cael ei enwebu a fydd yn gofalu bod y gwasanaethau iechyd sylfaenol ac eilaidd yn gyson â'i gilydd ac yn hwyluso'r cyfathrebu â'r gwasanaethau trydyddol;
- Bydd angen i'r gweithiwr proffesiynol allweddol fonitro'r broses a chydgysylltu pan mae'r teulu'n gofyn am gyngor oddi wrth ganolfannau therapïau amgen neu arbenigol;
- Bydd angen i'r gwasanaethau iechyd fynd ati i ofalu nad oes gormod o ymchwiliadau/ymyriadau;
- Os nad yw'r meddyg teulu'n gallu dod i gyfarfodydd strategaeth, rhaid i'r gweithiwr proffesiynol sydd wedi'i enwi ar ran y sector iechyd ofalu bod yr holl wybodaeth yn cael ei rhannu. Rhaid gwneud hyn heb i'r teulu ddod i wybod;
- Mae angen i weithwyr proffesiynol y sector iechyd rannu pob gwybodaeth â'r asiantaethau statudol, waeth pa mor ddibwys y mae'n ymddangos;
- Dylai gweithwyr proffesiynol y sector iechyd ofalu eu bod nhw'n cadw at y polisi cenedlaethol, *Safeguarding Children in whom Illness is Fabricated/Induced* ac yn chwilio am fwy o wybodaeth ac arweiniad yn adroddiad Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH).

5.3.5 YSTYRIAETHAU AR GYFER Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Dylid dilyn rhan 3, Y Broses Amddiffyn Plant, o *Ganllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2007)* a'r Protocol hwn wrth reoli atgyfeiriadau at y gwasanaethau cymdeithasol ynglŷn â salwch ffug neu salwch gwneud.

Gweithredu ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Rôl y gwasanaethau cymdeithasol yw gwneud asesiadau, cynllunio'r broses ymyrraeth a'i rhoi ar waith er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer plant a theuluoedd.

Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn cydweithio ag asiantaethau eraill sydd hefyd â chyfrifoldebau o ran diogelu a hybu lles plant.

5.3.5.1 Ystyriaethau Allweddol

5.3.5.1.1 Gweithredu ar unwaith

- Os yw tystiolaeth feddygol yn awgrymu ar unrhyw adeg fod bywyd plentyn mewn perygl, dylai'r heddlu a/neu'r gwasanaethau cymdeithasol fynd ati ar unwaith i'w ddiogelu;
- Natur a difrifoldeb y cam-drin a fydd yn pennu'r math o ymateb a'r brys i weithredu. Er enghraifft, os yw'r plentyn wedi cael ei fygu neu ei wenwyno'n fwriadol bydd angen ei amddiffyn ar unwaith. Go brin y bydd angen yr un math o ymateb yn achos salwch sydd wedi'i ffugio'n llafar;
- Ond rhaid cofio y gallai amgylchiadau ac anghenion y plentyn newid yn ystod y broses asesu, yn arbennig os yw'r rhieni a/neu'r rhai sy'n rhoi gofal yn dod i wybod bod gweithwyr proffesiynol yn eu hamau o ffugio symptomau salwch. Rhaid mynd ati'n gyson i adolygu'r angen am weithredu ar unwaith;
- Yn ystod y broses asesu, dylai gweithwyr proffesiynol y gwasanaethau cymdeithasol ystyried anghenion plant eraill sy'n byw yn y cartref a gweithredu os oes angen eu hamddiffyn.

5.3.5.1.2 Rhoi gwybodaeth i rieni

- Rhaid mynd ati ym mhob cam o'r broses – o'r atgyfeiriad a chynllunio'r achos i'r ymyriadau a'r adolygiad – i ystyried yn ofalus pa wybodaeth i'w rhoi i'r rheini, pryd i roi'r wybodaeth a phwy fydd yn ei rhoi. Rhaid rhoi blaenoriaeth i les y plentyn;
- Dylai'r gweithwyr proffesiynol drafod a chytuno ar y wybodaeth i'w rhoi i'r rhieni a/neu'r rhai sy'n rhoi gofal. Wrth wneud hynny, rhaid cadw at *Ganllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan*;

- Ni ddylid rhannu pryderon na rhoi gwybodaeth i'r rhieni a/neu'r rhai sy'n rhoi gofal os y farn yw y bydd gwneud hynny'n amharu ar les y plentyn;
- Rhaid mynd ati'n ofalus iawn wrth benderfynu datgelu pryderon i'r rhieni.

5.3.5.1.3 Yr asesiad cychwynnol

- Mae cronoleg yn rhan annatod o'r asesiad cychwynnol. Wrth baratoi ar gyfer cyfarfod strategaeth neu gyfarfod i rannu gwybodaeth, dylai'r gweithiwr cymdeithasol ddefnyddio'r cofnodion sy'n bod yn barod a'r holl wybodaeth sydd ar gael gan asiantaethau eraill i greu'r fath gronoleg;
- Y gweithiwr proffesiynol allweddol o'r sector iechyd sy'n gyfrifol am gasglu'r holl wybodaeth am achos y plentyn a ddylai hefyd fod yn paratoi cronoleg o'i iechyd.

5.3.5.1.4 Y cyfarfod strategaeth (cyfeiriwch at 5.3.2.3 hefyd)

- Rhaid cynnull cyfarfod strategaeth amddiffyn plant yn achos unrhyw amheuon neu honiadau o ffugio neu achosi salwch. Nid yw trafodaeth strategaeth dros y ffôn yn ddigonol nac yn ffordd addas o weithredu;
- Dylai'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol ofalu bod yr ymgynghorydd meddygol, y meddyg teulu, uwch nyrs y ward (os yw'r plentyn yn yr ysbyty) ac unrhyw weithwyr proffesiynol perthnasol eraill yn rhan o'r broses o gynllunio a gwneud penderfyniadau, yn cynnwys penderfyniadau i rannu gwybodaeth â'r rheini;
- Efallai y bydd angen cynnal mwy nag un cyfarfod strategaeth amddiffyn plant er mwyn trafod popeth yn drwyadl a rhannu'r holl wybodaeth berthnasol cyn penderfynu rhoi ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47 ar waith.

5.3.5.1.5 Y gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol

- Dylai'r gweithiwr cymdeithasol ofalu bod y gynhadledd amddiffyn gychwynnol yn cael ei chynnal o fewn 15 diwrnod gwaith i ddyddiad y cyfarfod i drafod y strategaeth amddiffyn plant. Efallai fod cyfres o gyfarfodydd strategaeth i fod, a dylid cynnal y gynhadledd o fewn 15 diwrnod gwaith i ddyddiad yr un terfynol.
- Ar ôl ymgynghori â'i reolwr llinell, dylai'r gweithiwr cymdeithasol ystyried oes angen gwahodd gweithiwr proffesiynol sy'n arbenigo ym maes salwch ffug neu salwch gwneud a gweithiwr proffesiynol meddygol fel paediatregydd sy'n gwybod am symptomau a phrosesau penodol unrhyw salwch sy'n gysylltiedig â'r math hwn o gam-drin, er enghraifft, gastroenteroleg, niwroleg, salwch anadlol a meysydd arbenigol eraill. Gall gweithwyr proffesiynol meddygol gynnig cymorth arbenigol hanfodol i aelodau'r gynhadledd sy'n ceisio deall yr holl wybodaeth a ddaeth i law;

- Dylid cynnwys y plant yn y gynhadledd amddiffyn gychwynnol yn ôl eu hoedran a'u gallu i ddeall,. Mae'n debygol y bydd plentyn sydd wedi dioddef salwch ffug neu salwch gwneud wedi dioddef niwed emosiynol hefyd. Rhaid trafod pob agwedd ar yr achos yn sensitif iawn a chynnig cyd-destun diogel i'r plentyn. Mae diogelwch y plentyn ar ôl y gynhadledd a'r ffordd o fynd ati i gyfleu'r pryderon yn bethau pwysig i aelodau'r gynhadledd eu hystyried;
- Fel arfer bydd rhieni'r plentyn a/neu'r rhai sy'n rhoi gofal iddo'n cael eu gwahodd i'r gynhadledd amddiffyn plant. Ond, efallai na fyddai er lles y plentyn i'w rieni ddod hefyd i'r gynhadledd, er enghraifft, efallai na fyddai'r rhiant neu'r un sy'n rhoi gofal y mae honiad o gam-drin wedi'i wneud yn ei erbyn yn fodlon cyfaddef hynny o flaen ei bartner. Ni ddylid rhoi pwysau ar y rhiant i siarad am y cam-drin. Efallai y byddai'n ddoethach delio â'r materion hyn y tu allan i'r gynhadledd. Dylai'r gweithiwr cymdeithasol baratoi aelodau'r teulu cyn y gynhadledd a barnu ar sail ei wybodaeth amdanyn nhw ar hyd a lled eu cyfraniad iddi. Dylai'r gweithiwr cymdeithasol drafod ei farn gyda chadeirydd annibynnol y gynhadledd amddiffyn plant. Cadeirydd y gynhadledd fydd yn penderfynu pwy fydd yn bresennol ynddi.
- Bydd y gweithiwr cymdeithasol a'r gweithwyr proffesiynol allweddol eraill yn cyfrannu adroddiadau ysgrifenedig i'r gynhadledd gan ddisgrifio'u hymwneud â'r teulu. Rhaid bod yn ffeithiol gywir. Dylid creu cronoleg sy'n canolbwyntio'n benodol ar hanes meddygol y plentyn. Wrth greu'r gronoleg, dylid cydweithio â'r paediatregydd ymgynghorol sy'n gyfrifol amdano. Dylid ystyried hanes iechyd unrhyw frodyr a chwiorydd hefyd. Pan mae honiadau o ffugio neu achosi salwch yn cael eu gwneud yn erbyn rhieni, **nid yw'n arferol** rhannu adroddiad y gweithiwr cymdeithasol a'r gronoleg â nhw cyn y gynhadledd. Dylai'r gweithiwr cymdeithasol a'r gweithwyr proffesiynol eraill drafod hyn yn y cyfarfod strategaeth amddiffyn plant, a thrafod gyda chadeirydd annibynnol y gynhadledd amddiffyn plant.

5.3.6 YSTYRIAETHAU AR GYFER YR HEDDLU

Gall unrhyw achos lle mae salwch ffug neu salwch gwneud yn cael ei amau olygu bod trosedd wedi'i chyflawni. Felly, mae'n bwysig cynnwys yr heddlu yn gynnar yn y broses yn unol â 'Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004 [2006] a Chanllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

5.3.6.1

- Rhaid i ddditectif-oruchwyliwr profiadol arwain y fath achosion cymhleth. Y swyddog hwn, fel rhan o'r tîm rheoli rhyng-asiantaethol, a ddylai gynllunio'r broses ymchwilio'n ofalus. Dylid ystyried yr effaith a allai'r fath ymchwiliad ei chael ar y staff a'r cleifion yn yr ysbyty;
- Wrth ymchwilio, rhaid ystyried pob trywydd, yn cynnwys y posibilrwydd o ddefnyddio technegau gwyliadwriaeth gudd;

- Dylid defnyddio gwyliadwriaeth gudd dim ond pan nad oes ffyrdd eraill o esbonio arwyddion a symptomau'r plentyn a bod y cyfarfod strategaeth aml-asiantaethol o'r farn fod y fath dechneg yn briodol;
- Pan mae technegau gwyliadwriaeth gudd yn cael eu defnyddio, **RHAID** i'r ditectif-oruchwyliwr sy'n delio â'r ymchwiliad gydweithio, cyn gynted â phosib, â'r swyddog awdurdodi sy'n gofalu am RIPA (Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000) ar ran heddlu'r rhanbarth;
- Wrth ystyried defnyddio'r fath dechnegau cudd i ddelio'r â materion mor sensitif â'r rhain, rhaid i swyddog awdurdodi RIPA ystyried a yw'n bosib cyfiawnhau'r defnydd o ddulliau cudd â'r tarfu ar fywydau pobl sy'n dod yn eu sgil. Rhaid gofyn a ydyn nhw'n angenrheidiol ac yn rhesymol o ystyried y wybodaeth sydd ar gael a'r troseddau dan sylw.

5.3.7 YSTYRIAETHAU AR GYFER GWASANAETH ERLYN Y GORON

- Y disgwyl yw y bydd yr heddlu'n cydweithio'n agos gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron pan fydd unrhyw ymholiadau ynglŷn â salwch ffug neu salwch gwneud yn mynd yn cyrraedd y cam ymchwilio troseddol. Bydd achosion o'r fath yma wedi'u cynnwys yng nghanllawiau'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (DPP) ynglŷn â chyhuddo. Pan gaiff rhywun ei gyhuddo, mae gofyn i Erlynydd y Goron roi barn ar bob achos;
- Wrth benderfynu ar y cyhuddiad, bydd Erlynydd y Goron yn ystyried a oes angen gofyn am dystiolaeth gan arbenigwyr. Gallai ystyried hefyd a fyddai cynnal cynhadledd gyda'r gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol plant yn helpu'r dasg o asesu'r dystiolaeth;
- Ar ôl cyhuddo rhywun, bydd Erlynydd y Goron yn cadw mewn cof yr angen i gael barn arbenigwyr ac i ystyried y farn honno, er enghraifft, os bydd tîm yr amddiffyniad yn cyflwyno barn eu harbenigwr eu hunain.

5.3.8 YSTYRIAETHAU AR GYFER Y GWASANAETHAU ADDYSG

RÔL ADDYSG

Mae gan ysgolion rôl bwysig yn y dasg o adnabod a rheoli achosion posib o salwch ffug neu salwch gwneud. Am eu bod nhw'n dod i gyswllt â phlant o ddydd i ddydd, mae athrawon a staff eraill ysgolion mewn sefyllfa da i sylwi ar arwyddion allanol sy'n awgrymu bod plentyn mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol. Yn yr un ffordd, mae staff gwasanaethau cymorth ysgolion awdurdodau addysg lleol (fel swyddogion lles addysg, gweithwyr cymdeithasol addysg a seicolegwyr addysg) mewn sefyllfa i godi pryderon.

5.3.8.1 Adnabod salwch ffug neu salwch gwneud

Mae nifer o bethau'n gallu awgrymu bod disgybl yn destun salwch ffug neu salwch gwneud. Dylai athrawon a staff eraill ysgolion fod yn ymwybodol o'r arwyddion posib.

- Bod yn absennol o'r ysgol yn gyson ac yn aml heb esboniad;
- Bod yn absennol yn rheolaidd er mwyn cadw apwyntiad gyda meddyg neu mewn ysbyty;
- Sefyllfa lle mae rhiant neu un sy'n rhoi gofal yn honni'n aml fod plentyn yn wael a bod angen sylw meddygol arno ar gyfer symptomau neu salwch nad yw'r staff wedi sylwi arnyn nhw;
- Manylion am salwch, ddamweiniau neu farwolaethau o fewn y teulu sy'n anghyson â'i gilydd neu'n amlwg yn anghywir.

Dylai ysgolion roi sylw i newidiadau arwyddocaol yng nghyflwr corfforol neu emosiynol plentyn, anafiadau sydd heb esboniad, newid yn ei ymddygiad neu ddiffyg ffynnu.

5.3.8.2 Y camau gweithredu sy'n ofynnol gan staff ysgolion

Lle mae athro neu aelod arall o staff yn amau bod plentyn yn destun salwch ffug neu salwch gwneud, a'i fod mewn perygl oherwydd hynny, rhaid rhoi gwybod yn syth i'r athro sydd wedi'i ddynodi i fod yn gyfrifol am amddiffyn plant yn yr ysgol. Fel sy'n digwydd gydag unrhyw fath o achos o amau niwed, bydd Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn berthnasol. Yr athro sydd wedi'i ddynodi a fydd yn gyfrifol am atgyfeirio'r achos yn iawn i'r gwasanaethau cymdeithasol. Dylid cadw'r holl dystiolaeth sy'n sail i'r pryderon yn ddiogel. Efallai y bydd angen y fath dystiolaeth wrth ddod i benderfyniad neu wrth ymchwilio'r mater.

Ni ddylai athrawon na staff eraill ysgolion fynd ati eu hunain i ymchwilio'r mater nac i'w drafod gyda rhiant y plentyn neu'r un sy'n rhoi gofal iddo. Diogelwch y plentyn yw'r peth pwysicaf un i'w ystyried. Rhaid i'r athro ofyn am gyngor cyn i'r ysgol rannu unrhyw bryderon â rhiant y plentyn neu'r un sy'n rhoi gofal iddo. Ar ôl i'r athro sydd wedi'i ddynodi atgyfeirio pryderon at y gwasanaethau cymdeithasol, bydd yr asiantaethau sy'n arwain, yn cynnwys y gwasanaeth addysg, yn cadw at drefniadau amddiffyn plant Bwrdd Lleol Diogelu Plant yr ardal wrth fynd â'r mater yn ei flaen.

5.3.8.3 Y camau gweithredu sy'n ofynnol gan staff gwasanaethau cymorth ysgolion yr awdurdodau addysg lleol

Dylai staff gwasanaethau cymorth ysgolion naill ai sôn am eu pryderon wrth yr athro sydd wedi'i ddynodi yn ysgol y plentyn neu wrth yr uwch swyddog sy'n gyfrifol am amddiffyn plant ar ran yr awdurdod addysg lleol. Y rhain a fydd yn atgyfeirio'r mater at y gwasanaethau cymdeithasol.

5.3.8.4 Rhagor o gyngor

Mae'n bosib gofyn am fwy o gyngor gan yr uwch swyddog sy'n gyfrifol am gyd-drefnu'r camau gweithredu ac am bolisïau amddiffyn plant yr awdurdod addysg lleol.

PROTOCOL

CYMRU GYFAN

Diogelu a Hybu Lles

Pobl Ifanc

sy'n

Weithredol yn Rhywiol

5.4 Diogelu a Hybu Lles Pobl Ifanc sy'n Weithredol yn Rhywiol

5.4.1 Rhagarweiniad

- Mae'r protocol hwn wedi cael ei greu i helpu'r rheini sy'n gweithio gyda phobl ifanc i adnabod unrhyw berthynas lle mae plentyn neu berson ifanc yn cael ei gam-drin, mae angen ei ddiogelu neu mae angen gwasanaethau ychwanegol arno.
- Mae'r protocol wedi cael ei greu ar sail y ddealltwriaeth fod gan y mwyafrif o bobl ifanc dan 18 oed ddiddordeb iach mewn rhyw a pherthnasoedd rhywiol. Mae'r protocol yn pontio rhwng canllawiau'r llywodraeth, deddfwriaeth, ymholiadau cyhoeddus fel Adroddiad Bichard, ac anghenion plant a phobl ifanc.
- Bwriad y protocol yw sefydlu trefn gyson ar hyd a lled Cymru ar gyfer adnabod, adrodd ac ymateb i weithgaredd rhywiol o dan oed.
- Mae'r protocol wedi'i seilio ar yr egwyddor graidd mai lles y plentyn yw'r peth pwysicaf un. Mae'n pwysleisio'r angen i asesu'n gywir unrhyw berygl o niwed arwyddocaol pan mae plentyn neu berson ifanc yn mynd i berthynas sy'n golygu bod yn weithredol yn rhywiol.
- Mae Deddf Troseddau Rhywiol 2003 yn gosod 16 oed fel yr oedran cyfreithiol y gall rhywun gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol heterorywiol a chyfunrywiol. Mae'n mynd ymlaen i ddweud nad yw plant dan 13 oed yn ddigon hen i gydsynio i weithgaredd rhywiol. Yn ôl y gyfraith, mae gweithred rywiol gyda phlentyn dan 13 oed yn drosedd ddifrifol a allai arwain at arestio'r sawl a'i cyflawnodd. Mae'n adlewyrchu barn cymdeithas na ddylai plant dan 13 oed fod yn weithredol yn rhywiol ac y gall eu lefel o fod yn agored i rywun gamfanteisio arnyn nhw a'u paratoi ar gyfer rhyw fod yn arwyddocaol.

Mae'r protocol yn cadarnhau'r ddau bwynt sy'n dilyn;

- Ni ddylid troi gweithgaredd rhywiol rhwng dau berson ifanc sy'n cydsynio, yn drosedd;
- Y sefyllfa gyfreithiol fod gweithgaredd rhywiol dan 16 oed yn drosedd.

Yn ymarferol, bydd y protocol hwn yn berthnasol i bobl ifanc dan 16 oed. Ond, rhaid i weithwyr proffesiynol gofio bob amser ei bod hi'n bosib cam-drin neu gamfanteisio ar bobl ifanc 16-18 oed.

Rhaid nodi ei bod hi'n anghyfreithlon i dalu am ryw gydag unrhyw blentyn neu berson ifanc dan 18 oed.

Mae cyrraedd canlyniadau da ar gyfer plant a phobl ifanc yn gofyn i bawb sy'n gyfrifol am asesu a darparu gwasanaethau weithio gyda'i gilydd yn ôl y protocol hwn a *Chanllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan* a *Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004*.

5.4.2 Rhannu gwybodaeth

Go brin y bydd unrhyw asiantaeth ar ei phen ei hun yn dal gwybodaeth gynhwysfawr am unrhyw blentyn neu berson ifanc, neu'n wir am unrhyw elfen o risg yn ei fywyd. Dim ond pan fydd amryw o ffynonellau'n rhannu gwybodaeth y daw hi'n glir fod plentyn mewn perygl neu'n dioddef niwed.

Dyletswydd gyntaf pob ymarferwr yw diogelu a hybu lles y plentyn a'r person ifanc. Wrth greu perthynas waith gyda phlant a phobl ifanc, rhaid iddyn nhw ddeall o'r dechrau un a thrwy gydol y broses nad oes dyletswydd absoliwt i gadw gwybodaeth yn gyfrinachol. Mae amgylchiadau'n rhwym o godi lle mai dim ond trwy rannu gwybodaeth â phobl eraill y bydd yn bosib diogelu'r plentyn neu'r person ifanc neu'r plant neu'r bobl ifanc eraill.

Wrth benderfynu rhannu gwybodaeth â rhieni neu'r rhai sy'n rhoi gofal, bydd gweithwyr proffesiynol yn defnyddio'u barn, yn rhoi sylw i ganllawiau Fraser/Gillick (cyfeiriwch at 5.4.8) ac yn ymgynghori â Chanllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Bydd penderfyniadau'n cael eu seilio ar oedran y plentyn, ei aeddfedrwydd a'i allu i ddeall y goblygiadau, a'r peryglon i'w hun. Rhaid cyfuno hyn â gallu'r rhieni a'r rhai sy'n rhoi gofal, a pha mor benderfynol ydyn nhw i amddiffyn y person ifanc. O dderbyn bod rhieni'n gyfrifol am ymddygiad a lles eu plant, dylai gweithwyr proffesiynol annog y person ifanc i rannu gwybodaeth bob amser â'u rhieni a'r rhai sy'n rhoi gofal iddyn nhw, ar yr amod bod hynny'n ddiogel.

Sylfaen y protocol hwn yw'r ddealltwriaeth y bydd y rheini sy'n gweithio gyda'r grŵp hwn o bobl ifanc agored i niwed yn dymuno gwneud eu gorau glas i gynnig gwasanaeth diogel, cyfrinachol a hawdd mynd ato iddyn nhw. Mae'r gweithwyr yn derbyn bod dyletswydd gofal arnyn nhw i ddiogelu a hybu lles y bobl ifanc.

5.4.2.1 Cyfrinachedd a chydsynio

Nid yw Deddf Troseddau Rhywiol 2003 yn effeithio ar ddyletswydd gofal a chyfrinachedd gweithwyr proffesiynol y sector iechyd a gofal cymdeithasol tuag at blant a phobl ifanc dan 16 oed. Yn ôl canllawiau diweddar y llywodraeth i weithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, nid bwriad y ddeddf yw dwyn achos yn erbyn pobl ifanc yn eu harddegau os yw'r ddau o oedran tebyg wedi cydsynio i weithgaredd rhywiol, er mai 16 oed yw'r oedran cydsynio o hyd, oni bai bod y gweithgaredd yn golygu cam-drin neu gamfanteisio.

Dim ond trwy rannu gwybodaeth berthnasol y mae'n bosib i weithwyr proffesiynol weithio gyda'i gilydd i ddiogelu plant. Mae'r llysoedd wedi derbyn hyn mewn egwyddor (Butler Schloss, L J yn Re G (plentyn dan oed) (1996) 2

ALL ER 65 at 68) 6. Fel arfer, dylid gofyn am ganiatâd gwrthrych y wybodaeth cyn datgelu unrhyw wybodaeth bersonol i unrhyw drydydd parti (yn cynnwys asiantaeth arall). Lle bynnag y bo hynny'n bosib, dylid gofyn am ganiatâd cyn rhannu gwybodaeth bersonol â thrydydd parti. Ond, dan rai amgylchiadau, nid yw'n bosib neu'n addas gofyn am ganiatâd ond mae diogelwch a lles y plentyn yn awgrymu'n gryf fod rhaid rhannu'r wybodaeth (*Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004*).

Nid yw'r ddyletswydd i gadw gwybodaeth yn gyfrinachol yn absoliwt. Os yw gweithiwr proffesiynol yn credu bod iechyd, diogelwch neu les plentyn, person ifanc neu bobl eraill mewn perygl, a bod y perygl hwnnw'n ddigon difrifol i orbwyso hawl y person dan sylw i'w breifatrwydd, dylai'r gweithiwr proffesiynol ddilyn Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

Rhaid cyfiawnhau unrhyw benderfyniad i ddatgelu gwybodaeth neu i beidio â'i datgelu, yn ôl ffeithiau'r achos dan sylw. Rhaid cofnodi'r penderfyniad yn ysgrifenedig. Yn achos unrhyw amheuaeth, rhaid gofyn ar unwaith am gyngor y gweithiwr proffesiynol sy'n gyfrifol am amddiffyn plant ar ran asiantaeth yr ymarferwr.

Gallai datgelu gwybodaeth heb ganiatâd arwain at herio'r weithred dan Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Ond nid yw Erthygl 8 yn absoliwt. Mae'n hanfodol datgelu gwybodaeth er mwyn diogelu plant, ac mae'n bosib cyfiawnhau hynny'n llawn wrth amddiffyn plant a phobl ifanc, wrth ddiogelu eu hiechyd neu eu moesau, wrth ystyried hawliau a rhyddid pobl eraill, ac wrth rwystro troseddau yn erbyn plant neu wrth fynd ati i ddatrys troseddau.

Mae asesu perygl yn broses barhaus. Mae'n briodol felly i ymarferwr ystyried pob achos o weithio gyda pherson ifanc neu o gael gwybodaeth amdano ar wahân. Dylai ystyried a yw amgylchiadau'r person ifanc wedi newid mewn ffordd sy'n cyfiawnhau atgyfeirio'r achos (neu ei ail atgyfeirio) at y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu. Gallai asiantaethau partner ofyn am fwy o wybodaeth cyn penderfynu ynglŷn ag atgyfeirio achos at asiantaethau priodol.

5.4.3 Asesu

Rhaid i'r asiantaeth dan sylw asesu anghenion iechyd, addysg, cymorth ac amddiffyn pob person ifanc, waeth beth yw ei ryw neu ei ogwydd rhywiol, os yw'n credu ei fod yn cymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol, neu'n bwriadu gwneud hynny. Rhaid i'r asesiad gael ei wneud yn unol â'r wybodaeth a'r canllawiau yn:

- Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan;
- Canllawiau'r Adran Iechyd: *Best Practice Guidance for Doctors and other Health Professionals on the provision of Advice and Treatment to Young People Under 16 On Contraception, Sexual, and Reproductive Health*.

5.4.3.1 Asesu anghenion pobl ifanc:

- Mae gan blant a phobl ifanc sy'n mynd o wirfodd i berthynas rywiol yr hawl i gael cyngor a gwasanaethau cyfrinachol;
- Rhaid i blant a phobl ifanc gael asesu eu hanghenion iechyd a/neu addysg;
- Er hynny, mae dyletswydd ar bob gweithiwr proffesiynol i ystyried y posibilrwydd o niwed i unrhyw blentyn neu berson ifanc dan 18 oed sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol. Mae cymryd rhan yn ifanc mewn gweithgaredd rhywiol yn arwydd posib bod peryglon i les y plentyn, ac i blant eraill efallai.

5.4.3.2 Dangosyddion y perygl o ddioddef niwed

Er mwyn penderfynu a yw perthynas yn golygu perygl o niwed i berson ifanc, dylid rhoi sylw i'r ffactorau sy'n dilyn:

- P'un a yw'r gallu gan y plentyn neu'r person ifanc i ddeall ac i gydsynio i'r gweithgaredd rhywiol dan sylw. Dylid dilyn canllawiau Fraser (cyfeiriwch at 5.4.8) a chofnodi pob penderfyniad;
- Ble mae'r plentyn neu'r person ifanc yn byw, a gyda phwy; p'un ai yw'n ddisgybl mewn ysgol neu a yw'r gwasanaethau cymdeithasol neu asiantaeth gofal cymdeithasol arall wedi cael unrhyw ymwneud ag e neu unrhyw frodyr neu chwiorydd;
- Natur y berthynas rywiol, yn arbennig os oes anghydbwysedd o ran oedran neu rym personoliaeth (cyfeiriwch at 5.4.3.3);
- P'un ai yw trais, perswâd neu lwgrwobrwyo'n rhan amlwg o'r berthynas, yn cynnwys camddefnyddio alcohol neu sylweddau eraill i wneud y person ifanc yn fwy parod i gydweithredu;
- P'un ai oes unrhyw agwedd ar gamfanteisio'n rhywiol ac yn fasnachol yn amlwg, yn cynnwys cynnig serch, arian, cyffuriau neu alcohol;
- P'un ai yw ymddygiad y plentyn neu'r person ifanc ei hun yn ei roi mewn sefyllfa lle mae'n anodd iddo ddewis yn ddoeth ynglŷn â'r gweithgaredd, er enghraifft a yw'n camddefnyddio alcohol neu sylweddau eraill;
- Unrhyw ymdrech gan y partner rhywiol i gelu pethau y tu hwnt i'r hyn a fyddai i'w ddisgwyl mewn perthynas rhwng pobl ifanc yn eu harddegau;
- P'un ai yw dulliau'r partner rhywiol o sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn cydfynd, yn ymddiried ynddo neu'n cadw pethau'n ddirgel yn gyson â pharatoi ar gyfer camfanteisio'n rhywiol. Mae'r fath baratoi'n debygol o gynnwys ymdrechion gan ecsbloitiwr rhywiol (sydd fel arfer yn hŷn na'r plentyn neu'r person ifanc) i faldodi neu orfodi i greu cyfeillgarwch gyda'r unigolyn dan sylw trwy roi anrhegion,

arian neu gyffuriau, trwy ddatblygu perthynas agos gyda theulu'r unigolyn, trwy ddatblygu perthynas gyda'r unigolyn dros y rhyngrwyd etc, gyda'r bwriad o gam-drin y plentyn neu'r person ifanc;

- P'un ai yw un o'r asiantaethau'n gyfarwydd â'r partner rhywiol ar sail pryderon ynglŷn â pherthynas gyda phlentyn neu berson ifanc arall. Mae hyn yn rhagdybio y bydd cais yn mynd at yr heddlu am wybodaeth am y partner;
- P'un ai yw'r plentyn yn gwadu neu'n derbyn y pryderon, neu'n ceisio'u trin yn ysgafn;
- P'un ai oes anghenion dysgu gan y plentyn neu'r person ifanc;
- P'un ai oes hanes gan y plentyn o fod ar goll o'i gartref.

5.4.3.3 Anghydbwysedd grym

Mae cam-drin rhywiol a chamfanteisio ar blentyn neu berson ifanc yn cynnwys anghydbwysedd grym. Dylai'r asesiad geisio adnabod anghydbwyseddau grym posib o fewn perthynas. Gallai anghydbwysedd ddod yn sgil gwahaniaethau o ran maint, oedran, cyfoeth materol a/neu ddatblygiad seicolegol, cymdeithasol a chorfforol. Mae modd i rywun defnyddio gwybodaeth rywiol fel sylfaen i awdurdod dros bobl eraill sydd efallai'n cael eu heffeithio gan agweddau ar amrywiaeth fel rhyw, rhywioldeb, hil ac ati.

Er y gallai gwahaniaeth oed fod yn un o'r prif ddangosyddion (er enghraifft, merch 15 oed mewn perthynas gyda dyn 20 oed), rhaid i ymarferwyr gadw mewn cof y gall bachgen 14 neu 15 oed roi pwysau sylweddol ar ferch o'r un oed neu'n hŷn, yn enwedig os oes grŵp o'i gyfoedion yn ei gymell. Bydd achosion eraill lle mae menyw neu ferch yn manteisio'n rhywiol ar fachgen.

Pan mae'r anghydbwysedd grym yn arwain at orfodi, defnyddio a/neu lwgrwobrwyo a gweithgaredd rhywiol, gall y pwysau ar berson ifanc ddod gan unigolyn, dau berson neu trwy grŵp o gyfoedion (h.y. bwlio gan grŵp o bobl). Mae angen i weithwyr proffesiynol sy'n asesu natur perthynas plentyn neu berson ifanc sylweddoli y gallai fod yn y naill sefyllfa a'r llall. Dylai'r gweithiwr fynd ati i wneud asesiad holistig o'i anghenion.

Os yw'r partner rhywiol yn gweithio mewn swydd broffesiynol gyfrifol neu'n aelod o'r teulu (yn ôl y diffiniad yn Neddf Troseddau Rhywiol 2003), mae anghydbwysedd grym yn bodoli. Y farn yw nad yw'r plentyn neu'r person ifanc yn gallu cydsynio i'r gweithgaredd.

Mae'n anghyfreithlon i unrhyw un dalu am weithredoedd rhywiol gyda phlentyn neu berson ifanc dan 18 oed.

5.4.4 Plant a phobl ifanc anabl a/neu sy'n dioddef anhwylder iechyd meddwl

Mae plant a phobl ifanc anabl a/neu sy'n dioddef anhwylder iechyd meddwl yn fwy agored i niwed na phlant sydd heb fod yn anabl. Maen nhw'n fwy agored byth i niwed pan maen nhw'n byw oddi cartref. Efallai fod mwy o berygl iddyn nhw gael eu gorfodi am eu bod nhw'n dibynnu'n gorfforol ar bobl eraill neu am fod anabledd dysgu neu anawsterau cyfathrebu'n ei gwneud hi'n anodd iddyn nhw gyfleu eu dymuniadau i rywun arall. Oherwydd eu hanabledd a'u hoedran, mae mwy o berygl na fyddan nhw'n gallu gwrthod mynd i berthynas rywiol.

Wrth asesu a yw perthynas yn rhoi plentyn neu berson ifanc anabl mewn perygl o ddioddef niwed, mae angen i weithwyr proffesiynol roi sylw i'r dangosyddion sydd wedi'u rhestru yn 5.4.3.2. Rhaid cofio hefyd fod peryglon ychwanegol i'r plant neu'r bobl ifanc hyn.

Gallai plentyn neu berson ifanc ag anawsterau dysgu canolig fod yn agored i niwed mewn perthynas rywiol sydd wedi datblygu yn sgil gweithgareddau cynhwysol. Gallai hyn ddigwydd mewn ysgol brif ffrwd, coleg addysg, canolfan hamdden neu yn un o'r llefydd eraill lle mae plant a phobl ifanc yn cwrdd, a lle mae'r oruchwyliaeth yn anffurfiol iawn. Rhaid i staff gofio bod gwahanol alluoedd gan y plant a'r bobl ifanc y maen nhw'n eu goruchwylio, ac asesu'r perygl o ddioddef niwed ar sail hynny.

Mewn achosion lle mae gweithwyr proffesiynol yn ofni y gallai perthynas arwain at niwed i berson ifanc anabl sydd ar fin mynd yn oedolyn, dylen nhw fynd ati'n gynnar i weithio gyda staff yr asiantaeth sy'n gyfrifol am amddiffyn oedolion. Rhaid gofalu bod amddiffyn dan Ddeddf Plant 1989 yn trosglwyddo'n rhwydd yn amddiffyn person ifanc dros 18 oed dan y trefniadau lleol ar gyfer Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed.

Wrth fynd ati i asesu perygl, rhaid i asiantaethau a gweithwyr proffesiynol gydbwyso'u pryderon â'u dyletswydd i gadw gwybodaeth yn gyfrinachol. Mae hyn yn arbennig o wir yn y gwasanaeth iechyd lle mae'r gyfraith yn rhoi'r hawl i weithwyr iechyd roi dulliau atal cenhedlu, cyngor iechyd rhywiol a thriniaeth yn gyfrinachol i bobl ifanc dan 16 oed.

Felly, pan ddaw gweithiwr proffesiynol i wybod bod person ifanc yn cymryd rhan, neu'n debygol o gymryd rhan, mewn gweithredoedd rhywiol, dylid asesu anghenion y person ifanc o ran iechyd corfforol ac emosiynol, addysg a diogelwch – a hynny yng nghyd-destun y berthynas rywiol. Dylid seilio'r asesiad ar y tri dimensiwn yn *Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn angen a'u Teuluoedd* (neu'r *Fframwaith Asesu Cyffredin* pan fydd ar waith). Os yw'n briodol, dylid cadw at *Ganllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan* hefyd.

5.4.5 Cam-drin trwy gamfanteisio'n rhywiol er elw ar blant neu fasnachu mewn plant

Yn achos unrhyw bryderon y gallai plentyn neu berson ifanc fod mewn perygl o gael ei gam-drin trwy gamfanteisio'n rhywiol (puteindra, pornograffi [delweddau o blant yn cael eu cam-drin], yn cynnwys creu neu gyfnewid delweddau, paratoi ac ati, trwy'r rhyngrwyd a thrwy fasnachu mewn pobl), rhaid atgyfeirio'r achos at y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu yn unol â *Chanllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan* a phrotocolau'r ardal ar gyfer *Camfanteisio'n Rhywiol a Masnachu mewn Plant*.

Dylid nodi fod y deddfau ynglŷn â chamfanteisio'n rhywiol er elw ar blant yn cynnwys plant hyd at 18 oed, hynny yw, mae'n anghyfreithlon i unrhyw un dalu (mewn unrhyw ffordd) am wasanaethau rhywiol plentyn neu berson ifanc dan 18 oed.

5.4.5.1 Ymyrraeth

Pan mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi adnabod perygl o niwed arwyddocaol i blentyn, neu eu bod nhw'n gwybod bod trosedd wedi'i chyflawni yn erbyn plentyn, byddan nhw'n cynnal trafodaeth neu gyfarfod strategaeth gyda'r heddlu a'r gwasanaeth iechyd (a allai gynnwys y sawl a atgyfeiriodd yr achos). Bydd rhaid penderfynu yn ystod y drafodaeth neu'r cyfarfod a oes angen gwneud ymholiadau amddiffyn plant dan adran 47 yn ôl y canllawiau yn Rhan 3 o *Ganllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan*.

5.4.6 Y trothwyon ar gyfer atgyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol a/neu'r heddlu, ac oedran y plentyn

5.4.6.1 Plant dan 13 oed

Dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, nid yw plant dan 13 oed yn ddigon hen i gydsynio i weithgaredd rhywiol.

Ym mhob achos lle mae'r person ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol o dan 13 oed, rhaid i'r asiantaeth dan sylw fynd ati i wneud asesiad llawn. Rhaid edrych ar bob achos yn unigol, a rhaid ystyried gwneud atgyfeiriad amddiffyn plant at y gwasanaethau cymdeithasol. I'r atgyfeiriad fod yn ystyrlon, rhaid enwi'r person ifanc a'i bartner rhywiol os yw'r wybodaeth honno ar gael.

Dim ond ar ôl trafod yr achos gyda'r swyddog sy'n arwain ar ran amddiffyn plant o fewn yr asiantaeth sy'n cyflogi'r gweithiwr proffesiynol y mae'n bosib penderfynu peidio â'i atgyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol. Os nad yw'r achos yn cael ei atgyfeirio, mae'r gweithiwr proffesiynol a'r asiantaeth dan sylw'n gwbl atebol am y penderfyniad. Rhaid cofnodi'n glir y rhesymau dros ddod i'r fath benderfyniad.

Pan ddaw'n glir bod merch dan 13 oed yn feichiog, rhaid atgyfeirio'r achos at y gwasanaethau cymdeithasol. Byddan nhw'n gwneud asesiad cychwynnol

ac yn cynnal cyfarfod/trafodaeth strategaeth, gan wahodd cynrychiolwyr o'r gwasanaethau iechyd ac addysg.

Mae argymhelliad 12 Adroddiad Ymchwiliad Bichard yn dweud y dylai'r Llywodraeth gadarnhau'r canllaw bod rhaid hysbysu'r heddlu cyn gynted â phosib pan mae trosedd wedi ei chyflawni neu pan mae amheuaeth bod trosedd wedi ei chyflawni, yn erbyn plentyn – onibai bod rhesymau eithriadol i beidio gwneud hynny. Fe gadarnhaodd Llywodraeth Cynulliad Cymru yr argymhelliad yma yn y canllawiau *Diogelu Plant: Gweithio gyda'n gilydd dan Ddeddf Plant 2004 ym Mhennod 8, para 8.29*.

5.4.6.2 Pobl ifanc 13-16 oed

Mae Deddf Troseddau Rhywiol 2003 yn cadarnhau bod pobl ifanc yn eu harddegau'n cymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol lle mae'r ddau'n fodlon i'r gweithgaredd ddigwydd. Er nad oes niwed yn dod yn aml yn sgil y fath weithgaredd, dylai'r oedran cydsynio aros ar 16 oed. Mae hyn yn cydnabod bod y grŵp hwn o bobl ifanc yn dal yn agored i niwed, hyd yn oed os nad ydyn nhw'n cydnabod hynny eu hunain.

Rhaid defnyddio'r protocol hwn o hyd i asesu anghenion pobl ifanc yn y grŵp oedran hwn sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol. Bydd y trafodaethau gyda'r gwasanaethau cymdeithasol yn dibynnu ar y mesur o berygl/angen y mae'r rhai sy'n gweithio gyda'r person ifanc wedi'i osod.

Os yw'r person ifanc yn beichiogi neu'n erthylu'n naturiol neu'n cael erthyliad wedi'i drefnu, dylid ystyried a oes angen atgyfeirio'r achos.

Mae'r gwahaniaeth hwn yn y drefn yn cadw at yr egwyddor nad yw'r gallu gan bobl ifanc dan 13 oed i gydsynio i weithredoedd rhywiol, er bod cymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol dan 16 oed yn parhau'n anghyfreithlon.

5.4.6.3 Pobl ifanc 17-18 oed

Er nad yw cymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol ar ôl cyrraedd 16 oed yn dal yn drosedd, mae pobl ifanc dan 18 oed yn dal i gael eu hamddiffyn dan y gyfundrefn amddiffyn plant a *Deddf Plant 1989*. Mae angen ystyried o hyd a oes unrhyw gamfanteisio'n rhywiol trwy buteindra a chamddefnyddio grym dan yr amgylchiadau sydd wedi'u disgrifio uchod. Wrth gwrs, mae'n dal yn bosib troseddu yn erbyn pobl ifanc trwy eu treisio neu ymosod arnyn nhw. Efallai fod rhaid holi'r person ifanc ynglŷn ag amgylchiadau unrhyw ddigwyddiad.

Bydd anghydbwysedd grym yn ffactor yn achos unrhyw berson ifanc 16-18 oed. Os yw'r partner rhywiol yn gweithio mewn swydd broffesiynol gyfrifol neu'n aelod o'r teulu (yn ôl y diffiniad yn Neddf Troseddau Rhywiol 2003), y farn yw nad yw'r person ifanc yn gallu cydsynio i'r gweithgaredd.

5.4.6.4 Defnyddio Deddf Cipio

Pan mae'n amlwg bod y person ifanc yn ymweld â pherson neu le anaddas neu anniogel, efallai fod modd defnyddio Deddf Cipio 1984 i gynorthwyo'r rhieni neu'r rhai sy'n rhoi gofal. Yn y fath sefyllfa, dylid gofyn am gyngor gan uned ymchwilio'r heddlu i achosion o gam-drin plant.

5.4.7 Canllawiau Fraser

Dylai gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc fod â gwybodaeth lawn am bum pwynt canllawiau Fraser sy'n rhoi sylw i allu'r person ifanc:

- Bydd y person ifanc yn deall cyngor y gweithiwr proffesiynol;
- Nid yw'n bosib perswadio'r person ifanc i roi gwybod i'w rieni;
- Mae'r person ifanc yn debygol o ddechrau neu barhau i gael cyfathrach rywiol, heb ddefnyddio dulliau atal cenhedlu;
- Oni bai fod y person ifanc yn cael triniaeth atal cenhedlu, mae ei iechyd corfforol, ei iechyd meddyliol neu'r ddau'n debygol o ddioddef.
- Ar sail lles pennaf y person ifanc, mae gofyn iddo gael cyngor ynglŷn ag atal cenhedlu neu driniaeth, gyda chaniatâd y rhieni neu hebddo.

5.4.8 Deddfwriaeth a chanllawiau

Yn ogystal â'r dogfennau sydd wedi'u rhestru yn Rhan 1, mae'r dogfennau sy'n dilyn wedi cael sylw wrth ddatblygu'r protocol hwn:

- Deddf Troseddau Rhywiol 2003;
- Adroddiad Bichard 2004;
- Adroddiad Kelly 2004;
- Canllawiau ACPO: *Guidance on Investigating Child Abuse and Safeguarding Children 2005*;
- Uned Beichiogrwydd Ymhlith Pobl Ifanc yn eu Harddegau, Adran Addysg a Gwyddoniaeth: *Enabling young people to access contraceptive and sexual health advice* 2005;
- Canllawiau'r Adran Iechyd ynglŷn â phlant sy'n buteiniaid (*Child Prostitution DOH Guidance*);
- Y Fframwaith Asesu Cyffredin 2005;
- Y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cofnodi Troseddau (*National Crime Recording Standards*).

5.4.10 Asesu'r peryglon

Mae model enghreifftiol ar gael ar www.awcpp.org.uk i'w ddefnyddio wrth asesu peryglon.

PROTOCOL
CYMRU GYFAN

Amddiffyn Plant
rhag cael eu
Cam-drin
trwy
Dechnoleg Gwybodaeth

5.5 Delweddau Anweddus o Blant, a'r Rhyngrwyd

5.5.1 Rhagarweiniad

Nod y protocol hwn yw cynnig cyngor i ymarferwyr sy'n gweithio ym maes diogelu a hybu lles plant pan mae'r plentyn dan ofal unigolyn sy'n destun ymchwiliadau oherwydd troseddau'n ymwneud â delweddau anweddus o blant ar y rhyngrwyd neu wrth ddefnyddio ffôn symudol.

Mae'r canllawiau'n ceisio gofalu bod ymarferwyr i gyd yn gwybod am bwysigrwydd rhannu gwybodaeth er mwyn cydymffurfio â Chanllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan wrth ddelio â dioddefwyr a throseddwyr sy'n gysylltiedig â'r fath droseddau.

Mae troseddau sy'n gysylltiedig â chymryd, gwneud, dosbarthu neu gyhoeddi delweddau anweddus o blant yn golygu bob tro fod plentyn neu berson ifanc yn cael ei gam-drin neu ei gamfanteisio mewn rhyw ffordd. Pan mae ymarferwyr yn dod i wybod am y fath weithgarwch, mae'n hynod o bwysig i'r heddlu gael gwybod am y mater cyn gynted â phosib.

5.5.2 Diffiniad o ddelweddau anweddus o blant

I bwrpas y protocol hwn, diffiniad delweddau anweddus o blant yw delweddau llonydd neu symudol sy'n cyfrif fel rhai anweddus. Gallan nhw gael eu creu mewn unrhyw ffordd, yn cynnwys lluniadau â llaw, ffotograffau, ffilmiau neu ffug ffotograffau. Delwedd sydd wedi'i chreu trwy gyfuno gwahanol rannau o ddelweddau eraill yw ffug ffotograffau, er enghraifft, y pen o un ddelwedd a'r corff o ddelwedd arall.

Mae Adran 1 o Ddeddf Amddiffyn Plant 1978 yn diffinio plentyn fel rhywun dan 18 oed neu os yw person ifanc yn cyfleu'r argraff mai plentyn yw, er gwaethaf y ffaith fod rhai o'r nodweddion corfforol yn perthyn i oedolyn.

Nid yw'r term 'anweddus' yn cael ei ddiffinio yn y ddeddfwriaeth ac mae'n fater i'r llys ei benderfynu.

5.5.3 Y Rhyngrwyd a ffonau symudol

Mae'r rhyngrwyd a ffonau symudol yn ddulliau arwyddocaol y mae pobl yn eu defnyddio i ddosbarthu delweddau anweddus o blant. Mae troseddwyr yn defnyddio'r rhyngrwyd a ffonau symudol hefyd i geisio cysylltu â phlant a phobl ifanc gyda'r bwriad o'u paratoi ar gyfer perthynas anaddas neu un sydd wedi'i seilio ar gam-drin.

Mae defnyddio ystafelloedd sgwrsio (*chat rooms*) ar y rhyngrwyd yn destun pryder mawr. Mae plant yn aml yn defnyddio ystafelloedd sgwrsio fel llefydd ar-lein ar gyfer cyfathrebu â'u ffrindiau a phlant eraill. Mae'n ffaith amlwg fod

troseddwyr yn defnyddio'r fath ystafelloedd i gysylltu â phlant er mwyn bodloni eu hanghenion eu hunain ac i feithrin perthynas anaddas neu un sydd wedi'i seilio ar gam-drin. Mae troseddwyr yn defnyddio ffonau symudol hefyd i baratoi plant ac i anfon ffotograffau a ffug ffotograffau anweddus o blant.

5.5.4 Y prif droseddau

Mae'r prif droseddau'n dilyn:

- Cymryd neu greu ffotograff neu ffug ffotograff anweddus o blentyn dan 18 oed, neu ganiatáu i'r fath ffotograffau gael eu cymryd neu eu creu: Deddf Amddiffyn Plant 1978, Adran 1 (a);
- Dosbarthu neu ddangos y fath ffotograffau neu ffug ffotograffau anweddus; Deddf Amddiffyn Plant 1978, Adran 1 (b);
- Bod â'r fath ffotograffau neu ffug ffotograffau anweddus yn eu meddiant gyda'r bwriad o'u dosbarthu neu eu dangos i bobl eraill; Deddf Amddiffyn Plant 1978, Adran 1 (c);
- Cyhoeddi neu achosi i gael ei chyhoeddi unrhyw hysbyseb sy'n debygol o gyfleu fod y sawl sy'n hysbysebu'n dosbarthu neu'n dangos y fath ffotograffau neu ffug ffotograffau anweddus; Deddf Amddiffyn Plant 1978, Adran 1 (d);
- Cyhoeddi erthygl anllad neu fod ag erthygl anllad yn eu meddiant er mwyn ei chyhoeddi neu wneud elw; Deddf Cyhoeddiadau Anllad 1959, Adran 2;
- Bod â ffotograff neu ffug ffotograff anweddus o blentyn yn eu meddiant; Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988, Adran 60.

5.5.5 Amddiffyn plant a rheoli achosion

Yr heddlu fydd yn arwain pob ymchwiliad i droseddau sy'n ymwneud â delweddau anweddus o blant. Ond, ym mhob achos, pan mae rhywun yn cael ei amau o gyflawni'r fath droseddau a bod plentyn neu berson ifanc yn ei ofal, neu ei fod yn byw neu'n gweithio gyda phlant, rhaid cysylltu ar ddechrau'r ymchwiliad ag uned ymchwilio'r heddlu i achosion o gam-drin plant, neu'r gwasanaethau cymdeithasol. Rhaid dilyn Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan ym mhob achos hefyd. Rhaid trafod y peryglon i unrhyw blentyn neu blant, a rhaid i asiantaethau rannu gwybodaeth er mwyn mynd ati i ddiogelu a hybu lles unrhyw blentyn, plant neu bobl ifanc.

5.5.6 Cadw'r dystiolaeth

RHAID adrodd i'r heddlu ar unwaith ynglŷn ag unrhyw adroddiadau am ddelweddau anweddus o blant ar y rhyngrwyd neu ffôn symudol.

Bydd yr heddlu'n penderfynu ar batrwm a threfn yr ymchwiliad. Bydd yr heddlu ac adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yn ystyried ar y cyd y peryglon i unrhyw blentyn neu berson ifanc.

Os yw'r wybodaeth sy'n dilyn ar gael, dylid ei rhoi i'r heddlu ar unwaith:

- Enwau unrhyw dystion;
- Enw'r cwmni sy'n darparu gwasanaeth rhyngrwyd (ISP) neu'r gwasanaeth ffôn symudol;
- Cyfeiriad y wefan neu enw'r ystafell sgwrsio neu'r grŵp ar-lein lle y cafwyd hyd i'r ddelwedd;
- Unrhyw gyfrineiriau neu drefn arall sy'n ofynnol i fynd i'r wefan;
- Enw'r sawl a anfonodd y ddelwedd;
- Yn achos negeseuon e-bost, cyfeiriad e-bost yr anfonwr neu'r enw'r oedd yn ei ddefnyddio ar y sgrin tra'r oedd yn yr ystafell sgwrsio;
- Unrhyw resymau dros oedi cyn rhoi gwybod i'r heddlu am y digwyddiad.

5.5.7 Canolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein (*The Child Exploitation and Online Protection* – CEOP)

Mae'r Ganolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein (CEOP) ar waith ar draws y DU. Mae'n gwneud y gorau o gysylltiadau rhyngwladol i fynd i'r afael ag achosion o gam-drin plant yn rhywiol.

Mae CEOP yn gweithio'n agos iawn gyda'r holl wahanol asiantaethau i fynd i'r afael â materion amddiffyn plant ac i roi sylw iddyn nhw.

Mae CEOP yn cynnig cyngor i rieni a gofalwyr. Mae ganddo orsaf heddlu rithiol lle y gall plant roi gwybod am gam-drin ar y rhyngrwyd. Mae CEOP hefyd yn cynnig gwasanaeth gwerthfawr iawn i'r asiantaethau sy'n rhoi'r gyfraith ar waith trwy daclo a dod o hyd i droseddwyr sy'n defnyddio'r rhyngrwyd i baratoi plant a'u cam-drin wedyn.

Rhaid i weithwyr proffesiynol sy'n dod i wybod am achosion cyfredol neu hen o unrhyw fath o gam-drin plant roi gwybod am eu pryderon i adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol neu i'r heddlu, yn unol â Chanllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.